**<u>Mae Hawlfraint ar y Deunydd Hwn</u>**

Ceisiwyd caniatâd gan Gyngor Ieuenctid Cymru i ddarparu'r deunydd hwn ar grynoddisg i ddibenion addysgol yn unig, ac fe'i rhoddwyd. Ni cheir defnyddio nac atgynhyrchu'r deunydd hwn heb awdurdod.

**Atgynhyrchir hawlfraint y Goron drwy ganiatâd Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi**

# Cynnwys


| | *Tudalen* |
|---|---|
| **RHAN I** | 99 |
| 1. Rhagarweiniad | 99 |
| 2. Y Cefndir Hanesyddol | 100 |
| **RHAN II** | 103 |
| 3. Nodau | 103 |
| 4. Trefniadaeth a Rheolaeth | 105 |
| 5. Cyllid | 113 |
| 6. Cyfleusterau | 115 |
| 7. Staffio a Datblygu'r Staff | 124 |
| 7.1 Staffio | 124 |
| 7.2 Datblygu'r Staff | 134 |
| **RHAN III** | 139 |
| 8. Cyd-destunau a Nodweddion Gwaith Ieuenctid | 139 |
| 9. Aelodaeth | 140 |
| 10. Agweddau ar y Ddarpariaeth | 143 |
| 10.1 Y Dimensiwn Cymdeithasol | 143 |
| 10.2 Gweithgareddau | 147 |
| 10.3 Ymwneud â'r Gymuned | 159 |
| 10.4 Ymestyn Gorwelion | 162 |
| 10.5 Cyfranogiad | 167 |
| 11. Anghenion Arbennig a'r Ymateb | 172 |
| 11.1 Gwaith gyda Phobl o dan Anfantais | 172 |
| 11.2 Ymateb i Anghenion Merched | 175 |
| 11.3 Mesurau i helpu Pobl Ifanc â Phroblemau Ymddygiad a'r rhai y teimlir eu bod o dan Anfantais Gymdeithasol | 177 |
| 11.4 Ymwneud â Lleiafrifoedd Ethnig | 178 |
| 11.5 Cyfraniad at Iaith a Diwylliant Cymru | 180 |
| 11.6 Ymateb i Anghenion y Di-waith a Phobl Ifanc eraill 16+ oed | 182 |
| 12. Y Ddarpariaeth Gyffredinol | 186 |
| **RHAN IV** | 192 |
| 13. Cysylltiadau rhwng y Cyrff | 192 |
| 13.1 Partneriaeth Statudol-Gwirfoddol | 192 |
| 13.2 Cyd-weithredu ymysg Mudiadau Gwirfoddol | 194 |
| 13.3 Cysylltiadau rhwng y Gwasanaethau | 196 |

# Rhan I

## 1. RHAGARWEINIAD

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cloriannu darpariaeth y gwasanaeth ieuenctid yng Nghymru ac yn tynnu sylw at rai o'r prif faterion sy'n gofyn sylw os yw'r gwasanaeth i gyflawni ei botensial.

1.2 Mae'n gynnyrch arolwg, mewn dwy ran, a wnaed rhwng 1980 a 1983. Canolbwyntiodd y rhan gyntaf ar ddadansoddi a chloriannu'r systemau a sefydlwyd gan awdurdodau addysg lleol a mudiadau ieuenctid gwirfoddol.[1] Rhoes swyddogion yr awdurdodau lleol a staff pencadlys y mudiadau ieuenctid gwirfoddol wybodaeth am y gwasanaethau ieuenctid o dan eu hadain, ac fe gynhaliwyd trafodaethau er mwyn manylu ar faterion polisi, trefniadaeth a rheolaeth, ac arfer.

1.3 Canolbwyntiodd ail ran yr arolwg ar y profiadau a ddarperir mewn gwaith ieuenctid a'u cyfraniad at ddatblygiad personol a chymdeithasol pobl ifanc. I'r diben hwn, gwnaeth tîm o 12 AEM, gan gynnwys arbenigwyr ar y gwasanaeth ieuenctid ac arbenigwyr pwnc, gyfanswm o ryw 250 o ymweliadau.

1.4 Cymaint yw maint ac amrywiaeth y gwaith ieuenctid nes na ellir honni bod unrhyw sampl o'r ddarpariaeth yn gwbl gynrychioliadol. Ond fe gymerwyd nifer o ffactorau arwyddocaol i ystyriaeth. Cynhwysai'r rhain natur y darparwyr, cyd-destun y gwaith, lleoliad a'r math o adeiladau, maint yr uned, a chymeriad daearyddol, diwylliannol a chymdeithasol-economaidd yr ardal. Drwy hyn, cafwyd sampl 10 y cant o unedau awdurdodau addysg ynghyd â detholiad o weithgareddau ardal a sir. Cyfyngwyd yr ymweliadau â'r sector gwirfoddol yn bennaf i'r mudiadau hynny a dderbyniodd grantiau pencadlys oddi wrth y Swyddfa Gymreig yn ystod 1981/82,[2] ac, o fewn y rhain, i unedau lle'r oedd

---

[1] O'r 44 o fudiadau ieuenctid gwirfoddol sydd ar waith yng Nghymru, mae 11 ohonynt yn gweithio yng Nghymru yn unig, mae 19 yn cyd-gysylltu gweithgareddau ar draws Cymru a Lloegr ac mae eu pencadlys cenedlaethol yn Lloegr, a phresenoldeb cyfyngedig yn unig sydd gan 14 ohonynt yng Nghymru. (Gweler Tabl 2).

[2] Dyma'r mudiadau ieuenctid gwirfoddol a gynhwyswyd yn ail ran yr arolwg

a. y rhai a dderbyniodd Grantiau Pencadlys y Swyddfa Gymreig:
Clybiau Bechgyn Cymru
Brigâd y Bechgyn
Geidiau Cymru
Gwasanaeth Ieuenctid Eglwys Bresbyteraidd Cymru
Cyngor Ieuenctid Rhanbarthol yr Eglwys yng Nghymru
Cymdeithas Clybiau Ieuenctid Cymru a Chlybiau'r Physically Handicapped and Able Bodied (PHAB)
Sgowtiaid Cymru
Brigâd Ambiwlans St John
Urdd Gobaith Cymru
Cyngor Cenedlaethol Cymru'r YMCA
Mudiad Ffermwyr Ifanc Cymru

b. eraill:
Gwobr Dug Caeredin
Ffederasiwn Cenedlaethol y Clybiau Gateway
Hefyd cynhwyswyd projectau o dan nawdd Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol.

mwyafrif yr aelodau'n 13+ oed. Hefyd, fe samplwyd rhaglenni ardal, sirol a chenedlaethol.

1.5 Cyfunir darganfyddiadau dwy ran yr arolwg trwy gydol yr adroddiad er mwyn i'r wybodaeth, y disgrifiadau a'r asesiadau allu goleuo'i gilydd; cyflwynir tablau mewn atodiad ar wahân er mwyn i'r darllenydd eu gosod ochr yn ochr â'r testun.

## 2. Y CEFNDIR HANESYDDOL

2.1 Meddylfryd, ymarfer a digwyddiadau ers diwedd y ganrif ddiwethaf a luniodd wasanaeth ieuenctid heddiw. Yng Nghymru, canlyniad pryder unigolion a chyrff dylanwadol dros yr ifanc mewn ardaloedd diwydiannol oedd sefydlu'r mudiadau ieuenctid cynnar. Ymhlith y rhai cyntaf yr oedd y YMCA a'r YWCA, clybiau'r bechgyn a noddwyd gan y perchnogion glo a dur, a Brigâd y Bechgyn. Sefydlwyd y Sgowtiaid a'r Geidiau ar droad y ganrif. Nod llawer o'r mudiadau hyn oedd helpu pobl ifanc i ymgysylltu â gweithgareddau gwerthfawr a rhoi rhyw fframwaith i'w bywydau. Yr oedd y rhai a'u dilynodd yn adlewyrchu bywyd ac anghenion y wlad (Mudiad y Ffermwyr Ifanc, 1920) ac ymboeni am ddelfrydau diwylliannol a chrefyddol (Urdd Gobaith Cymru, 1922). Mae patrymau cyfredol, a moddau darparu, llawer mudiad gwirfoddol yn dal yn dyst i'r cysylltiadau trefol/ diwydiannol, gwledig, ysbrydol, neu ddiwylliannol/ieithyddol a phwrpasau eu sefydlwyr, ac fe welir ôl eu gwreiddiau dyngarol yn eu nawdd a'u rheolaeth bresennol.

2.2 Mae ymwneud ffurfiol yr awdurdodau addysg â hwy yn dyddio o 1939 pan gydnabu'r llywodraeth na ellid darparu gwasanaeth cynhwysfawr trwy ymdrechion gwirfoddol yn unig, er gwaethaf yr hwb a roddwyd gan Gronfa Jiwbilî y Brenin George V. Cofnodai 'Service of Youth', Cylchlythyr 1486 y Bwrdd Addysg, a ddosbarthwyd i bob awdurdod addysg, benderfyniad y Bwrdd i gymryd cyfrifoldeb uniongyrchol dros ieuenctid (y rhai rhwng oedran gadael ysgol ac 20 oed) fel rhan o gyfundrefn addysg genedlaethol, a chychwyn y syniad o'r gwasanaeth ieuenctid fel partneriaeth rhwng darpariaeth gan y sector gwirfoddol, yr awdurdodau addysg a'r llywodraeth ganolog. Ar lefel Prydain, sefydlwyd pwyllgor ieuenctid i gynghori'r Gweinidog, a sefydlwyd cangen arbennig o'r Bwrdd i weinyddu grantiau i gyrff gwirfoddol. Ar y lefel leol, dechreuodd patrwm newydd o bwyllgorau ieuenctid, swyddogion ieuenctid a chanolfannau ieuenctid ddatblygu ac fe gynyddodd lefel y gefnogaeth i'r mudiadau ieuenctid gwirfoddol.

2.3 Er na chyfeiriai'n benodol at y gwasanaeth ieuenctid, fe fynnai Deddf Addysg 1944 fod pob awdurdod addysg lleol yn sicrhau bod y cyfleusterau ar gyfer addysg gynradd, uwchradd a phellach a gâi eu darparu yn eu tiriogaethau yn cynnwys cyfleusterau digonol ar gyfer hamdden a hyfforddiant cymdeithasol, gan roi sylw i fanteision cyd-weithredu ag unrhyw gymdeithasau neu gyrff gwirfoddol y mae eu hamcanion yn cynnwys darparu cyfleusterau neu drefnu gweithgareddau o natur debyg. Yn ddiweddarach, fe barhaodd gwasanaethau ieuenctid yr awdurdodau addysg i dyfu ond, mewn rhai rhannau o Gymru, fe wnaethant hynny'n unig hyd at lefel llenwi'r bylchau yn y ddarpariaeth wirfoddol. Yn wir, oherwydd blaenoriaethau eraill wedi'r rhyfel, ni ddatblygodd system ddeuol tan y 1950au ac ar ôl hynny.

2.4 Yr ysgogiad mwyaf nodedig i'r gwasanaeth ieuenctid oedd hwnnw a roddwyd gan Adroddiad Albermarle (1960). Ymhlith ei argymhellion yr oedd y rhai ar yr ystod oedran (14-21), rhaglen adeiladu ar gyfer canolfannau ieuenctid, rhaglen ddatblygu 10-mlynedd (gyda chyngor Cyngor Datblygu'r Gwasanaeth Ieuenctid—YSDC), grantiau gwariant, gwell trefniadau ar gyfer hyfforddi arweinwyr ieuenctid

rhan-amser, cynlluniau hyfforddi brys a thymor-hir i arweinwyr ieuenctid amser-llawn, ac arbrofi er mwyn mynd â'r gwasanaeth i feysydd nad yw dulliau traddodiadol yn treiddio iddynt. Derbyniwyd y prif gynigion gan y llywodraeth ac fe effeithiwyd yn sylweddol ar y gwasanaeth yng Nghymru. Archwiliwyd arferion, dyrchafwyd statws pwyllgorau ieuenctid sirol, sefydlwyd rhagor o swyddi swyddogion ieuenctid, cafwyd rhaglenni adeiladu helaeth gan yr awdurdodau a'r mudiadau, ac fe benodwyd arweinwyr a hyfforddwyd yn broffesiynol. Yr oedd Coleg y Brifysgol, Abertawe, ymysg y sefydliadau a ofynnodd am gael ehangu ei raglen hyfforddi gweithwyr ieuenctid amser-llawn.

2.5 Yn sgîl Abermarle bu i fwyafrif y cyrff gwirfoddol ail-gloriannu eu hamcanion, eu trefniadaeth a'u rhaglenni. Sefydlodd nifer ohonynt (ar draws Cymru a Lloegr yn bennaf) gomisiynau ymchwil a chyhoeddi adroddiadau. Cychwynnodd llawer ohonynt gynlluniau arbrofol neu ddatblygiadau mawr, megis gweithio gyda throseddwyr ifanc, pobl o dan anfantais gorfforol, gyda'r di-waith neu bobl ifanc o dan hyfforddiant mewn diwydiant, ac fe effeithiodd y rheiny ar yr arfer yng Nghymru.

2.6 Bu dau o ganlyniadau Albermarle hefyd yn bwysig yng Nghymru. Y naill oedd Canolfan Wybodaeth y Gwasanaeth Ieuenctid, a sefydlwyd ym 1964 fel ychwanegiad i'r Coleg Cenedlaethol ar gyfer hyfforddi gweithwyr ieuenctid yng Nghaerlŷr ac a aeth ym 1973 yn Swyddfa Ieuenctid Genedlaethol (NYB), gan gyd-gysylltu gwasanaethau gwybodaeth, hyfforddi ac ymchwil dros holl faes materion ieuenctid. Y llall oedd y gweithgor ar hyfforddi arweinwyr ieuenctid rhan-amser. Awgrymodd ei adroddiadau (Bessey 1962) ac arolwg diweddarach (1965) gael cyd-bwyllgorau o'r rhai a oedd yn gyfrifol am hyfforddi, gan anelu at ddarparu elfennau hyfforddi sy'n gyffredin i staff gwirfoddol a staff cyflogedig pob mudiad ieuenctid.

2.7 Ym 1967, sefydlodd Cyngor Datblygu'r Gwasanaeth Ieuenctid ddau grŵp astudio ar y berthynas rhwng y gwasanaeth ieuenctid a'r ysgolion a rhwng y gwasanaeth ieuenctid a'r gymuned. Cynhwyswyd eu darganfyddiadau yn 'Youth and Community Work in the 70s' (1969). Cydnabu'r adroddiad hwn lawer o broblemau'r gwasanaeth — er enghraifft, yr ystod oedran, naws, dibenion, blaenoriaethau. Yn bwysicach, wrth gadw rhai o'r pwysleisiau cynnar megis meithrin gwerthoedd, ffitrwydd corfforol, her, dinasyddiaeth, cymdeithasau a pherthynas gymdeithasol foddhaol, bu iddo amlygu newidiadau yng ngogwydd y gwasanaeth ieuenctid tuag at ddull mwy person-ganolog, addysg gymdeithasol, cyfranogiad ac addysg wleidyddol.

2.8 Er na weithredodd y llywodraeth ar yr adroddiad, a bod llawer o staff y gwasanaeth ieuenctid yn teimlo bod ei awgrymiadau'n amwys, fe gafodd beth effaith yn y maes. Yng Nghymru, fe welwyd ei fod yn cymeradwyo cysylltiadau rhwng y gwasanaeth ieuenctid a'r ysgolion, a bu i'w gynigion ar gyfer gwaith gyda phobl ifanc mewn perygl, er enghraifft, ddylanwadu ar ffurf ymwneud y gwasanaeth ieuenctid â Thriniaeth Ganolraddol.

2.9 O hynny ymlaen, teimlai llawer fod nifer o'r mentrau newydd, a'r defnyddio cynyddol ar ddulliau'r gwaith ieuenctid gan ddarparwyr eraill, yn gwanhau statws gwasanaeth ieuenctid y 'brif ffrwd'. Er hynny, fe welodd y 1970au nifer o ymdrechion i gydnabod a datblygu ei swyddogaeth. Cyhoeddwyd papur trafod gan yr Adran Addysg a Gwyddoniaeth ym 1975 ar ddyfodol y gwasanaeth, sefydlwyd corff i gyd-gysylltu a dilysu hyfforddiant mewn-swydd i staff y gwasanaethau ieuenctid a chymuned ym 1976, a chynulliwyd Fforwm Gwasanaeth Ieuenctid Cenedlaethol ym 1977 i roi cyfle i ddadlau. Hefyd, rhwng

1973 a 1980, gwelwyd cyflwyno pedwar Mesur Preifat gan Aelodau Seneddol ynglŷn â sylfaen statudol y gwasanaeth ieuenctid. Cynhwysai'r argymhellion eraill sefydlu pwyllgorau lleol — yn cynnwys cynrychiolwyr yr awdurdodau addysg, mudiadau ieuenctid gwirfoddol a phobl ifanc — cynghorau ieuenctid a phwyllgor ymgynghorol canolog.

2.10 Ym mis Ionawr 1961 sefydlodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Gwyddoniaeth grŵp i wneud arolwg o'r gwasanaeth ieuenctid yn Lloegr gyda'r cylch gwaith canlynol:

i. cyflwyno adroddiad ar y ddarpariaeth bresennol, statudol a gwirfoddol

ii. ystyried a ellid defnyddio'r adnoddau sydd ar gael yn fwy effeithiol; ac yng ngoleuni hynny

iii. asesu'r angen am ddeddfwriaeth

Cyhoeddwyd adroddiad y grŵp, 'Experience and Participation' (Gorch 8686) ym mis Hydref 1982 ac fe wahoddwyd pawb â diddordeb i gyflwyno sylwadau ar ei argymhellion. Dau ganlyniad uniongyrchol fu sefydlu'r Cyngor Addysg a Hyfforddiant mewn Gwaith Ieuenctid a Chymuned — i gyfuno'r cyfrifoldeb dros gymeradwyo'n broffesiynol y cyrsiau hyfforddi cychwynnol i weithwyr ieuenctid a chymuned â'r cyfrifoldeb dros ddatblygiad mewn-swydd — a chyhoeddi arolwg o'r Swyddfa Ieuenctid Genedlaethol. Mae'r ddau gorff yn ymwneud â Chymru a Lloegr ac mae'n debyg y bydd i ddatblygiadau o'r rhain, ac unrhyw symudiadau pellach gan y llywodraeth sy'n deillio o'r arolwg yn Lloegr, oblygiadau ar gyfer y gwasanaeth ieuenctid yng Nghymru.

# Rhan II

## 3. NODAU

3.1 Bron yn ddieithriad, fe wêl y darparwyr statudol a gwirfoddol y gwasanaeth ieuenctid fel un addysgol sy'n cynnig profiadau a chyfle hamdden i hybu datblygiad personol a chymdeithasol pobl ifanc.

3.2 P'un a yw'r meddwl sy'n llywio gwasanaeth ieuenctid awdurdod addysg yn deillio o wreiddiau dyngarol, o ddylanwad adroddiadau cenedlaethol, o gyfuniad o agweddau llywodraeth leol cyn yr ad-drefnu, o'r hyn a etifeddwyd oddi wrth gyn-swyddogion hŷn neu o dueddfryd ei swyddogion presennol a'i aelodau etholedig, fe gredir mai ei ddiben yw 'addysg gymdeithasol', term sy'n amlygu'r anhawster a geir wrth bennu cyfraniad arbennig y ddarpariaeth ieuenctid i wasanaeth addysg. Y duedd yw i ddisgrifiadau manylach o'r nodau gael eu mynegi yn nhermau'r nodweddion y bydd y gwasanaeth yn eu meithrin mewn pobl ifanc, megis hunan-wybodaeth, aeddfedrwydd, medrau cymdeithasol, perthynas ag eraill, cyfrifoldeb, a lles corfforol, meddyliol ac ysbrydol.

3.3 Ychydig o awdurdodau sydd â dogfennau polisi cyfoes, er bod gan y mwyafrif rywbeth yn ysgrifenedig, boed yn gyhoeddiad gan y Cyngor Sir, datganiad o safbwynt yr awdurdod addysg, papurau pwyllgor neu gofnodion mewnol. Ond ran amlaf, yn enwedig lle cynhwysir y ddarpariaeth ieuenctid mewn gwasanaeth cynhwysfawr a lle gellir dadlau bod yr angen am eglurder, o bosibl, yn fwy, fe erys y dyheadau'n ddatganiadau cyffredinol ac ni throsir mohonynt yn nodau ac amcanion cynhwysfawr ar gyfer y gwasanaeth.

3.4 Ceisiodd rhai awdurdodau ddatgan eu bwriadau'n fwy penodol megis, er enghraifft:

"... darparu llawer cyfle i bobl ifanc gymdeithasu... ;... meithrin medrau newydd a gwella'r rhai presennol... ;... datblygu diddordebau hamdden newydd... ; ... gwasanaeth i'r gymuned";
"... darparu cyfle i ddysgu medrau, technegau a gweithgareddau mewn amgylchedd diogel; cysylltiadau ag oedolion gofalgar; meithrin diddordeb mewn gweithgareddau hamdden a diwylliannol er eu mwyn eu hunain ac er mwyn cyfrannu at ansawdd bywyd; hybu cyfranogiad mewn gwneud penderfyniadau; sicrhau safonau uchel mewn gweithgareddau";
"... datblygu medrau rhyng-bersonol; dysgu diddordebau a medrau newydd yn bwrpasol; gwella gallu mewn unrhyw faes o weithgarwch personol; meithrin agweddau, barn a gwerthoedd; cael profiad o gyfranogi democrataidd; ymwybyddiaeth o gymuned... ;

Ond yn anffodus, ni throsir y mathau hyn o ddatganiad yn gynlluniau gweithredu fel arfer; yn rhy aml o lawer fe safant braidd o'r neilltu oddi wrth ddisgwyliadau'r awdurdodau addysg ynghylch cynnwys y gwaith ieuenctid a natur y

swyddogaethau sydd i'w cyflawni, ac oddi wrth ystyriaethau adnoddau.

3.5 Hwyrach am resymau sy'n gysylltiedig â'u tarddiad, eu statws cenedlaethol neu'r maes mwy penodol y gweithiant ynddo, mae mwyafrif y mudiadau gwirfoddol wedi paratoi datganiadau cyffredinol o'u bwriadau.

3.6 Bydd llawer yn pwysleisio'r ffordd Gristnogol o fyw fel eu hegwyddor ganolog neu egwyddor flaenllaw, er enghraifft:

"... cyfleu ffydd Gristnogol fyw ac ystyrlon i bobl ifanc trwy gyfrwng rhaglen o ddiddordebau addysgol, corfforol, ysbrydol a chymdeithasol" (Brigâd y Bechgyn);

"... meithrin dinasyddion Cristnogol Gymreig ymhlith ieuenctid Cymru ac ysbrydolir yr aelodau â'r ddelfryd o wasanaeth i Gymru, Cyd-ddyn a Christ" (Urdd Gobaith Cymru).

Rhydd rhai bwys ar werthoedd ysbrydol ochr yn ochr ag eraill:

"... hybu lles meddyliol, corfforol, cymdeithasol ac ysbrydol bechgyn... helpu pob unigolyn i wneud y defnydd gorau o'i fywyd" (Clybiau Bechgyn Cymru);

"... rhoi cyfle i (bobl ifanc) ymateb i her anghenion er mwyn gwella'u dealltwriaeth o'r byd, ohonynt eu hunain ac o'i gilydd" (YMCA).

3.7 Mae eraill yn canolbwyntio'n ehangach:

"... hybu addysg aelodau mewn amaethyddiaeth, crefftau'r cartref, bywyd y wlad a phynciau cysylltiedig a thrwy roi i'r aelodau gyfle i ymarfer hunan-lywodraeth ar bob lefel o'r mudiad, i'w hannog i ddod yn aelodau hunan-gynhaliol o'r gymuned" (Mudiad y Ffermwyr Ifanc);

"... mae'r pwyslais ar hyfforddi pobl ifanc... i symud ymlaen a sicrhau tystysgrifau mewn cymorth cyntaf a nyrsio... ac i gyflawni gwasanaethau i'r gymuned" (Ambiwlans St. John);

"... cyflwyno her i'r unigolyn i gyflawni campau personol trwy gyfrwng rhaglen gytbwys sydd â dewis eang o weithgareddau hamdden" (Gwobr Dug Caeredin);

"... hybu datblygiad cymdeithasol, emosiynol a deallusol yr aelodau er mwyn iddynt fod yn dderbyniol ac iddynt gael eu derbyn o fewn y gymuned" (Ffederasiwn Cenedlaethol y Clybiau Gateway).

3.8 Mae rhai o'r datganiadau hyn yn diffinio sylfaen y mudiadau o ran canllawiau helaeth i raglenni gwaith ar gyfer pobl ifanc a hyfforddi oedolion (y mudiadau sydd â gwisgoedd swyddogol, a Gwobr Dug Caeredin, yn arbennig) neu'r sylfaen y seiliant eu trefniadaeth arno (er enghraifft Clybiau'r Ffermwyr Ifanc a Gateway). Hwyrach ei bod yn arwyddocaol mai gwaith y mudiadau hyn sydd fwyaf cyfarwydd i'r cyhoedd yn gyffredinol ac a ddeallir orau.

3.9 Lle mae'r nodau'n deillio o draddodiad, mae perygl iddynt bellhau oddi wrth y gweithgarwch cyfredol, ond ceir nifer o enghreifftiau o ddiwygio doeth, ail-fynegi neu ehangu ar gyfer eu defnyddio bob dydd. Mae'n werth sylwi, er enghraifft, fod yr Urdd mewn peth o'i llenyddiaeth yn dilyn y dyfyniad o'i gyfansoddiad (uchod) gydag esboniad bod... "gwasanaeth i Gymru yn golygu parch i'w hiaith a'i diwylliant a hybu lles y genedl ym mhob maes posibl. Mae parch at yr iaith a'r diwylliant yn golygu gwybod rhywbeth am hanes Cymru a'i llenyddiaeth ddwyieithog: dylai'r rhai sy'n cael y cyfle wneud pob ymdrech i ddysgu ac i siarad yr iaith. Mae'r Urdd yn gofyn i'w haelodau wasanaethu'r gymuned y maent yn byw ynddi ac i helpu'r rhai sydd mewn angen, pwy bynnag a lle bynnag y bônt."

3.10 Er gwaethaf rhywfaint o debygrwydd yn y nodau o fewn y gwasanaeth ieuenctid, tameidiog fu'r ymdrechion i fynegi ei swyddogaethau addysgol ac i gyfleu'r rheiny, a'u harwyddocâd, i bobl yn gyffredinol. Fel rheol, fe esbonir y diffyg cyd-weithgarwch trwy gyfeirio at ddiffyg sylfaen ddeddfwriaethol y gwasanaeth neu'r diffyg cyfrwng i drafodaeth statudol-gwirfoddol drefnus. Er hynny, nid yw'r holl ddarparwyr yn manteisio digon ar bob cyfle sydd ar gael iddynt i ddehongli eu hamcanion i gynulleidfa ehangach. Oni weithredir yn hyn o beth, fe ddelir i fethu â deall y gwasanaeth yn llawn, ac i fethu â'i iawn brisio.

## 4. TREFNIADAETH A RHEOLAETH

### Fframweithiau'r Trefniadaethau a'r Pwyllgorau

4.1 Mae i wasanaethau ieuenctid yr awdurdodau addysg fannau cychwyn gwahanol. Clwyd a Gwynedd yn unig sydd â gwasanaeth ieuenctid a chymuned fel uned, ac mae'r gair 'cymuned' yn golygu ymwneud â chanolfannau cymuned a neuaddau pentref a rhoi cymorth grant iddynt ac, i raddau llai, edrych ar waith ieuenctid yng nghyd-destun cymuned. Daw darpariaeth awdurdodau eraill o dan wasanaethau mwy cyffredinol i amrywiol raddau. Mae gan ddarpariaeth Powys (Datblygu'r Gymuned) a De Morgannwg (Addysg Gymuned) gysylltiadau ag addysg oedolion a gwaith cymuned, ac ym Morgannwg Ganol a Gorllewin Morgannwg fe gyd-blethir rhai agweddau ar waith oedolion, ieuenctid a chymuned. Yn Nyfed, mae gwaith ieuenctid yn un elfen mewn gwasanaeth addysg bellach analwedigaethol, ac yng Ngwent mae'r rhan fwyaf o'r ddarpariaeth ieuenctid yn rhan o 'wasanaeth hamdden'.

4.2 Ym mhob awdurdod, fe erys y cyfrifoldeb dros y gwasanaeth ieuenctid yn nwylo Pwyllgor Addysg y Sir ac, yn ei dro, gydag is-bwyllgor. Ym mhob achos, mae cylch gwaith yr is-bwyllgor priodol yn cynnwys gwasanaethau eraill neu agweddau ar addysg, megis addysg bellach analwedigaethol, y gwasanaeth gyrfaoedd, llyfrgelloedd, addysg bellach alwedigaethol a gwobrau, a hamdden. Yn achos addysg bellach analwedigaethol a hamdden, mae hyn yn amlygu trefn gyd-gysylltiol; ond nid yw rhannu gydag addysg bellach alwedigaethol yn awgrymu cysylltiadau ymarfer na pholisïau cydlynus ar gyfer y grŵp oedran 16-19 oed. Hefyd, er gwaethaf lleoli cyfleusterau ieuenctid ochr yn ochr â rhai'r ysgolion, nid oes gan y gwasanaeth ieuenctid yn unman berthynas uniongyrchol â'r is-bwyllgor ysgolion nac â phwyllgorau gwasanaethau cysylltiedig eraill.

4.3 Pa is-bwyllgor bynnag sy'n ymdrin â'r gwaith, fe ddengys y cofnodion mai lle bach a roir i eitemau gwasanaeth ieuenctid ac na roir odid ddim sylw iddynt oni chynigir cwtogi ariannol neu newidiadau mawr mewn polisi. I bob golwg, fe ddeillia hyn o bwysau ar amser yr is-bwyllgorau ac o drefn yr agenda. Yng Ngwynedd yn unig y bydd yr Uwch Swyddog Ieuenctid yn gweithredu fel swyddog i'r is-bwyllgor, ac er bod staff hŷn y gwasanaeth ieuenctid ym mwyafrif yr awdurdodau yn mynychu'r is-bwyllgorau, gofid rhai yw na chânt gyfle i gynghori'r cynghorwyr yn uniongyrchol.

4.4 Yng Ngorllewin Morgannwg fe sefydlwyd is-bwyllgor ieuenctid i geisio goresgyn y broblem. Mae iddo gyfansoddiad tebyg i un yr is-bwyllgor a'i creodd, ond gan mai un diddordeb yn unig sydd ganddo gall ystyried eitemau'n fwy manwl a chael adroddiadau gan weithwyr ieuenctid amser-llawn. Strategaeth wahanol sydd gan Dde Morgannwg — pwyllgor sy'n cynnwys chwe chynghorydd sir, a

chynrychiolwyr mudiadau ieuenctid gwirfoddol (30), canolfannau ieuenctid yr awdurdod addysg (4), cyrff cymuned (4) ac addysg oedolion (6). Ei fantais yw cael cyngor gan weithwyr yn y maes, ond hwyrach bod ei faint a'i bwerau, sydd braidd yn niwlog, yn llesteirio rhywfaint arno.

4.5 Mae De Morgannwg, Clwyd, Dyfed a Gwent oll yn ceisio tynnu mudiadau gwirfoddol, pobl ifanc, awdurdodau lefelau is, staff cyrff eraill ac aelodau o'r gymuned i mewn, ochr yn ochr â chynghorwyr sir, i reolaeth y gwasanaeth (Tabl 1). Mae gan Went Gyd-Bwyllgorau Ardal sy'n gyfrifol am ddarpariaeth hamdden, ac arnynt mae cynrychiolaeth gyfartal i gynghorwyr sir, cynghorwyr dosbarth a defnyddwyr canolfannau. Mae Dyfed a De Morgannwg yn dirprwyo cyfrifoldeb dros oruchwylio gwaith y canolfannau i Bwyllgorau Rheoli neu Ymgynghorol y Canolfannau, sy'n cynnwys cynghorydd sir a chynrychiolwyr croestoriad o fuddiannau lleol. Yng Nghlwyd ceir Cynghorau Ieuenctid Ardal, sy'n cynnwys cynghorwyr sir a dosbarth a chynrychiolwyr statudol a gwirfoddol — y mae gofyn iddynt gynghori'r awdurdod addysg ar bob mater sy'n ymwneud â gwaith ieuenctid — ynghyd â chyfanswm o 120 o bwyllgorau rheoli sy'n gofalu am ganolfannau amser-llawn a rhan-amser.

4.6 Er bod y sianeli cyfathrebu rhwng cyrff y canolfannau a'r ardaloedd ac is-bwyllgorau'r siroedd i bob golwg braidd yn anffurfiol, gan ddibynnu mwy ar unigolion na threfniadau cytûn, mae i'r drefn hon nifer o fanteision. Ceir tystiolaeth bod ymwneud y trigolion lleol yn cyfoethogi cysylltiad y gymuned â gwaith canolfan, mai profiad gweithwyr ieuenctid yw bod pwyllgor y clwb yn helpu i bennu cynnwys eu gwaith ac yn eu cefnogi ynddo, a bod perthynas cynghorwyr â chanolfannau yn eu helpu i ddeall y gwasanaeth ac yn arwain at drafodaethau mwy gwybodus ar lefel y sir.

4.7 Yng Ngwent a Gorllewin Morgannwg ceir cyfarfodydd statudol-gwirfoddol sy'n ymwneud yn bennaf â hyrwyddo a chyd-gysylltu gweithgareddau. Troes y rhain yn Gynghorau Arweinwyr neu'n Gymdeithasau Gwasanaeth Ieuenctid ond nid oes iddynt fwy o gysylltiad â fframwaith pwyllgorau'r awdurdodau addysg na chynulliadau tebyg ond llai ffurfiol. Yn yr un modd, nid oes gan Gyngor y Bobl Ifanc, yng Nghasnewydd, unrhyw gysylltiad ffurfiol â chorff statudol.

4.8 O'r 44 o fudiadau ieuenctid gwirfoddol sydd ar waith yng Nghymru, mae gan rai ohonynt gysylltiadau â gwahanol eglwysi, mae gan rai wisgoedd swyddogol, rhai'n rhai cyn-wasanaethau a rhai'n hybu diddordebau penodol. Bydd sawl un yn gweithio trwy unedau neu grwpiau gwasanaethu cysylltiedig, ac ambell un yn darparu'n uniongyrchol ar gyfer unigolion (rhydd Tabl 2 ddosbarthiad ar hyd y llinellau hyn). Er y sefydlwyd mwyafrif y mudiadau yn unswydd i ddarparu ar gyfer pobl ifanc, gellid disgrifio pedwar ohonynt fel adrannau ieuenctid mudiadau mwy (MENCAP, yr Eglwys yng Nghymru, yr Eglwys Bresbyteraidd a Brigâd Ambiwlans St. John). O'r mudiadau yr ymwelwyd â hwy, Urdd Gobaith Cymru yw'r unig fudiad ieuenctid sydd heb fudiad cyffelyb yng ngweddill Prydain. Er bod eraill yn gyrff sy'n ymwneud â Chymru, fe gadwant gysylltiadau â chyrff cenedlaethol neu ryngwladol ehangach, neu fe arhosant yn rhan ohonynt. Mewn rhai achosion, megis y Ffermwyr Ifanc, y Geidiau a'r Sgowtiaid, mae ganddynt gynrychiolaeth gyfansoddiadol ar gynghorau, pwyllgorau neu fyrddau Cymru/Lloegr; mewn eraill mae'r cysylltiadau rhwng swyddogion ac aelodau'r gwahanol gyrff yn llai ffurfiol ac weithiau ceir gwahaniaeth pwyslais — er enghraifft, rhydd Cymdeithas Clybiau Ieuenctid Cymru flaenoriaeth i'w gwasanaeth i glybiau a'u harweinwyr, tra bo Cymdeithas Genedlaethol y Clybiau Ieuenctid yn tueddu i bwysleisio'r gwaith gydag aelodau.

4.9 Fframwaith wedi'i ganoli sydd gan fwyafrif mudiadau'r sector gwirfoddol (Tabl 3). Erys y cyfrifoldeb dros bolisi ym mhob achos gyda Chyngor neu Bwyllgor Cymru sy'n cynnwys aelodau o blith pobl a enwebwyd gan siroedd neu ddosbarthau, swyddogion, pobl ifanc, diwydiant a masnach, addysg a charfannau eraill. Er mwyn sicrhau tegwch ac ehangder y gynrychiolaeth, mae rhai o'r cynulliadau hyn yn rhai mawr (30+ o aelodau) tra bo eraill, er enghraifft Clybiau Bechgyn Cymru, wedi ceisio ystwytho'r aelodaeth yn ddiweddar er mwyn sicrhau mwy o effeithiolrwydd a chyfranogiad llawnach gan unigolion. Mae gan fwyafrif y cyrff cenedlaethol hyn is-bwyllgorau sy'n cynnwys aelodau o'r cyngor neu'r pwyllgor cenedlaethol a ffederasiynau neu bwyllgorau cyfansoddol.

4.10 Yng Nghymdeithas Clybiau Ieuenctid Cymru, mae gan y Cyngor Aelodau — o 12 o bobl ifanc — a ffurfiwyd yn ddiweddar swyddogaeth debyg i un is-bwyllgor. Mae'n cyfarfod y bore cyn cyfarfod y Pwyllgor Gwaith gyda'r un agenda ac yn llunio barn ar gyfer y drafodaeth yn y prynhawn. Mae'r cyfraniad hwn gan bobl ifanc ar lefel genedlaethol yn haeddu sylw gan mai ar lefel fwy lleol, ran amlaf, y ceir cyfle i bobl ifanc gyfranogi, er bod yr aelodau yn y mwyafrif ar bob corff sy'n gwneud penderfyniadau ym Mudiad Ffermwyr Ifanc Cymru (10.5.1-10.5.17).

4.11 Mae gan bron pob mudiad gwirfoddol reolwyr ar lefel dosbarth neu sir[3] ac er eu bod yn rhwym i raddau mwy, neu raddau llai, wrth bolisi cyffredinol ac yn rhan gadarn o'r drefniadaeth o ran cyfathrebu, mae ganddynt gryn ryddid. Mae natur y busnes mewn rhai mudiadau yn adlewyrchu'n fras fusnes y pencadlys, mae gan eraill swyddogaethau gwahanol, ac mewn sawl achos y prif ddiben yw galluogi cynrychiolwyr i gyfeirio at faterion sy'n peri pryder, gan gynnwys cynigion polisi, problemau a syniadau am weithgareddau. Ym mhob achos, dyna lle caiff llawer o'r gwaith lleol ei drafod, ei gynllunio a'i adolygu. Er bod gofyn i rai mudiadau, oherwydd eu tarddiad, gael math arbennig o gynrychiolaeth (yr Esgob sy'n penodi i'r Pwyllgor Ieuenctid Esgobaethol, er enghraifft) ac er bod yno draddodiadau i lynu wrthynt, fe wêl llawer mudiad y pwyllgorau hyn fel cyfle pellach i gynnwys staff gwirfoddol ynddynt, i ddod â rhagor o bobl ifanc i mewn neu i geisio cefnogaeth gwŷr busnes lleol a chyrff cyffelyb. Bydd sawl un yn gwahodd swyddogion yr awdurdod addysg i gyfarfodydd ac yn gwerthfawrogi eu cymorth. Ond gallai'r cysylltiad hwn fod hyd yn oed yn fwy manteisiol petai'r ddwy ochr yn gweld y presenoldeb hwn nid yn unig yn ffordd o wella'r llif o wybodaeth rhwng y sectorau statudol a gwirfoddol, ond yn gyfle i ddod â'r mudiadau gwirfoddol i mewn i drafodaeth ar ddarpariaeth y gwasanaeth ieuenctid yn gyffredinol.

4.12 Yn nhrafodaethau cenedlaethol, sirol neu ddosbarth y grwpiau ieuenctid gwirfoddol y gwelir gliriaf un fantais bosibl dros ddarparwyr statudol. Gan mai busnes y mudiad hwnnw yw unig destun y cyfarfodydd, ac y gall is-grwpiau roi sylw manwl i faterion penodol, mae'n haws rhoi blaenoriaeth i anghenion pobl ifanc.

4.13 Er mai prif bwrpas fframwaith llawer mudiad gwirfoddol yw galluogi grwpiau lleol i weithredu, mae rhai mudiadau'n diffinio'r ffyrdd y gall unedau gyfrannu at

---

[3] Mudiadau sydd, yn fras, yn dilyn hen siroedd Cymru:

Mudiad y Ffermwyr Ifanc; (Sgowtiaid a Geidiau yn rhannol).

Mudiadau sy'n defnyddio'r siroedd newydd a'r dosbarthau o'u mewn fel sylfaen eu trefniadaeth:

Urdd Gobaith Cymru; Gwobr Dug Caeredin; Cymdeithas Clybiau Ieuenctid Cymru; Brigâd y Bechgyn; (Sgowtiaid a Geidiau yn rhannol).

wneud penderfyniadau drwodd i'r lefelau uchaf. Trefna eraill gyfarfodydd arbennig er mwyn cynnwys cynifer o unigolion â phosibl, ond braidd yn gyfyngedig yw'r cyfle hwnnw yn aml ac mae peth pellter rhwng y grwpiau lleol a chanolfan y gweithgareddau. Mae hyn yn cyfnerthu'r rhyddid a roir i unedau unigol. Gwnaiff grwpiau ieuenctid gwirfoddol ymdrechion arbennig i sicrhau ymwneud aelodau o'r gymuned â swyddogaethau rheoli neu gefnogi, a gall hyn ddylanwadu'n fawr ar lunio arferion o fewn unedau. Yn wir, cyfranogiad lleyg ledled y mudiad gwirfoddol yw un o'i gryfderau pennaf, ond gall arwain at gyndynrwydd i dderbyn yr angen i newid.

**Fframweithiau staff**

4.14 Yn wahanol i lefel unffurf rheolaeth pwyllgorau'r awdurdodau addysg, fe neilltuir cyfrifoldeb terfynol y staff dros y gwasanaeth ieuenctid i wahanol raddau (Tabl 4). Y sefydliad arferol (a chymryd y patrwm Prydeinig) yw pennaeth y gwasanaeth, sy'n atebol i gyfarwyddwr addysg cynorthwyol, ac a gefnogir gan ddirprwy a swyddogion eraill sydd â meysydd tiriogaethol. Dyna'r fframwaith yng Nghlwyd a Gwynedd lle mae'r gwasanaeth ieuenctid yn uned ynddi'i hun. Mewn mannau eraill, fe olyga'i gynnwys mewn addysg bellach gymuned neu analwedigaethol fod staff y gwasanaeth ieuenctid yn un rhan o'r hierarchaeth o dan gyfarwyddwr addysg cynorthwyol. Mae rhai cyfarwyddwyr cynorthwyol yn ymwneud yn weithgar â phob dimensiwn o'r gwasanaeth tra bo eraill yn cyfyngu eu cyfraniad i gyfarwyddyd cyffredinol neu ymyrryd mewn materion arbennig. Bydd y rhai sydd heb gefndir yn y gwasanaeth ieuenctid yn ymdrechu'n ddiwyd i ymgyfarwyddo â'i waith a dod yn benaethiaid go iawn — yn hytrach nag mewn enw — ar y gwasanaeth, er bod blaenoriaethau a phwysau eraill yn peri eu bod, yn anochel, yn dirprwyo llawer iawn o awdurdod rheoli a gweithredu.

4.15 Gall y trefniadau ardal ddilyn trefn yr hen siroedd, ffiniau cynghorau dosbarth, tiriogaethau addysg newydd, neu gyfuniad ohonynt. Gall y rhain ymddangos yn rhesymol, ond nid yw'r ffiniau bob amser yn hynod o deg o ran tiriogaeth ddaearyddol, poblogaeth na nifer y mudiadau, nac ychwaith yn hollol briodol o ran perthynas naturiol cymdogaethau â mudiadau, patrymau cyfathrebu a gwasanaethau eraill. Pan na cheir swyddog cyd-gysylltu, gall dosbarthiad y gwaith fesul ardal arwain at greu dau neu ragor o wasanaethau mewn un sir. Cafwyd penderfyniad ymwybodol gan ddau awdurdod addysg i ganoli eu holl swyddogion, ac er bod y rheiny'n ymwneud yn bennaf â thiriogaethau penodedig, ni wnânt hynny'n gyfan gwbl.

4.16 O fynegi'r fframweithiau mewn diagramau, maent i bob golwg yn gymharol glir, ond gan fod gwaith y swyddog ieuenctid yn cyfuno elfennau proffesiynol, trefniadaethol a gweinyddol, mae'r sefyllfa dipyn yn fwy cymhleth mewn gwirionedd. Mewn rhai awdurdodau, mae swyddogion ardal i fod yn atebol am rannau gweinyddol eu swyddogaeth i swyddogion addysg rhanbarthol ac am reolaeth gyffredinol y gwasanaeth i un o swyddogion y sir. Ceir arwyddion y gall perthynas weithio ddeuol o'r fath, heb wyliadwriaeth gyson, fethu â gweithio'n iawn.

4.17 Mae'n destun gofid na chynhwysir swyddogion y gwasanaeth ieuenctid yn y timau ymgynghorol llawn ym mwyafrif yr awdurdodau. Pan ddigwydd hynny, mae'n dda gweld bod perthynas dda wedi datblygu a bod cyngor pynciol ar gael i'r gwasanaeth ieuenctid.

4.18 Mae pob mudiad ieuenctid gwirfoddol yng Nghymru (Tabl 5) naill ai â swyddog

cenedlaethol (Cyfarwyddwr, Ysgrifennydd neu Gomisiynydd) neu'n troi at aelod allweddol o'r staff (Swyddog Maes, Swyddog Datblygu neu Swyddog Hyfforddi) i gynnig arweiniad. Arwydd o'r ymroddiad a fynnir gan swyddi o'r fath yw bod staff ar y lefel hon, heblaw am Brif Gomisiynwyr y Sgowtiaid a'r Geidiau, bellach yn rhai amser-llawn a chyflogedig. Er bod fframwaith y YMCA, y Cyngor Ieuenctid Rhanbarthol ac eraill (Tabl 5) yn gymharol syml i bob golwg, mae fframwaith staffio mwyafrif y gwasanaethau gwirfoddol gryn dipyn yn fwy cymhleth ac amrywiol nag ydyw mewn awdurdodau addysg.

4.19 Mae mwyafrif staff Clybiau Bechgyn Cymru yn gweithio ar lefel genedlaethol ond, fel yr Urdd, y Geidiau a'r Sgowtiaid, rhoir pwyslais ar benodiadau ar gyfer meysydd penodol yng ngwaith y mudiad. Mae rhai cyrff o blaid cael swyddogion rhanbarthol neu faes â chylch gwaith datblygu/ymgynghori amrywiol. Eto, ceir y nifer uchaf o lefelau hierarchaidd lle bo mudiadau yn cynnal fframwaith estynedig o'r lefel genedlaethol, drwy'r sir, y dosbarth neu'r rhanbarth, i lefel yr uned unigol. Fel y dywedwyd eisoes, yr hen siroedd neu'r rhai newydd neu, mewn rhai achosion, diriogaethau cynghorau dosbarth, a ddefnyddir fel sail i'r ffederasiynau neu i'r amrywiol gyrff sy'n gwneud penderfyniadau, ac o ganlyniad mae cylch gwaith llawer o'r staff yn amlygu'r rhaniadau hyn. Fel yn y sector statudol, fe all defnyddio ffiniau llywodraeth leol, er mor gyfleus ac effeithiol yw hynny o ran cadw cysylltiad a sicrhau grantiau, arwain at ddiffyg cydbwysedd o ran cyfrifoldeb tiriogaethol, poblogaeth a nifer yr unedau. Yn yr un modd hefyd, gellir canfod cryn wahaniaeth yn arferion ardaloedd cyfagos, a rhai yn unig o'r rheiny sy'n gynnyrch penderfyniadau polisi neu ymateb i angen lleol.

4.20 Mae hyn yn rhannol am fod atebolrwydd swyddogion yn y sector gwirfoddol braidd yn gymhleth. Yn gyntaf, mae rhai staff yn gyfrifol i swyddogion unigol ac i wahanol bwyllgorau; yn ail, mewn llawer mudiad, fe ystyrir bod y cymdeithasau sirol a'r rhai lleol yn annibynnol ac eto y maent, yr un pryd, yn dilyn arweiniad swyddogion cenedlaethol; yn drydydd, gall presenoldeb staff cyflogedig ddwysáu'r sefyllfa oherwydd yr amser ychwanegol y gallant ei gyfrannu o'i gymharu â'u cyd-weithwyr gwirfoddol rhan-amser. Eto, fe sylwyd bod staff y gwahanol gyrff yn ymwybodol o'r materion hyn ac yn llawn sylweddoli'r hyn y mae ei angen. Er enghraifft, er nad oes gan staff y pencadlys unrhyw hawl gyfansoddiadol i orfodi eu barn neu i gyfarwyddo staff eraill, mae'n ddigon arferol iddynt gael cymorth a chyd-weithredu parod yn y maes.

4.21 Bydd gweithwyr ieuenctid amser-llawn yr awdurdodau addysg yn cyflawni eu cyfrifoldeb i'r Cyfarwyddwr Addysg neu i swyddogion addysg rhanbarthol drwy'r swyddog ieuenctid penodedig. Mewn un awdurdod, nid yw'n ymarferol i unig ymgynghorydd ieuenctid y sir ofalu am yr holl staff, ac felly bydd yr ymgynghorwyr oedolion a chymuned hefyd yn gweithredu'n fugeiliol a'r cyfarwyddwr cynorthwyol yn tueddu i weithredu swyddogaeth reoli fwy uniongyrchol. Mae gweithwyr maes amser-llawn yn y sector gwirfoddol, ar y llaw arall, yn debycach o fod yn uniongyrchol gyfrifol i bwyllgor rheoli lleol, gyda swyddogion cenedlaethol neu ranbarthol y mudiadau'n cyflawni swyddogaeth ymgynghorol lai uniongyrchol.

4.22 Mae staff sydd â gofal clybiau rhan-amser yr awdurdodau addysg yn gweithio'n bennaf o dan swyddogion rhanbarthol, ond fe fabwysiadodd rhai awdurdodau, yn gyfan neu'n rhannol, system gymdogaeth lle mae'r arweinwyr rhan-amser a'r rhai amser-llawn yn ateb yn gyntaf i weithiwr hŷn amser-llawn. Ceir bod y syniad hwn yn llai cadarn mewn ardaloedd lle ceir darpariaeth ran-amser wasgaredig am y gall arwain at sefyllfa lle mae staff rhan-amser wedi'u hynysu ormod oddi wrth

swyddogion. Er hynny, lle mae gan rai staff amser-llawn gylch gwaith clir, mae yno fanteision posibl os datblygir y swyddogaeth honno i'w heithaf.

4.23 Dyna'r sefyllfa mewn rhai mudiadau gwirfoddol. Lluniwyd fframwaith y Geidiau a'r Sgowtiaid, er enghraifft, yn fwriadol er mwyn i'r comisiynwyr, y cynghorwyr a'r ymgynghorwyr gynnig cymorth cyson a,lle bo angen, gymorth i'r unedau perthnasol. Ceir trefn debyg gan lawer mudiad arall sydd â swyddogion maes, gan gynnwys Cymdeithas Clybiau Ieuenctid Cymru sydd, o'r holl gyrff a gynhwyswyd yn yr arolwg, â'r lleiaf o awdurdod dros ei grwpiau annibynnol o aelodau ond sydd eto'n llwyddo i gynnal perthynas ystyrlon â phob un ohonynt.

4.24 Mae i staff gweinyddol hefyd le yn y fframwaith, yn enwedig yn y siroedd mwyaf poblog lle ceir mwy nag un neu ddau o staff cynorthwyo sy'n helpu swyddogion yn ganolog neu mewn mannau eraill. Yn lle hynny, ceir adrannau â chyfrifoldeb dirprwyedig dros y rhan fwyaf o'r gweinyddu. Mae cynnwys cymorth gweinyddol ac ysgrifenyddol yn y fframweithiau a ddarperir gan fudiadau gwirfoddol yn bennaf (Tabl 5) yn arwydd o'r pwys a roir ar eu cyfraniad, ac o'i effaith ar berfformiad y swyddogion a'r staff maes. Ceir arwyddion bod cymorth gweinyddol annigonol i'r swyddogion a'r gweithwyr maes, yn enwedig yn y sector statudol, yn gosod arnynt faich sy'n amharu ar eu prif swyddogaethau. Eto, fe ddywedir bod ymdrechion ychwanegol cynifer o staff clerigol a gofalu yn gaffaeliad gwerthfawr iawn. (Dengys Tabl 6 gategorïau a nifer y staff gweinyddol ac ategol yng ngwasanaethau ieuenctid yr awdurdodau addysg).

**Rheolaeth**

4.25 Mae cydlyniad system sy'n cynnwys llawer o lefelau, ac o bosibl, gannoedd o wahanol sefydliadau a swyddogion yn dibynnu ar gyfathrebu effeithiol. Mae mwyafrif y mudiadau gwirfoddol yn cynhyrchu llawlyfrau a chanllawiau cynhwysfawr, wedi'u hargraffu fel rheol, rhai'n deillio o'r cyrff canolog (er enghraifft, y mudiadau â gwisgoedd swyddogol) ac eraill (fel un Cymdeithas Clybiau Ieuenctid Cymru) wedi'u cyhoeddi'n flynyddol. Mae'r rhain — a'r adroddiadau blynyddol — fel arfer yn ddeniadol a llawn gwybodaeth ar faterion ymarferol yn ogystal â'r rheolau. Amlygant botensial deunydd ysgrifenedig fel cyfrwng cysylltiadau cyhoeddus yn ogystal ag fel un ffordd o gynnal ysbryd y mudiad ac ymwybyddiaeth o berthyn ymhlith yr aelodau.

4.26 Ceir llu o ffurfiau ar gyfathrebu ysgrifenedig yn y sector statudol ac mae ansawdd y cynnyrch yn amrywio ychydig yn fwy. Mae gan Glwyd a Morgannwg Ganol reolau a chyfarwyddiadau wedi'u cynhyrchu'n dda, ac, fel Powys a Gorllewin Morgannwg, fe gyhoeddant restri o'r staff a rhaglenni o ddigwyddiadau. Mae De Morgannwg yn cyflwyno'r holl wybodaeth hon mewn llawlyfr cynhwysfawr sydd hefyd yn rhoi manylion digwyddiadau, cyfleusterau a gwasanaethau heblaw rhai'r awdurdod.

4.27 Yn y gwasanaethau statudol a gwirfoddol, fe ychwanegir at y llenyddiaeth bur drwyadl hon gan daflenni gwybodaeth am ddigwyddiadau hyfforddiant a chan gylchlythyrau cyson oddi wrth swyddogion. Mae'r llythyrau newyddion, y pecynnau arweinwyr a'r cyhoeddiadau eraill, sy'n helpu'r darllenwyr i gynefino â datblygiadau a hyrwyddo arfer da, o ddiddordeb arbennig. Hefyd, fe geidw pedwar awdurdod addysg a rhai mudiadau gwirfoddol gasgliadau canolog o wybodaeth a llenyddiaeth leol, genedlaethol a Phrydeinig y gall y staff gyfeirio atynt. Er hynny, mae rhy ychydig o staff ledled Cymru yn gyfarwydd â chyhoeddiadau ac adnoddau cenedlaethol neu'n gwybod am arferion mewn mannau eraill. Er na ellir cywiro'r diffyg hwn yn rhwydd, mae angen rhoi sylw iddo.

4.28 Mae llawer i'w edmygu yn nhrefniadaeth ac effeithiolrwydd gweinyddol rhannau o'r gwasanaeth, ond fe erys yr argraff fod tuedd yn y gwasanaeth ieuenctid i weinyddu'r hyn sy'n bodoli yn hytrach nag i gloriannu hanfodion rheoli.

4.29 Yn y gwasanaeth statudol yn arbennig ceir rhy ychydig o dystiolaeth o gynllunio trefnus tymor-hir a thymor-byr a gormod o achosion o wneud penderfyniadau hanfodol bwysig, yn enwedig ynghylch adnoddau a staffio, heb sylweddoli, i bob golwg, y canlyniadau ar gyfer rhannau eraill o'r gwasanaeth. Arweiniodd hyn at sefyllfaoedd lle ceir datblygiad ad hoc yn bennaf. Ymateb i gyfyngiadau ariannol, lawn cymaint â chanlyniad ystyried blaenoriaethau yn wyneb anghenion cyfnewidiol, yw'r pwysleisiau presennol mewn llawer man.

4.30 Amlyga'r arolwg hefyd, ar y naill law, ddiffyg amcanion clir, ymwybyddiaeth o gyfeiriad, fframwaith cyffredinol, cyd-gysylltu a disgwyliadau o ran swyddogaethau ac ymarfer ac, ar y llaw arall, or-bwyslais ar drefniadau biwrocrataidd sy'n amharu ar y gallu i newid neu'n arafu'r ymdrechion i ymateb. Ymhellach, fe lesteirir gwasanaethau ieuenctid yr awdurdodau addysg gan ffurf yr adrannau y maent yn rhan ohonynt, gan eu prosesau a chan bwysau o'r tu allan. Eto, mae'r swyddogion perthnasol yn cydnabod bod sicrhau cydnabyddiaeth a dealltwriaeth o'r gwasanaeth ieuenctid gan weddill y gyfundrefn yn hanfodol ar gyfer cynnydd. Mae hyn yn amlygu'r angen i wella'r prosesau rheoli os yw'r gwasanaeth i wireddu ei holl botensial.

4.31 Fe wynebir her debyg gan fudiadau gwirfoddol. Yn ddamcaniaethol, fe ddylai eu gwreiddiau athronyddol clir a'r ffaith bod ganddynt un nod ei gwneud yn haws iddynt ymateb yn syth a hyblyg i anghenion. Ond yn ymarferol, nid felly y mae hi bob tro. Weithiau, gall traddodiad a thybiaethau di-gwestiwn rwystro newidiadau ac amharu ar gyflawni rhai swyddogaethau rheoli angenrheidiol.

4.32 Yn y ddau sector, fe geisir sicrhau cyfranogiad y staff wrth wneud penderfyniadau. Yn yr awdurdodau addysg, bydd swyddogion (ieuenctid) hŷn yn bresennol pan benderfynir ar brif faterion mewn pwyllgorau. Cynhwysir swyddogion ieuenctid eraill yn y drafodaeth ran amlaf. Anaml, felly, y ceir newidiadau sylweddol heb gyngor swyddog rhanbarthol o leiaf. Cais y swyddogion hyn, yn eu tro, sicrhau canfod a pharchu barn y gweithwyr maes. Digwydd hyn fel arfer mewn cyfarfodydd o weithwyr ieuenctid amser-llawn sy'n trafod eitemau megis gweinyddu, cyllid, rhesymoli, materion cyfredol, rhaglenni a hyfforddi. Mae'r un yn wir, ond yn llai aml, pan fo staff rhan-amser yn dod at ei gilydd, yn aml gyda chyd-weithwyr amser-llawn o'r awdurdod addysg ac amryw o rai o fudiadau gwirfoddol, fel arfer i drefnu gweithgareddau, digwyddiadau, cystadlaethau neu, yn gynyddol, hyfforddiant ar y cyd. Ond er y gwelir llawer o'r cyfarfodydd hyn fel mannau cyfarfod anhepgor ar gyfer cyfnewid barn, ceir arwyddion mai diben yr ymgynghori yn achos sawl awdurdod yw cadarnhau'r gweithredu a fu eisoes yn hytrach nag archwilio materion cyn penderfynu arnynt. Ceir arwyddion hefyd y gall y diffyg gwybodaeth a chyfranogiad arwain at ymateb negyddol. Mae hyn yn anffodus mewn gwasanaeth lle mae mwyafrif y penderfyniadau yn pennu posibiliadau gwaith maes a lle mae angen cadw nod y gwasanaeth a nod yr ymarfer yn gyfochrog. Ymhellach, er y bydd yno derfynau priodol bob tro, hwyrach y dylai gwasanaeth sy'n ceisio sicrhau cyfranogi gan bobl ifanc ofyn iddo'i hun gwestiynau ynghylch ei ddigonolrwydd ei hun yn hyn o beth.

4.33 Nid yw'r sector gwirfoddol yn rhydd rhag anawsterau o'r fath, ond gan fod fframweithiau trefniadaethol a rhai staff llawer o'r mudiadau (Tablau 2 a 5) bron yn anwahanadwy neu'n cyd-fynd yn agos, ceir llai o ddeuoliaeth rhwng y rhai sy'n gwneud penderfyniadau a'r rhai sy'n eu gweithredu. Mae staff o ryw fath neu'i

gilydd yn y mwyafrif ar lawer pwyllgor, ac mewn rhai achosion, aelodau o'r staff yw bron holl aelodau is-bwyllgorau eu grwpiau goruchwylio cynlluniau. Ceir hefyd gyfarfodydd o dimau staff lle nad yw'r penderfyniadau a gymerir o reidrwydd yn rhwymo'r pwyllgorau neu'r ffederasiynau sir, ond fe allant ddylanwadu arnynt. Ond er bod llawer dull rheoli yn ei hanfod yn un cyfranogol, ceir enghreifftiau o duedd i wneud penderfyniadau ar lefel uwch, gan ymgynghori neu heb ymgynghori, a heb dreiddio drwy'r mudiadau tan yn ddiweddarach. Bydd hyn weithiau'n llesteirio newid sy'n deillio o lefel is ac fe all greu gormod o fwlch rhwng y pencadlys a'r unedau — digwyddiad nid anghyfarwydd yn y maes statudol. Eto, ceir gwahaniaethau hanfodol. Yn gyntaf, gan fod cynifer o fudiadau gwirfoddol yn gweithio ar raddfa fawr, nid yw staff yr unedau fel arfer yn disgwyl sefyllfa heblaw un lled annibynnol. Yn ail, mae'r staff sydd bron bob un yn gweithio'n gwbl wirfoddol, at ei gilydd yn fodlon a diogel a hynny, mae'n debyg, am fod eu swyddogaethau a'u pwrpas yn glir ran amlaf, os nad bob tro. Teimlant eu bod yn gwybod lle maent mewn perthynas â'r mudiad cyfan, cânt statws o hyn, ac mae ganddynt sicrwydd bod eu cyfraniad yn cael ei werthfawrogi.

4.34 Ceir cryn dipyn yn llai o sicrwydd ynghylch eu swyddogaeth a'u gwerth hwy eu hunain ymysg staff y gwasanaeth statudol. Fe ymddengys fod hyn yn deillio'n rhannol o'r ffyrdd o wneud penderfyniadau, a ddisgrifiwyd eisoes, ond i bob golwg mae iddo lawn cymaint i'w wneud â'r sylw annigonol a roir i'w tasgau a'u nodau personol neu rai'r ganolfan. Nid oes disgwyl i ond ychydig o weithwyr ieuenctid fynegi eu nodau, ac fe deimla'r staff mewn llawer awdurdod nad oes digon o ddiddordeb yn eu gwaith a'u problemau nac ymateb iddynt. Eto, yn baradocsaidd, gan fod y staff hyn yn arddel gwerthoedd proffesiynol, gan gynnwys annibyniaeth, maent hwy eu hunain yn wrthwynebus i'r math o berthynas y mae ei hangen os yw'r system i weithredu mewn ffordd gyfrifol a chreadigol. Yn lle hynny, siaradant am ddull tîm, sy'n ddilys os yw'n amlygu cydnabyddiaeth bod yna wahanol swyddogaethau i'w cyflawni a gwahanol fedrau i'w defnyddio, ond sy'n llai priodol os yw'n cyfrannu at ddiffyg eglurder swyddogaeth ac yn llesteirio'r datblygiadau staff o'r math y mae cynifer yn dadlau o'u plaid (gweler hefyd Bennod 7).

4.35 Mae'r ddau sector yn gwneud peth goruchwylio ar waith ar lefel yr uned — trwy gyfrwng ymweliadau swyddogion, adroddiadau arweinwyr a gwybodaeth oddi wrth y clybiau — ac yn adolygu dosbarthiad y gweithwyr ieuenctid rhan-amser. Ond ni cheir cloriannu trefnus ar y gwasanaeth, yn gyfan nac yn rhannol, ac nid y llinynnau mesur a ddefnyddir (y nifer sy'n bresennol, digwyddiadau neu wobrau a enillwyd, cyfradd defnyddio'r adeilad, er enghraifft) yw'r rhai mwyaf priodol o angenrheidrwydd. Er nad yw gwaith ieuenctid yn ei gynnig ei hun bob tro i ffurfiau traddodiadol o fesur, mae'r gwahaniaethau mawr yn ansawdd yr arferion (Penodau 10, 11 a 12) yn awgrymu ei bod yn hanfodol sefydlu meini prawf ar gyfer cloriannu arferion yn gyson. Mae'n bwysig hefyd i'r rhai sydd â gofal y gwasanaeth(au) fod yn ymwybodol o'r ffyrdd o amlygu eu disgwyliadau, eu syniadau a'u hagweddau, ac o sefydlu normau gwasanaeth ieuenctid, a defnyddio'r sianeli hyn yn wybodus a dychmygus.

4.36 Nid rheolaeth y gwasanaeth ieuenctid yw'r unig faes y gellir gwella arno, ond gellid dadlau bod ar y ddau sector lawn cymaint o angen ag unrhyw ddarparwyr addysg eraill i ail-ystyried eu hamcanion, eu dulliau a'u blaenoriaethau yng ngoleuni anghenion sy'n cyflym newid, i egluro a hyrwyddo eu disgwyliadau, ac i gloriannu a chadw golwg ar eu harferion. Dangosodd ambell enghraifft wirfoddol a statudol yng Nghymru, gan gynnwys dwy a fu wrthi'n ddiweddar yn adolygu eu dulliau rheoli yn drwyadl, fod rheoli egnïol yn talu, nid lleiaf yn nhermau gwella ansawdd y gwaith a ddarperir ar gyfer pobl ifanc.

## 5. CYLLID

5.1 Cyfanswm gwariant yr awdurdodau addysg ar y gwasanaeth ieuenctid yng Nghymru ym 1980/81 oedd £4,723,957 — rhyw un y cant o'r gyllideb addysg a £1.80 am bob pen o'r boblogaeth.[4] O'i ddadansoddi (Tabl 7), gwelir amrywiadau mawr yn y gwariant per capita, o 75c i £3.70 mewn awdurdodau gwledig a rhwng £1.65 a £2.40 yn y rhai trefol. Mae natur anwastad y dosbarthiad, sy'n gynnyrch hen ffactorau datblygu, natur y ddarpariaeth bresennol, a'r lle a roir i'r gwasanaeth ieuenctid mewn hinsawdd ariannol anodd, yn gadael cwestiynau ynghylch y berthynas rhwng gwariant ac anghenion cyfredol heb eu hateb.

5.2 Yn ddiweddar, ceisiodd mwyafrif yr awdurdodau addysg sicrhau ffynonellau eraill o arian i gynorthwyo gwaith o fewn y gwasanaeth ieuenctid.[5] Yn anffodus, nid oedd pob awdurdod mewn sefyllfa dda i fanteisio ar y cynlluniau hyn, ac os rhywbeth mae'r arian a gafwyd yn pwysleisio anghyfartaledd yr adnoddau.

5.3 Dengys Tabl 8 rywfaint o debygrwydd yn y ffordd y dosberthir yr arian o dan benawdau cyllideb. Y staff sy'n cymryd y gyfran fwyaf (cyfartaledd o 62 y cant) o adnoddau pob awdurdod. Ar y cyfan, fe gymer gweithwyr amser-llawn 16 y cant ohonynt a gweithwyr rhan-amser 30.5 y cant. Dyfed yn unig sy'n buddsoddi mwy mewn staff amser-llawn na rhai rhan-amser, tra bo Gwynedd yn buddsoddi 24.5 y cant yn fwy mewn gweithwyr rhan-amser. Mae gan sir drefol De Morgannwg ddosbarthiad amser-llawn/rhan-amser mwy cyfartal. Cyfartaledd y dyraniad i swyddogion yw 5.5 y cant ac fe geir y canran uchaf, Gwynedd — 12 y cant, lle ceir darpariaeth fwy gwasgaredig, a'r isaf, De Morgannwg — 1.5 y cant, yn yr awdurdod lleiaf ei diriogaeth. Nid amlygir y flaenoriaeth a roir i'r staff yn y symiau a roir i hyfforddi (0.35 y cant ar gyfartaledd), rhan o'r gyllideb sy'n agored iawn i doriadau. Mae'r 20 y cant a werir ar adeiladau, cyflenwadau a threuliau'r sefydliadau yn cyd-fynd â'r pwyslais ar ymdriniaeth ddaearyddol a chynnal y ddarpariaeth bresennol. Er hynny, fe rybuddiodd rhai awdurdodau eu bod yn disgwyl i'r arian a godir trwy danysgrifiadau, disgos, barau coffi, peiriannau gemau ac ymdrechion arbennig — a ddefnyddid gynt yn ôl ewyllys y ganolfan neu'r clwb — gael ei ddefnyddio fel cymhorthdal i'r adeiladau ac i gwrdd â'r costau staffio.

5.4 Maes arall o bwys yw cyfraniad yr awdurdodau addysg i'r gwasanaethau ieuenctid gwirfoddol. Yma, er mai'r cyfartaledd yw 11.9 y cant o gyfanswm y gwariant, mae'r canran gryn dipyn yn uwch mewn awdurdodau gwledig sydd ag ymrwymaid traddodiadol i wirfoddoldeb. Nid yw nifer nac aelodaeth yr unedau gwirfoddol yn cyd-fynd â maint grant yr awdurdod addysg (Tabl 17). Ym 1980/81, Gwynedd a De Morgannwg yn unig a roes grantiau i gynlluniau cyfalaf gwirfoddol; fel arall (Tabl 9), mae'r cymorth ariannol yn dilyn categorïau tebyg ond yn dangos gwahaniaethau o ran gradd. Mae'r grantiau at gyflogau staff amser-llawn yn amrywio rhwng 50 y cant a 100 y cant: seilir rhai ar golledion, a'r mwyafrif ar gyflogau blynyddol a threuliau. Pennir terfynau, fwyfwy, ar y symiau a roir. Mae pum awdurdod yn talu 100 y cant o daliadau staff rhan-amser mewn mannau a gymeradwywyd yn ôl cymwysterau'r unigolion a benodwyd. Cwtogwyd ar y cymorth o ran treuliau rhedeg penodol (megis rhent, gwresogi, cynnal a chadw, offer a gofalu) ac mae'n amrywio'n fawr (0 y cant-75 y cant o'r

---

[4] Mae'r nodiadau o dan Dabl 7 yn esbonio sylfaen y ffigyrau gwariant a ddefnyddir.

[5] Mae'r rhain yn cynnwys y Comisiwn Gwasanaethau Gweithwyr (MSC), Cymuned Ewrop, Bwrdd Datblygu Cymru Wledig, y Cyngor Chwaraeon, Cyngor y Celfyddydau, Ymddiriedolaeth y Tywysog a'r Ymddiriedolaethau Jiwbilî.

symiau dan sylw). Ym mhob awdurdod, bydd nifer dda o grwpiau ieuenctid gwirfoddol yn cael defnyddio eiddo'r sir yn rhad ac am ddim neu gyda chymhorthdal, a chaiff llawer ohonynt gryn gymorth gan amrywiol staff yr awdurdod addysg. Lle bo hyfforddiant ar gael, gall arweinwyr mudiadau'r awdurdodau a'r rhai gwirfoddol, a phob person ifanc, wneud cais am grant mynychu. Unwaith eto fe amrywia cyfraniad yr awdurdodau lleol — yn yr achos hwn nid yn unig o ran canrannau ond o ran categori'r grant, y cwrs a'r staff. Mewn chwe awdurdod, cyfunwyd pob math o gymorth grant yn grant bloc tuag at weinyddu sirol (fel arfer i'r Sgowtiaid a'r Geidiau, ond weithiau i Frigâd Ambiwlans St John a'r Groes Goch) y bydd corff sirol y mudiad gwirfoddol yn ei ddefnyddio yn ôl ei ewyllys.

5.5 Ni all unrhyw astudiaeth o wariant anwybyddu effaith y toriadau, ac fe amlygir eu heffaith ar ffabrig y gwasanaeth yn yr adroddiad hwn. Cwtogwyd ar y gwasanaeth mewn rhai awdurdodau ers 1976 ac ers hynny fe roddwyd y gorau i lawer o ddatblygiadau. Er i saith awdurdod gynyddu eu cyllideb gwasanaeth ieuenctid ym 1980/81, fe ddengys cymhariaeth o'u gwariant (Tablau 10 ac 11) nad oedd hynny, ran amlaf, yn cyrraedd cyfradd chwyddiant. Ond fe wellodd Gwent a De Morgannwg eu gwariant mewn termau real.

5.6 Rhoir mwyafrif cyfraniadau'r awdurdodau addysg i waith y mudiadau gwirfoddol i'r corff sirol neu ddosbarth neu i unedau[6] ond, ar bob lefel o'u gweithgarwch, mae mudiadau ieuenctid gwirfoddol yn dibynnu'n drwm ar arian a godwyd trwy ymdrechion gwirfoddol a thanysgrifiadau eu haelodau. Er eu bod yn wynebu llawer o anawsterau oherwydd costau cynyddol a llai o gymorth ariannol oddi wrth ffynonellau megis diwydiant, ymddiriedolaethau elusennol, cyfranwyr a digwyddiadau i godi arian, llwydda'r mwyafrif i gyd-bwyso'u cyfrifon. Mae gan rai mudiadau asedion sylweddol a'r gallu i ddenu arian oddi wrth rieni a'r cyhoedd yn gyffredinol, ond fe erys eraill sy'n llai abl i sicrhau cymorth o'r tu allan neu sy'n teimlo eu bod yn cyrraedd pen draw eu gallu i wneud hynny.

5.7 Gan fod pob uned yn y sector gwirfoddol bron yn gwbl annibynnol, gyda phwyllgor sy'n gyfrifol am ei chyllid, mae codi arian yn rhan o'r rhaglen ac mae'n cynnwys yr aelodau, y pwyllgor a'r gymuned leol. Mae'r symiau a delir gan aelodau unigol mudiad yn amrywio cryn dipyn o uned i uned, a'r tanysgrifiadau blynyddol yn amrywio o £1 i £10 a thaliadau gyda'r hwyr o 5c i 25c. Ar gyfartaledd, bydd taliadau'r aelodau'n cwrdd â llai na 50 y cant o gostau rhedeg grŵp, ac yn gyson lai na hynny pan fo gan yr uned ei hadeiladau ei hun.

5.8 Cododd taliadau aelodaeth gryn dipyn yn ystod y pum mlynedd diwethaf i gwrdd â chostau cynyddol yn yr unedau a thaliadau i ffederasiynau sirol a phencadlysoedd cenedlaethol. Mae codi tâl blynyddol, sy'n gysylltiedig â'r niferoedd, yn helpu i dalu am bencadlys a staff y mudiad, ei ffederasiynau sirol, cystadlaethau a digwyddiadau cenedlaethol a'i amrywiol raglenni hyfforddi (Tabl 12). Er hynny, mae trefnwyr cyflogedig yn teimlo bod angen neilltuo cryn dipyn o'u hamser i godi arian i dalu am weithgareddau pencadlys er bod angen eu harbenigedd proffesiynol i ddatblygu'r gwaith yn y maes. Er ei bod yn agored i fudiadau gwirfoddol hybu cynlluniau'r Comisiwn Gwasanaethau Gweithwyr ac, o gael cefnogaeth awdurdod lleol, i wneud cais am gymorth trefol, ychydig a wnaeth hynny.

---

[6] Eithriad yw Gwobr Dug Caeredin y mae awdurdodau addysg yn cyfrannu ato daliad sy'n seiliedig ar ffigyrau poblogaeth neu nifer yr ymgeiswyr newydd.

5.9 Cafodd naw mudiad Cymreig grant oddi wrth y Swyddfa Gymreig i gynorthwyo'u gweithgarwch pencadlys ym 1980/81 (Tabl 13), a rhoddwyd cymorth tebyg i ddau arall — Brigâd y Bechgyn a Sgowtiaid Cymru, y naill a'r llall wedi sefydlu pencadlys yng Nghymru. Hefyd, mae Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol (CWVYS) bron yn gwbl ddibynnol ar gymorth y Swyddfa Gymreig. Bydd mwyafrif y mudiadau ieuenctid gwirfoddol eraill sydd â phresenoldeb yng Nghymru yn cael grantiau pencadlys oddi wrth yr Adran Addysg a Gwyddoniaeth i gynorthwyo'u gweithgareddau ledled Cymru a Lloegr.

5.10 Gall mudiadau sy'n cael grant pencadlys wneud cais am grant 'datblygu' neu 'arbrofol' ar gyfer gwaith ieuenctid "newydd a manteisiol i'r gwasanaeth ieuenctid yn gyffredinol". Cyfanswm gwariant y Swyddfa Gymreig o dan bob pennawd grant oedd £195,000 ym 1980/81 (Tabl 13). Ymhlith y cynlluniau cyfredol mae datblygu gwaith gyda phobl ifanc 16+ oed (a noddir gan Gyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol), cyflogi swyddog i ddatblygu gweithgarwch dwyieithog o fewn Mudiad y Ffermwyr Ifanc, a chloriannu (gydag arian o'r Adran Addysg a Gwyddoniaeth a'r Swyddfa Gymreig) ddull rhyng-fudiadol o drafod gwaith ieuenctid a chymuned mewn ardal yng Nghaerdydd. Ambell waith, bydd adnoddau o'r Swyddfa Gymreig ar gael at ddibenion mwy penodol — er enghraifft, i ddathlu Blwyddyn Ryngwladol yr Anabl a Blwyddyn Ryngwladol Ieuenctid.

5.11 Gall cynlluniau adeiladu cyfalaf gwirfoddol lleol gael grant o 50 y cant o'r Swyddfa Gymreig cyhyd â bod yr awdurdod addysg yn cyfrannu 25 y cant. Nid yw rhaglenni adeiladu cenedlaethol a rhanbarthol yn dibynnu ar gyfraniad gan yr awdurdod addysg, a lefel arferol cyfraniad y Swyddfa Gymreig yw 45 y cant. Yn Nhabl 14 ceir manylion categorïau a lefelau grantiau'r Swyddfa Gymreig i gynlluniau cyfalaf sydd â dimensiwn gwaith ieuenctid/cymuned.

5.12 Yn ddiweddar, yn y sectorau statudol a gwirfoddol fel ei gilydd, cafwyd tystiolaeth o ddulliau mwy hyblyg o ddosbarthu adnoddau. Eto, fe erys enghreifftiau o benawdau cyllid a dyraniadau traddodiadol nad ydynt yn ymateb i'r newid mewn anghenion, ac o adnoddau na fanteisir i'r eithaf arnynt. O gadw llygad arnynt yn fwy trefnus, byddai'n haws canfod materion o'r math hwn a mynd i'r afael â hwy.

## 6. CYFLEUSTERAU

### Maint

6.1 Yng Nghymru ym 1980/81 yr oedd cyfanswm o 501 o ganolfannau/clybiau ieuenctid awdurdodau addysg[7], 67 ohonynt yn rhai amser-llawn[8] a 434 o rai rhan-amser[9]. Seilir meini prawf eu sefydlu a'u lleoliad ar y boblogaeth ieuenctid a'r

[7] Yn y gwasanaeth ieuenctid mae'r term 'canolfan' fel arfer yn cyfeirio at adeilad sy'n gartref i glwb ieuenctid ac yn darparu cyfleusterau ar gyfer grwpiau ieuenctid a chymuned eraill yn yr ardal, ac fe gysylltir y gair 'clwb' â mudiad amser-llawn neu ran-amser. Defnyddir 'uned' fel term cyffredinol ar gyfer canolfannau, clybiau a mathau eraill o grŵp ieuenctid.

[8] Canolfannau amser-llawn yw'r rheiny lle defnyddir yr adeilad yn bennaf at ddibenion ieuenctid, sy'n agored ar gyfer gwaith ieuenctid o leiaf bedair noson yr wythnos ac sy'n cael eu staffio gan un neu ragor o weithwyr ieuenctid amser-llawn. Yn ôl y diffiniad hwn, mae'r clybiau yn Nyfed a Gwent sy'n gweithredu fel rhan o'r Canolfannau Addysg Bellach, Canolfannau Cymuned, Colegau Cymuned neu Ganolfannau Hamdden yn rhai rhan-amser er gwaethaf eu lleoliad mewn adeiladau addysg neu hamdden cymuned amser-llawn.

[9] Ers 1980/81 cafwyd amrywiadau, a'r newidiadau pwysicaf fu pump yn rhagor o glybiau rhan-amser yng Ngwent a throi un clwb rhan-amser yr un yn rhai amser-llawn ym Mhowys a Chlwyd.

anghenion cymdeithasol ac economaidd, gan roi blaenoriaeth i ardaloedd 'perygl uchel' megis ystadau tai mawr yr awdurdodau lleol. Eto, dros gyfnod, ceisiodd mwyafrif yr awdurdodau wneud darpariaeth ym mhob ardal: yn wir, er mwyn tegwch, polisi'r hen Sir Forgannwg oedd sefydlu darpariaeth ieuenctid debyg ym mhob ardal. Mae cysylltiadau cryf rhwng y datblygiadau presennol ac amddifadu cymdeithasol ac economaidd. Er enghraifft, mae dwy ganolfan yng Nghlwyd bellach yn rhai amser-llawn er mwyn diwallu anghenion y di-waith, ac fe gynigiwyd y canolfannau yng Ngwynedd sy'n cael cymorth trefol, yn rhannol, am yr un rheswm.

6.2 Mae llawer o ffactorau eraill yn dylanwadu ar benderfyniadau. Fe gymer pob awdurdod ddarpariaeth leol arall i ystyriaeth ac fe aeth yr awdurdodau'n gyfrifol am nifer o unedau pan nad oedd modd i'r arweinwyr neu'r rheolwyr gwirfoddol eu cynnal. Gall pwysau lleol hefyd ddylanwadu ar y ddarpariaeth gan roi blaenoriaeth i'r cymunedau hynny sy'n amlygu cefnogaeth a menter. Daeth nifer o ganolfannau amser-llawn i fod am fod adeiladau ar gael neu oherwydd y cynllunid cyfleusterau ysgol, cymuned neu hamdden newydd yn yr ardal, yn hytrach nag am resymau anghenion ieuenctid yn unig.

6.3 Er gwaethaf meini prawf tebyg a'r nod cyffredin o gyrraedd pob ardal, cafwyd gwahanol batrymau o ddarpariaeth. Mewn cymdogaethau y sefydlwyd y canolfannau yn Ne Cymru drefol a'u diben yw gwasanaethu'r cyffiniau uniongyrchol; y canlyniad yw bod un ganolfan bob 5-6½ milltir sgwâr yn Ne, Canol a Gorllewin Morgannwg. Ceir llai o ymagweddu tebyg ymysg y siroedd trefol gwasgaredig a'r rhai mwy gwledig. Anelodd Clwyd a Gwynedd, yn arbennig, at ddarparu ar gyfer cymdogaethau trefol a chymunedau gwledig unigol, ond yn Nyfed fe ganolbwyntiwyd y datblygiad ar y prif ganolfannau poblogaeth gyda'r bwriad bod y rhain yn gwasanaethu eu priod ddalgylchoedd.

6.4 Gellir gweld ar fap oblygiadau'r gwahaniaethau hyn o ran dosbarthiad (ceir mapiau yn yr atodiad) neu eu dehongli'n ystadegol (Tabl 15). Er enghraifft, mae gan Glwyd uned o dan yr awdurdod bob 9 milltir sgwâr a chan Wynedd uned o'r fath i bob 12·5 milltir sgwâr, ac yn Nyfed, un clwb o'r fath i bob 53 milltir sgwâr. Canlyniad cael cymaint o boblogaeth, a chyfathrebu haws, mewn ardaloedd trefol yw bod y gymhareb o adeiladau i'r boblogaeth ieuenctid yn amrywio rhwng un i 1,000 yng nghymoedd Morgannwg Ganol ac un i 2,016 yn Ne Morgannwg. Gydag un eithriad mae'r gymhareb yn uwch mewn ardaloedd gwledig — un i 493 (Powys), un i 543 (Clwyd) ac un i 254 (Gwynedd).

6.5 Yr oedd y 44 o fudiadau ieuenctid gwirfoddol a oedd ar waith yng Nghymru yn cynnwys 6,515 o unedau[10] ym 1980/81 (Tabl 16). Fe effeithid – ac fe effeithir – ar eu nifer a'u dosbarthiad gan fentrau cenedlaethol neu ymateb lleol ond, i raddau helaeth hefyd, gan dwf trefol a diwydiannol, yr eglwys, gweithgareddau gwledig, neu fodolaeth cymunedau a grwpiau Cymraeg. Rhydd y ffigyrau yn Nhabl 17 rai enghreifftiau diddorol o'r dylanwadau hyn ar waith ieuenctid gwirfoddol yng Nghymru. Mae clybiau bechgyn yn bodoli yn bennaf yng nghymoedd diwydiannol De Cymru, er bod ehangu mewn mannau eraill bellach ar y gweill; mae nifer grwpiau ieuenctid yr Eglwys Bresbyteraidd yng Ngwynedd a Chlwyd yn amlygu sefyllfa'r eglwys yn y siroedd hynny; mudiad gwledig yn bennaf yw Mudiad y Ffermwyr Ifanc gyda mwy na hanner ei unedau yn Nyfed a Phowys; ac mae Urdd

[10] Mae'r ffigwr hwn yn cynnwys canolfannau a chlybiau'r awdurdodau addysg, a gyfrifwyd eisoes, sy'n gysylltiedig â Chymdeithas Clybiau Ieuenctid Cymru, a rhai grwpiau un-gweithgarwch (yn bennaf ar gyfer pêl-droed neu focsio) sy'n gysylltiedig â Chlybiau Bechgyn Cymru. Ni ellir dibynnu ar y cyfansymiau mewn rhai categorïau.

Gobaith Cymru ar ei chryfaf mewn ardaloedd Cymraeg neu ddwyieithog. Y canlyniadau cyffredinol yw dosbarthiad anwastad, gyda phob mudiad a gwasanaeth gwirfoddol yn fwy gwasgaredig yng nghefn gwlad Cymru nag yn ardaloedd mwy poblog y de-ddwyrain.

6.6 Fe awgrymir yn aml, o gymryd y ddarpariaeth statudol a gwirfoddol gyda'i gilydd, fod peth gweithgarwch ieuenctid ar gael i bobl ifanc bron pob pentref a thref, neu o fewn cyrraedd iddynt. Nid felly y mae. Mewn ardaloedd trefol, er enghraifft, mae gan rai cymdogaethau ddigon o ddarpariaeth amrywiol tra esgeuluswyd ardaloedd cyfagos. Mewn rhai achosion hefyd, fe geir y rhan fwyaf o'r gwaith ieuenctid mewn ardal ar yr un noson gan adael gweddill yr wythnos heb unrhyw weithgarwch. Gŵyr llawer o'r darparwyr am hyn, ac mae rhai mudiadau gwirfoddol, yn arbennig, yn ymdrechu'n ganmoladwy — trwy ail-gyfeirio adnoddau neu drwy gynlluniau datblygu arbennig, er enghraifft — i'w gywiro. Er hynny, mae lle i'r cyrff statudol a gwirfoddol adolygu'r sefyllfa a chyd-gynllunio'n fwy trefnus.

6.7 Ar wahân i grwpiau un-gweithgarwch a pheth darpariaeth ar gyfer grwpiau oedran hŷn, megis y Sgowtiaid Menter neu Aelwydydd yr Urdd, mae gan yr unedau, bron yn ddi-eithriad, ddalgylchoedd lleol iawn. Mewn ardaloedd ar y cyrion neu rai gwledig lle na cheir odid ddim cludiant cyhoeddus neu lle mae costau'n uchel, fe awgryma hyn fod angen mesurau arbennig i ddiogelu grwpiau ieuenctid lleol neu archwilio i fathau eraill o ddarpariaeth. Mae'n amlwg hefyd fod lle i'r canolfannau mwy, neu fwy arbenigol, hyrwyddo gweithgarwch a darparu cyfleusterau, offer ac arbenigedd i unedau llai yn yr ardal.

6.8 Yn hyn o beth, fe all fod gwersi i'w dysgu o ffigyrau aelodaeth canolfannau a chlybiau'r awdurdodau addysg (Tabl 39). Ar gyfartaledd, ac i bob golwg, mae gan unedau gwledig fwy o aelodau 13+ oed nag unedau awdurdod trefol. Ymhlith y siroedd mwy gwledig — mae gan ddwy ohonynt gymhareb ffafriol o unedau i bob ardal ac i'r boblogaeth ieuenctid (Tabl 15) ac maent yn darparu sefydliadau ar wahân ar gyfer gwaith ieuenctid mewn cymunedau unigol — mae nifer uwch yn eu mynychu nag mewn awdurdod sy'n gwasanaethu'r prif ganolfannau poblogaeth yn unig a lle cynhwysir yn unedau mewn canolfannau addysg bellach neu ganolfannau cymuned.

**Natur**

6.9 Gellir rhannu'r adeiladau a ddefnyddir gan fudiadau ieuenctid awdurdodau lleol yn ddau gategori bras: y rhai sy'n adeiladau canolfan ieuenctid fel y cyfryw a'r rhai sydd â phrif ddibenion eraill ond sydd hefyd yn ganolfannau i glybiau ieuenctid. Dengys Tabl 18 fod 66 o adeiladau pwrpasol ar safleoedd annibynnol, 19 ar dir ysgolion cynradd a 38 ar gampws ysgolion uwchradd. Mae'r mwyafrif yn ganlyniad i'r rhaglenni datblygu cyfalaf o'r cyfnod ar ôl Albermarle (1961 ymlaen) hyd ddiwedd y 1970au. Ar y cychwyn, y ffasiwn oedd gwahanu gwaith ieuenctid oddi wrth y ddarpariaeth addysgol arall, ond gydag ad-drefnu addysg uwchradd, daeth yn arfer yn yr hen Forgannwg ac yn Ninas Caerdydd i ystyried lleoli canolfannau ieuenctid ar safleoedd ysgol a disgwyl i'r ieuenctid ddefnyddio cyfleusterau ysgol. Canlyniad disodli hen ysgolion cynradd, a'r ad-drefnu cyfun, oedd bod adeiladau addysgol eraill wedi dod yn wag ac fe fu i sawl sir ddefnyddio'r rhain (42) a safleoedd afreidiol eraill (24) at ddibenion ieuenctid.

6.10 Bydd llawer clwb yn defnyddio adeiladau sydd heb unrhyw lecyn ieuenctid

penodol. Neuaddau cymuned neu bentref (88), ysgolion uwchradd (39) ac ysgolion cynradd (95) yw'r rhain yn bennaf. Defnyddir ysgolion cynradd gan glybiau yn fwy mewn ardaloedd gwledig ac ar gyrion ardaloedd trefol lle na cheir odid ddim mannau cyfarfod eraill. Mae eraill, sy'n defnyddio mannau priodol eu cynllun mewn ysgolion (26), mewn canolfannau awdurdod addysg neu ganolfannau addysg bellach (32), mewn canolfannau hamdden (5) neu mewn neuaddau cymuned/pentref (17), yn amlygu polisi eu siroedd. Mae Gwynedd a Phowys, wrth roi grantiau i gynlluniau cyfalaf cymuned, yn rhag-weld pwrpas deuol, a Gwynedd, wrth gymeradwyo grantiau blynyddol at gostau rhedeg, yn pennu amodau sy'n diogelu defnydd gan glwb ieuenctid lleol yr awdurdod addysg.

6.11 Datblygodd darpariaeth Dyfed o gynllun Sir Benfro, a droai hen adeiladau ieuenctid a chyn-ysgolion yn Ganolfannau Addysg Bellach sy'n cynnig addysg gymuned integredig. Mae polisi Morgannwg Ganol yn dechrau symud i'r cyfeiriad hwn. Ers ad-drefnu llywodraeth leol yng Ngwent, fe aeth bwriad y sir i ddarparu adeiladau ar gyfer gwaith ieuenctid yn un â darparu cyfleusterau hamdden ar safleoedd ysgolion cynradd a'u darparu ar y cyd â chynghorau dosbarth[11].

6.12 Bu rhai'n dadlau ers tro byd y byddai'n well i ysgolion, o ran eu hamcanion addysgol, sicrhau perthynas agosach â'r gymuned ac y dylid defnyddio adeiladau addysg, sy'n gryn fuddsoddiad cyhoeddus, gymaint â phosibl. Mae'r ddadl hon yn dechrau ennill ei lle ym mholisïau sawl awdurdod. Yng Ngwynedd, mae 12 clwb ieuenctid yn cyfarfod mewn ysgolion cynradd cymuned lle bu i'r awdurdod addysg, neu'r awdurdod addysg a chyngor dosbarth, neu fudiad gwirfoddol lleol gyda chymorth grant cyfalaf, ddarparu cyfleusterau cymuned ychwanegol. Mae gan fwyafrif yr awdurdodau enghreifftiau o ysgolion sy'n datblygu dimensiwn cymuned a defnydd addysg cymuned neu hamdden arnynt — weithiau wedi'i ehangu gyda chymorth Cynghorau Dosbarth — lle y mae i waith ieuenctid ei le. Mewn rhai o'r mannau hyn, y duedd yw rhoi blaenoriaeth is i anghenion yr ifanc nag i anghenion grwpiau eraill, ac yn aml fe gollir y cyfle i gyd-blethu gweithgareddau. Rhaid gwarchod rhag y tueddiadau hyn os bwriedir elwa'n llawn ar gyd-ddarpariaeth.

6.13 Mae deg mudiad gwirfoddol yn gweithio o bencadlysoedd sy'n eiddo iddynt. Mae gan Gymdeithas Clybiau Ieuenctid Cymru swyddfeydd ar brydles yng nghanol Caerdydd, tra nad oes gan Gorfflu Menter y Merched unrhyw bencadlys ar wahân — mae'n rhedeg ei weithgareddau o gartrefi ei swyddogion. Pencadlys Clybiau Bechgyn Cymru yw eu canolfan breswyl yn Sain Tathan, pencadlys Cyngor Ieuenctid yr Eglwys Bresbyteraidd yw ei ganolfan breswyl yn y Bala ac mae'r Cyngor Ieuenctid Rhanbarthol yn rhannu swyddfeydd ag adran addysg yr Eglwys yng Nghymru ym Mhenarth. Mae gan Geidiau Cymru swyddfa uwchben Siop y Sgowtiaid a'r Geidiau yng Nghaerdydd, ac mae gan yr Urdd adeiladau mwy helaeth yn Aberystwyth ar gyfer ei staff gweinyddol a rhai o'i staff masnachol. Mae Brigâd Ambiwlans St John yn defnyddio hen blasty i'r gogledd-orllewin o Gaerdydd ac oddi yno y trefnir ei weithgareddau cadet. Ar y cyd â choleg, bu i Fudiad y Ffermwyr Ifanc godi pencadlys yn ddiweddar ar safle'r Sioe Frenhinol. Er gwaethaf cymorth grantiau pencadlys gan y llywodraeth ganolog, mae cynnal a

[11] Ond nid i'r categori hwn nac i'r partneriaid hyn yn unig y perthyn 'cyd-ddarparu': er enghraifft, talwyd am Ganolfan yr Wyddgrug yng Nghlwyd gan y Gwasanaethau Addysg a Chymdeithasol; nid yw Canolfan Ieuenctid Caernarfon yng Ngwynedd ond un achos o ddarpariaeth Cymorth Trefol/ Awdurdod Addysg, ac mae Canolfan Blaenau Ffestiniog yn gynllun Awdurdod Addysg, Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Trefol.

rhedeg yr amrywiaeth hon o adeiladau pencadlys yn dreth ar gyllid mudiadau ieuenctid gwirfoddol. Hefyd, bu llawer ohonynt yn darparu swyddfeydd i'w trefnwyr rhanbarthol naill ai drwy ffederasiynau lleol neu drwy'r prif gorff.

6.14 Mae unedau unigol y mudiadau ieuenctid gwirfoddol yn gweithio mewn amrywiaeth fawr o adeiladau. Mae'r Sgowtiaid a'r Geidiau yn berchen ar nifer fawr o'u hadeiladau a ddefnyddir gan fwy nag un 'troop' neu gwmni. Y duedd yw i fudiadau cyn-Wasanaethau — er enghraifft, Llu Cadetiaid y Fyddin a'r Corfflu Hyfforddiant Awyr — ddefnyddio adeiladau ar safleoedd y mae'r lluoedd arfog yn berchen arnynt. Bydd grwpiau ieuenctid yr Eglwys yn defnyddio adeiladau y mae'r Eglwys yn berchen arnynt, a bydd grwpiau arbenigol megis Ambiwlans St John a Chadetiaid y Groes Goch yn cyfarfod mewn adeiladau a ddefnyddir gan eu cyd-aelodau o oedolion ac sy'n eiddo i'r prif fudiad. Bydd mwyafrif y Clybiau Bechgyn yn cyfarfod yn eu hadeiladau eu hunain — a ddarparwyd yn wreiddiol, yn aml, gan Glybiau Lles y Glowyr yn yr ardaloedd diwydiannol, neu ambell waith, gan gwmnïau dur. Mae'r YMCA yn gweithio bron yn llwyr yn ei adeiladau ei hunan. Eto, mae'r nifer fwyaf o ddigon o unedau ieuenctid gwirfoddol yn cyfarfod mewn ysgolion a sefydliadau addysgol eraill neu, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig, mewn neuaddau pentref a chanolfannau cymuned.

6.15 Mae'r cyfleusterau ar gyfer gwaith ieuenctid yn amrywio'n fawr. Dylanwadwyd yn fawr ar gynllun llawer canolfan bwrpasol gan 'Building Bulletin 20' (Yr Adran Addysg a Gwyddoniaeth, 1961) a ddadleuai o blaid lle di-rwystr neu gyfres o fannau yn unol â'r ffasiwn ar y pryd ym maes gwaith ieuenctid cymdeithasol/hamdden. Er bod gan fwyafrif canolfannau amser-llawn yr awdurdodau addysg yr hyn y gellir ei alw'n lle cymdeithasol cyffredinol (Tabl 19), fe olyga hyn nad oes ganddynt o reidrwydd gyfleusterau sy'n gweddu i'w gwaith presennol. Da, felly, yw sylwi ar nifer y canolfannau sydd, trwy eu hymdrechion eu hunain neu drwy'r rhaglen cyfleusterau i ieuenctid, wedi ceisio newid neu ychwanegu at y math hwn o ddarpariaeth er mwyn ei throi'n addasach arf ar gyfer gwaith ieuenctid.

6.16 Ar y cyfan, mae'r adeiladau a addaswyd yn cynnig lleoedd mwy hyblyg ac awyrgylch mwy priodol na'r adeiladau a godwyd yn bwrpasol ond, ar gyfartaledd, mae mwyafrif y cyfleusterau gweithgarwch yn adeiladau amser-llawn yr awdurdodau (Tabl 19) yn ymwneud â gweithgareddau corfforol a chelf a chrefft. Ni wêl pob canolfan fod angen creu amgylchedd ar gyfer gweithgareddau heblaw chwaraeon, ond mewn sawl un ceir cyfleusterau ac offer arbenigol eraill na ddefnyddir mohonynt mwyach.

6.17 Amrywio wna maint y meddwl a'r ymdrech o ran creu naws addas. Mewn rhai unedau manteisir ar bob cyfle i gael yr aelodau i beintio ac i ymfalchïo yn eu hadeilad, gan anelu yr un pryd at sicrhau gwaith o safon sydd mor uchel â phosibl: trefnir y celfi, y lliwiau a'r goleuo i gyfleu croeso a naws gartrefol neu soffistigedig. Mae arddangosiadau celfydd o eitemau a gynhyrchwyd gan y staff a'r aelodau, ffotograffau a chartwnau o brofiadau a rannwyd, toriadau papur newydd, posteri masnachol, taflenni cyfarwyddiadau gweithgarwch neu siartiau cynnydd, ynghyd ag eitemau o offer arbenigol, gwybodaeth am raglenni'r uned ac, yn llai aml, newyddion am ddigwyddiadau'r gymuned, yn mireinio golwg ac apêl rhai canolfannau. Mae dwy o'r rhain hefyd yn defnyddio planhigion a physgod trofannol yn gelfydd gan ddeffro diddordeb eu haelodau yn eu hamgylchedd uniongyrchol. Datblygiad arall i'w groesawu, yn bennaf mewn adeiladau a ddefnyddir ar gyfer gweithgarwch gyda'r di-waith yn ystod y dydd, yw llecyn darllen gyda chyflenwad o bapurau newydd, cylchgronau a llyfrau a ddarperir, weithiau, ar y cyd â'r gwasanaethau llyfrgell. Mae'r hyn a gyflawnir yn hyn o beth gan nifer fawr o unedau bach y mudiadau gwirfoddol, sy'n ymgodymu ag

adeiladau sy'n heneiddio, ac sy'n dibynnu ar gelfi a gyflwynir iddynt, yn esiampl i eraill.

6.18 Mewn ychydig yn rhagor o glybiau, yn bennaf y rhai mewn adeiladau y mae'r awdurdodau addysg yn berchen arnynt, ni wnaed fawr o ymdrech i bob golwg. Mae rhai'n teimlo'n oer ac amhersonol, yn bennaf am fod y muriau a'r byrddau hysbysiadau yn llwm ac na ddefnyddir y mannau bwyta, neu maent yn anneniadol. Golwg flêr sydd ar eraill, nid yn unig oherwydd traul ond oherwydd diffyg sylw i fanylion sy'n gadael celfi neu offer heb eu trwsio, llenni'n hongian o'u bachau, y paent yn pilio neu hen hysbysiadau wedi'u rhwygo. Mewn ambell le, gresynus yw'r unig air i ddisgrifio'u cyflwr: gadawyd i fframwaith yr adeilad, yr offer a'r celfi ddirywio'n ddifrifol. Mewn ambell ganolfan, nid oes yno offer y gellir ei ddefnyddio, ond ceir pentyrrau o gelfi sydd wedi'u torri, offer gwresogi a muriau wedi'u cam-drin, toreth o graffiti a niwed arall, a thoiledau heb seddau, papur na drysau. Er mai mewn lleiafrif bach o glybiau y ceir amodau mor eithafol, mae'n amlwg mewn mannau eraill fod y diffyg gofal cyson dros y blynyddoedd yn gadael ei ôl. Mae'n sicr bod toriadau mewn polisïau rhaglenni peintio, sy'n gwahardd cymorth yr aelodau ac yn arafu'r ymateb i geisiadau am waith trwsio, yn broblemau mawr mewn rhai awdurdodau; mae hi'r un mor amlwg fod yno fandaliaeth ddifrifol y tu allan i'r oriau agor mewn rhai canolfannau. Er hynny, os bwriedir symud ymlaen, rhaid i unedau unigol gymryd eu cyfran o'r cyfrifoldeb a gweithio gyda'r swyddogion i geisio cywiro'r diffygion.

6.19 Polisi rhai awdurdodau yw defnyddio cyfleusterau ysgolion, gan gynnwys pyllau nofio lle bônt ar gael, i ategu cyfleusterau'r canolfannau. Heb yr ychwanegiadau hyn, cyfyngedig iawn fyddai cyfleusterau llawer grŵp ieuenctid. Eto, ceir arwyddion bod y cyfnodau pryd y gellir eu defnyddio yn amrywio, bod eu defnyddio at ddibenion addysg oedolion weithiau'n rhwystro'u defnyddio gan ieuenctid a bod rhai cyfleusterau beth ffordd oddi wrth adeiladau'r ganolfan ieuenctid. Yn wir, mewn nifer o glybiau ieuenctid sy'n defnyddio ysgolion, mae'r mannau sydd ar gael mor wasgaredig nes na ellir sicrhau ymwybyddiaeth o 'uned gyfan' ac fe dreulia'r staff a'r aelodau eu gyda'r nos, i bob golwg, yn crwydro o'r naill weithgarwch i'r llall.

6.20 Er gwaethaf y cyfyngiadau hyn, mae unedau rhan-amser sy'n defnyddio mannau mewn ysgolion, canolfannau a neuaddau cymuned a hamdden yn weddol dda eu byd gydag ystod o ystafelloedd y gellir eu defnyddio'n hyblyg, ac yn aml cânt ddefnyddio cyfleusterau arbenigol ar y safle. Ar y llaw arall, mae grwpiau sy'n defnyddio adeiladau eraill, yn enwedig ysgolion cynradd gwledig, yn aml yn gweithio o dan amgylchiadau nad ydynt yn ddelfrydol ar gyfer gwaith ieuenctid. Rhaid i lawer ohonynt weithio mewn dim ond un ystafell o faint ac adeiladwaith anaddas.

6.21 Ar y cyfan, nid oes cymhariaeth rhwng y cyfleusterau yn unedau rhan-amser yr awdurdodau (Tabl 20) a'r rheiny mewn rhai amser-llawn. Man cymdeithasol cyffredinol yn unig sydd gan lawer o'r 93 y cant sydd â man o'r fath. Dim ond 60 y cant sydd â mannau ar gyfer gweithgareddau corfforol dan do (tua 50 y cant awyr agored); 39 y cant yn unig sydd â man y gellir ei ddefnyddio ar gyfer celf a chrefft, ac mae canrannau'r rhai sydd â lle ar gyfer gweithgareddau eraill gryn dipyn yn llai.

6.22 Yma eto, ceir cryn amrywiaeth yn y ffordd y defnyddir y cyfleusterau. Bydd rhai unedau, gan gynnwys y rhai ag amgylchiadau cyfyngus iawn, yn defnyddio celfi, offer a byrddau hysbysiadau symudol i amrywio trefn yr ystafell, yn codi posteri, yn creu byrddau lluniaeth deniadol ac yn lleddfu goleuadau cryf. Mae eraill fel petaent yn derbyn pethau fel y maent, waeth pa mor ddigroeso i waith ieuenctid yw'r adeiladau.

6.23 Ceir llu o anawsterau wrth rannu adeilad. Gall fod angen gosod a symud offer bob tro, cyfyngedig yw'r mannau storio yn aml, a chyfyngir ar rai grwpiau gan eiddo defnyddwyr eraill. Hefyd, siom yw darganfod mai o'r braidd y goddefir i bobl ifanc ddefnyddio'r adeiladau. Yn aml, er enghraifft, rhoir blaenoriaeth uwch i gyfarfodydd oedolion nag i waith ieuenctid rheolaidd, ac fe honnir mai'n annheg y rhoir y bai am ddamweiniau ac y caiff rhai mentrau ieuenctid eu gwahardd gan y corff rheoli. Amlyga'r materion hyn y tensiynau sy'n gefndir i waith llawer uned a'r cyfaddawdau sydd weithiau'n angenrheidiol.

6.24 Mae'n syndod cyn lleied o adeiladau'r gwasanaeth ieuenctid, o ba fath bynnag, sy'n hawdd dod o hyd iddynt, sydd â goleuo da y tu allan, neu sydd â rhyw fath o fwrdd enw. Os bwriedir annog pobl ifanc i'w mynychu ac, mewn rhai achosion, os bwriedir symleiddio'r goruchwylio, mae'r agweddau hyn yn haeddu sylw.

6.25 Er bod modd rhestru'r offer yn unedau ieuenctid yr awdurdodau (Tablau 21 a 22), llai hawdd yw cyffredinoli ar sail y data. I ryw raddau, mae'r offer yn adlewyrchu'r cyfleusterau: er enghraifft, mae gan bron pob uned amser-llawn a 95 y cant o'r rhai rhan-amser beth offer hamdden ar gyfer gweithgareddau fel tenis bwrdd, 'pool' a dartiau.[12] Ond mae'r hyn sydd ar gael hefyd yn amlygu diddordebau aelodau ac arweinwyr mudiadau unigol, a'r realiti ariannol. Nid yw'n syndod bod y canolfannau amser-llawn wedi cael gwell offer gan yr awdurdodau addysg, a'u bod fel petaent yn gallu denu arian i brynu eitemau ychwanegol neu rai newydd. Fe ddigwydd hyn fwyfwy gan fod llai o arian ar gael yn y cyllidebau canolog a'r grantiau. Mewn rhai adeiladau, lle prynwyd bron pob darn o gelfi ac offer ag arian yr uned neu o ganlyniad i ymdrechion i godi arian, mae'r aelodau'n trin eu cyfleusterau 'hwy' yn ofalus iawn. O'r unedau rhan-amser, y rhai sydd mewn adeiladau cymuned neu hamdden, a'r rhai sy'n cael defnyddio offer ysgol, sy'n gwneud orau. Eitemau sylfaenol yn unig sydd gan glybiau bach sy'n gweithio mewn ysgolion cynradd, ac yn aml rhaid iddynt ddefnyddio celfi anaddas eu maint. Yn wir, mae rhai unedau fel petaent yn amddifad iawn o adnoddau.

6.26 Mae gan fwyafrif yr awdurdodau addysg gronfa ganolog neu ranbarthol o gynorthwyon clyweledol, offer gwersylla ac offer gweithgareddau awyr agored i'w benthyca neu eu llogi. Mae gan ddau awdurdod fws mini i'w logi gan grwpiau ieuenctid ac mewn mannau eraill fe ddefnyddir cerbydau rhai canolfannau amser-llawn gan fudiadau cyfagos. Mewn mannau, gall gweithwyr ieuenctid fanteisio ar wasanaethau atgynhyrchu canolfannau athrawon. Mae'r adnoddau ychwanegol hyn yn bwysig o ran ehangu ystod y profiadau sydd ar gael i bobl ifanc.

**Defnyddio**

6.27 Ar lefel y sir y penderfynir am ba hyd y mae unedau ar gael i bobl ifanc (Tabl 23). Ym 1980/81, yr oedd y canolfannau amser-llawn yng Nghlwyd, Gwynedd, Powys a De Morgannwg ar agor am 46 wythnos y flwyddyn, ym Morgannwg Ganol am 39 ac yng Ngorllewin Morgannwg am 35. Yr oedd y sesiynau gyda'r hwyr yn para teirawr, ac eithrio yng Nghanol a Gorllewin Morgannwg (2½ awr). Ceir mwy o amrywiaeth ymhlith unedau ieuenctid rhan-amser, o 24 wythnos y flwyddyn ac uchafswm o deirawr y sesiwn i 40 wythnos a theirawr y sesiwn. Mae Dyfed yn rhannu ei blwyddyn yn dri thymor tra bo Gwynedd yn canolbwyntio'i holl sesiynau ym misoedd y gaeaf er mwyn sicrhau parhad yn ystod y cyfnodau hynny o'r

[12] Ers cyflwyno'r wybodaeth hon, fe gafwyd, i bob golwg, lu o recordwyr fideo, byrddau 'pool', gemau fideo a pheiriannau difyrru — 'space invaders' — a'r mwyafrif o'r rhai olaf wedi'u llogi.

flwyddyn pan gredir bod mwyaf o angen darpariaeth gwasanaeth ieuenctid ar bobl ifanc.

6.28 Mae gwahaniaethau trawiadol ymhlith awdurdodau o ran yr oriau cyswllt y mae eu darpariaeth gwasanaeth ieuenctid yn eu cynnig. Er enghraifft, mae wyth canolfan amser-llawn yng Nghlwyd yn darparu 6,118 o oriau y flwyddyn, ac yn Ne Morgannwg mae 18 canolfan amser-llawn yn darparu 13,100 o oriau y flwyddyn gyda'r hwyr. Mae'r 14 canolfan amser-llawn yng Ngorllewin Morgannwg yn rhoi llai na hanner hynny mewn cymhariaeth — sef 4,900 o oriau ar gyfartaledd o 350 o oriau y flwyddyn am bob mudiad amser-llawn. Mae mwy o gysylltiad rhwng yr amrywiadau yn hyd y cyfnodau y mae unedau rhan-amser yr awdurdodau lleol ar gael, a natur y gwasanaeth. Er enghraifft, nid oes gan Went yr un ganolfan amser-llawn, ond rhydd gyfartaledd o 246 o oriau y flwyddyn i fudiadau rhan-amser sy'n cyfarfod ddwywaith neu ragor bob wythnos.[13] Dibynna darpariaeth Gwynedd, ar y llaw arall, ar glybiau llai, un noson yr wythnos, sydd ar agor am 90 awr y flwyddyn ar gyfartaledd.

6.29 Mae'r ffeithiau hyn yn amlygu'n gryf y gwahaniaeth mawr yn hyd y cyfnodau y mae'r adeiladau ar gael i wasanaeth ieuenctid yr awdurdodau addysg rhwng y naill gymuned a'r llall. Fel y gellid disgwyl, mae'r awdurdodau sy'n cynnig yr oriau mwyaf o ddarpariaeth ymhlith y rhai sydd â'r canrannau uchaf o bobl ifanc yn aelodau (gweler Tabl 39).

6.30 Yr hyn sy'n peri iawn cymaint o bryder yn y gwasanaethau gwirfoddol a statudol yw a ydyw'r oriau, y cyfnodau a chysondeb yr agor yn hybu gwaith datblygu gyda phobl ifanc. Nid yn unig y mae cynifer o unedau yn y ddau sector ar waith am nifer cyfyngedig o wythnosau, ond fe gânt, i bob golwg, gyfnodau hir o segurdod (weithiau, er enghraifft, am nad yw adeilad yr ysgol ar gael yn ystod y gwyliau) neu fe'u caeir yn afreolaidd neu fe newidir y trefniadau. Mae dibynolrwydd a diogelwch yn eiriau a ddefnyddir yn aml wrth ddisgrifio manteision ymwneud â darpariaeth ieuenctid ac eto, ar lawer achlysur, ceir bod pobl ifanc yn sefyllian y tu allan gan ddyfalu a yw'r uned ar waith a pha drefniadau a wnaed at y dyfodol. Dyma gwestiynau y dylai'r darparwyr eu hystyried yn ogystal â materion ehangach megis cael oriau agor mwy hyblyg er mwyn cynnwys gweithgarwch yn ystod y dydd a pha mor addas i aelodau hŷn o'r ganolfan yw oriau agor sy'n gorffen am 9.00 pm neu cyn hynny.

6.31 Er bod pobl ifanc, yn sgîl anghenion y di-waith, yn defnyddio mwy ar gyfleusterau amser-llawn yn ystod y dydd, fe ddelir i neilltuo sesiynau i gyrff eraill. Rhydd Tabl 24 gyfradd y defnyddio gan fudiadau ieuenctid gwirfoddol a chan grwpiau cymuned. Defnyddir llawer o'r canolfannau ar safleoedd ysgolion gan yr ysgolion eu hunain ar gyfer gweithgarwch cymdeithasol anffurfiol, dosbarthiadau o blant llai galluog a myfyrwyr chweched dosbarth, a lle gwneir hyn yn gyson mae tuedd iddo rwystro'u defnyddio gan y gymuned ac iddo ddwysáu problemau cynnal a chadw. Eto, er gwaethaf ymdrechion i sicrhau defnyddio adeiladau hyd yr eithaf, fe gyfeddyf sawl awdurdod na ddefnyddir digon ar rai ohonynt a bod cael amrywiaeth o fudiadau a grwpiau oedran i'w defnyddio'r un pryd yn fwy o ddelfryd nag o syniad ymarferol.

6.32 Mae amrywiaeth o wahanol grwpiau'n defnyddio cymaint ar rai o adeiladau'r mudiadau gwirfoddol mwyaf — yr YMCAs er enghraifft — nes iddynt beidio ag

---

[13] Yng Ngwent, yr arfer bellach yw i'r clybiau ieuenctid hŷn gyfarfod deirgwaith yr wythnos ac i'r clybiau ieuenctid iau gyfarfod ddwywaith yr wythnos — y ddau am 42 wythnos y flwyddyn.

edrych fel un uned. Daeth adeiladau eraill, gan gynnwys y rhai y mae'r Clybiau Bechgyn yn berchen arnynt, yn ganolbwynt i nifer o ddefnyddwyr annibynnol y mae eu gweithgareddau — chwaraeon fel rheol — yn cyd-fynd â rhai'r perchnogion. Anaml y defnyddir cyfleusterau llai, fel y rhai y mae cwmnïau o sgowtiaid neu geidiau yn berchen arnynt, gan gyrff eraill heblaw ambell grŵp chwarae, ac anaml y'u rhennir â'u cyfoedion. Mae'n debyg bod llu o amheuon ynghylch cydweithredu fel hyn, ond mae un enghraifft o gyd-ddefnyddio, lle mae unedau o sgowtiaid a geidiau'n helpu ei gilydd yn ymddangos yn un hapus iawn.

**Canolfannau Preswyl a Chanolfannau Addysg Awyr Agored**

6.33 Eiddo'r awdurdodau addysg perthnasol yw rhai o'r canolfannau preswyl neu ganolfannau addysg awyr agored a ddefnyddir gan grwpiau ieuenctid, a rhedir ambell un o dan adain gwasanaeth ieuenctid yr awdurdod hwnnw. Mae Tabl 25 yn crynhoi'r rhain a'r defnyddio sydd arnynt gan y gwasanaeth ieuenctid — llawer ohono gan grwpiau neu fudiadau gwirfoddol o'r tu allan i'r sir. Dangosir eu lleoliad ar y mapiau yn yr Atodiad. Yn fras, ceir dau fath o ddarpariaeth: canolfannau preswyl sy'n addas ar gyfer cyrsiau a chynadleddau arweinwyr a phobl ifanc, ac eraill a godwyd neu a addaswyd yn ganolfannau addysg awyr agored. Mae llawer o'r olaf yn dda eu byd, gyda staff preswyl yn gofalu am weithgareddau arbenigol, tra bo eraill yn syml eu celfi ac yn dibynnu ar hunan-raglennu ac arlwyo gan grwpiau o ddefnyddwyr. Yn achlysurol yn unig y bydd ambell wasanaeth ieuenctid yn defnyddio canolfan breswyl neu ganolfan addysg awyr agored eu hawdurdod addysg, yn rhannol oherwydd diffyg diddordeb ymhlith aelodau neu arweinwyr, ond hefyd oherwydd y costau. Mewn mannau eraill, nid yw rhai canolfannau ar gael ar benwythnosau am resymau sy'n deillio o'r oriau a weithir gan y staff parhaol. Ar y llaw arall, mae un awdurdod newydd wella'r llety a'r staffio mewn canolfan awyr agored er mwyn darparu'n well ar gyfer anghenion eu grwpiau ieuenctid a'r ifanc di-waith.

6.34 Mae llawer mudiad gwirfoddol yng Nghymru yn berchen ar adeilad ar gyfer gweithgareddau preswyl, hyfforddiant gwirfoddol i oedolion neu weithgareddau awyr agored, neu wedi eu cael ar brydles. Sylweddol yw eu nifer a'u maint — fel y dengys Tabl 26, sydd hefyd yn nodi eu natur a'u lleoliad. Gellir rhannu'r cyfleusterau i nifer o gategorïau. Ym 1980/81 yr oedd 50 o hosteli ieuenctid, wyth maes gwersylla, saith canolfan hunan-arlwyo mewn amrywiol adeiladau, ac wyth canolfan fwy lle darperid llety preswyl ar gyfer rhwng 40 a 150 o bobl ifanc.

6.35 Mae lleoliad pob canolfan yn hwyluso rhaglennu gweithgareddau awyr agored, ond mae dwy yn arbennig — Abercraf, y mae Clybiau Bechgyn Cymru'n berchen arni, a Chanolfan yr Urdd yng Nglan-llyn — yn cynnig gweithgareddau awyr agored fel cymhwyster ar raddfa fawr. Defnyddir Broneirion, y Ganolfan Hyfforddi Geidiau yn Llandinam ym Mhowys, yn bennaf ar gyfer hyfforddi geidiau, a Choleg yr Eglwys Bresbyteraidd yn y Bala yn bennaf ar gyfer gweithgareddau ieuenctid sy'n gysylltiedig â'r Eglwys, ond mae croeso i fudiadau eraill eu defnyddio hefyd. Defnyddir canolfan y Methodistiaid yn y Friog yng Ngwynedd yn bennaf gan grwpiau o unedau o Loegr ar gyfer hyfforddi aelodau hŷn ac arweinwyr ieuenctid, yn ogystal â bod yn ganolfan i wyliau gweithgarwch, ac mae canolfan y YMCA yn y Rhyl yn denu cryn nifer o gyrsiau gwyliau ar gyfer aelodau YMCAs o Gymru a Lloegr i ategu cyrsiau hyfforddi mwy penodol. Mae'r YMCA a Chlybiau Bechgyn Cymru yn rhedeg cyrsiau ymgymhwyso i ddiwydiant yn eu canolfannau ac mewn mannau eraill. Mae'r Clybiau Bechgyn, yn enwedig, yn darparu llety preswyl i bobl ifanc difreintiedig, i'r rhai sy'n dilyn y cynlluniau Triniaeth Ganolraddol ac, yn gynyddol, fel elfen yng nghynlluniau hyfforddi ieuenctid o dan nawdd y Comisiwn Gwasanaethau Gweithwyr.

6.36 Er bod rhaid sylwi bod y defnyddio ar Sain Tathan wedi cynyddu ers 1980/81, ni chaiff yr un o'r canolfannau a restrwyd, ar wahân i ddwy Ganolfan yr Urdd sydd at ei gilydd yn darparu cyrsiau iaith a chyfle i grwpiau ysgol a grwpiau ieuenctid yn y mudiad ymwneud â gweithgarwch trwy gyfrwng y Gymraeg, ei defnyddio'n gyson iawn, ac ychydig ohonynt a ddefnyddir hyd at 50 y cant hyd yn oed. Mae'r sefyllfa'n gwella o ganlyniad i'r cynlluniau hyfforddi ieuenctid newydd, ond fe ddeil y cyfleusterau preswyl yn gryn faich ariannol ar y mudiadau sy'n eu cynnal. O ganlyniad, codir taliadau uwch a bu i hyn, ynghyd â'r cynnydd mewn treuliau teithio, amharu ar y niferoedd hyd yn oed mewn safleoedd gwersylla, a chanlyniad i'r sefyllfa hon oedd i Goleg Hyfforddi'r YMCA yn y Rhws, a ddibynnai'n drwm ar gael grwpiau yno o Loegr, orfod cau ym 1980 ar ôl i gost teithio godi'n ddirfawr.

6.37 Er mwyn cadw cylch gwaith yr arolwg hwn o fewn terfynau rhesymol, rhoddwyd blaenoriaeth is i arolygu cyfleusterau canolfannau preswyl nag i sylwi ar brofiadau preswyl fel dimensiwn o waith ieuenctid. Ond rhaid cyfeirio at rai nodweddion. Er mai cwbl bwrpasol yn unig yw llawer canolfan, mae'r mwyafrif, gan gynnwys y rhai a etifeddwyd mewn cyflwr llwm, wedi eu haddurno'n chwaethus ac mae ynddynt gelfi y cyfrannwyd atynt, neu a gynlluniwyd, gan grwpiau o ddefnyddwyr. Mae Broneirion, lle mae gan bob sir o geidiau gyfrifoldeb dros un ystafell wely, yn enghraifft lwyddiannus yn hyn o beth. Mewn llawer canolfan ceir arddangosiadau, ffotograffau a llyfrau sy'n cyfleu hanfod y gweithgareddau a gyflawnir, ac fe ddatblygodd rhai ohonynt eu tiroedd ar gyfer astudio'r amgylchedd. Ond mewn rhai, ni cheir fawr o dystiolaeth o ddeunydd gweledol nac arall i ysgogi diddordeb. Mae safon y lleoedd cysgu'n amrywio, yn enwedig o ran maint y lle a roir i bob cysgwr. Yn y canolfannau mwy poblog, hwyrach ei bod yn anochel bod y gwelyau'n dangos arwyddion gwendid, bod sicrhau mannau storio i eitemau personol yn brawf ar ddyfeisgarwch y staff, ac nad yw trefniadau defnyddio cyfleusterau toiled, yn enwedig gyda'r nos, yn rhyw hwylus iawn. Pan fo un ystafell yn ystafell giniawa, yn lolfa ac yn fan cymdeithasol, fel y digwydd mewn llawer canolfan fach, mae hyn yn cyfyngu ar ddatblygu gweithgareddau grŵp. Mewn sefyllfaoedd eraill, mae'r potensial yn ddi-ben-draw. Ar y cyfan, rhaid canmol yr ymdrechion a wnaed i addasu adeiladau at eu prif ddibenion, i osod celfi ac offer ynddynt, i'w cynnal a'u cadw a sicrhau safon dda ar yr ochr ddomestig.

## 7. STAFFIO A DATBLYGU'R STAFF

### 7.1 Staffio

7.1.1 Ym 1982, cyfanswm staff y gwasanaethau ieuenctid yng Nghymru oedd 87 o swyddogion amser-llawn (24 mewn awdurdodau addysg, 63 mewn mudiadau gwirfoddol)[14], 186 o weithwyr maes amser-llawn (165 yn y sector statudol, 21 yn yr un gwirfoddol), tua 3,500 o weithwyr rhan-amser (rhyw 2,800 yng nghlybiau/canolfannau'r awdurdodau addysg a 700 mewn unedau gwirfoddol) ynghyd â chyfanswm, fe amcangyfrifir, o ryw 30,000 o wirfoddolwyr.

**Swyddogion**

7.1.2 Mae dosbarthiad swyddogion ieuenctid yr awdurdodau addysg [15] yn amrywio rhwng un a chwech i bob awdurdod, ac fel y dengys Tabl 27, mae gan lawer

[14] Dilewyd chwe swydd swyddog awdurdod addysg rhwng 1980 a 1983 (gweler Tabl 27); crewyd tair swydd swyddog ychwanegol yng Nghlybiau Bechgyn Cymru yn ystod yr un cyfnod.

[15] Fe gymerir yn ganiataol bod y gair 'swyddog' yn cynnwys swyddi o'r enw ymgynghorydd neu drefnydd.

ohonynt gyfrifoldebau mewn meysydd eraill o addysg anaiwedigaethol. Mae swyddogion mudiadau gwirfoddol, ar y llaw arall, yn ymwneud bron yn llwyr â gwaith ieuenctid ond fe amrywia'u niferoedd gryn lawer (Tabl 28): mae rhwng un a phump gan fwyafrif y cyrff, ond mae 24 gan yr Urdd a 13½ gan Fudiad y Ffermwyr Ifanc.

7.1.3 Er eu bod wyneb yn wyneb â phobl ifanc yn aml, mae swyddogion y ddau sector yn ymwneud yn bennaf â threfniadaeth a rheolaeth, yn cynnig cymorth proffesiynol i staff a mudiadau, ac yn hwyluso gweithgarwch, datblygiad a gweinyddiaeth. Helaeth a chymhleth yw'r cyfrifoldebau a'r dyletswyddau a restrir ganddynt hwy a chan eu cyflogwyr, ac fe ddengys Tablau 29 a 30 y rhain ochr yn ochr â phrif elfennau eu swyddogaethau.

7.1.4 Dengys Tabl 30 y gwaith y mae swyddogion sirol a rhanbarthol yr awdurdodau addysg yn ymwneud fwyaf ag ef. O gofio nad yw'r un swyddog unigol yn cyflawni popeth a nodir, ceir cryn unffurfiaeth yn y dyletswyddau a nodir ar gyfer pob lefel. Hefyd, gwneir gwaith tebyg mewn siroedd trefol a siroedd gwledig ond, oherwydd cyfansoddiad y gwasanaeth mewn ardaloedd gwledig, gall y swyddogion yno roi mwy o bwys ar weithio gyda mudiadau gwirfoddol nag y gwna'u cyd-weithwyr trefol. Er hynny, mewn rhai awdurdodau ceir gwahaniaethau mawr o ran dehongliad ac arfer ymysg swyddogion ar yr un lefel.

7.1.5 Mae'n amlwg bod swyddog awdurdod addysg yn treulio'r rhan fwyaf o'i amser ar drefnu a gweinyddu, ac ar ymateb i broblemau a mynychu pwyllgorau, yn hytrach nag ar faterion mwy proffesiynol ac addysgol. Ni roir y flaenoriaeth a haeddant i swyddogaethau allweddol megis archwilio i anghenion, ysgogi ymateb, datblygu staff a chloriannu'r ddarpariaeth a'r arferion.

7.1.6 Gellir cynnig sawl rheswm dros hyn. O'i gymharu â maint y gwaith a'r pwysau a roir arnynt gan unigolion afrifed y tu mewn a'r tu allan i'r gwasanaeth, bach yw nifer y swyddogion ac mae gan lawer ohonynt gyfrifoldebau sylweddol mewn meysydd eraill (gweler nodyn (ii) Tabl 27). Mae toriadau ariannol diweddar wedi gwaethygu'r sefyllfa gan fod y gostyngiad yn nifer y swyddi wedi cynyddu baich gweinyddol y rhai sydd ar ôl, gan adael rhai swyddogion mewn sefyllfa waeth byth oherwydd diffyg cymorth clerigol. Hefyd, cafwyd cyfarwyddiadau i gwtogi ar deithio ac weithiau bu rhaid treulio amser yn ymdopi â newidiadau yn y gwasanaeth.

7.1.7 Ymhellach, caiff swyddogion sydd newydd eu penodi — wedi eu dyrchafu, yn aml, o waith ieuenctid neu swyddi dysgu (Tabl 35) — eu gosod mewn swyddogaethau sy'n gofyn iddynt feddu ar ystod gynhwysfawr o fedrau rheoli, cyfathrebu, trefnu ac ymgynghori. Er bod ganddynt ddisgrifiadau o'u swyddi yn ganllaw, y duedd yw i'r rhain gael eu mynegi mewn ymadroddion megis 'goruchwylio'r gwasanaeth yn gyffredinol' a 'cyd-gysylltu', ac ni nodant yr union dasgau sydd i'w cyflawni. Mae'n peri pryder nad oes unrhyw hyfforddiant rhagarweiniol na hyfforddiant mewn-swydd, nac unrhyw oruchwyliaeth broffesiynol reolaidd o waith swyddog unigol, i hybu dehongliad mwy effeithiol o'i swyddogaeth.

7.1.8 Lle bu i absenoldeb cloriannu a goruchwylio trefnus ar y staff amharu ar waith yn y gwasanaeth, mae angen arbennig i adolygu ac ail-ddiffinio swyddogaethau'r swyddogion. Byddai eu gwaith, bron ym mhobman, ar ei ennill o ail-asesu'r blaenoriaethau ac adolygu pwrpas rhai dyletswyddau.

7.1.9 Eto, mae lleiafrif o swyddogion awdurdodau addysg yn dylanwadu cryn dipyn ar ansawdd y gwaith ieuenctid. Caiff disgrifiadau diwygiedig o swyddi, trefniadau sefydlu, ymweliadau hyfforddi yn-y-swydd, sesiynau unigol a grŵp rheolaidd ar gyfer arolygu, a thrafodaethau mewn cyfarfodydd, eu defnyddio i helpu staff y maes i gynllunio, cloriannu a datblygu eu gwaith. Mae arfer o'r math hwn yn dangos pa mor allweddol yw swyddogaeth y swyddog i iechyd y gwasanaeth ieuenctid.

7.1.10 Mae gwaith amryfal swyddogion y sector gwirfoddol hefyd o bwys canolog i'w mudiadau. O gofio amrywiaeth a nifer helaethach eu swyddogaethau, anos yw cyffredinoli ynghylch eu dyletswyddau, ond rhydd Tabl 30 argraff o'r meysydd y maent yn ymwneud â hwy. Er bod ganddynt gylch gwaith sydd, yn aml, yn fwy penodol nag un y gweithwyr cyfatebol gyda'r awdurdodau addysg, fe welir bod mwyafrif y swyddogion cenedlaethol yn ymroi i ystod ymestynnol o waith. Mae hyn i'w weld ar ei amlycaf pan nad oes ond un neu ddau ym mhob mudiad. Lle ceir tîm pencadlys, ceir cyfle i arbenigo. Yn y sector gwirfoddol, mae gan y swyddogion rhanbarthol ddyletswyddau tebyg i rai'r swyddogion yn y sector statudol, ond pwysleisir rhoi cymorth i ffederasiynau neu unedau, trefnu gweithgareddau a datblygu.

7.1.11 Yn ddamcaniaethol, mae ganddynt hwy a'u cyd-weithwyr cenedlaethol lawer mwy o botensial na swyddogion cyfatebol yr awdurdodau addysg i ddylanwadu ar arferion, ond ni sylweddolir hyn bob tro. Er bod llawer o'r problemau ynghylch dehongli eu swyddogaeth a defnyddio amser yn gytbwys, ac yn enwedig y baich gweinyddol trwm, hefyd yn wynebu swyddogion gwirfoddol — ac am lawer o'r un rhesymau — mae ganddynt ddau anhawster ychwanegol a chynhenid i'w goresgyn. Yn gyntaf, gwan yw sylfaen eu hawdurdod mewn llawer ffordd: rhaid iddynt ddibynnu ar ewyllys da swyddogion maes neu arweinwyr uned os ydynt i symud ymlaen, ac ymgadw, yn enwedig yn y mudiadau mwy democrataidd, rhag cwtogi ar gyfrifoldeb hanfodol pobl eraill. Yn ail, lle bynnag y'u lleolir, fe weithiant gryn bellter oddi wrth fwyafrif staff ac unedau'r mudiad ac mae perygl iddynt golli cysylltiad â'r aelodau lleol. Mae Cymdeithas Clybiau Ieuenctid Cymru a Chlybiau Bechgyn Cymru yn ceisio goresgyn y broblem hon trwy benodi gweithwyr maes lleol rhan-amser.

7.1.12 Da yw nodi nifer y mudiadau gwirfoddol sydd wedi ail-gloriannu gwaith eu swyddogion yn ddiweddar. Mewn rhai achosion, arweiniodd hyn at benodiadau newydd neu at wella'r disgrifiadau o'r swyddi. Canlyniad hyn, i bob golwg, yw ffordd fwy proffesiynol o weithredu sy'n dechrau dangos i fudiadau eraill fod ganddynt hwythau hefyd gryn le i wella. Er hynny, mae angen rhoi sylw ledled y sector gwirfoddol yng Nghymru i gwestiwn strategaethau ar gyfer datblygu staff, strategaethau sydd, wrth gwrs, yn achosi problemau lle nad oes ond ychydig o staff.

**Gweithwyr Amser-Llawn**

7.1.13 O ddadansoddi'r swyddi gwaith ieuenctid amser-llawn (Tablau 28, 31 a 32) fe welir yr amrywiaeth fawr yng nghyfrifoldebau a gwaith staff amser-llawn. O'r 165 a gyflogid ym 1982, 63 yn unig y gellir eu disgrifio'n weithwyr ieuenctid per se, gostyngiad o bump ers sefyllfa 1980/81 er gwaethaf y trefniadau cyllid arbennig. Er bod rhagor o staff yn ymgymryd â gwaith mewn addysg oedolion, a bod ambell un wedi cymryd dyletswyddau rhanbarthol, nid yw gwaith y staff wedi newid yn sylweddol yn ystod cyfnod yr arolwg. Bu rhaid i rai ymaddasu i ostyngiad mewn cymorth amser-llawn neu ran-amser, mae rhai'n troi eu sylw at godi arian, ac mae rhai'n ymdopi â llai o ddarpariaeth.

7.1.14 Mae lleiafrif o'r staff (53) yn weithwyr ieuenctid sy'n gweithio o ganolfan; cafodd eu swyddi, ac eithrio'r rhai y telir amdanynt gan y Comisiwn Gwasanaethau Gweithwyr mewn ymateb i anghenion y di-waith, eu creu ochr yn ochr â darpariaeth o dan raglenni adeiladu cyfalaf neu raglenni adeiladu Cymorth Trefol. Eu prif swyddogaeth yw arwain a threfnu clwb ieuenctid gan fod yn gyfrifol am y staff, yr adeilad a'r defnyddio sydd arno, a datblygu a gweinyddu, ond mae'r mwyafrif ohonynt yn ymwneud rhywfaint â'r gymuned.

7.1.15 Ymhellach, mae rhai'n gweithredu fel wardeniaid addysg oedolion ac mae cyfran o'r rhai mewn dau awdurdod yn gwneud gwaith gyda disgyblion ysgol. Ceir tystiolaeth bod peth mantais yn deillio i bobl ifanc trwy weithgareddau ieuenctid/oedolion ar y cyd, ond siom yw'r methiant i fanteisio i'r eithaf ar y cysylltiad ag ysgolion. Arfer cyffredin, i bob golwg, yw i weithwyr ieuenctid ddysgu'r pwnc yr hyfforddwyd hwy ynddo neu oruchwylio gweithgareddau disgyblion yn yr adain ieuenctid yn ystod yr awr ginio. Anaml y codir pontydd rhwng cwrs addysg yr ysgol a rhaglen canolfan ieuenctid drwy i weithiwr ieuenctid gyfrannu i ddosbarthiadau addysg gymdeithasol neu drwy fabwysiadu dull integredig o ymdrin â gweithgareddau allgyrsiol. Rhaid gresynu'n arbennig at golli'r cyfle hwn mewn un awdurdod lle mae'n bosibl, gan fod dirprwy amser-llawn ym mhob canolfan ieuenctid, y gellid treulio mwy o amser yn cyd-weithio â'r ysgol.

7.1.16 Mae disgwyl i Drefnwyr Ieuenctid Rhanbarthol roi blaenoriaeth i'w gwaith canolfan ond hefyd i ymwneud â'r ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc yn y gymdogaeth. Ar hyn o bryd, hyd yn oed pan fo'r trefniadau wedi hen ennill eu plwyf, ychydig o enghreifftiau a geir o ddatblygu pob agwedd ar y swyddogaeth honno. Mae Arweinwyr Hŷn, sydd hefyd â chyfrifoldeb dros ganolfan a chlwb ieuenctid, yn gyfrifol am waith y gwasanaeth ieuenctid mewn ardal. Mae i'r mathau hyn o drefniant fanteision o ran gwasanaeth wedi'i ganolbwyntio a'i gefnogi'n lleol. Eto, rhaid i dystiolaeth yr enghreifftiau hyn ddeffro'r awdurdodau addysg i gadw llygad ar effaith dwy ran y gwaith — a'u canlyniadau — yn ogystal â defnydd y gweithwyr o amser.

7.1.17 Perthyn rhai gweithwyr ieuenctid amser-llawn i gategori gwahanol gan fod eu cylch gwaith yn fwy penodol. Ar hyn o bryd mae 11 o swyddi o'r fath o dan awdurdodau addysg, a phob un ohonynt ar waith o hyd cyfyngedig y telir amdano trwy Gymorth Trefol neu'r Comisiwn Gwasanaethau Gweithwyr. Mae tri ohonynt â gofal cynlluniau mewn canolfannau — datblygu gwaith gyda'r ifanc di-waith yn bennaf, mae un yn gynghorydd ieuenctid a chymuned, ac fe benodwyd saith i weithio'n bennaf gyda phobl ifanc mewn mannau arbennig nad yw darpariaethau eraill, o bosibl, yn eu cyrraedd (gweler 11.3.2).

7.1.18 Gan nad oes modd gwylio ond ychydig iawn o'u gwaith, rhaid i weithwyr 'datgysylltiedig' fel y rhain, a'r rhai sy'n eu cyflogi, wynebu problem unigrwydd a phroblem eu cylchoedd gwaith. Cydnabuwyd hyn gan yr awdurdodau addysg perthnasol trwy gysylltu'r gweithwyr â'r ganolfan ieuenctid leol er mwyn rhoi goruchwyliaeth gynhalgar iddynt, o ran cyfathrebu cyffredinol a chyflenwi adnoddau. Bwriad y cysylltiad hwn, hefyd, yw sicrhau bod yr unigolyn yn cael cyfle i gyflwyno adroddiadau'n gyson a sicrhau bod goruchwylio ar ei (h)ymdrechion. Er lles pawb dan sylw, mae angen ystyried y cwestiwn mwy cymhleth o brif deyrngarwch — i'r cyflogwr neu'r gymuned — a all godi pan fo gweithwyr yn helpu grwpiau i weithredu a sicrhau newid a datblygiad. Hyd yn hyn, hwyrach oherwydd newydd-deb mwyafrif y penodiadau a'r ffaith eu bod yn

rhai tymor-byr, cafodd y dimensiwn hwn o atebolrwydd, i bob golwg, ei esgeuluso.

7.1.19 Cyflogir dau weithiwr project amser-llawn arall o dan Grantiau Datblygu'r Swyddfa Gymreig. Mae'r naill (o fewn Geidiau Cymru) yn dyfeisio dulliau o ddenu oedolion i ddatblygu gweithgareddau Geidio mewn mannau lle nad oes ond ychydig o gyfle hamdden i ferched. Mae'r llall (a gyflogir gan Gyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol) yn canfod anghenion y grŵp oedran 16+ mewn perthynas â'r gwasanaeth ieuenctid, yn asesu effeithiolrwydd y ddarpariaeth bresennol yn hynny o beth, ac yn datblygu syniadau a dulliau newydd y gellir eu mabwysiadu i ddiwallu'r anghenion a ganfuwyd. Mae'n ddyddiau cynnar ar y ddau gynllun, ond mae'r adroddiadau ysgrifenedig, a'r pwyllgorau ymgynghorol a sefydlwyd i weinyddu a chadw llygad ar y cynlluniau hyn, yn amlygu arwyddion fod yna symud ymlaen yn y meysydd hyn. Dysgir llawer hefyd am strategaethau datblygu ac arolygu gweithwyr ieuenctid a fydd o werth i'r gwasanaeth cyfan.

7.1.20 I weddill y staff amser-llawn, nid yw gwaith ieuenctid ond agwedd ar addysg neu 'hamdden' cymuned. Mae ambell un yn uniongyrchol gyfrifol am redeg gweithgareddau ieuenctid, ond goruchwylio yw gwaith y mwyafrif — hynny yw, ymwneud dewisol yn hytrach na gofynnol. Mae'n amlwg mai canlyniad cyfuno swyddogaethau yw lefelau arwynebol o weithio gyda phobl ifanc, ac nid yw llawer o'r staff amser-llawn yn ymwneud â hwy o gwbl.

7.1.21 Cyfyd yr un perygl yn y sector gwirfoddol lle mae bron yr holl weithwyr canolfan amser-llawn yn ysgrifenyddion cyffredinol yr YMCA, sy'n cael cymorth grant, a lle mae gofyn iddynt ymwneud yn agos â'r aelodaeth ieuenctid. Gydag eithriadau nodedig, mae'n rhy hawdd, i bob golwg, i'r swyddog ymgolli mewn gweinyddu ac arolygu'r holl ffyrdd y defnyddir yr adeilad, a methu â rhoi arweiniad i ieuenctid.

7.1.22 Nid yw mwyafrif y cyflogwyr yn fanwl iawn o ran eu cysyniad o swyddogaeth y gweithiwr ieuenctid. Mae disgrifiadau o swyddi fel petaent yn cymryd yn ganiataol bod cymalau megis "datblygu gwasanaeth o weithgareddau addysg gymdeithasol amser hamdden" a "cyfrifoldeb dros weinyddu a staffio" yn ystyrlon, ac yn canolbwyntio yn lle hynny ar wybodaeth gefndir a rhestri o ddyletswyddau ychwanegol. Cynigia rhai awdurdodau addysg fwy o fanylion, er enghraifft: "trefnu holl weithgareddau'r clwb" . . . "rheoli aelodau'r clwb" . . . "dirprwyo dyletswyddau priodol i'r staff a goruchwylio eu cyflawni". Ond mae dau awdurdod yn disgrifio'r arbenigedd a ddisgwylir. Mae'r naill yn rhannu'r tasgau ac yn eu hategu ag esboniadau. Felly, o ran ymwneud ag ardal fe gyfeiria'r dogfennau nid yn unig at y nod o ddarparu gwasanaeth cyd-gysylltiedig a chynhwysfawr, ond fe ddywedant sut mae gwneud hynny.

7.1.23 Mae manylion swydd y llall yn cyfeirio at hanfodion y swyddogaeth broffesiynol, er enghraifft:

> ". . . recriwtio a goruchwylio staff a sicrhau eu bod yn manteisio ar gynlluniau hyfforddi yn-y-gwaith ac mewn-swydd; cloriannu perfformiad y staff yn gyson";
>
> ". . . trefnu rhaglenni gweithgareddau, ymweliadau a digwyddiadau yn unol ag anghenion a dymuniadau'r aelodau";
>
> ". . . annog y staff i fod yn ddyfeisgar ac i arbrofi gyda chynlluniau sy'n ysgogi

ac yn ymestyn pobl ifanc ac yn hybu eu datblygiad personol a chymdeithasol";

"... rhoi sylw arbennig i lunio trefniadau democrataidd a pharatoi pobl ifanc ar gyfer deall ac ymarfer eu hawliau a'u cyfrifoldebau yn y ganolfan";

"... sefydlu cyfundrefn effeithiol o ofal bugeiliol a sicrhau ei bod yn hwylus i aelodau gael cyngor yn y ganolfan ac oddi wrth gyrff eraill";

"... sicrhau bod y ganolfan ieuenctid yn dod, ac y gwelir ei bod yn dod, yn rhan hanfodol o'r gymuned trwy gyfrwng llif dwyffordd o syniadau, gwasanaeth ac ymweliadau sy'n hwyluso cyfathrebu a dealltwriaeth rhwng yr aelodau ac eraill yn y gymuned".

7.1.24 Mae cyfeiriadau o'r fath yn disgwyl i weithwyr ieuenctid ddehongli anghenion pobl ifanc, pennu dulliau o ymyrryd, creu cwrs cytbwys, hwyluso cyfranogi gweithgar gan bobl ifanc, defnyddio a datblygu staff, a sefydlu perthynas â'r gymuned.

7.1.25 Yng Nghymru, ceir lleiafrif o swyddogion sydd wedi datblygu llawer ar yr agweddau proffesiynol hyn ar eu swyddogaeth. Amlygant wybodaeth drylwyr o'u cymuned a'i phobl ifanc a'u hanghenion; sylweddolant gymaint o gyfleoedd dysgu a gynigir gan waith ieuenctid ac archwiliant sut mae datblygu profiadau i gyd-fynd ag anghenion a nodau addysgol; meddyliant am y dulliau, y diddordebau a'r medrau arbennig y mae eu hangen mewn staff, ac maent yn eu recriwtio a'u defnyddio yn unol â hynny; gwnânt eu bwriadau'n glir, a thrwy gyfarfodydd o'r staff a thrwy oruchwylio unigolion, ceisiant sicrhau bod y tîm yn rhannu'r amcanion a'r safonau, bod yna gyfle i ddylanwadu ar gynnwys ac ansawdd yr arferion, ac yr asesir anghenion hyfforddi unigolion; ystyriant naws y ganolfan, ei hamgylchedd ffisegol a'r negeseuon a rydd i'r aelodau ac i'r byd y tu allan; hyrwyddant ei pherthynas â'r gymuned, gyda chyfleusterau cyfochrog a chyda chyrff eraill; cloriannant eu gwaith a gwaith y ganolfan, ac amlygant allu a dawn i weithio wyneb yn wyneb â phobl ifanc.

7.1.26 Yn anffodus, nid yw arfer o'r fath yn gyffredin. Er bod lle i fanylu ymhellach wrth lunio disgrifiadau o'r swyddi a nodi'r hyn a ddisgwylir oddi wrth y staff, mae llawer fel petaent yn methu â chydnabod bod i'w swyddogaethau rai elfennau sylfaenol — gweithio gyda phobl ifanc, rheoli staff, datbygu gwaith y ganolfan, a threfnu a gweinyddu cyffredinol — a bod gofyn rhoi eu sylw i bob un ohonynt.

7.1.27 Mae gormod o staff amser-llawn fel petaent yn ymwneud â thasgau sydd gam neu ddau oddi wrth eu priod waith. Mae amryw o resymau dros hyn. Mae gan rai ohonynt swyddogaeth mor eang nes ei bod yn anochel eu bod yn ymgolli'n llwyr mewn pwysau bob dydd, mae gan eraill gyfrifoldebau ardal sy'n caniatáu iddynt gwtogi peth ar eu hymroddiad i glwb, ac ni all sawl un ohonynt wahaniaethu rhwng blaenoriaethau, gan ymgolli mewn tasgau nad ydynt mewn gwirionedd yn mynnu eu harbenigedd proffesiynol. Gwêl rhai eu swyddogaeth mewn termau gweinyddol yn unig, ac mae ambell un fel petai'n ymgilio rhag cysylltiadau uniongyrchol â phobl ifanc.

7.1.28 Eto, mae tystiolaeth yr arolwg yn argyhoeddi'n llwyr: ceir gwell gwaith ieuenctid pan fo aelodau llawn-amser o'r staff, beth bynnag fo'u teitl, yn bwrw i'r dwfn eu hunain ac yn cyfranogi'n llawn yn y gwaith. Lle na wnânt hynny, ceir arwyddion yn fynych, heblaw'r rhaglen ieuenctid ei hun, fod yr uned yn methu â manteisio i'r eithaf ar ei photensial o ran addysg gymdeithasol. Er enghraifft, ceir sefyllfaoedd

lle bydd aelodau o dîm y staff, am na ddiffiniwyd digon ar eu swyddogaeth, naill ai'n gweithio'n annibynnol neu'n eu gosod eu hunain mewn safle sy'n peri iddynt ymbellhau oddi wrth bobl ifanc; lle ceir, trwy dybio, ar gam, fod sgyrsiau anffurfiol mor effeithiol â chyfarfodydd o'r staff, amrywiaeth yn nehongliad unigolion o'r dibenion a'r safonau, a lle nad oes odid ddim dealltwriaeth o'r dulliau ymyrryd y mae eu hangen mewn gwaith ieuentid.

**Gweithwyr Rhan-Amser**

7.1.29 Er bod eu teitlau'n amrywio, dyma'r mathau o staff amser-llawn a gyflogir gan awdurdodau addysg yn eu hunedau amser-llawn neu ran-amser neu mewn grwpiau gwirfoddol sy'n cael cymorth grant:

Arweinydd/Warden â Gofal
Dirprwy Arweinydd/Warden
Arweinydd Cynorthwyol/Warden
Hyfforddwr/Arweinydd Gweithgarwch

Nid yw pob awdurdod yn cyflogi staff o bob lefel a cheir ychwanegiadau neu amrywiadau. Er enghraifft, mae gan rai awdurdodau addysg staff canolfan ddydd rhan-amser; mae gan Went gyfradd goruchwyliwr; bydd Clwyd hefyd yn talu ysgrifenyddion ei Chynghorau Ieuenctid Rhanbarthol, a cheir lefel 'Arweinydd Iau' er mwyn i aelodau hŷn gael profiad cyn dod yn arweinwyr llawn; mae Powys yn gwahaniaethu rhwng arweinwyr ieuenctid sydd â gofal clwb a wardeniaid ieuenctid sydd hefyd yn gyfrifol am adeilad annibynnol; ac mae gan Dde Morgannwg ddewis o ryw 16 o lefelau, gan gynnwys gŵyr drws a chyfeilyddion. Hefyd, mae rhai awdurdodau'n talu cynorthwywyr cantîn, ond fel rheol fe delir y rhain o arian y clybiau.

7.1.30 Ym 1980/81 gweithiwyd cyfanswm o 304,030 o oriau staff rhan-amser (Tabl 33). Neilltuir dyraniadau i unedau awdurdodau ac unedau gwirfoddol yn ôl amlder yr agor, y nifer sy'n dod yno, y cyfleusterau a'r gweithgareddau a gynigir. Ac eithrio Clwyd, sy'n disgwyl cyfraniad at y gweithgareddau gan yr holl staff rhan-amser — ac nad oes ganddi, felly, gategori ar wahân ar gyfer hyfforddwyr — mae mwyafrif yr awdurdodau'n gwahaniaethu rhwng arweinwyr a hyfforddwyr. Canlyniad hyn yn gyffredinol oedd neilltuo 57.5 y cant o'r oriau i arweinwyr a 42.5 y cant i hyfforddwyr. Neilltuodd Morgannwg Ganol 67 y cant i hyfforddwyr, tra rhoes Powys 70 y cant i arweinwyr.

7.1.31 Dengys Tabl 33 hefyd y bu gostyngiad yn y staffio rhan-amser yng Nghlwyd, Morgannwg Ganol a Dyfed yn ystod 1980/81. Bu i Ddyfed hefyd roi'r gorau i dalu am waith mewn mudiadau ieuenctid gwirfoddol, ac fe ostyngodd Morgannwg Ganol nifer yr oriau hyfforddwr a oedd ar gael i'r sector hwnnw. Mae'r sefyllfa wedi sefydlogi ers hynny — yn wir, canlyniad yr adolygu mewn un awdurdod oedd rhoi rhagor o daliadau arweinyddiaeth i unedau gwirfoddol, ond fe awgryma'r hyn a welwyd fod toriadau wedi achosi peth cwtogi ar weithgareddau ac, mewn mannau, at duedd i'r arwain droi'n oruchwylio.

7.1.32 Fel arfer, mae nifer y staff rhan-amser mewn uned yn gymharol sefydlog o fewn adnoddau yr awdurdod. Yn ddiweddar, cymerwyd nifer o gamau i ddileu anghysonderau'r dyraniadau mewn awdurdodau, ond ceir cryn amrywiaeth yn lefelau staffio'r awdurdodau, hyd yn oed yn achos unedau sy'n uniongyrchol gymharol. Mewn rhai sefyllfaoedd, ceir nifer realistig o staff, i bob golwg, tra bo'r staff o un neu ddau mewn mannau eraill o dan bwysau difrifol. Awgryma hyn nad

yw pob awdurdod mewn cysylltiad digon agos â goblygiadau'r meini prawf a luniwyd ganddo'n ganolog neu'n rhoi digon o ryddid iddo'i hun i ddarparu cymorth ychwanegol pan fo angen.

7.1.33 Caiff llawer o weithwyr amser-llawn, gan gynnwys y rhai sy'n goruchwylio ardal, ddyraniad bloc y gallant ei ddefnyddio fel y gwelant yn dda. O'i reoli'n dda, rhydd hyn gyfle i sicrhau datblygiadau newydd ac ail-drefnu blaenoriaethau. Ymhellach, yr arfer mewn rhai siroedd yw i beth o'r arian hyfforddwyr gael ei neilltuo i'w ddefnyddio'n ganolog neu gan yr ardal. Dyna sut mae un awdurdod yn ategu'r gwaith gyda grwpiau anghenion arbennig megis y di-waith.

7.1.34 Er y cynorthwyir canolfannau amser-llawn gan nifer amrywiol o weithwyr rhan-amser, mae mwyafrif clybiau'r awdurdodau — 432 ym 1982/83 — yng ngofal staff rhan-amser. Caiff y ffaith mai hwy a'u cynorthwywyr sy'n cyflawni'r rhan helaethaf o'r gwaith wyneb-yn-wyneb ei chydnabod gan un awdurdod mewn llyfryn sefydlu sy'n pwysleisio perthynas â phobl ifanc ac ymwneud gweithgar â hwy, a chyflawni swyddogaeth addysgol. Lluniodd tri awdurdod ddisgrifiadau ysgrifenedig o'r swyddi, ond mae'n peri pryder bod cyn lleied o esbonio, mewn mannau eraill, ar natur bedagogaidd a rheolaethol y gwaith.

7.1.35 Dwyseir hyn pan berthyn diffygion i'r cyfarwyddyd a'r cymorth a roir gan y swyddog neu'r gweithiwr ieuenctid ardal rhan-amser y maent yn gyfrifol iddo. Bydd nifer o staff cyflogedig yn y ddau sector yn gweithio ar eu pen eu hunain neu mewn parau, yn aml o dan amgylchiadau ffisegol anodd, ac yn ôl pob tebyg, mewn unigrwydd. Nid yw'n syndod, felly, y gwastreffir llawer cyfle mewn sawl man am na ŵyr y staff beth yn union y maent yn ceisio'i gyflawni, sut mae asesu pa ystod o brofiadau sy'n ddymunol ac yn bosibl, sut mae llunio rhaglen a sesiwn, na sut mae defnyddio staff a chyfleusterau. Ar y llaw arall, ceir llawer o weithwyr rhan-amser sy'n amlygu cryn ddealltwriaeth o anghenion pobl ifanc ac o'u swyddogaeth arwain hwy eu hunain ac sy'n fedrus wrth drefnu a rheoli staff.

7.1.36 Pa deitl bynnag sydd ganddynt, mae llawer o staff rhan-amser yn ei chael hi'n haws gweithio gyda chylch gwaith penodol, ac er bod llawer i'w ddweud o blaid dull sy'n peri bod staff yn ymwneud â grwpiau o bobl ifanc, rhaid gofalu nad esgeulusir elfen gymdeithasol y gwaith drwy arbenigo gormod. Mae ansawdd y ddarpariaeth yn well lle sefydlwyd athroniaeth tîm ac amcanion cyffredin — fel mewn canolfannau amser-llawn llwyddiannus.

**Gwirfoddolwyr**

7.1.37 Mae union natur gwaith ieuenctid yn gofyn ymroddiad gan ei staff y tu allan i'w horiau cyflogedig. Calonogol, felly, yw deall bod llawer o staff cyflogedig rhan-amser wedi ymateb i'r toriadau drwy gynyddu'r amser a weithiant yn wirfoddol. Mae'r syniad o gael ymwneud gwirfoddol helaethach mewn unedau yn apelio at bob awdurdod, ond ychydig sy'n cymryd camau pendant i gymell cymorth o'r fath. Honna rhai na ellir cymysgu gwirfoddolwyr â staff cyflogedig, ac anfantais bellach rhai ohonynt yw nad oes ganddynt yswiriant ar gyfer cynorthwywyr di-dâl. Er hynny, ceir cryn nifer o wirfoddolwyr yng ngwasanaeth ieuenctid yr awdurdodau sy'n cyflawni swyddogaethau mor amrywiol â chynorthwywr cantîn a hyfforddwr/aseswr Gwobr Dug Caeredin. Mae parodrwydd oedolion i rannu eu medrau ag unigolion neu grwpiau bach yn y cynllun hwn neu gynlluniau gwobrau eraill yn amlygu'r amgylchiadau y mae angen eu creu os yw gwirfoddolwyr i deimlo'n gyffyrddus ac yn barod i helpu. Posibiliadau eraill ar gyfer datblygu yw defnyddio rhagor ar oedolion di-gymhwyster ac aelodau hŷn i

weithio gyda'r staff mewn gweithgareddau hyfforddi, a gwahodd oedolion â medrau neu hobïau i gyflwyno sesiynau arddangos unigol.

7.1.38 Fe ddigwydd hyn i raddau helaeth iawn yn y sector gwirfoddol lle caiff nifer helaeth iawn o unedau eu staffio'n gyfan gwbl gan wirfoddolwyr — eu hymroddiad hwy yw prif gynhaliaeth eu mudiad (gweler Tabl 34). Ond caiff unedau gwirfoddol anhawster wrth ddenu cymorth ac mae angen gofal wrth gyfarwyddo newydd-ddyfodiaid a rhoi iddynt dasgau priodol i'w cyflawni. Clywyd am nifer o achosion lle llethwyd darpar-gynorthwywyr gan yr hyn y gofynnid iddynt ei wneud a lle gwrthodasant ddal ymlaen â'r gwaith. Nid yw'n anarferol ychwaith i wirfoddolwyr deimlo bod angen rhagor o hyfforddiant arnynt.

7.1.39 Nid yw mudiadau gwirfoddol yn ddall i'r materion hyn, a chafwyd nifer o gynlluniau. Mae Cynllun Datblygu Geidiau Cymru yn ymgymryd â hameisio gwirfoddolwyr ac yn bwriadu cynyddu'r mathau o gyrsiau a gynigir, a'u nifer, pan benodir swyddog hyfforddi amser-llawn. Dangosodd y cynllun hefyd sut y gall cymorth rhan-amser i swyddog amser-llawn gynyddu effeithiolrwydd y gwaith.

**Profiad, Cymwysterau, Amodau Gwasanaeth a Lleoliad**

7.1.40 Ceir gwahaniaeth barn rhwng y sectorau statudol a gwirfoddol ynglŷn â'r cymwysterau a'r profiad y tybir eu bod yn briodol ar gyfer penodiadau amser-llawn. Disgwylir i swyddogion yr awdurdodau gael cefndir gwaith ieuenctid neu ddysgu, tra penodir swyddogion mewn mudiadau gwirfoddol yn fwy aml ar sail eu perfformiad a'u hyfforddiant yn y mudiad hwnnw neu, ambell waith, mewn mudiad arall. Caiff cymwysterau academaidd a rhai eraill eu hystyried ond nid ydynt o reidrwydd o'r pwys pennaf. Yn wir, rhydd Cymdeithas Cymru'r Clybiau Ieuenctid a Mudiad y Ffermwyr Ifanc fwy o bwys ar feysydd arbennig o wybodaeth ac ar y medrau a'r agweddau y chwiliant amdanynt. Canlyniad hyn yw cael swyddogion o gefndir amrywiol, gan gynnwys cryn amser mewn diwydiant neu fasnach (Tabl 36).

7.1.41 Bod yn arweinydd ieuenctid cymwysedig neu'n athro cymwysedig yw'r cymhwyster y mae rhaid i ymgeiswyr wrtho ar gyfer mwyafrif y swyddi amser-llawn. Dengys Tabl 35 fod holl gorff y staff amser-llawn yn cynnwys 20 y cant o arweinwyr cymwysedig a 68 y cant o athrawon cymwysedig, ac mae'n debyg bod y nifer sydd â phrofiad o fathau eraill o waith yn amlygu gofynion myfyrwyr aeddfed y cyrff hyfforddi cychwynnol ar gyfer y Diploma mewn Gwaith Ieuenctid a Chymuned. Cyfyngir swyddi mewn dau awdurdod i'r rhai â statws athro cydnabyddedig, a'r canlyniad yw corff o staff sy'n cynnwys, bron yn llwyr, swyddogion a ddaeth yn uniongyrchol o fyd dysgu, gyda neu heb brofiad neu hyfforddiant gwaith ieuenctid rhan-amser. Mae'n bosibl y byddai gwasanaethau awdurdodau unigol ar eu hennill o gael cymysgedd mwy cytbwys o gefndir i'w timau amser-llawn.

7.1.42 Mae gofyn i holl weithwyr amser-llawn yr awdurdodau gyflawni dyletswyddau gyda'r hwyr heb fod dros saith neu wyth bob pythefnos, ond amrywia'r amodau gwasanaeth yn ôl eu swyddogaeth. Mae'r gwahaniaethau mawr o ran baich y gwaith yn peri pryder, yn enwedig lle gostyngwyd tymor y gwasanaeth yn swyddogol i gyn lleied â 24 wythnos y flwyddyn, neu lle na werthfawrogir yn llawn fantais cael dirprwy amser-llawn. Mae'n bosibl y gellid defnyddio amser yn fwy effeithiol pe na chlymid y staff mor dynn wrth adeiladau a phe na baent mor gyfarwydd â sesiynau boreol a chyda'r hwyr yn unig. O gael rhagor o hyblygrwydd, gellid dileu rhai o'r cyfyngiadau presennol ar ddatblygu rhaglenni yn ystod y dydd.

7.1.43 Dengys Tablau 35 a 36 wasanaeth hirfaith llawer o'r staff amser-llawn (nid yw 10 mlynedd a mwy yn anarferol) ac amlygant broblem fframweithiau gyrfa. Gwelir hyn ledled y byd gwaith ieuenctid gan nad oes i'r hierarchaeth, lle ceir un, ond ychydig o lefelau, hyd yn oed lle ceir lefel arweinydd hŷn neu drefnydd ardal, a chan nad yw pob gweithiwr ieuenctid am fod yn swyddog. Eto, mae'n fater o bwys yng Nghymru. Nifer cymharol fach (22 y cant at ei gilydd) sydd â phrofiad y tu allan i Gymru. Ychydig a ddymunai ystyried y posibilrwydd o geisio dyrchafiad y tu allan i'w hardal ac ychydig, i bob golwg, sy'n credu ei bod yn bosibl symud o'r sector statudol i'r sector gwirfoddol, nac fel arall. Mae'r sefyllfa statig hon yn anodd i unigolion a chyflogwyr; ceir cyn lleied o newid yn y staff nes nad yw'r gwasanaeth yn elwa ar yr ysgogiad achlysurol o gael rhywun ato o'r tu allan. Ceir mwy o newid ymhlith staff yn y mudiadau gwirfoddol, yn arbennig ar lefel swyddog maes lle mae'r staff, oherwydd eu profiad blaenorol, fel petaent yn symud ymlaen yn rhwydd i alwedigaethau cysylltiedig neu i waith cwbl wahanol.

7.1.44 Ar gyfer rhai swyddi cyflogedig rhan-amser, mae Gwent a Morgannwg Ganol yn gofyn cymwysterau ymlaen llaw, gan gynnwys rhai a sicrhawyd trwy eu cynlluniau hyfforddi eu hunain. Mae De Morgannwg yn disgwyl i ymgeiswyr fod wedi cael hyfforddiant neu fod wedi cofrestru cyn y penodiad. Amod derbyn yng Nghlwyd a Morgannwg Ganol yw cyfranogi mewn hyfforddiant ac mae Gwynedd — sy'n cysylltu taliadau â hyffordiant — a Phowys yn cymell cofrestru. Eto, ar wahân i'r cymwysterau a fynnir ar gyfer gweithgareddau arbennig, nid yw llawer o'r awdurdodau yn mynnu cymwysterau penodedig, ond yn canolbwyntio ar ddod o hyd i bobl â'r gallu i gysylltu â phobl ifanc.

7.1.45 Caiff swyddogion eu recriwtio, fel arfer, trwy gyfeiriadau pobl atynt, cylchlythyr ysgol neu hysbyseb papur newydd ac, yn achos hyfforddwyr, trwy gofrestr sirol neu'r clybiau arbenigol lleol sydd, ym mhrofiad rhai gweithwyr amser-llawn, yn fannau lle ceir cyngor buddiol. Gall absenoldeb cyfarwyddyd o'r math hwn arwain at ddibynnu ar hyfforddwyr sydd heb y cymhwysedd angenrheidiol.

7.1.46 Ceir eto gyfran helaeth o athrawon ymysg y gweithwyr rhan-amser (60 y cant yn genedlaethol ac yn amrywio o 30 y cant mewn rhai awdurdodau i 75 y cant mewn eraill). Caiff rhai awdurdodau anhawster wrth gael dynion i wasanaethu ac mae rhai, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, yn aml yn gorfod wynebu naill ai penodi rhywun o addasrwydd cymedrol neu gau'r clwb. Awgryma'r tueddiadau a'r anawsterau hyn y gallai fod yn fuddiol adolygu'r trefniadau er mwyn ysgogi ymwybyddiaeth o waith ieuenctid — a diddordeb ynddo — ymysg pobl yn ardal pob clwb. Mae un tîm gwaith ieuenctid rhan-amser, er enghraifft, yn cynnwys clerc, cynorthwy-ydd siop, gwraig tŷ, nyrs, athro a gwerthwr, sydd oll yn byw yn y gymdogaeth ac yn meddu, i bob golwg, ar lu o fanteision dros gymudwyr o ran datblygu perthynas â phobl a sicrhau hyder y gymuned.

7.1.47 Yn wreiddiol, fe seilid tâl y staff rhan-amser ar raddfeydd cenedlaethol ond, o wynebu gostyngiadau yn eu cyllideb a cheisio diogelu'r lefelau staffio rhan-amser, bu i fwyafrif yr awdurdodau rewi'r cyfraddau tâl, gohirio codiadau neu roi codiadau bach yn unig. Ad-drefnodd dau ohonynt eu sylfeini tâl er mwyn cael cyfraddau is, ac un yn unig ar hyn o bryd sy'n dilyn yr argymhellion cenedlaethol. Canlyniad hyn yw cryn wahaniaeth yn nhâl y gwahanol raddfeydd ledled Cymru.[16]

---

[16] Mae cyfraddau 1982/83 yn amrywio rhwng £4.78 a £9.37 yr awr i arweinwyr â gofal; £4.44 a £6.60 yr awr i ddirprwyon; £4.10 a £7.21 i gynorthwywyr a £3.87 a £7.21 i hyfforddwyr.

7.1.48 Hwyrach y byddai'n fanteisiol cyflwyno dulliau mwy hyblyg o drafod dyraniadau staff rhan-amser. Er enghraifft, byddai byrhau tymor penodiadau hyfforddwyr yn ychwanegu at amrywiaeth y rhaglen, a byddai contractau cyfyngedig ar gyfer gweithwyr rhan-amser eraill yn helpu i sicrhau cydbwysedd priodol o ran oedran, profiad, parhad ac amrywiaeth o fewn tîm unigol. Mae angen i awdurdodau lle mae presenoldeb yn amod wrth benodi hyfforddwyr fod yn siŵr nad ydynt yn llethu gweithgareddau a allai flaguro ar ôl penodi.

7.1.49 Ar bob lefel yn y maes amser-llawn (Tablau 35 a 36) mae merched yn lleiafrif sylweddol: swyddogion (statudol) 4 y cant; swyddogion (gwirfoddol) 27 y cant; gweithwyr amser-llawn 11 y cant; staff gwirfoddol yn gyffredinol, 25 y cant; staff statudol yn gyffredinol, 11 y cant. Mae'r rhesymau cymdeithasol ac economaidd dros y sefyllfa hon yn ddigon hysbys a dealladwy, ond mae angen sylwi hefyd y cyflogir merched yn aml fel dirprwyon yn hytrach nag fel arweinwyr â gofal. Mae trefn y sector gwirfoddol fod profiad hyfforddedig yn y mudiad yn cyfrif tuag at ddyrchafiad yn galluogi rhagor o ferched i sicrhau swyddi ac, yn wir, i symud o fod yn aelod i fod yn arweinydd gwirfoddol ac yna'n weithiwr cyflogedig. Mae absenoldeb cyfyngiadau cymhwyster hefyd yn golygu mai merched yw 42 y cant o staff cyflogedig rhan-amser presennol y gwasanaeth — a chanran llawer uwch ymysg staff gwirfoddol. Arwyddocâd tebygol y canrannau hyn yw eu bod yn galluogi pobl ifanc o'r ddau ryw i elwa ar amrywiaeth helaethach o berthnasau ag oedolion ac ar gysylltiadau ag ystod ehangach o fedrau arwain nag a wneid fel arall. Eto, mae'r diffyg cydbwysedd gwryw/benyw ymysg y staff amser-llawn yn fater y dylid, er lles y gwasanaeth, fynd i'r afael ag ef, hyd yn oed os yw'r achosion wedi gwreiddio'n ddwfn a'u bod yn anodd eu cywiro.

## 7.2 Datblygu'r Staff

7.2.1 Ceir cytundeb, i bob golwg, ynghylch diben hyfforddi yn y gwasanaeth ieuenctid. Ym marn yr awdurdodau a'r mudiadau gwirfoddol mae'n ymwneud yn bennaf â helpu'r rhai sy'n gweithio gyda phobl ifanc i baratoi ar gyfer eu swyddogaethau, i ddiweddaru a helaethu eu gwybodaeth a'u medrau proffesiynol, ac i ddeall anghenion eu cleientau yn well. Fe â ambell ddogfen bolisi ymhellach gan sôn, ymhlith pethau eraill, am helpu gweithwyr ieuenctid i bennu eu hamcanion, sefydlu a gweithredu rhaglenni a systemau rheoli priodol, a datblygu ffyrdd o gloriannu. Mae gan rai cyrff gwirfoddol, yn enwedig y Geidiau, y Sgowtiaid a Mudiad y Ffermwyr Ifanc, bolisïau, prosesau a llawlyfrau celfydd eu datblygiad sy'n darparu fframwaith ac yn cynnig canllawiau ar gyfer hyfforddiant ar bob lefel yn y mudiad. Llai clir eu diffiniad yw bwriadau mudiadau gwirfoddol eraill a llawer o ddarparwyr statudol.

7.2.2 Rhydd y ddau sector flaenoriaeth i hyfforddi gweithwyr ieuenctid rhan-amser. Fel arfer, caiff newydd-ddyfodiaid rhan-amser i waith yr awdurdodau eu cyflwyno i'w swyddogaethau'n anffurfiol ond, yn Ne, Canol a Gorllewin Morgannwg yn arbennig, gallant gael elfennau o hyfforddiant sefydlu mewn cyrsiau rhagarweiniol. Mae Morgannwg Ganol hefyd yn darparu taflen i helpu'r rhai sydd â chefndir proffesiynol gwahanol i ymgyfarwyddo â dulliau gwaith ieuenctid. Mae'r trefniadau mewn rhai mudiadau gwirfoddol yn rhoi mwy o bwyslais ar brosesau: nid yn unig y ceir gwybodaeth ysgrifenedig helaeth ond, er enghraifft, bydd darpar-Geidwyr yn treulio chwe wythnos gyda chwmni arall, ac mae sawl un o'r Clybiau Gateway presennol yn ymwneud â hyfforddi arweinwyr i fynd yn gyfrifol am glybiau newydd.

7.2.3 Mae hyfforddiant Rhan I[17] ar gyfer gweithwyr ieuenctid rhan-amser, gan gynnwys gwirfoddolwyr, ar gael ym mwyafrif yr awdurdodau, er bod rhai trefniadau wedi'u diddymu dros dro. Mae mwyafrif y cyrsiau hyn yn rhychwantu cyfnod o chwe mis (o gyfarfodydd gyda'r hwyr, penwythnosau preswyl), sesiynau dydd a lleoliadau gwaith ymarferol) ac fel arfer yn cynnwys gwybodaeth am y gwasanaeth ieuenctid, astudio adolesens, cyflwyniad i waith grŵp, ystyried swyddogaethau a phroblemau arwain, ac archwilio a thrafod materion sy'n wynebu pobl ifanc. Ceir nifer dda ar fwyafrif y cyrsiau. Er bod rhai awdurdodau'n mynnu bod ymgeiswyr yn mynychu'r cyrsiau hyn, mae dwys angen mewn eraill i ystyried sut y gellir annog staff cyflogedig rhan-amser sydd heb gymwysterau gwaith ieuenctid na hyfforddiant blaenorol i gofrestru. Ac weithiau, i bob golwg, fe fethir â sylwi ar anghenion hyfforddiant y gweithwyr ieuenctid a benodwyd o dan gynlluniau'r Comisiwn Gwasanaethau Gweithwyr a'r cynlluniau Cymorth Trefol.

7.2.4 Er bod y sector gwirfoddol yn wynebu anawsterau tebyg, mae'r gyfundrefn a sefydlwyd yn y mudiadau sydd â gwisgoedd swyddogol yn eu helpu i'w gosod mewn sefyllfa gref i sicrhau ymwneud eu staff gwirfoddol â hyfforddiant rhagarweiniol. Hefyd, fe ddigwydd fod ambell aelod o staff y rhain a grwpiau gwirfoddol eraill yn mynychu cyrsiau'r awdurdodau addysg.

7.2.5 Y tu hwnt i Ran I, mae tuedd i'r hyn a gynigir gan awdurdodau addysg i weithwyr rhan-amser fod yn dameidiog, ond mae ei amrywiaeth yn cynyddu. O dro i dro, mae gan Glwyd, Gwent, Gwynedd a Phowys fodwlau sy'n astudio meysydd dysgu o Ran I yn fanylach. Cwblheir hyn, yng Nghlwyd, gan gynadleddau bob yn eilflwydd sy'n trafod materion cyfredol ac, mewn pum awdurdod addysg, gan y cyfle i gymryd rhan mewn sesiynau arbenigol megis arweinyddiaeth mynydd, medrau creadigol neu gemau bach. Fel arfer, mae Gorllewin Morgannwg yn trefnu penwythnos neu ddau yn flynyddol pan fydd staff profiadol yn trafod themâu a'u goblygiadau o ran gweithredu. Mae Morgannwg Ganol hefyd yn trefnu, i staff sy'n ymgymryd ag amryw o swyddogaethau rhan-amser, gyfres o gyrsiau estyn sy'n canolbwyntio ar ddisgrifiadau o swyddi ac elfennau arbennig mewn gwaith ieuenctid. Ar wahân i hynny, anaml y gwelir, yn y sector statudol, gydnabod yr amrywiol fedrau a fynnir oddi wrth weithwyr ieuenctid. Eto, fe'u cydnabyddir yn bur helaeth ymhlith mudiadau gwirfoddol. Er enghraifft, mae'r hyfforddiant i arweinwyr yn y Clybiau Gateway yn gwahaniaethu rhwng y rhai sydd â gofal a chynorthwywyr eraill er mwyn dadansoddi agweddau ar y swyddogaeth gyfan, gan gynnwys harneisio cefnogaeth a dwysáu ymwybyddiaeth y gymuned.

7.2.6 Mae De Morgannwg a Gwynedd yn arbrofi gyda hyfforddi unedau sy'n galluogi staff clwb neu ganolfan i gael hyfforddiant fel grŵp, gan elwa ar arbenigedd o'r tu allan ond gan ganolbwyntio ar archwilio gwaith yr uned a datblygu strategaethau gweithredu. Oherwydd maes eu canolbwyntio, a chan fod y mentrau hyn yn ymwneud â thimau cyfan o staff, mae ganddynt y potensial i bontio'r bwlch sy'n datblygu mor aml rhwng hyfforddiant ac ymarfer.

7.2.7 Cynhelir nifer o gyrsiau er mwyn diweddaru gwybodaeth y staff. Weithiau, fel y digwyddodd yn ddiweddar yng Nghlybiau Bechgyn Cymru, eu bwriad yw

17 Fe seilir y cyrsiau hyn yn bennaf ar y cynllun a awgrymwyd gan Adroddiad Bessey (1962) a'u nod yn gyffredinol yw: gwella dealltwriaeth o bobl ifanc ac o'u twf a'u datblygiad fel unigolion ac fel aelodau o'u cymuned; i helpu myfyrwyr i ddysgu'r medrau i weithio gyda phobl ifanc; ac i gynyddu gwerthfawrogiad y myfyrwyr ohonynt eu hunain ac o'u potensial. Fel arfer, caiff y cymhwyster a geir trwy gwblhau'r cyrsiau'n llwyddiannus ei gydnabod gan awdurdodau addysg eraill.

datblygu arbenigedd cyffredinol mewn arweinyddiaeth. Yn amlach, maent yn ymateb i geisiadau am gyfnewid syniadau (er enghraifft, datblygiadau Cymdeithas Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol) i broblemau arbennig neu i'r angen i ymgyfarwyddo â meysydd newydd gwaith ieuenctid. Er y cynhwysir llawer o faterion amserol mewn cyrsiau eraill, gwneir trefniadau ar wahân gan rai cyrff gwirfoddol a rhai awdurdodau addysg. Bu i Forgannwg Ganol, er enghraifft, sefydlu'n ddiweddar ymarfer ymchwilio a datblygu tair-rhan ar ddiweithdra ac ymatebion posibl gan y gwasanaeth ieuenctid. Eto, cafwyd tuedd i ddibynnu ar gyrff allanol i gychwyn cyfraniadau megis y rhai ar ddiweithdra a gweithio gyda merched. Er y gall manteision pwysig ddeillio o'r cysylltiadau hyn â rhwydweithiau cenedlaethol ac arbenigedd cynyddol unedau o'r Swyddfa Ieuenctid Genedlaethol a Chymdeithas Genedlaethol y Clybiau Ieuenctid, mae perygl i'w diwrnodau hyfforddi unigol gyrraedd rhy ychydig o weithwyr a pharhau'n brofiadau ar eu pen eu hunain na throsglwyddir mohonynt i gyd-weithwyr ac na throsir mohonynt yn arferion.

7.2.8 Nod tri awdurdod addysg yw sicrhau arweinyddiaeth y gwasanaeth yn y dyfodol trwy gyfrwng eu cynlluniau arweinyddiaeth iau, ac mae pedwar yn rhedeg penwythnosau medrau, topigau a phenderfynu ar gyfer aelodau hŷn. Mae nifer o gyrff gwirfoddol (gweler Tabl 38) yn arbenigo ar ddarparu cyrsiau aelodau hŷn/arweinwyr ifanc — rhydd rhai ohonynt gyfle i drafod materion trwy ddulliau sy'n seiliedig ar brofiad, tra bo eraill wedi'u cyfeirio'n fwy penodol at waith o fewn y mudiad.

7.2.9 Er bod llawer o'r ddarpariaeth uchod yn gallu cynnwys — ac yn cynnwys — gweithwyr ieuenctid amser-llawn, ni ddarperir cystal ar eu cyfer ag ar gyfer eu cyd-weithwyr rhan-amser. Ar wahân i weithwyr ar brawf, y gwneir y trefniadau angenrheidiol ar eu cyfer gydag amrywiol raddau o ddiwydrwydd, bydd mwyafrif y darparwyr yn gadael i'w staff gymryd eu siawns o ran prosesau sefydlu neu'n cyflwyno gwybodaeth sylfaenol iddynt yn unig. A'r un yw'r drefn hyd yn oed pan nad oes gan y sawl a benodir unrhyw gefndir na hyfforddiant cychwynnol mewn gwaith ieuenctid. Cymharol brin yw'r cyfle i gael hyfforddiant mewn-swydd. Mae gan Forgannwg Ganol a De Morgannwg gynhadledd hyfforddi flynyddol; bydd staff y YMCA yn cyfarfod rhyw unwaith y mis ar gyfer hyfforddiant a materion eraill; gall staff Gwent gofrestru ar gyfer astudio'n rhan-amser am ddwy flynedd ar gyfer y Diploma mewn Addysg Uwch (Addysg Oedolion, Hamdden a Datblygu'r Gymuned); ac mae De Morgannwg yn cynnig cyrsiau cyfun i weithwyr ieuenctid, gweithwyr oedolion a gweithwyr cymuned mewn medrau cyffredinol a medrau rheoli. Afreolaidd yw cyrsiau eraill ac fe gyfyngwyd yn ddifrifol, yn ddiweddar, ar y cyfle i staff amser-llawn fynychu cyrsiau y tu allan i'r sir, neu i gael eu rhyddhau. Hwyrach am mai ychydig a gafodd y cyfle i fynychu cyrsiau a drefnwyd yn allanol, ac sy'n gysylltiedig â'u prif gyfrifoldebau, mae nifer o staff amser-llawn yn ceisio sicrhau cymwysterau pellach trwy weithgareddau penodol.

7.2.10 Eto, caiff mwyafrif y staff eu cyflwyno i lawer profiad dysgu adeiladol yn eu gwaith — trwy fynychu cyfarfodydd, trafod gyda chyd-weithwyr, ymweliadau ymgynghorol, cyrsiau tiwtora, cyflwyno gwybodaeth i staff eraill, er enghraifft. (Marciwyd y math hwn o waith â (✓) yn y tablau.) Yn wir, mae rhai swyddogion yn dechrau defnyddio cyfarfodydd eu staff neu gyfarfodydd cymdeithas yr ardal yn fwy ar gyfer sesiynau hyfforddi nag ar gyfer gweinyddu.

7.2.11 Eto, at ei gilydd, canlyniad y pwyslais ar gyrsiau fu i lawer awdurdod addysg a mudiad gwirfoddol fethu â sylwi ar bwysigrwydd cyfryngau eraill ar gyfer hyfforddi a datblygu staff. Mae llawer o'r cysylltiadau rhwng swyddogion

ieuenctid a gweithwyr ieuenctid, neu rhwng arweinwyr â gofal a'u staff, yn cynnwys elfennau o oruchwylio, ond er bod rhai staff yn dechrau ymglywed â'r angen a'r posibilrwydd, ni cheir unrhyw dystiolaeth ar hyn o bryd o ddatblygu goruchwyliaeth reolaethol i helpu staff i ffynnu nac i helpu'r gwasanaeth i ddefnyddio'i adnoddau mwyaf gwerthfawr hyd yr eithaf. Yn wir, er i rai mudiadau gwirfoddol symud i'r cyfeiriad hwnnw, nid yw awdurdodau addysg eto wedi datblygu fframwaith a threfniadaeth gydlynus ar gyfer datblygu'r staff. O wylio'r arferion, fe awgrymir bod dwys angen ystyried sicrhau bod goruchwylio reolaethol a chyfleoedd hyfforddi yn chwarae rhan unedig mewn datblygu medrau a gwella perfformiad. Dengys enghreifftiau o arferion da y gall y gwasanaeth symud ymlaen gryn lawer pan gynorthwyir y staff, trwy'r dulliau hyn, i ddeall ac i roi blaenoriaeth i'r agweddau proffesiynol ar eu swyddogaethau.

7.2.12 Ochr yn ochr â'r datblygiad hwnnw y mae helaethu'r cyfleoedd i swyddogion. Mae eu hanghenion o ran hyfforddiant, adeg eu penodi a thrwy gydol eu cyfnod yn eu swyddi, o'r pwys pennaf os ydynt i helaethu eu medrau rheoli, i ddylanwadu mwy ar bolisïau ac i weithredu strategaethau datblygu'r staff. Ceir rhai agoriadau yn y sector gwirfoddol, ond i'r mwyafrif mae'r hyn a gynigir yn gyfyngedig i Gyrsiau Byr y Swyddfa Gymreig ac i'r grwpiau trafod a gododd ohonynt ac a gyfarfu i archwilio i faterion fel cloriannu perfformiad, rheolaeth, delwedd gyhoeddus/cysylltiadau cyhoeddus, datblygiadau gyda'r ifanc di-waith a gwaith ieuenctid gwledig. Eto, ceir adegau, trwy gyd-ddigwyddiad, pan fo'r trefniadau ar gyfer staff amser-llawn eraill yn cyd-fynd â gofynion swyddogion ym meysydd defnyddio a rheoli'r staff.

7.2.13 Gall cyflwyno cyfraniadau medrau-ganolog yn drefnus, lle bo anghenion y swyddogion a'r gweithiwr ieuenctid yn cyd-fynd, fod yn arwyddocaol o ran trefniadaeth yn ogystal ag o ran datblygiad yr unigolyn ac mae'n bosibl ei fod yn un ffordd o gynyddu hyfforddiant swyddogion ar lefel fwy lleol. Ffordd arall, o bosibl, fyddai sicrhau cysylltiad agosach rhwng y swyddogion a'r cyrsiau a redir o dan eu hadain er mwyn iddynt allu canfod yn haws feysydd ar gyfer gwaith ategol yn ystod eu gwaith ymgynghorol beunyddiol. Byddai hyn hefyd yn helpu i leddfu'r teimlad a fynegwyd gan lawer gweithiwr fod eu profiadau hyfforddi fel petaent yn bodoli mewn gwagle.

7.2.14 Mae'n werth sylwi mai'r awdurdodau addysg sydd â'r amrywiaeth helaethaf o ddarpariaeth hyfforddi yw'r rheiny lle mae un swyddog yn gyfrifol am y gwaith neu lle mae pwyllgor neu weithgor yn ymddiddori ynddo. Yn y sector gwirfoddol, mae'r penodiadau arbenigol presennol neu'r rhai sydd ar y gweill, y lle a roir i hyfforddi yn y disgrifiadau o swyddi swyddogion maes, a nifer y pwyllgorau hyfforddi yn dystiolaeth o'r flaenoriaeth a roir i ddatblygu'r staff.

7.2.15 Ceisiodd sawl awdurdod addysg gymorth cyrff hyfforddi eraill. Cynllunir cwrs Gwynedd/Powys gan gonsortiwm ac fe'i gweinyddir gan Gyfadran Addysg Coleg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor. Bydd awdurdodau eraill yn defnyddio staff o'u sefydliadau addysg bellach lleol. Eto, fe ellid sicrhau bod y cysylltiadau'n fwy trefnus, yn enwedig pan fo'r coleg dan sylw yn gorff hyfforddi cychwynnol ar gyfer gwaith ieuenctid. Daw hyfforddwyr eraill yn bennaf o gefndir gwaith ieuenctid neu gefndir dysgu ac mae llawer ohonynt yn weithwyr rhan-amser neu amser-llawn. O gofio ystod yr arbenigedd sy'n ofynnol ganddynt, gresyn na fu ond un cyfle i 'hyfforddi'r hyfforddwyr' yn ddiweddar.

7.2.16 Bydd staff o'r naill sector yn mynychu cyrsiau a redir gan y llall ond, hyd yn oed yn yr awdurdodau sydd â thimau cyd-gysylltu statudol-gwirfoddol, ni cheir fawr o

dystiolaeth o ganfod maes cyffredin ar gyfer hyfforddiant nac o geisio cyd-gynllunio. Yn yr un modd, er bod gweithwyr ieuenctid yn ymwneud cryn dipyn â chyrsiau a redir gan wasanaethau cysylltiedig, y duedd fu i fentrau datblygu staff rhwng y gwahanol gyrff gael eu cyfyngu i ystyried materion penodol, megis Triniaeth Ganolraddol.

7.2.17 Ar adeg pan fo anghenion yn cyflym newid a phan fo gofyn i lawer o staff ymgymryd â swyddogaethau gwahanol a chymryd cyfrifoldebau ychwanegol, fe ellid dadlau bod hyfforddiant yn bwysicach byth. Yn anffodus, fe gwtogwyd cymaint ar y rhaglen mewn rhai awdurdodau nes bod llawer o'r ddarpariaeth bresennol yn brin o amrywiaeth, hyblygrwydd a rheoleidd-dra ac nad ydyw, bellach, yn gymesur ag amcanion yr awdurdodau. Enghraifft benodol yw sir wledig fawr lle gallai cyrsiau gyfrannu at leddfu unigrwydd y gweithwyr ieuenctid trwy roi iddynt gysylltiadau a chymorth, ond lle na chafwyd unrhyw hyfforddiant i weithwyr ieuenctid ers 1976. Mewn mannau eraill, cwtogwyd ar elfennau a gynhwysai'r cymhwyster preswyl, a chynyddwyd y taliadau neu fe ostyngwyd y grantiau. Mae hyn yn ei dro wedi amharu ar yr hyn y gall mudiadau gwirfoddol ei wneud.

7.2.18 Mae'r wybodaeth a gafwyd ar gyfleoedd hyfforddi a threfniadau datblygu'r staff yn codi cwestiynau ynghylch amcanion, a'u perthynas â'r swyddogaethau a gyflawnwyd; ynghylch sut mae pennu cynnwys, pwyslais a dilyniant, a sut y penderfynir ar fethodoleg; ynghylch lefelau, amlder a dilyniant priodol, ynghylch trefniadau recriwtio a dewis; ynghylch trosgwyddo i'r maes ymarferol yr hyn a ddysgwyd ar gyrsiau, ac ynghylch dewis, paratoi a rhoi cymorth i diwtoriaid. Mae arolwg gan Arolygwyr Ei Mawrhydi o gyfleoedd hyfforddi a chyfleoedd datblygu staff o dan nawdd yr awdurdodau addysg[18] wrthi'n ystyried y materion hyn.

[18] Bydd yr ymarfer hwn yn cynnwys asesu gwaith Sefydliad Addysg Uwch Gogledd Ddwyrain Cymru mewn hyfforddi cychwynnol a chyfraniad y sefydliad hwnnw a sefydliadau addysg uwch eraill at hyfforddiant-mewn-swydd.

# Rhan III

## 8. CYD-DESTUNAU A NODWEDDION GWAITH IEUENCTID

8.1 Fe ddigwydd gwaith ieuenctid mewn amrywiaeth o gyd-destunau ac mae rhestru'r rhain a phrif nodweddion y gwasanaeth ieuenctid yn gefndir hanfodol i ddisgrifio a thrafod arferion.

8.2 Y clybiau lleol, sydd naill ai'n aml-bwrpas neu'n pwysleisio set arbennig o weithgareddau, yw'r mwyaf niferus (tua 3,600). Mudiadau gwirfoddol yw'r mwyafrif, gyda rhyw 900 yn gweithredu o dan nawdd Eglwys, tua 1,550 (er enghraifft Clybiau'r Ffermwyr Ieuainc, Clybiau'r Bechgyn, y Clybiau Gateway ac Aelwydydd yr Urdd) mewn ffederasiwn, a thros 200 yn rhedeg yn annibynnol ond wedi'u cysylltu â chymdeithas megis Cymdeithas Gymreig y Clybiau Ieuenctid. Perthyn i gategori'r clybiau hefyd wna mwyafrif y 501 o fudiadau ieuenctid yr awdurdodau addysg.

8.3 Mae i unedau â gwisg swyddogol, gan gynnwys 1,531 o Gwmnïau Geidiau, 527 o Grwpiau Sgowtiaid a 125 o Frigadau Eglwys, le blaenllaw hefyd. Grwpiau un-rhyw yw'r rhain yn bennaf, gyda darpariaeth ar gyfer gwahanol fandiau oedran, sydd, gydag amrywiadau lleol, yn llunio'u rhaglenni o gwmpas cynlluniau hyfforddi eu prif fudiad. Set arall o grwpiau â gwisg swyddogol yw'r 250 o unedau cyn-Wasanaethau sy'n canolbwyntio ar weithgareddau'n ymwneud â gwaith y lluoedd arfog.

8.4 Ceir hefyd nifer o fudiadau pob-oed sy'n gwneud darpariaeth arbennig ar gyfer pobl ifanc. Yn ychwanegol at y clybiau a'r brigadau 'agored' uchod, mae gan rai eglwysi, er enghraifft, gymdeithasau sy'n canolbwyntio ar faterion ysbrydol a chrefyddol. Gwneir darpariaeth gan ryw 500 o unedau, gan gynnwys Ambiwlans St. John a'r Groes Goch Brydeinig, i hyfforddi cadetiaid ar gyfer y medrau y mae eu hangen wrth roi gwahanol ffurfiau ar wasanaeth.

8.5 Yn y sector gwirfoddol yn enwedig, cymerwyd camau i ddarparu ar gyfer gweithgareddau unigol trwy fudiadau megis y Clybiau Merlod a'r Bandiau Jazz Gorymdeithiol. Mae rhai canolfannau mwy, yn arbennig y YMCAs, yn llywio nifer o grwpiau un-gweithgarwch. Digwydd hyn i ryw raddau ar yr ochr statudol ond fe ddigwydd yn aml, naill ai o fwriad neu'n anfwriadol, fod canolfannau ieuenctid yn arbenigo ar rai gweithgareddau — chwaraeon neu ddrama er enghraifft. Sefydlodd un awdurdod addysg ganolfan gelfyddydau i ieuenctid i ddatblygu gwaith mewn agweddau ar gelfyddyd, drama a cherddoriaeth.

8.6 Cynlluniwyd sawl cyd-destun arall i waith ieuenctid er mwyn rhoi mwy o ehangder i'r profiadau a gynigir nag y gellir ei wneud mewn un uned. Mae un, Gwobr Dug Caeredin, yn gweithio trwy awdurdodau gweithredol (awdurdodau addysg, mudiadau gwirfoddol, diwydiant a'r heddlu, er enghraifft) mewn 'unedau

defnyddwyr', gan gynnwys grwpiau ieuenctid ac ysgolion sydd, yn eu tro, yn helpu pobl ifanc i sicrhau gwobr.

8.7 Mae mentrau eraill yn y meysydd statudol a gwirfoddol yn ategu gwaith yr unedau. Seilir llawer ohonynt ar gystadlu, ac fe gynhwysant ddigwyddiadau rhanbarthol a chenedlaethol, gwyliau, arddangosiadau ac eisteddfodau. Bydd sawl un ohonynt yn galluogi pobl ifanc i gymryd rhan fel unigolion neu grwpiau mewn ymweliadau a chyfnewidiadau tramor, gwasanaeth cymuned, gwaith theatr, a phrofiadau preswyl, gan gynnwys hyfforddiant aelodau hŷn ac addysg awyr agored.

8.8 Mae mwyafrif y cyfleoedd uchod ar gael, i raddau mwy neu raddau llai, ledled Cymru, ond llai cyffredin yw mathau eraill o ddarpariaeth. Ceir un cyngor pobl ifanc sy'n cynnwys cynrychiolwyr mudiadau ieuenctid y fro. Hyd cyfyngedig sydd i ambell gynllun, megis barau coffi a gweithio gyda'r rhai dros 16 oed, sy'n ymwneud â chylch helaethach o bobl ifanc nag aelodaeth arferol y clybiau. Yn aml, fe redir canolfannau ymweld dyddiol, sy'n gysylltiedig â diweithdra cynyddol ac a fu'n cynyddu o ran nifer yn ddiweddar, mewn ffordd debyg ac fel arfer fe bwysleisiant yr agweddau cynghori a dimensiynau gwasanaeth ymholiadau gwaith ieuenctid.

8.9 Ceir ambell enghraifft brin o waith ymestyn gan weithwyr datgysylltiedig, staff rhai canolfannau ymweld neu weithwyr ieuenctid, er mwyn cysylltu â phobl ifanc na ddenir mohonynt gan ddarpariaeth mewn adeiladau. Ceir hefyd waith gyda phobl ifanc mewn diwydiant a grwpiau hunan-gynorthwyo a hybir gan 'bresenoldeb oedolion'. Eto, bu i ganolfan wirfoddol cynghori ieuenctid, a geisiodd wneud ei gorau glas heb fan canolog addas ac a fethodd â denu cleientau, roi'r gorau i'w gweithgareddau yn ystod cyfnod yr arolwg.

8.10 Amrywiaeth o ran pwyslais, arddull, cwmpas, lleoliad a maint yw un o brif gryfderau'r gwasanaeth ieuenctid, gan y gall gynnig cyfle i ddewis o blith yr amryfal ffurfiau. Er gwaethaf yr amrywiaeth hon, ceir agweddau cynhenid ar ddarpariaeth y gwasanaeth ieuenctid sy'n nodweddu ei gyfraniad i addysg bersonol a chymdeithasol. Nodweddir maes gwaith ieuenctid, yn arbennig, gan ymwneud gwirfoddol pobl ifanc, perthynas gynhalgar ag oedolion, dysgu trwy wneud ac, fel arfer, trwy ddull person-ganolog. Gan mai'r prif nod ran amlaf, yn ffurfiol neu'n anffurfiol, yw twf personol a chymdeithasol pobl ifanc, gellir disgrifio'r hyn a ddigwydd yn gwbl briodol fel proses. Dibynna effeithiolrwydd y broses hon yn gyntaf ar rwydwaith o berthnasau ymhlith y bobl ifanc a rhyngddynt a'r gweithwyr o oedolion, ac yn ail ar ystod y profiadau dysgu. Cyfyd rhai o'r rhain yn naturiol, sicrheir sawl un ohonynt trwy weithgareddau eraill, ac fe weithir yn fwriadus i greu eraill. Ar y llaw arall, i'r mwyafrif o bobl ifanc, hanfod darpariaeth y gwasanaeth ieuenctid yw ei fod yn cynnig lle i fynd iddo, rhywle i gyfarfod cyfeillion ac i gymdeithasu, ymlacio a mwynhau, rhywbeth i berthyn iddo, a'r cyfle i wneud pethau na fyddent yn bosibl fel arall.

## 9. AELODAETH

9.1 Fel y dangosir yn Nhabl 39, fe restrwyd tua 47,000 o bobl ifanc yn yr ystod oedran 13-21 a 12,000 o dan 13 oed yn aelodau o ganolfannau a chlybiau awdurdodau addysg ym 1980/81. Dengys tystiolaeth y mudiadau gwirfoddol ar gyfer y flwyddyn flaenorol (Tabl 40) aelodaeth o ryw 278,000 o bobl ifanc, tua 102,860 (37 y cant) ohonynt o dan 14 oed, 169,580 (61 y cant) yn 14-21 oed a 5,560 (2 y cant) dros 21 oed. Y cyfanswm ar gyfer y mudiadau gwirfoddol a gynhwyswyd yn yr arolwg

oedd 226,902. Os gellir dibynnu ar yr ystadegau hyn, fe olygant fod rhyw ddwy ran o dair o bobl ifanc yn y grŵp oedran 13-dan 21 yng Nghymru mewn cysylltiad â'r gwasanaeth ieuenctid yn ystod y flwyddyn.

9.2 Ond rhaid bod yn ofalus ynghylch manylion yr aelodaeth. Bydd unedau'n gweithio ac yn cyflwyno'u ffigyrau mewn llawer ffordd. Bydd rhai'n cofnodi yn unig y rhai a dalodd danysgrifiad blynyddol neu danysgrifiad tymor, bydd eraill yn cyfrif pawb sy'n eu mynychu p'un a delir tâl nosweithiol ai peidio a ph'un a yw'r defnyddwyr yn rhai cyson neu achlysurol. Yn lle hynny, rhydd ambell un gyfartaledd o'r nifer sy'n bresennol bob nos — rhwng traean a dwy ran o dair o'r nifer ar y llyfrau, yn ôl amcangyfrif swyddogion ieuenctid — ac fe all canolfannau'r awdurdodau addysg gynnwys aelodau grwpiau cysylltiedig neu aelodau sesiynau gweithgareddau arbennig lled-annibynnol. Rhaid cofio hefyd mai unedau awdurdodau addysg yw tua hanner y mudiadau sy'n perthyn i Gymdeithas Gymreig y Clybiau Ieuenctid, bod Clybiau Bechgyn Cymru hefyd yn derbyn y rhain fel aelodau, ac nad yw ffigyrau Gwobr Dug Caeredin yn cymryd i ystyriaeth y 40 y cant (fe amcangyfrifir) o newydd-ddyfodiaid, yn enwedig ar y lefel efydd, sy'n gadael y cynllun cyn sicrhau gwobr. Ac o wylio'r sefyllfa, fe welir ledled y gwasanaeth fod yr union ffigyrau presenoldeb gryn lawer yn is na chyfanswm yr aelodaeth, a bod nifer dda, er na fesurwyd hynny, yn perthyn i fwy nag un mudiad. Er hynny, mae'r wybodaeth a ddarparwyd yn sylfaen i drafodaeth.

9.3 Ar bapur, cais yr awdurdodau addysg gynnig darpariaeth i'r holl bobl ifanc, gyda phwyslais ar y grŵp oedran 14-20 a pheth rhyddid gyda'r ymylon 11-13 ac 21-25. Ond, yn ymarferol, yr ystod oedran yw 13 i o dan 21, i bob golwg. Dengys Tabl 39 fod rhyw 13 y cant o'r grŵp oedran hwn wedi mynychu darpariaeth yr awdurdodau addysg ym 1980/81, a'r canrannau'n amrywio'n fawr rhwng 6.5 y cant a 19.5 y cant. Eto, nid yw'r ystodau oedran a nodwyd yn cyd-fynd â'r bobl ifanc sy'n defnyddio sefydliadau'r awdurdodau addysg. Mae mwyafrif yr aelodau rhwng 13 a 17 oed a'r mwyafrif yn 14/15 oed. Os mynegir y rhain fel canran o'u grŵp oedran, mae'r ystod rhwng 10.5 y cant ac 31.5 y cant.

9.4 Ceir llai o unffurfiaeth yn yr ystodau oedran y darperir ar eu cyfer gan y sector gwirfoddol. Er enghraifft, mae Mudiad y Ffermwyr Ifanc yn cynnwys pobl ifanc 10-26 oed, terfyn oedran uchaf yr Urdd yw 25 er bod mwyafrif yr unedau'n seiliedig ar ysgolion cynradd, bydd sgowtiaid a geidiau'n cofrestru yn saith oed, ac mae mwyafrif y Clybiau Gateway ar gyfer rhai dros 16 oed. Eto, mewn llawer mudiad, mae aelodau sydd o dan 14 oed yn y mwyafrif (er enghraifft 80 y cant o Geidiau a Brigâd y Bechgyn; 70 y cant o'r Sgowtiaid) neu'n lleiafrif sylweddol (er enghraifft tua 25-30 y cant o'r YMCA a Chymdeithas Gymreig y Clybiau Ieuenctid). Isel yw cyfran yr aelodau ar ben uchaf y raddfa; nid yw pobl ifanc dros 18 oed yn fwy na 10 y cant ym mwyafrif y mudiadau. Yr eithriad yw Mudiad y Ffermwyr Ifanc sydd â rhyw 20 y cant yn y categori hwn.

9.5 Bu gostyngiad yng nghyfartaledd oedran y bobl ifanc a ddaeth i gysylltiad â'r gwasanaethau ieuenctid statudol a gwirfoddol yn ystod y deng mlynedd diwethaf. Mae'r rhesymau a gynigir dros hyn a thros y gostyngiad mewn aelodaeth ar ôl 16 oed yn cynnwys aeddfedu cynharach, apêl gryfach y mannau mynychu mwy soffistigedig a gynigir yn fasnachol, a'r awydd neu'r angen i ymwneud â gweithgareddau eraill, boed gymdeithasol, addysgol, arbenigol, neu waith. Hefyd, caiff y grwpiau sydd â gwisgoedd swyddogol anhawster wrth oresgyn tuedd llawer o bobl ifanc i ymadael yn hytrach na symud ymlaen i'r cam nesaf. Ar y llaw arall, dywed nifer o awdurdodau ac unedau gwirfoddol y cafwyd cynnydd mewn aelodaeth yn ddiweddar, yn rhannol ymhlith y rhai yn y grŵp oedran 16+ sydd â mwy o amser hamdden ond sy'n cael bod y dewisiadau eraill yn rhy ddrud iddynt.

9.6 Er hynny, canlyniad y gostyngiad cyffredinol yn nifer yr aelodau hŷn, ynghyd â'r galw ymhlith y rhai o dan 13 oed, fu i staff yr awdurdodau addysg hefyd droi eu sylw at y grŵp oedran ifancach. Mae mwyafrif canolfannau amser-llawn yr awdurdodau addysg yn rhedeg clwb neu adran iau, ac mae gan rai awdurdodau glybiau iau rhan-amser ar wahân. Bydd llawer o glybiau rhan-amser eraill, yn bennaf mewn ardaloedd gwledig lle ceir y broblem o sicrhau nifer digonol, yn cynnwys y rhai o dan 13 oed ymysg eu haelodaeth reolaidd. Bellach, mae'r grŵp oedran hwn yn cynnwys rhyw 20 y cant o holl aelodau unedau'r awdurdodau addysg yng Nghymru, ond mewn rhai awdurdodau mae'r canran lawer yn uwch.

9.7 Yn wreiddiol, yr oedd yr ystod oedran a fabwysiadwyd gan yr awdurdodau addysg yn cyd-fynd â'r cyfnod o symud o'r ysgol i waith ac i fyd yr oedolyn. Pennodd rhai mudiadau gwirfoddol eu hystod oedran er mwyn amlygu eu pwrpas arbennig. Ond nid yw mwyafrif y darparwyr eto wedi datrys cwestiwn yr oedrannau priodol. Cydnebydd llawer ohonynt na ellir llwyr wireddu'r bwriad i gynnig cyfle i bob person ifanc o fewn band oedran eang, ond amrywio wna'u ffordd o ystyried pwnc grwpiau targed. Ni fydd lleiafrif yn rhoi sylw i'r mater o gwbl, gan ganolbwyntio ar ba bobl ifanc bynnag sydd am fanteisio ar y gwasanaeth; mae eraill, er eu bod yn cyd-fynd â'r arfer hwn ar hyn o bryd, yn ymboeni ynghylch gwahanol anghenion y grwpiau oedran o dan 13 a thros 16. Fe ddadleuir, ar y naill law, y gellir gosod seiliau cadarnach ar gyfer datblygiad cymdeithasol yn y cyfnod cynnar ac, ar y llaw arall, fod angen mwy o gymorth ar bobl ifanc hŷn. Yr hyn sydd fel petai'n drysu'r mater ac yn rhwystro cadarnhau blaenoriaethau yw gwybod bod y grŵp oedran hŷn yn gryn her i arferion gwaith ieuenctid er bod y grŵp oedran iau, gan gynnwys plant bach mewn rhai mannau, yn gwasgu am sylw.

9.8 Mae'n amlwg y gall ymdrechion i ddarparu ar gyfer ystod oedran ry fawr yr un pryd amharu ar amcanion addysg gymdeithasol. Mewn rhai canolfannau statudol fe oresgynnwyd y broblem hon yn rhannol drwy fentrau gwirfoddol, gan gynnwys clybiau iau a redir gan aelodau hŷn neu sesiynau teulu lle bydd rhieni'n rhannu cyfrifoldeb dros eu plant. Fe allai ffordd arall ymlaen, na ddatblygwyd llawer arni hyd yn hyn, ddeillio o gynyddu'r cyd-weithredu statudol-gwirfoddol, yn arbennig ar y lefel leol (gweler 6.6 a 13.1.4).

9.9 Y ffaith bwysig arall a amlygwyd gan y data aelodaeth yw bod y gwasanaeth ieuenctid yn darparu ar gyfer nifer llawer helaethach o fechgyn nag o ferched. Ffigyrau cyffredinol y mudiadau gwirfoddol yw 55 y cant a 45 y cant ac fe ddengys manylion un awdurdod addysg, er enghraifft, fod bron ddwywaith cymaint o aelodau sy'n fechgyn yn y grŵp oedran 14-16 nag sydd o ferched ac, yn y grŵp oedran 17+, bedair gwaith cymaint. Eto, o gyfrif pennau yn ystod ymweliadau â'r unedau cymysg yn y sampl, fe gafwyd bod yno, ar gyfartaledd, 73 y cant o fechgyn a 27 y cant o ferched. Bydd ambell glwb ieuenctid cymysg yn denu hyd yn oed lai o ferched (o dan 10 y cant o'r aelodau a rhwng 0 y cant a 5 y cant ar unrhyw noson) ond weithiau, i bob golwg, ni sylwyd ar eu habsenoldeb.

9.10 Yn wir, fe ddaeth yn amlwg yn ystod yr arolwg nad yw mwyafrif yr unedau yn dadansoddi odid ddim ar yr aelodaeth nac, o ran hynny, ar y bobl ifanc nad ydynt yn aelodau. Mae hyn yn drueni, gan y gallai manylion am gefndir cymdeithasol yr aelodau, eu profiad a'u gallu addysgol, eu disgwyliadau, amlder eu mynychu a hyd eu haelodaeth, yn ogystal â maint aelodaeth ddeuol neu aml-aelodaeth a'r dalgylch de facto, amlygu arwyddion defnyddiol ar gyfer trafodaeth a datblygu. Er enghraifft, oherwydd llinellau terfyn a bennwyd gan unigolion neu gan y gymuned mewn dinasoedd a threfi, ac oherwydd cyfuniad o gystadlu rhwng pentrefi a phroblemau cludiant yn y wlad, fe gafwyd bod aelodau unedau mewn ardaloedd trefol a gwledig fel ei gilydd yn dod o ddalgylch llawer cyfyngach nag a dybiai

llawer o ddarparwyr neu weithwyr ieuenctid. Er y cyflwynir gwybodaeth am yr aelodaeth o bryd i'w gilydd, anaml iawn y tynnir unrhyw wers ohoni o ran gwaith ieuenctid neu o ran yr angen am ymgyrchoedd recriwtio, cyhoeddusrwydd neu ymchwil. Fe ddadleuwyd yn fynych bod cael llai o aelodau nag y gellid eu disgwyl mewn ardal yn hwyluso cyflawni 'gwell' gwaith i ieuenctid. Yr oedd hyn yn sicr o fod yn wir mewn rhai unedau, yn enwedig lle ceid nifer fach o staff. Ond dangosodd arolwg manwl o wasanaeth ieuenctid un awdurdod addysg mai'r unedau a adlewyrchai faint a chyfansoddiad cymdeithasol-economaidd y gymuned, ar y cyfan, oedd y rhai yr oedd eu rhaglenni'n fwy ymwybodol addysgol, tra bo gan y rhai â phresenoldeb tameidiog ddulliau llai strwythuredig a'u bod fel petaent yn derbyn mai'r unig rai a fyddai am ddod atynt fyddai'r rhai o'r grwpiau cymdeithasol-economaidd a'r ystodau gallu canol i isel.

9.11 Gall sgwrsio â'r aelodau fod yn ffynhonnell lawn mor ffrwythlon o wybodaeth. Fe amlyga'r rhain, er enghraifft, y gwahaniaeth yn y ffordd o fyw, a'r cyfle sydd ar gael, rhwng pobl ifanc o amgylchedd trefol, maestrefol, y cymoedd diwydiannol a'r wlad. Yr oedd y grŵp cyntaf weithiau'n hynod ymwybodol o'r gwahaniaeth rhwng canolfan ieuenctid a mentrau masnachol lleol. Nid oedd gan y lleill odid ddim dewis o ran darpariaeth, yr oeddent wedi'u hynysu braidd ac yn fwy dibynnol ar yr uned ieuenctid i'w helpu i helaethu eu profiad. Ar lefel fwy personol, yn y naill begwn, ac yn fwy arferol mewn grwpiau â gwisg swyddogol a Chlybiau'r Ffermwyr Ieuanc, fe ddangosodd pobl ifanc eu bod, heb sylweddoli hynny ar adegau, yn dewis o blith yr hyn a gynigir gan y gwasanaeth ieuenctid ac yn ei ddefnyddio'n gyfrwng i'w dymuniadau a'u diddordebau. Yn y pegwn arall, yr oedd yn fwy cyffredin i'r aelodau eu dibrisio'u hunain a'u hymdrechion ac amlygu arwyddion eraill o ddiffyg hunan-barch a chymhelliant isel. O'r rhai y siaradwyd â hwy, cymharol ychydig, yn enwedig yng nghanolfannau trefol yr awdurdodau addysg, a berthynai i uned deuluol gonfensiynol. Amlygai rhai ohonynt batrwm o berthynas arwynebol ag oedolion; yr oedd gan lawer ohonynt, hyd yn oed os nad oeddent hwy eu hunain yn ddi-waith, rieni a oedd allan o waith; yr oedd yn amlwg na fanteisiai'r mwyafrif ohonynt ar gyfleoedd addysgol eraill, weithiau, yn rhannol, oherwydd anghenion neu agweddau'r teulu; yr oedd nifer ohonynt mewn trafferth oherwydd eu hymddygiad; dibynnai llawer ohonynt am eu boddhad ar arwyr, cerddoriaeth pop a ffilmiau fideo, ac yr oedd sawl un wedi ymgolli mewn cyltiau. Anaml y newidiai patrwm bywyd mwyafrif y bobl ifanc hyn, i bob golwg, ac un o'r disgwyliadau a glywyd amlaf ynghylch eu huned ieuenctid oedd lleddfu diflastod. Mae angen cydnabod, yng nghyd-destun yr arolwg, y gwahaniaethau hyn rhwng yr aelodau mewn un amgylchedd ac mewn amgylchedd arall a rhwng un mudiad a mudiad arall.

## 10. AGWEDDAU AR Y DDARPARIAETH

10.0 Mae'r bennod hon yn ymdrin â phum agwedd ar waith ieuenctid — y dimensiwn cymdeithasol, gweithgareddau, ymwneud â'r gymuned, estyn gorwelion a chyfranogi — sydd, neu y credir eu bod, yn elfennau hanfodol y ddarpariaeth. Er nad oes modd gwahaniaethu rhyngddynt yn ymarferol, fe ystyrir pob un ar wahân, er mwyn i natur a safon y gwaith a welwyd fod yn amlycach nag a fyddai'n bosibl wrth ddisgrifio a thrafod y cyfan.

### 10.1 Y Dimensiwn Cymdeithasol

10.1.1 Barn mwyafrif y darparwyr yw bod canolfan lle gellir mwynhau amser hamdden yn bwysig wrth sicrhau ymroddiad pobl ifanc a'u cyflyru i elwa ar y profiadau a all ddod i'w rhan. Felly, ceir ochr gymdeithasol a hamdden i'r rhan fwyaf o waith

ieuenctid. Mewn mudiadau lle mae'r sesiynau'n fwy strwythuredig, fe gyflawnir hyn trwy weithgareddau neu fe'u ceir ar adegau anffurfiol, ond mewn clybiau dyma sylfaen y rhaglen. Fel y cyfryw, mae'n elfen fwy annibynnol a gweladwy, fel arfer mewn man gyda bar coffi a seddau anffurfiol, lle mae gemau a difyrrwch ar gael gan gynnwys dartiau, snwcer, 'space invaders', tenis bwrdd a gemau fideo.

10.1.2 Gall naws yr uned ieuenctid hybu cryn dipyn ar dwf personol a chymdeithasol. Lle ceir perthynas glòs ac ymlaciol rhwng y staff a'r aelodau a rhwng yr aelodau eu hunain, fe deimla pobl ifanc y cânt eu derbyn, eu bod yn ddiogel ac yr anogir hwy i gyd-weithredu ac i ymateb. Nid ar chwarae bach y cyflawnir hyn, yn enwedig mewn clybiau ieuenctid agored sy'n tueddu i ddenu pobl ifanc sy'n ei chael yn anodd ymgymhwyso i ofynion mudiad. Eto, hanfod llwyddiant yw bod aelodau'n bwysig, ac yn gwybod eu bod yn bwysig, i'r gweithwyr ieuenctid, bod yr awyrgylch yn bwrpasol a bod yr uned yn cyfleu neges glir a chyson. Yn wir, mewn sawl mudiad mae'r awyrgylch yn drawiadol: mae amlder a chynnwys y cydadwaith rhwng y staff a'r bobl ifanc o safon, mae'r staff fel petaent yn ymglywed â theimladau'r aelodau, mae'r bobl ifanc ynghlwm wrth y gweithgareddau, fe sefydlir ac fe sicrheir trefn yn gynnil ac anymwthiol, ac mae'r rhai sydd yno'n trin ei gilydd yn oddefgar a charedig.

10.1.3 Eto, mae rhai clybiau ymhell o gyrraedd y nod hwn, nid am fod rhai pobl ifanc yn mynnu ymddwyn yn annerbyniol — gellir cael camymddwyn bron yn unman o bryd i'w gilydd — ond oherwydd ffactorau eraill yn ogystal. Ymhlith symptomau'r rhain, o bosibl, mae ffordd besimistaidd y staff o edrych ar bobl ifanc, ac ymgadw rhag y mathau o gydadwaith a allai sicrhau cynnydd. Gall amgylchiadau ffisegol a lefelau uchel o sŵn hefyd danseilio cysylltiadau cymdeithasol ystyrlon. Gall y cyntaf, ar adegau, fod yn bur anodd eu newid, ond lle daethpwyd o hyd i ffyrdd o sicrhau nad yw cerddoriaeth uchel yn llethu noson gyfan neu bob rhan o adeilad, nid yw'r aelodau fel petaent yn ofni'r tawelwch neu'r newid tymer — yn wir, mae'r sgwrsio, i bob golwg, yn llawer mwy bywiog a'r ymddwyn yn llai oriog.

10.1.4 Di-drefn yw'r olygfa mewn ambell glwb. Y drefn, i bob golwg, yw defnyddio'r offer yn ddi-hid, llawer o eistedd o gwmpas yn ddi-gyffro, gwylio teledu'n oddefol a'r staff yn ymateb dim ond pan fo'r aelodau'n mynnu sylw neu pan fo angen disgyblaeth. Yn anffodus, mae'r math hwn o ddiffyg pwrpas yn deillio o'r gred gyfeiliornus bod agor y drysau a gadael i bobl ifanc ddod i mewn yn arwain at dwf cymdeithasol yr aelodau. Er na all unrhyw waith ieuenctid fod yn gwbl ddiwerth, mae'n peri gofid bod cyn lleied o ymwybyddiaeth ymysg y staff, o dan yr amgylchiadau hyn, o'r cyfleoedd a gynigir.

10.1.5 Mewn sefyllfaoedd eraill ar draws holl sbectrwm y ddarpariaeth ieuenctid, fe sylweddolir y dylai gwaith ieuenctid, waeth beth fo'r cyfyngiadau, fod yn fwy na hyn. Yma, mae'r staff yn ymglywed â'r angen i fanteisio hyd yr eithaf ar y cyfle i ddysgu, a cheir llawer o gyffyrddiadau ychwanegol sy'n cynnwys cael cystadlaethau a chwisiau sydyn, paratoi llyfrau lloffion, posteri a thaflenni newyddion gan yr aelodau, a defnyddio gwybodaeth yr aelodau am fondiau rhif mewn dartiau i hybu eu medrusrwydd mathemategol cyffredinol. Mae parodrwydd gweithwyr ieuenctid i gyflwyno'u hobïau fel petai'n ffordd arbennig o effeithiol o gyfathrebu ag aelodau y teimlir eu bod yn 'anodd'. Bu darganfod y gall oedolyn fod yn frwd ynghylch Radio'r Werin o gymorth mewn un achos. Mewn achos arall, canlyniad rhannu diddordeb mewn pysgota fu i grŵp wneud eu gwialenni pysgota eu hunain a mynd ar deithiau gydag aelod o'r staff. Mewn

mannau eraill, daethpwyd ag adar mewn cewyll i'w dangos i'r aelodau, a chan gymaint yr ymateb fe ddysgwyd sawl un ynghylch bridio adar a sut mae adnabod adar yr ardd, fe lenwyd holiaduron ynghylch gweld adar, a chafwyd darluniau ar sail sylwi uniongyrchol.

10.1.6 Yn aml, fe gais gweithwyr ieuenctid gynnal sgwrs ag unigolion a grwpiau trwy ddefnyddio gorchwylion cyffredin, digwyddiadau yn yr uned, neu eu gwybodaeth am berson ifanc, fel man cychwyn. Weithiau bydd y staff yn symud i mewn i grŵp sefydledig er mwyn estyn y drafodaeth, tynnu unigolion swil neu lai llafar i mewn iddi neu helpu eraill i ymuno â hi. Lle defnyddir y dulliau hyn, mae'n werth sylwi mor barod yw pobl ifanc i siarad ac mor awyddus yw aelodau eraill i ymuno â'r hyn sy'n digwydd. Awgryma hyn na roir digon o bwys mewn llawer uned ieuenctid ar yr angen i siarad ag oedolion am y pethau y teimlir eu bod yn bwysig (gweler hefyd 10.5.17).

10.1.7 Mewn un clwb, er enghraifft, yr oedd un grŵp yn swnian ynghylch y ffordd yr oedd oedolion yn eu dilorni am eu hymddangosiad. O glywed hyn, aeth gweithiwr ieuenctid ati i'w hannog i archwilio'u ffyrdd hwy o farnu pobl eraill. Canlyniad hyn oedd trafodaeth ar ymdopi â phwysau diwylliannau ieuenctid a normau grŵp, trafodaeth a barhaodd, yn ôl pob tebyg, am rai wythnosau a pheri i rai unigolion newid eu hymddygiad yn bur sylweddol. Mewn dwy ganolfan, manteisiodd y gweithwyr ar ddeunydd teledu. Anogwyd dilynwyr "Top of the Pops" i drafod gwerth ariannol sêr pop, a gofynnwyd i grŵp a oedd yn eistedd o flaen, yn hytrach nag yn gwylio, raglen ddogfen ar berthynas y gwryw a'r fenyw mewn llwyth yn Affrica a gredent fod y fath agweddau'n dderbyniol. Trafodaethau estynedig a bywiog oedd y ddwy. Mewn mannau eraill, fe wahoddwyd nifer o grwpiau mewn clwb i siarad am fater o ddisgyblu a oedd wedi codi, ac i gyflwyno'u syniadau a'u hawgrymiadau i'r arweinydd. Gan fod y mater yn ffres yn eu cof, mwynhaodd yr aelodau drefnu eu hunain a thrafod y sylwadau — cymaint felly nes i'r rhai na fu i'w barn ennill y dydd yn y pen draw gael eu bodloni ac iddynt fwynhau'r profiad. Mewn clwb arall, yr oedd mwyafrif yr aelodau a fu ar daith yn ddiweddar wedi ymgasglu gyda gweithiwr ieuenctid, gan sôn am y digwyddiadau, cyflwyno'u teimladau ar y pryd, a nodi'r hyn a ddysgasant. Yn yr achos hwn, yr oedd y gweithiwr yn helpu'r aelodau i ddistyllu ystyr o brofiad a fyddai fel arall wedi mynd, yn ddi-arwyddocâd, i bellterau'r cof.

10.1.8 Yn anffodus, cymharol ychydig o'r math hwn o waith a geir, i bob golwg, mewn clybiau ieuenctid. Ran amlaf, mae llawer o'r hyn sy'n digwydd yn deillio o ddefnyddio doniau a medrau'r staff yn anymwybodol yn hytrach nag yn fwriadus. Eto, bydd nifer o fudiadau, gan gynnwys y rhai sy'n defnyddio grwpiau gweithgarwch fel sylfaen eu rhaglenni, yn strwythuro cyfleoedd tebyg. Mewn un clwb, lle'r oedd wyth aelod wrthi'n ymchwilio i gyfeillgarwch ac ymddygiad grwpiau, clywyd un yn dweud "On'd oedd hynny'n dda? Llawer gwell nag eistedd o gwmpas!". Yr oedd grŵp tebyg mewn clwb arall yn edrych ar y ffordd y bydd pobl yn gweithio mewn grwpiau, gan gyfeirio'n arbennig at rym. Dengys yr enghreifftiau hyn y gall pobl ifanc fod ar eu hennill yn fawr os llawn ddeallir swyddogaeth grwpiau mewn dysgu trwy brofiad, a bod y gwaith hwn, ynghyd â'r gwaith a nodwyd eisoes, yn galluogi pobl ifanc i feddwl, siarad, mynegi barn ac arbrofi gyda syniadau, i wrando ar safbwyntiau pobl eraill ac i'w hadnabod a'u deall eu hunain a'i gilydd yn well. Mae'n amlwg hefyd fod hyn weithiau'n helpu aelodau i gymedroli eu hagweddau neu eu hymddygiad.

10.1.9 Mae llawer o waith grŵp yn cynnwys cynghori, un arall o brif elfennau gwaith

ieuenctid. Ond gan fod hynny'n waith preifat a pharhaol fel arfer, rhaid i'r cloriannu ddibynnu mwy ar adroddiadau nag ar wylio uniongyrchol. Eto, mae'n amlwg bod llawer o'r sgyrsio anffurfiol rhwng staff ac aelodau, gan gynnwys, ac, yn aml, yn enwedig, y sgyrsio wrth y bar coffi, yn cynnwys elfennau o gynghori a chyflwyno gwybodaeth ar faterion megis cyfleoedd hamdden, gyrfaoedd a budd-daliadau diweithdra. Ar adegau, canlyniad hyn yw bod gweithwyr ieuenctid yn dod yn gyfrwng rhwng pobl ifanc a chyrff eraill. Bydd sesiynau hwy o gynghori yn ymwneud â'r berthynas yn y cartref, bod yn ddi-gartref, arogli glud, troseddau, gwneud a thorri cyfeillgarwch, trafod rhywioldeb, rheoli teimladau ac ymdopi â chyfnodau o newid.

10.1.10 Nid yw pob gweithiwr ieuenctid yn glir ei feddwl ynghylch pwrpas a hanfod cynghori, ac mae angen cymorth ar rai ohonynt yn hyn o beth. Mae materion sy'n ymwneud â throseddu, defnyddio cyffuriau ac arogli glud, yn enwedig, yn achosi problemau i'r staff o ran cyfrinachedd. Er hynny, mae un arweinydd, y mae cynghori yn ganolog i'w waith, yn gwbl glir mai ei gyfrifoldeb yw helpu pobl ifanc i gyrraedd sefyllfa lle mae trafod gyda'r rhieni neu gyda'r heddlu yn gam nesaf naturiol. Ceidw un arall mewn cysylltiad agos â'r teuluoedd er mwyn tynnu'r rhieni i mewn i'r mater yn gymharol rwydd os dymuna'r aelod. Dewis eraill yw bod yn gyfrwng â'r rhieni neu gyrff eraill ar ran yr aelodau. Er bod sawl gweithiwr ieuenctid yn ceisio, lle bo'n bosibl, gyfeirio aelodau at ffynonellau eraill o gymorth, ni cheir fawr o gyfle i wneud hynny gan nad oes rhwydwaith o gyrff cynghori ieuenctid yn bod yng Nghymru. Golyga hyn fod darparu cyfle i staff y gwasanaeth ieuenctid drafod eu hagweddau a'u problemau a datblygu'r medrau priodol gymaint â hynny'n fwy angenrheidiol.

10.1.11 Yn ystod cyfnod yr arolwg, gwelwyd cryn gynnydd yn offer fideo'r canolfannau. Ar y cyfan, fe ddefnyddir y recordyddion, i bob golwg, ar gyfer gwylio rhaglenni teledu wedi'u tapio neu ffilmiau cyffro wedi'u llogi ac, mewn rhai o'r clybiau yr ymwelwyd â hwy, prif brofiad llawer aelod oedd gwylio'n anfeirniadol yr hyn y trefnwyd iddynt ei weld. O gofio bod tapiau ar hobïau, chwaraeon a materion cyfredol ar gael, ac o gofio'r holl amrywiaeth ym myd teledu, mae'n drueni na ddefnyddir yr arf werthfawr hon yn amlach at ddibenion addysgol a buddiol. Un enghraifft yn unig a welwyd o raglen a recordiwyd gan arweinydd ieuenctid er mwyn ei gwerth fel difyrrwch ac er mwyn y pwyntiau a godwyd ynddi ynghylch y berthynas rhwng pobl ifanc a'r heddlu. Y bwriad oedd defnyddio hyn, a deunydd arall o'r gyfres, fel ysgogiad i drafodaeth.

10.1.12 Eto, fe welwyd defnyddio rhagorol ar gamerâu fideo (gweler, er enghraifft, 10.2.28 a 10.3.10). Mae un o'r darnau mwyaf effeithiol o waith yn ymwneud â grŵp o bobl ifanc ddi-waith sy'n mynychu canolfan ieuenctid un diwrnod yr wythnos. Caiff y sesiynau medrau cymdeithasol a medrau bywyd eu ffilmio'n gyson a'u hail-chwarae er mwyn i'r grŵp drafod eu hymddygiad ac ymddygiad unigolion. Ar diwedd y cwrs 10 wythnos fe allant, trwy wylio'r tâp cyntaf, nodi a thrafod y newidiadau ffisegol, a'r newidiadau o ran agwedd a ddaethai i'w rhan, yn llawer manylach nag a allent heb y dystiolaeth weledol. Mae ambell enghraifft brin mewn unedau ieuenctid eraill yn dechrau dangos y gellir gwireddu potensial addysgol peth o'r dechnoleg newydd ochr yn ochr â'i gwerth fel difyrrwch. Bydd rhai gweithwyr ieuenctid yn gofyn i bobl ifanc eu 'dysgu' sut mae chwarae peiriannau 'space invaders' a gemau fideo, ac mewn un clwb mae un aelod yn cyflwyno aelodau eraill i gompiwtorau, ond fe erys lle i ddatblygu'r maes hwn, hwyrach ar y cyd â rhaglenni meicro-electroneg yr awdurdodau addysg.

10.1.13 Mae i ddisgos le blaenllaw yng ngwaith mwyafrif y clybiau. Mae'n amlwg bod lle a galw am y rhain, ond yn aml fe â gweithwyr ieuenctid allan o'u ffordd i'w cyfiawnhau fel petaent yn ansicr o'u gwerth heblaw am eu manteision ariannol. Fel arfer ni chaiff pryderon bod rhaid i'r staff fod yn 'blismyn', problemau yfed a chwynion trigolion lleol, eu rhannu â'r aelodau er mwyn iddynt ymwneud mwy â chynllunio a rhedeg y noson a chloriannu ei gwerth cyffredinol. Lle bo'n arfer i bob aelod deimlo o leiaf rywfaint o gyfrifoldeb dros yr achlysur, mae'r clwb cyfan yn cyfrannu o'r mwynhad a'r problemau. Llai cyffredin yw mathau eraill o ddigwyddiadau arbennig, ond maent yn uchelbwyntiau pwysig mewn rhaglen (gweler hefyd 10.3.11). Gan fod mwyafrif y rhain, gan gynnwys, er enghraifft, rasys crempog, adloniant byw, ciniawau, ffeiriau a mentrau eraill i godi arian, yn mynnu cyfranogiad gweithgar yr aelodau ac yn ymarfer eu medrau cymdeithasol, gall eu pleser a'u hymdeimlad o gyflawni fod gymaint â hynny'n fwy.

10.1.14 Bydd llawer uned, gormod o bosibl, yn dibynnu bron yn llwyr ar eu hadnoddau eu hunain, tra daw eraill ag arbenigedd i mewn o'r tu allan. Nid yn unig y mae swyddogion yr heddlu yn ymwelwyr cyson â nifer o unedau, ond fe'u tynnir i mewn i drafod, ymhlith pethau eraill, bolisïau'r heddlu, cyffuriau, rhwystro troseddu a'u perthynas â phobl ifanc. Mae'n ymddangos bod yr aelodau a'r gweithwyr ieuenctid fel ei gilydd yn gwerthfawrogi'r sesiynau hyn yn fawr; newidir rhai o ragdybiaethau'r aelodau, ac mae'r gweithwyr ieuenctid yn falch o gael cyfle i gael sgwrs lai ffurfiol â'r heddlu nag yn eu cysylltiadau blaenorol ynghylch achosion mewn llysoedd pobl ifanc. Cynyddu hefyd o ran amlder wna cyfraniadau ymwelwyr iechyd ar faterion iechyd cyffredinol, camddefnyddio cyffuriau, glud ac alcohol, neu addysg rhyw. Mae'n sicr fod gwerth i'r ddwy ochr yn y mentrau hyn, yn enwedig lle nad edrychir ar ymweliadau o'r fath fel digwyddiadau unigol, ond fel rhai sy'n cynnwys trafodaeth ymlaen llaw a thrafodaeth strategol. Mae lle i'w defnyddio'n ehangach.

## 10.2 Gweithgareddau

10.2.1 Fe edrychir ar yr uned ieuenctid yn gyffredin fel man lle gall aelodau ddarganfod diddordeb a datblygu medrau; felly, fe edrychir ar weithgareddau strwythuredig a digymell fel elfen hanfodol yn y rhan fwyaf o'r ddarpariaeth. Cymaint yw eu nifer a'u hamrywiaeth nes eu bod, at ddibenion eu cloriannu, wedi'u categoreiddio'n fras.

### Adloniant Corfforol

10.2.2 Mae gweithgareddau corfforol yn rhan fawr o raglen mwyafrif yr unedau ieuenctid. Nid yn unig y maent yn asgwrn cefn mudiad Clybiau'r Bechgyn ac yn elfen ganolog yng ngwaith mwyafrif y canolfannau a'r clybiau, gan gynnwys yr aelwydydd, ond mae iddynt ran o bwys yng ngweithgarwch y grwpiau â gwisg swyddogol. Rhydd adloniant corfforol gyfle i bobl ifanc brofi ystod o symudiadau mewn amrywiaeth o gyd-destunau, o far coffi i'r ganolfan chwaraeon, wedi'u cyflawni naill ai'n unigol, ar y cyd ag eraill, neu wrth gystadlu ag eraill. Canlyniad llawer ffactor, mae'n debyg, yw'r detholiad o weithgareddau a dwyster eu hymarfer, ond i bob golwg, mae traddodiad, natur y cyfleusterau, y staff a'r arbenigedd sydd ar gael, a chymhelliant cystadlaethau allanol, lawn mor ddylanwadol â diddordebau'r aelodau.

10.2.3 Gellir canfod dau gategori bras o weithgarwch corfforol. Mae'r cyntaf, na ellir ond prin ei wahanu oddi wrth yr elfen gymdeithasol ac y gellid ei ddisgrifio fel

chwarae anffurfiol neu adloniant syml, yn cynnwys snwcer, 'pool', dartiau, tenis bwrdd a dawnsio. Fel rheol, ni ddysgir y rhain na'u hyfforddi'n ffurfiol ac fe'u chwaraeir yn ôl mympwy yr unigolyn. Y categori bras arall yw gweithgareddau medrus sy'n aml yn gorfforol anodd, megis gemau tîm, gymnasteg, chwaraeon ymladd, codi pwysau, gemau raced neu nofio. Mewn clybiau, fe drefnir y rhain yn aml fel dosbarthiadau a cheir hyfforddi cyson. Hefyd, mae'r rhaglen mewn nifer o unedau'n amlygu'r ffasiwn gyfredol ac felly, tra oedd sglefrio, rasio gwibgerti, beicio, saethyddiaeth dan do a rhedeg traws-gwlad yn boblogaidd yn ystod yr arolwg, mae chwaraeon eraill yn boblogaidd ar adegau eraill. Siom yw gweld, fel mewn sawl canolfan lle gadawyd i'r 'roller skaters' wneud fel y mynnent, na chaiff diddordebau byrhoedlog ond byw pobl ifanc eu defnyddio'n gyflymach ac yn amlach fel ffordd o gyrraedd nodau datblygu tymor-hir.

10.2.4 Profiad prin yw cyrraedd clwb ieuenctid a chael bod y byrddau 'pool', snwcer neu denis bwrdd a'r byrddau dartiau'n wag heb neb yn disgwyl ei dro. Dywed llawer aelod eu bod yn dod yno'n unswydd er mwyn chwarae ac mae'n debyg bod y gemau hyn yn ddefnyddiol fel ffordd led strwythuredig o afradu ynni a'u bod yn destun cryn ddiddordeb. Mae bechgyn ifanc, yn enwedig, fel petaent yn mwynhau'r gweithgareddau hyn, gan gyrraedd yn gynnar i hawlio'u lle cyn gadael i eraill ddefnyddio'r byrddau'n ddiweddarach. Yn wir, mewn llawer canolfan, fe luniwyd rota neu drefniant arall, weithiau o dan oruchwyliaeth aelod hŷn, i sicrhau bod pob un sy'n dymuno hynny yn cael cyfle i chwarae.

10.2.5 Ym mhob math o uned ieuenctid, bydd yr aelodau'n chwarae ar amrywiol lefelau o fedrusrwydd a chanolbwyntio, ond fe sylwyd bod cyfeillion yn aml yn chwarae gyda'i gilydd ac mai cyfyngedig yw'r cyfle i estyn medr neu dderbyn her gwrthwynebydd gwahanol. Perfformwyr swil, sy'n hynod ymwybodol o'u diffyg medrusrwydd, yw'r dechreuwyr a byddent ar eu hennill ar y cychwyn o gael rhai awgrymiadau syml neu rywfaint o ymarfer gyda chwaraewyr profiadol. Yn bur aml, bydd y staff yn ymuno â'r gêm gan annog y rhai sydd ar yr ymylon i chwarae a chan roi hyder i'r dechreuwr. Mewn llawer clwb, mae cystadlaethau mewnol yn ychwanegu at bwrpas y gweithgareddau hyn. Mae'n fwy buddiol byth pan fydd aelodau'n derbyn cyfrifoldeb dros redeg y gystadleuaeth. Mewn un neu ddau achos, fe gyfunir cystadlaethau timau mewn 'pool', dartiau a thenis bwrdd â chwis gwybodaeth gyffredinol, posau croeseiriau a gemau cardiau, gyda'r timau'n symud o'r naill weithgarwch i'r llall gan gasglu pwyntiau ar y daith. Mae hyn o fudd gan ei fod yn denu llawer mwy o aelodau na chystadlaethau sy'n gwbl seiliedig ar weithgarwch corfforol.

10.2.6 Mae dosbarthiadau ffurfiol neu led ffurfiol yn arbennig o gyffredin mewn canolfannau awdurdodau addysg er na fynychir mohonynt, ar y cyfan, gan lawer o ieuenctid. Mae nofio, lle bo ar gael, yn boblogaidd ac felly hefyd bêl-droed, jiwdo a karate. Pêl-rwyd a hoci sy'n mynd â bryd rhai merched ac felly hefyd gemau raced, ond mae'r rhain yn gofyn cael cyfleusterau arbenigol nad yw'n hawdd eu darparu. Ymwelwyd â thri grŵp cadw'n heini, un o'r enw 'pop-mobility', a chwrs yoga, ond at ei gilydd ni roir fawr o sylw i faes creadigol/esthetig symud onid yw patrymau dawnsio disgo'n cael eu paratoi (gweler 10.2.45). Ar y cyfan, siom yw gweld cyn lleied o ddosbarthiadau cymysg — a'r rheiny'n bennaf mewn nofio, jiwdo a thrampolinio — a bod mwyafrif y grwpiau wedi'u bwriadu'n bennaf ar gyfer bechgyn.

10.2.7 Dysgir rhai dosbarthiadau'n dda gan ysbrydoli llawer o frwdfrydedd ac ymroddiad; nid yw'r hyn a geir mewn eraill, hwyrach mewn gormod ohonynt, fawr mwy na goruchwylio'r chwarae heb odid ddim ymdrech i wella medrau.

Un o'r anawsterau sy'n wynebu pob hyfforddwr yw ymdopi â'r ystod oedran a gallu a geir mewn unrhyw grŵp. Fel rheol, os yw dosbarthiadau'n cynnwys rhai sy'n fedrus fywiog wrth chwarae gemau pêl, neu'n fedrus yn y dŵr, mae dechreuwyr yn hwyrfrydig i ymuno, ac os dechreuwyr yw mwyafrif y grŵp, mae'r rhai mwy profiadol yn tueddu i gilio. Y duedd, felly, yw cyfeirio llawer o'r gwaith tuag at y naill ben neu'r llall o'r sbectrwm heb feddwl digon am ddatblygu medrau ar wahanol lefelau. Ar raddfa fach yn unig y ceisir gwneud gwaith mewn is-grwpiau, a hynny'n bennaf lle bo gweithwyr gwirfoddol ac aelodau hŷn yn cymryd rhan yn yr hyfforddi. Eto, fe drefnir y nofio a'r jiwdo yn y fath fodd, fel arfer, nes bod y rhai sy'n dygnu arni yn gallu gweld eu cynnydd ac yn cael cyfle i symud ymlaen at waith anos. Mewn rhai unedau, defnyddir cryn dipyn ar lyfrau lòg a siartiau mur i nodi gwelliannau a chyraeddiadau unigolion.

10.2.8 Mae adran adloniant corfforol Gwobr Dug Caeredin yn defnyddio system bwyntiau sy'n cynnwys y rhai llai galluog yn gorfforol yn ogystal â'r perfformiwr naturiol. Mae hyn fel petai'n ychwanegu ymhellach at ymroddiad y rhai sy'n cael hyfforddiant ac yn ymarfer yn ystod y cyfnod penodedig. Ac fel rheol, fe ufuddheir i'r gorchymyn i wisgo'n briodol ac i feddu ar yr offer cywir.

10.2.9 Bu i nifer fawr o grwpiau chwaraeon ddechrau fel clybiau ar wahân fwy neu lai, neu ddatblygu'n glybiau o'r fath. Er eu bod yn hybu lefelau uchel o fedrusrwydd, nid ychwanegant, i bob golwg, odid ddim at waith yr uned gyfan. Mae hyn yn anffodus, gan fod rhai enghreifftiau'n dangos y gall cnewyllyn o aelodau llawn cymhelliant annog eraill i ymuno neu y gallant ychwanegu dimensiwn arall at fywyd canolfan. Ar y llaw arall, da yw gweld cyfeirio pobl ifanc at glybiau arbenigol lle cânt gyfle i ddatblygu eu medrau ymhellach.

10.2.10 Mewn ambell ganolfan fe fywiogir y gwaith arferol gan ymweliadau achlysurol gan sêr y byd chwaraeon. Mae'r ymweliadau hyn, sy'n werthfawr o ran ychwanegu dimensiwn arall at y math hwnnw o chwarae, yn cynnig caffaeliad pellach. Bydd pobl ifanc yn ymateb yn dda i'r profiad, yn paratoi ar gyfer yr ymweliad, yn trefnu'r noson ac yn difyrru'r gwestai ac, i bob golwg, bydd hyd yn oed yr aelodau hynny nad ydynt yn ymwneud yn weithgar â'r chwarae dan sylw yn cymryd rhan yn y digwyddiad.

10.2.11 Mae sawl canolfan yn arbenigo mewn gweithgareddau corfforol. Mae ambell un o'r rhain yn ganolfannau hamdden neu ganolfannau cymuned y mae clwb ieuenctid yn rhan ohonynt. Rhedir rhai dosbarthiadau ieuenctid ar wahân ac mae'n amlwg eu bod ar eu hennill oherwydd y cyfleusterau sydd ar gael, ond caiff grwpiau gweithgareddau eraill eu cyfuno â grwpiau o oedolion. Y mwyaf cyffredin o'r rhain yw'r grwpiau badminton, y gall pobl ifanc ymuno â hwy i ymarfer cyn symud ymlaen i glwb go iawn, hyfforddiant ffitrwydd, celfyddydau ymladd a thimau pêl-droed. Dengys y rhain gymaint y mae chwaraeon yn ffordd gyfleus o gymell pobl ifanc i gymysgu gydag oedolion a dysgu ganddynt. Yn anffodus, ni fanteisir i'r eithaf ar lawer cyfle, yn bennaf oherwydd methu ag ymdrechu digon i gyfeirio aelodau tuag at weithgareddau ac i bwyso am lacio ychydig ar y rheolau ynghylch safonau gwisg, o leiaf ar y cychwyn cyntaf. Ceir tystiolaeth y cyflawnir un amcan hysbys i raddau helaeth, sef bod pobl ifanc yn ymateb yn ffafriol o ran ymddygiad am eu bod ymhlith oedolion. Ni wireddwyd, hyd yn hyn, fawr ddim ar y gobaith yr anogir rhagor o bobl ifanc i ddefnyddio canolfannau hamdden a pharhau eu cyfranogiad ar ôl tyfu'n oedolion.

10.2.12 Mae un ganolfan ieuenctid sydd heb fod yn cyd-fynd â'r patrwm arferol o ddarpariaeth, ond sy'n cynnig cyfle i wneud gwaith dwys a medrus mewn addysg gorfforol. Yma, mae'r dosbarthiadau'n hynod strwythuredig ac

arbenigol, a'r gyfradd weithio yn uchel, gan roi llawer o bleser a boddhad i'r rhai sy'n cymryd rhan. Yr arfer yw cyflogi hyfforddwr ac yna gymell aelodau hŷn profiadol i ddysgu ochr yn ochr â'r arbenigwr. Yn y gampfa a'r pwll nofio, mae'r drefn yn gweithio'n syndod o dda, gyda'r grwpiau wedi'u trefnu yn ôl gallu neu oedran, ac fe roir sylw unigol yn ôl yr angen. Mae'r cynorthwywyr ifanc hefyd ar eu hennill o gael y profiad hwn. Teimlant deyrngarwch mawr i'r clwb ac maent yn awyddus i gynnig eu gwasanaethau'n dâl am bleserau'r gorffennol. Yn yr adran codi pwysau a datblygu'r corff, bydd yr aelodau'n llunio'u hamserlenni gwaith eu hunain gan ymgynghori â'r hyfforddwr. Ni ellir amau nad yw gwaith y ganolfan hon yn gyfraniad gwerthfawr i'r gwasanaeth y mae'n rhan ohono. Mae ei swyddogaeth mewn perthynas ag unedau eraill yn y sir yn haeddu ei hystyried.

10.2.13 Bydd mwyafrif y darparwyr yn trefnu cystadlaethau cylch, sirol neu genedlaethol mewn amrywiaeth o chwaraeon (dengys Tabl 48 yr ystod a gynigir gan awdurdodau addysg). Cefnogir y rhain yn dda, a bydd rhai digwyddiadau cenedlaethol yn denu nifer fawr o chwaraewyr (400 yn nhwrnament pump-bob-ochr Clybiau Bechgyn Cymru) a gwylwyr. Dewisir aelodau'r timau trwy wahanol ddulliau, rhai ohonynt yn bur amheus, ond calondid yw gweld bod pobl ifanc yn aml yn rhannu gyda'r staff y baich a'r cyfrifoldeb dros ddewis y timau ac, yn enwedig mewn rhai grwpiau gwirfoddol, dros drefnu'r achlysur. Mae'n amlwg bod llwyddiant mewn chwaraeon yn cyfrannu'n helaeth at ymdeimlad o hunan-barch mewn llawer uned, ac yn aml rhoir lle blaenllaw i wobrau a lluniau o'r timau.

10.2.14 Mae cystadlaethau, yng ngolwg yr unedau, yn cynnig nod y gellir cyfeirio'r gwaith wythnosol tuag ato, neu'n ddim ond digwyddiadau y cymerir rhan ynddynt ond nad ydynt mewn gwirionedd yn effeithio ar redeg yr uned o ddydd i ddydd. Gellir gweld enghreifftiau o'r ddau ddull yn ystod cystadlaethau. Mae'n amlwg bod rhai timau wedi cael eu hyfforddi'n ofalus, gyda'r wisg swyddogol, y trefniadau teithio a'r drefn o ddewis y timau a'r capteniaid i raddau helaeth wedi'u rheoli gan staff. Yn y pegwn arall, ni chafodd y timau unrhyw wersi ffurfiol, dewisant eu gwisg eu hunain, eu haelodaeth a'u capteniaid, ac fe wnânt eu trefniadau eu hunain i fod yn bresennol. Fel ymarferion mewn gwneud penderfyniadau ac ysgwyddo cyfrifoldebau, ni ellir amau nad yw'r grwpiau olaf ar eu hennill yn fawr iawn o ran datblygiad personol, ond fel arfer fe wna'r grwpiau cyntaf yn well yn y cystadlaethau. Mae angen rhoi mwy o ystyriaeth ym mwyafrif y mudiadau i ddarparu cymorth ac arbenigedd wrth baratoi ar gyfer y digwyddiadau hyn, gan ddal i gynnig cyfle i dyfu trwy rannu'r cyfrifoldeb. Mae'n bosibl bod i'r pwys a rydd llawer o bobl ifanc ar y cyfle i gael gêm 'go iawn', y ffordd yr ymdopant â phleserau a thensiynau ennill a cholli, a'u hymdeimlad o rwymedigaeth fel aelodau o dîm, fwy o oblygiadau ar gyfer ymarfer gwaith ieuenctid nag a sylweddolir yn gyffredinol.

10.2.15 Mae gweithgareddau eraill a drefnir yn ganolog ar gael i bobl ifanc waeth beth fo'u cysylltiad â'r gwasanaeth ieuenctid. Mewn o leiaf dri awdurdod fe gynigir iddynt gyfleusterau canolfannau hamdden, er y cydnabyddir bod y pwysau llethol o du'r oedolion yn rhwystro'u defnyddio'n helaeth. Rhydd awdurdod arall, ar y cyd â chyrff eraill, docynnau nofio ac athletau am ddim i bobl ifanc unigol, yn ogystal â chaniatâd i fudiadau ieuenctid cysylltiedig ddefnyddio'r meysydd chwarae.

10.2.16 Mae cwestiwn diogelwch mewn gweithgareddau corfforol yn peri peth pryder. Lle cyflogir hyfforddwyr arbenigol, rhesymol yw tybio y gellir gadael materion

diogelwch mewn dwylo diogel. Ond mewn achosion eraill gall bwriadau da ar ran y rhai anarbenigol achosi nifer o broblemau. Mae'r ffaith y gellir dod o hyd i beryglon, waeth pa mor fach, yn dangos fod angen i'r staff a'r darparwyr bod yn gyson wyliadwrus.

**Y Celfyddydau Domestig a Gofal Personol**

10.2.17 Caiff y celfyddydau domestig a gofal personol, er gwaethaf eu llu ffurfiau a'u llu teitlau — coginio, gwnïo, crefft llaw, gofal tŷ, cynllunio ar gyfer bywyd, trefnu blodau, harddwch, modelu — eu hesgeuluso beth gan y rhan fwyaf o'r gwasanaeth ieuenctid. Er hynny, mae iddynt le cadarn yng ngwaith rhai unedau, mewn dau fudiad gwirfoddol yn arbennig, ac mae'r gwaith yn amrywio o'r cyfle ad hoc i waith sy'n gysylltiedig â digwyddiadau neu dystysgrifau.

10.2.18 O gael ymateb llugoer i'r dulliau ffurfiol, mae rhai clybiau ieuenctid yn arbrofi gyda chynigion mwy di-gymell. Mewn un, bydd arweinydd ambell waith yn cyrraedd gyda llestri a chynhwysion ar gyfer coginio rhyw bryd blasus ac yn cynnig gwahoddiad agored i'r aelodau ymuno â hi wrth ei baratoi ac, am dâl bychan, ei fwyta. Mewn un arall, y drefn yw treulio rhan gyntaf y noson yn gwneud eitemau megis bagiau popcorn neu leicecs i'w gwerthu yn y bar coffi. Mae'r ddau ddull yn llwyddo i ddal diddordeb bechgyn a merched ac i roi cyfle i gyd-weithredu'n ddwys dros gyfnod. Mae bwrdd pwrpasol mewn clwb arall yn fodd i aelodau o'r ddau ryw arbrofi gyda gwneud bwyd, gan roi cyfle i'r arweinydd gynnig awgrymiadau ynghylch glendid ac ymddangosiad cyffredinol. Gellid gwneud hyn mewn mannau eraill hefyd.

10.2.19 Bydd rhai dosbarthiadau'n gweithredu'n anffurfiol, gyda'r aelodau yn dod i mewn ac allan yn ystod y noson. Mewn dosbarthiadau coginio o'r math hwn, mae'n amlwg ei bod yn bwysig i'r aelodau allu rhannu eu pleser wrth gynhyrchu rhywbeth. Unig weithgarwch llawer dosbarth trin gwallt yw i'r hyfforddwr wneud gwallt yr aelodau. Eto, mewn un grŵp fe ddefnyddir trin gwallt fel ffordd o hybu sgwrsio, a gwneud y person 'yn y gadair' yn ganolbwynt sylw. Dengys hyn sut y gellir defnyddio gweithgareddau fel cyfrwng addysg cymdeithasol.

10.2.20 Mewn rhai dosbarthiadau coginio mawr fe anogir yr aelodau i gyd-weithio nid yn unig yn ymarferol ond wrth lunio llyfrau rysaits. Mewn un dosbarth yr ymwelwyd ag ef, rhoir sylw i ddewis bwyd, maeth a chostio yn ogystal ag i goginio a chyflwyno. Yma, mae'r bobl ifanc yn falch o'u canlyniadau boddhaol, yn gwybod sut mae eu bwydo eu hunain yn ddoeth, ac yn benderfynol o newid arferion bwyta eu teuluoedd. Eto, yn amlach o lawer, y nod i bob golwg yw cynhyrchu un pryd heb roi fawr o sylw i bwrpas, proses, dewis na dilyniant. Ran amlaf, cyrsiau tymor-byr sydd i'r dosbarthiadau yn y canolfannau ieuenctid sydd ag aelodaeth gyson, ac fe ymwnânt â thasgau penodol megis gwneud teganau, sgarffiau neu glymu a lliwio. Nid yw'r gwaith hwn heb ei werth, ond yn aml ni fydd y dosbarthiadau'n parhau am nifer digonol o sesiynau i gynnwys cynllunio a deall tecstilau. Eto, caiff y rhain eu lle pan fo grwpiau gwnïo'n creu gwisgoedd a gorchuddiau ar gyfer cynyrchiadau dramatig.

10.2.21 Cynhwysir nifer o fedrau domestig yng ngwaith y Geidiau ac, ar un achlysur, yr oedd tri phatrôl wrthi'n paratoi pryd awyr agored tra gweithiai un arall mewn cegin gyfyng. Pwysleisiwyd cynhyrchu pryd cytbwys, neilltuo tasgau, gweithio fel tîm, a chyd-gyfrifoldeb dros glirio wedyn. Yr oedd y patrôl, a weithredai dan do, hefyd yn gorfod difyrru ymwelwyr. Yr oedd hynny'n her i ferched o'r oedran

hwnnw a ddeuai o'r hyn y gellir ei alw'n ardal ddifreintiedig yn gymdeithasol. Mae'n werth sylwi hefyd mor angenrheidiol yw niferedd i dasgau o'r fath, a chymaint y mae'r gweithgarwch yn cymell defnyddio iaith.

10.2.22 Gwneud cartref a difyrru oedd canolbwynt cyfredol cwmni o 'Ranger Guides' a oedd wedi gwahodd gwraig yr oedd enw da iddi'n lleol fel gwesteiwraig dda i gyflwyno'i syniadau ynghylch croesawu ymwelwyr. Cynhwysai'r sesiwn wybodaeth, drafodaeth, a chwarae rhannau fel ffordd o archwilio syniadau a theimladau.

10.2.23 Mae Geidiau Cymru hefyd yn cynnig dosbarthiadau mewn gwyddor cartref fel rhan o wersylloedd mawr a chyrsiau arbennig. Ond arbenigedd Mudiad y Ffermwyr Ifanc yw'r olaf. Ar gyfer eu Cynllun Crefftau Sirol rhaid i aelodau gael hyfforddiant yn y grefft a ddewiswyd a dilyn hynny gyda sesiwn asesu, pan fo rhaid cyflwyno llyfr nodiadau gweithio. Trefnir cyrsiau penwythnos, eto gyda'r pwyslais ar gyflawniadau'r unigolyn, gan ffederasiynau sirol ac yn genedlaethol. Rhydd dosbarthiadau brodio, cwiltio a threfnu blodau wybodaeth a dirnadaeth sylfaenol ynghylch deunyddiau priodol cyn helpu'r aelodau i ddatblygu eu syniadau eu hunain. Bydd grwpiau coginio, p'un a ydynt yn ymwneud â bwyd bob dydd neu â pharatoi bwyd a diod ar gyfer achlysuron arbennig, yn pwysleisio'r gost ac, uwchlaw pob dim, eu heffaith weledol. Mae'r holl weithgareddau hyn yn gofyn paratoi neu brynu deunyddiau ymlaen llaw, ac yn dod â'r aelodau i gysylltiad ag arbenigwyr a chreadigaethau o safon. Rhydd yr hyfforddwyr ddigon o wybodaeth i alluogi cwblhau eitemau anorffenedig yn ddiweddarach.

10.2.24 Mewn llawer clwb ieuenctid, yr unig gyfle i gyfranogi mewn coginio, harddwch neu fodelu, er enghraifft, yw trwy'r digwyddiadau a drefnir gan Gymdeithas Gymreig y Clybiau Ieuenctid. Y duedd yw i hyn olygu bod y gwaith gofal personol yn waith ad hoc ac y collir y cyfle i gynnwys agweddau ar addysg iechyd. Er hynny, trefnir y digwyddiadau'n dda gan roi profiadau buddiol i'r rhai sy'n cymryd rhan.

10.2.25 Mae un rownd derfynol sirol yn y celfyddydau domestig, a anelwyd at glybiau heb gyfleusterau arbenigol, yn nodweddiadol o hyn. Y dasg, i dimau o ddau i bedwar a ddaeth drwy'r cystadlaethau cylch, oedd paratoi a chyflwyno pryd parti i chwe phlentyn pum oed, ar gyllideb o £10. Yr oedd rhaid arddangos llyfr lòg a nodi'r rysaits a'r costau. Er bod disgwyl y câi cymaint o goginio â phosibl ei wneud o fewn yr amser a ganiatawyd, gellid llunio eitemau ategol a rhannol baratoi rhai eitemau ymlaen llaw. Bu hyn o gymorth i ddau o'r clybiau, o leiaf, wrth sicrhau cyfranogiad aelodau — nad oeddent yn rhan o'r tîm — o ran darparu syniadau, dewis setiadau bwrdd a phrynu cynhwysion. Yn ystod y cyfnod penodedig o ddwy awr, cafwyd digon o dystiolaeth o fenter unigol, dibyniaeth ar eraill, a gwaith tîm, yn ogystal â'r angen i gynllunio ymlaen llaw a gwerthfawrogi amseru. Cymerai'r marcio i ystyriaeth nid yn unig y dewis, y gost, y dull a'r broses ond hefyd gyflwyniad y bwyd ac ymddangosiad cyffredinol y bwrdd. Cynhwysai'r feirniadaeth gyngor hynod werthfawr gan arlwywyr profiadol cyn i'r timau ddifyrru cystadleuwyr eraill, beirniaid a gwahoddedigion wrth eu byrddau.

**Y Celfyddydau Creadigol a Phynciau Cysylltiedig**

10.2.26 Ceir ym mwyafrif yr unedau ryw ffurf ar gelf a chrefft sy'n cynnwys gweithgarwch unigol a grŵp a llawer o ddefnyddiau a thechnegau. Ar y lefel

symlaf, mae'n ymateb byrfyfyr i ddigwyddiad, ac fe ddeuir i mewn â defnyddiau er mwyn i'r aelodau lunio eitemau megis posteri, cardiau ffolant, masgiau, addurniadau Nadolig, hetiau Pasg neu wyau Pasg. Mantais amlwg gweithgarwch o'r math hwn yw ei fod yn cynhyrchu bron ar unwaith ganlyniadau y gellir eu rhoi ar waith yn y fan a'r lle.

10.2.27 Mae gwaith rheolaidd, ond cymharol anffurfiol, fel petai'n denu diddordeb wrth gyflawni'r un nod. Mae un tiwtor celf a chrefft yn codi stondin ar gyfer macramé, enamlo, plethu, addurniadau o begiau, neu engrafu, y bydd aelodau yn mynd ati am ryw ran o'r noson. Caiff pob un y pleser o fynd ymaith ag eitem orffenedig ar y diwedd. Mae rhai o'r grwpiau hyn yn anffurfiol iawn, ond llwydda eraill i bwysleisio defnyddio'r prosesau cywir ac ystyried yr ymddangosiad cyffredinol. Mae'r nyddu a geir mewn clwb rhan-amser yn enghraifft o hyn. Cafwyd gafael ar wlân ac offer cribo yn lleol ac fe helpir y grwpiau i lunio olwynion troi o becynnau, ac i wneud ffrâm nyddu sylfaenol. Er mai'r bar coffi yw lleoliad y cynllun, mae'n ysgogi cryn ddiddordeb ymhlith y bechgyn a'r merched fel ei gilydd.

10.2.28 Bydd gwaith arall yn mynd â'r aelodau y tu allan i adeilad yr uned. Rhydd grwpiau ffotograffiaeth gyfle i'r aelodau gofnodi diddordebau arbennig neu arbrofi gyda phortreadu: yn aml, fe ddatblygir lluniau o fewn munudau ar ôl i'r aelod ymuno â'r grŵp ac fe'u harddangosir yn fuan wedyn. Bu i glwb ieuenctid rhan-amser yn un o gymoedd De Cymru gynhyrchu peth ffotograffiaeth ddogfennol dda o'r tirlun, sef lluniau a gofnodai broblemau eira yn yr ardal. Mae dau neu dri chlwb yn gweithio gyda chamera fideo ar sylwebaeth gymdeithasol ar y gymdogaeth, gweithgarwch y mae iddo gryn botensial o ran gwerthfawrogi estheteg yr amgylchedd yn ogystal ag ymwybyddiaeth gymdeithasol. Un o'r darnau mwyaf calonogol o waith a welwyd oedd ymchwil, dogfennau a ffotograffau un grŵp o fywyd person ifanc anabl yn eu tref.

10.2.29 Ceir hefyd ddosbarthiadau mwy ffurfiol, gan gynnwys grwpiau gweithgarwch agored mewn un awdurdod addysg. Mewn un gwersyll a chwrs i'r Geidiau fe gyflwynwyd y merched i nyddu, gwneud canhwyllau, 'collage' a cherflunio 'papier mâché' gan arbenigwyr a lanwai eu hystafelloedd ag arddangosiadau o waith o safon na welwyd mo'i thebyg cyn hynny gan yr aelodau. Bydd Cymdeithas Gymreig y Clybiau Ieuenctid hefyd yn trefnu gweithdai, ond mewn llawer mudiad gwirfoddol braidd yn ffwrdd-â-hi ac o safon ddigon cyffredin yw celf a chrefft. Mae hyn yn bennaf oherwydd ystafelloedd anaddas, ond yr oedd gweld bechgyn yn 'pres rwbio' mowldiau bach plastig pan oedd yr eitemau go iawn ar garreg eu drws yn dangos pa mor hawdd yw methu â sylwi ar agoriadau ac ysgogiadau eraill. Er bod mannau ar gael ar gyfer crefft a gwaith coed, dirywio, i bob golwg, a wna dosbarthiadau'r sector statudol ac nid anghyffredin yw gweld ystafelloedd arbenigol gwag yn llawn o ddarnau anorffenedig.

10.2.30 Er ei bod yn ddyddiau cynnar arno, mae gweithdy celfyddyd mewn canolfan i'r di-waith wedi denu diddordeb llawer o bobl ifanc a oedd heb fawr o brofiad blaenorol o arlunio, peintio na cherameg. Bu grŵp o ddynion ifanc yn canolbwyntio'n dyfal ar greu darluniau ar thema diweithdra, a cheisio mynegi eu hagweddau a'u rhwystredigaethau trwyddynt. Ysgogodd y gweithgarwch hwn sgyrsiau a alluogodd y staff i'w hadnabod yn well.

10.2.31 Mewn canolfan gelfyddydau arbenigol, mae'r rhaglen wythnosol, y cyrsiau penwythnos, y cyrsiau haf, a chysylltiadau cyson ag artistiaid proffesiynol ac eitemau o safon yn cynnig ystod o brofiadau a'r cyfle i ddatblygu syniadau ar

lefel na cheir mohoni bron yn unman arall. Oherwydd ystod eang iawn oedran a gallu'r aelodau, rhaid dysgu arlunio, peintio, cerameg a gwneud printiau yn unigol. Ceir ymarfer stiwdio da, gyda'r tiwtoriaid yn mynnu, yn anymwthiol, safonau uchel o grefftwriaeth. Un o'r nodweddion trawiadol yw'r ffordd y bydd aelodau'n cyd-weithio ac yn cynnig cyngor i'w gilydd wrth i'w harbenigedd a'u hyder dyfu. Er enghraifft, fe arddangosir cynnyrch pob taniad odyn yn y blychau arddangos yn y coridor, waeth beth fo'u hansawdd, er mwyn i'r aelodau weld eu hymdrechion a'u trafod yn nhermau lliw, ffurf a thechneg. Mae'n anffodus na fu i ddylanwad y ganolfan hon effeithio odid ddim, hyd yn hyn, ar ddatblygu'r celfyddydau creadigol yng ngwasanaeth ieuenctid y sir yn gyffredinol.

10.2.32 Ffynhonnell arall bosibl o fudd ehangach yw'r cynlluniau 'artist preswyl'. Ni wyddys ond am ddau arlunydd sy'n gysylltiedig â chanolfannau ieuenctid fel hyn. Mae'r trefniadau hyn o werth nid yn unig o ran ymestyn y dimensiynau dysgu ond hefyd o ran galluogi pobl ifanc i weithio ochr yn ochr ag artist a chael profiad o ymroddiad ac arbenigedd y gweithiwr proffesiynol. Mae gan un ganolfan gymuned sydd â chlwb ieuenctid arddangosiadau o gelfyddyd, gyda chyfle i 'gyfarfod â'r artist', a bwriad canolfan arall yw gwahodd artistiaid neu grefftwyr lleol i arddangos eu medrau a rhoi cyfle i'r aelodau ymuno â'r gwaith.

10.2.33 Mae tiwtoriaid yn y ganolfan arbenigol yn mynegi pryder am nad yw llawer o bobl ifanc, er gwaethaf eu hymdrechion wrth archwilio'r gymdogaeth ac mewn arddangosfeydd, yn sylwi ar ffurf, deunyddiau, lliw, prydferthwch a hagrwch ond pan dynnir y rhain i'w sylw a'u bod yn hunan-ymwybodol wrth gymhwyso'u cyneddfau beirniadol. Ar lefel lai dyrchafol, mae gan sawl uned, statudol a gwirfoddol, ymwybyddiaeth a chwaeth mewn golwg ochr yn ochr ag amcanion eraill pan fo aelodau wrthi'n addurno a dodrefnu eu hadeilad.

10.2.34 Bydd llawer mudiad yn cynnwys agweddau ar gelf a chrefft mewn cystadlaethau. Gwelwyd posteri, darluniau, gwaith crefft ysgafn, cerflunio a phapur a 'collage' mewn digwyddiadau awdurdodau lleol. Er bod ôl brys ar ganlyniadau un gystadleuaeth, ei mantais oedd mynnu bod aelodau'n gweithio a dyfalbarhau fel tîm er mwyn llunio bwrdd neu arddangosiad ar themâu a oedd yn gysylltiedig â diogelu cefn gwlad neu â'r flwyddyn 2010. Ni chaniatawyd unrhyw waith paratoi cyn y digwyddiad hwn, ond mewn man arall, bu i dasg debyg — creu 'collage' — fod ar ei hennill yn fawr am fod rhaid i'r tîm gynllunio a cheisio cymorth pobl eraill wrth gasglu deunyddiau ymlaen llaw.

10.2.35 Gall arddangosfeydd celf a chrefft a drefnir gan awdurdodau addysg a mudiadau gwirfoddol fod o werth trwy roi cyhoeddusrwydd i'r gwasanaeth ieuenctid. Cynhwysai un ohonynt ystod eang o waith dau- a thri-dimensiwn a arddangoswyd yn dda a'i gyflwyno gan ryw 30 o ganolfannau ieuenctid amser-llawn a rhan-amser y sir. Dynwaredol oedd llawer o'r gwaith, ond yr oedd peth ohono'n rhagorol. Yr oedd cystadleuaeth celf a chrefft a adferwyd yn ddiweddar a'i rhedeg gan fudiad gwirfoddol yn gasgliad a ffurfiwyd yn fwy brysiog; ni fynnid llawer iawn o ymdrech ond denwyd nifer fawr o ymgeiswyr. Er ei bod, yn sicr, yn werthfawr i'r ymgeiswyr weld eu gwaith wedi'i arddangos a chael y cyfle i ddysgu oddi wrth yr hyn a gynhyrchwyd gan eraill, yr oedd y gwahaniaeth rhwng y ddau ddigwyddiad yn amlwg iawn. Yn yr achos cyntaf, bu i awydd dealladwy i gyflwyno enghreifftiau da o waith arwain at gyflwyno, yn enwedig mewn pren a metel, eitemau a wnaed yn yr ysgol gan bobl ifanc dalentog; yn yr ail, nid oedd llawer o'r ymdrechion arbrofol a gynhyrchwyd gan unedau ieuenctid, mewn gwirionedd, o safon a haeddai ei harddangos. Amlyga hyn yr angen am weithgarwch mwy dychmygus a strwythuredig ar lefel yr uned.

10.2.36 Nid yw'r enghreifftiau o'r celfyddydau perfformio a gweithgareddau cysylltiedig yn y gwasanaeth ieuenctid mor niferus â gweithgareddau eraill, ond maent yn gyfoethog o amrywiol. Dibynna'u bodolaeth yn drwm ar ddisgwyliadau'r darparwyr, diddordeb a brwdfrydedd swyddogion unigol, a naws yr uned neu'r prif gorff. Mae peth o'r gwaith yn gymharol hawdd ac o fewn gallu unedau ieuenctid nad ydynt ar hyn o bryd yn cynnal unrhyw weithgarwch o'r fath; mae peth ohono'n uchelgeisiol ac yn arbennig o dda.

10.2.37 Bydd sesiynau drama byrfyfyr yn canolbwyntio ar themâu megis gwahaniaethu cymdeithasol, cysylltiadau diwydiannol a'r gwrthdrawiad rhwng y cenedlaethau. Mae llawer o'r gwaith hwn yn eithriadol o ffres a dyfeisgar ac, i rai pobl ifanc, mae'n ffordd o ymestyn eu hiaith, lleddfu symudiadau braidd yn lletchwith a chyfyngus, neu yn wir, actio pethau sy'n hynod bersonol iddynt. Weithiau, gall y tiwtoriaid helpu'r rhai sy'n cymryd rhan i ddatblygu'r rhannau a'r sefyllfaoedd er mwyn dwysáu eu dealltwriaeth o rai materion. Mae i'r math hwn o weithgarwch werth arbennig, lle caiff agweddau a pherthynas pobl â'i gilydd eu hastudio mewn trafodaethau diweddarach ochr yn ochr â dadansoddiad iach o gymeriadaeth.

10.2.38 Yr oedd darn o ddrama byrfyfyr, y tro hwn ar gyfer perfformiad cyhoeddus, wedi'i seilio ar thema gref: deisyfiad am heddwch a sut y gallai delfrydiaeth a synnwyr cyffredin ieuenctid, o'u deall yn iawn, newid agweddau a lliwio dealltwriaeth a chyd-weithredu rhyngwladol. Dangosai brwdfrydedd yr actorion a'r ymroddiad hir a thrylwyr a oedd wrth wraidd y cyflwyniad cyffrous hwn i'r ddrama gydio yn niddordeb a dychymyg pawb a oedd yn gysylltiedig â hi. Gofynnai'r cynhyrchiad i'r aelodau feddu ar ystod eang iawn o fedrau perfformio ac fe sylwyd y gallai'r aelodau hŷn helpu ac annog aelodau llai profiadol y cast a bod mwyafrif yr actorion, fel unigolion ac fel grwpiau, wedi ceisio arddangos eu lefel perfformio fwyaf effeithiol. Mae manteision amlwg i'r ffaith y gall y clwb hwn ddefnyddio theatr fodern soffistigedig ar gyfer ei berfformiadau. Bu i weithio gyda staff proffesiynol yn awyrgylch cyffrous y theatr ychwanegu dimensiwn arall at y profiad.

10.2.39 Mae sioeau difyrrwch ysgafn, sgetsys, pantomeimiau, 'gang shows' a dramâu'r Nadolig ymhlith y llu cyflwyniadau dramatig eraill gan fudiadau ieuenctid. Ar gyfer difyrrwch mewnol y mae rhai o'r rhain, ond er hynny fe olygant fod aelodau'n ymwneud â phrosesau creadigol, gweithgarwch ar y cyd a gwneud penderfyniadau. Caiff eraill, gan gynnwys un a wahoddai aelodau hŷn o'r gymuned i chwarae ochr yn ochr â phobl ifanc, eu datblygu ar gyfer perfformiadau cyhoeddus a all gynnwys mynd â'r cynyrchiadau o amgylch unedau eraill a chartrefi preswyl.

10.2.40 Mae ysgogiad allanol fel petai'n bwysig. Yr oedd un grŵp, gyda chyfarwyddyd ac anogaeth y tiwtor, yn paratoi pantomeim a oedd i'w gyflwyno mewn gŵyl gelfyddydau leol. Yr oedd y grŵp wedi golygu a choethi cyfraniadau unigolion a grwpiau bach at y sgript. Cafwyd trafodaeth faith ar y gerddoriaeth a'r caneuon priodol a phenderfyniadau ar y cymeriadau neu ar y grwpiau a ddylai berfformio. Yna, aeth yr aelodau ati i gyfansoddi'r geiriau a'r caneuon. Mae'n amlwg y bu i'r dull hwn fynnu sylw'r holl grŵp ac i'r gwaith elwa ar ystod o ddoniau a diddordebau. Hefyd, ceisiai arwain yr aelodau trwy ystod fwy cynhwysfawr ac eang o brofiadau creadigol nag a geir ran amlaf — câi'r hyn a ddyfeisiwyd gan y grŵp ei berfformio gan y grŵp hwnnw.

10.2.41 Yr oedd grwpiau eraill yn ymarfer dramâu byrion ar gyfer cystadlaethau Urdd Drama Prydain. Dewiswyd testunau priodol a fynnai nifer o fedrau dehongli, gan gynnwys llefaru, cerddoriaeth, symud a dawnsio. Amlygai'r gwaith yr ymdrech a'r paratoi manwl yr oedd eu hangen. Ni hepgorwyd aelodau llai talentog ac fe ymddangosent yn frwdfrydig, ond weithiai fe gafwyd problemau wrth gael pawb dan sylw at ei gilydd pan oedd eu hangen. Fel arfer, bydd grwpiau o'r fath yn gwasgaru ar ddiwedd y digwyddiad y paratowyd ar ei gyfer ond, o'u cadw ynghyd, byddent ar eu hennill yn fawr o wynebu her gweithgareddau byrfyfyr gyda llai o gyfarwyddyd, neu fathau eraill o waith.

10.2.42 Bydd digwyddiadau cenedlaethol yn ysgogiad gwerthfawr mewn rhai mudiadau. Mae cystadlaethau drama bob yn eilflwydd Mudiad y Ffermwyr Ifanc, er enghraifft, yn denu rhyw 1,900 o bobl ifanc, 500 yn yr adran Gymraeg a 1,400 yn yr adran Saesneg. Caiff y digwyddiadau, y naill yn Ne Cymru a'r llall yn y Gogledd, eu trefnu'n dda, gyda'r ffederasiynau sy'n eu gwahodd yn chwarae rhan lawn yn y trefniadau. Mae'n amlwg, hefyd, fod y digwyddiadau'n ysgogi gweithgarwch a menter leol frwd, yn deffro diddordeb pobl ifanc mewn nifer o ddramâu ac yn helpu rhai ohonynt i ddatblygu a choethi eu diddordebau a'u medrau. Maent hefyd yn cymell cyd-weithredu mewn grwpiau a gwaith tîm effeithiol, gan ddod â grwpiau at ei gilydd i gymryd rhan mewn digwyddiad arbennig ac i ddysgu oddi wrth feirniadaeth fuddiol ond treiddgar, a chyflwyno nifer fawr o bobl ifanc i brofiad esthetig gwerthfawr.

10.2.43 Mae cyflwyniad blynyddol drama gerddorol yn ganolog i waith un ganolfan ieuenctid yng Ngorllewin Cymru. Mae'n gofyn am gyfraniad trwch yr aelodau, na fyddai'r mwyafrif ohonynt fel rheol yn ymwneud â gweithgarwch dramatig neu gerddorol. Mae cynhyrchiad diweddar, a redodd am fwy nag wythnos gan ennyn clod mawr, yn amlygu'r safonau a ddisgwylir ac a gyflawnir ym mhob agwedd ar y perfformiad. Dyma'r tro cyntaf i lawer o'r bobl ifanc hyn gael profiad o gyfrifoldebau chwarae rhannau gerbron cynulleidfa. Er y gallai'r 70 aelod o'r cast, a'r gerddorfa fach ieuanc fwynhau'r gymeradwyaeth a gawsant, fe wyddai'r rhyw 40 aelod a weithiai y tu ôl i'r llenni hefyd i'w cyfraniad gael ei werthfawrogi'n llawn. Gall fod canlyniadau pellgyrhaeddol i sicrhau ymwneud ac ymroddiad brwd pobl ifanc mewn cynllun mor fawr. Mae'n debyg y bydd un neu ddau aelod o'r cast yn ceisio mynd i ysgol ddrama maes o law. I eraill gallai'r theatr amatur neu wylio dramâu ddatblygu'n weithgareddau amser hamdden pwysig a phleserus. Dangosodd sgyrsiau â'r rhai a gymerodd ran i'r diddordebau hyn gael eu deffro. Yr effaith fwyaf arwyddocaol oll, efallai, yw'r datblygu a fu ar hyder ac ymarweddiad pobl ifanc a oedd yn swil a phetrusgar cyn dechrau ymarfer y cyflwyniad.

10.2.44 Daw mwyafrif y bobl ifanc i'r uned ieuenctid â syniadau aeddfed a phendant, yn aml, am gerddoriaeth. Gellir edrych ar y rhain fel sylfaen neu, yn llawer amlach, fel rheswm dros roi'r gorau i bob gobaith o gynnwys gweithgareddau cerddorol yn y rhaglen. Bydd canu, chwarae offerynnau a chreu cerddoriaeth, yn fwyaf aml, ac efallai'n fwyaf priodol mewn rhai cyd-destunau, yn rhan o fentrau eraill, megis y rhai a ddisgrifiwyd uchod. Ond, fel y nodwyd eisoes, mae sain ar dâp neu record yn elfen gyson yng nghefndir llawer clwb. Weithiau mae'n fwy na hynny. Mewn un clwb bach rhan-amser fe gyfyngir y chwaraeydd recordiau a'r offer cysylltiedig i un ystafell, a'r arfer (nad yw bellach yn rheol osodedig) yw i'r aelodau ddod â recordiau neu dapiau yno i'w cyflwyno drwy ddweud wrth eraill am y darn a pham y maent yn hoffi'r math hwnnw o gerddoriaeth. Gan fod rhaid i unigolion ymdopi ag unrhyw farn groes a fynegir a bod rhaid i bawb wrando ar yr hyn a chwaraeir, ceir llawer iawn mwy o oddefgarwch ymhlith pleidwyr

gwahanol fathau o gerddoriaeth pop a gwell cydbwysedd o ran arddull a pherfformwyr nag a geir fel arfer. Mewn mannau eraill, mae diddordebau cerddorol rhai pobl ifanc wedi'u cymell i gynhyrchu unedau disgo, a rhai'n gofyn prosesau hynod gymhleth ac eitemau meicro-electroneg yn ogystal â rhai trydanol.

10.2.45 Mae'n amlwg bod dehongli cerddoriaeth mewn ffordd egnïol yn mynd â bryd nifer fawr o bobl ifanc nad ydynt fel arfer yn mwynhau gweithgareddau corfforol, a cheir cefnogaeth eang i gystadlaethau dawnsio disgo. Caiff ambell dîm gyfarwyddyd ym mhob agwedd a gaiff ei beirniadu, ond eu dysgu eu hunain a wna llawer iawn ohonynt, fel arfer gydag aelod hŷn yn cyfarwyddo'r rhai llai profiadol. Yr oedd y gwaith caled a wnaed ymlaen llaw, a'r mwynhad afieithus a gaiff pobl ifanc wrth berfformio gerbron cynulleidfa fawr a brwd, yn amlwg ddigon yn rownd derfynol un o gystadlaethau cenedlaethol Cymdeithas Gymreig y Clybiau Ieuenctid.

10.2.46 Gweithgarwch arall sy'n ei gymell ei hun yw'r grŵp pop. Mewn sawl canolfan darperir ystafell ymarfer i grwpiau sydd heb le arall ar gael iddynt; mae'n anogaeth hefyd i aelodau sydd am ddod at ei gilydd i ymarfer, ac mae'n fan storio offer. Er bod y syniad o gynnig cyfleusterau'n un da, gall acwsteg gwael beri i'r grwpiau chwarae mor uchel â phosibl heb werthfawrogi odid ddim ar bwysigrwydd cyferbyniad. Yn aml hefyd, bydd y grwpiau'n gweithio yn bennaf ar eu pen eu hunain, ac yn achlysurol yr ymwelir â hwy gan y staff a'r aelodau neu y rhoddant berfformiad byw; anaml y'u tynnir i mewn i'r clwb mewn cynifer o ffyrdd ag y gellid. Eto, mae gan un ganolfan ymgynghorydd proffesiynol ar gael y gall chwaraewyr droi ato am gymorth gyda phroblemau cerddorol a thechnegol.

10.2.47 Mewn o leiaf un ganolfan lle cynigir cerddoriaeth roc fel dosbarth, mae'r aelodau'n amlygu cryn frwdfrydedd ac egni ac yn cydnabod yr angen i feithrin medrau technegol. Ceir gwahaniaethau amlwg o ran gallu ond, gan fod yno gynorthwywyr, gall y tiwtor rannu'r dosbarth yn briodol a goresgyn y prinder offer ac offerynnau. Mae'r sesiynau'n cynnwys canu unigol a chanu grŵp a dysgu dilyniannau o gordiau, tra anogir y cerddorion mwy galluog i chwarae'n fyrfyfyr, camp sy'n gofyn cryn allu cerddorol ond eto, yr un pryd, sy'n rhoi mwynhad.

10.2.48 Gweithgarwch grŵp cymharol gyffredin yw hyfforddiant gitâr. Y nod ym mwyafrif y dosbarthiadau yw y dylai'r aelodau feithrin techneg byseddu a chordiau gadarn a chael eu cyflwyno i gasgliad priodol o ganeuon gwerin. Mae cysylltu'r chwarae â chyfeilio i ganeuon penodol yn gynnar yn gymorth i ddal diddordeb. Fel arfer, fe bwysleisir gwella gallu clywedol ond, mewn un dosbarth, fe anogir darllen nodiant gitâr neu hen nodiant. Ychydig o grwpiau, i bob golwg, sydd wedi symud ymlaen i ysgrifennu cerddoriaeth.

10.2.49 Mae bandiau pres yn arbennig o gryf yn Ne Cymru. Mae un awdurdod addysg yn cynorthwyo nifer o ddosbarthiadau bandiau trwy dalu'r hyfforddwyr a darparu'r offerynnau, ac mewn un o'r unedau hyn fe ddarperir hyfforddiant, profiad chwarae a phrofiad o gystadlu ar gyfer rhyw 100 o bobl ifanc.

10.2.50 Rhedir mwyafrif y cerddorfeydd ieuenctid yng Nghymru o dan nawdd adran ysgolion yr adrannau addysg, ond mae un mudiad gwirfoddol, Geidiau Cymru, wedi ffurfio'i fand chwythu ei hun — menter uchelgeisiol, yn enwedig gan mai ychydig iawn o ferched sy'n chwarae'r offerynnau pres mawr. Eto, hyd yn oed

yn gynnar ar ôl ei ffurfio, yr oedd safon berfformio'r band yn dda. Mae menter o'r fath hefyd yn rhoi cyfle i dynnu merched at ei gilydd o bob cwr o Gymru.

10.2.51 Ym mhob gweithgarwch sy'n seiliedig ar uned, mae llawer i'w ennill trwy gysylltu â mudiadau o'r tu allan. Ni ellir amau na all ymweliadau gan gwmnïau theatr (Theatr Ieuenctid Powys, er enghraifft) ddeffro diddordeb lle nad oedd diddordeb cynt, gan wneud hynny cystal, weithiau, nes bod pobl ifanc yn ceisio ymuno â grŵp theatr ieuenctid. Mae cwmni o oedolion yng Ngogledd Cymru yn defnyddio drama gymdeithasol mewn clwb ar ystad dai ddifreintiedig, a grwpiau roc yn rhedeg sesiynau mewn nifer o ganolfannau. Bu i rai unedau yn Ne Morgannwg ddatblygu cysylltiadau buddiol â chynllun datblygu'r celfyddydau a redir dan nawdd Cyngor Celfyddydau Cymru/y Comisiwn Gwasanaethau Gweithwyr, gan fanteisio ar arbenigedd ei staff er lles y grwpiau sy'n bod eisoes ac er mwyn trefnu gweithdai arbennig. Ond ni fu i unedau ieuenctid eraill a allai, yr un mor hawdd, fanteisio ar gwmni theatr cymdogaeth, sefydlu unrhyw gysylltiad. Eto, bydd llawer mudiad yn cymell eu haelodau i fynychu dramâu a pherfformiadau cerddorol.

10.2.52 Tra bo nifer o unedau ieuenctid yn cymryd rhan yn rowndiau lleol y cystadlaethau siarad cyhoeddus neu ddadlau ar wahoddiad Rotary International a chyrff eraill, fe drefna Mudiad y Ffermwyr Ieuanc ei gystadlaethau ei hun yn Gymraeg a Saesneg. Daw'r timau drwy'r rowndiau lleol i gynrychioli eu ffederasiynau sirol. Mae'r materion sy'n destun dadlau yn y rowndiau terfynol yn amrywio ac wedi'u dewis yn dda er mwyn iddynt ymwneud nid yn unig â diddordebau pobl ifanc ond hefyd â phynciau sydd o ddiddordeb i gymdeithas, yn enwedig i'r gymdeithas yng Nghymru yn gyffredinol. Er y gall ansawdd yr ymchwil a'r cyflwyniad amrywio cryn dipyn, mae'r her i aeddfedrwydd y rhai sy'n cymryd rhan, a'r holi ar eu rhwymedigaethau a'u cyfrifoldeb personol, o gryn arwyddocâd.

10.2.53 Ar lefel wahanol, mae'r cystadlaethau cwis a drefnir ar lefel ardal, sir a rhanbarth gan y ddau sector yn dipyn o achlysur a hynny, i fwyafrif y cystadleuwyr ac i'r gynulleidfa, mewn sefyllfa fwy ffurfiol a disgybledig na'r hyn a geir fel arfer yn eu huned ieuenctid. Ond braidd yn hen ffasiwn yw ffurf y cwestiynau a natur y cyflwyniad. O ddefnyddio cynorthwyon clyweledol, gellid rhoi prawf ar wahanol alluoedd, gan ychwanegu at y difyrrwch.

10.2.54 Mae Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, ynghyd ag eisteddfod flynyddol ddwyieithog Mudiad y Ffermwyr Ifanc, yn amlygu bywiogrwydd parhaol eisteddfodau pobl ifanc. Brwdfrydedd y cystadleuwyr a safon gyffredinol uchel y perfformio sy'n nodweddu Eisteddfod yr Urdd. Yr eisteddfod hon, a gynhelir am yn ail yn Ne a Gogledd Cymru, gyda phwyllgor lleol yn gofalu am y trefniadau, yw'r digwyddiad mwyaf o'i fath yng Ngorllewin Ewrop. Canlyniad yw'r safonau i eisteddfodau cylch a sir sy'n ymwneud â rhyw 40,000 o aelodau (tua 7,500 yn 14 oed a throsodd). Yn ychwanegol at gystadlaethau sy'n debyg i rai'r Eisteddfod Genedlaethol, fe geir yn ystod y pedwar diwrnod gynulleidfaoedd mawr sy'n mwynhau cyngherddau gyda'r hwyr, cynyrchiadau dramatig ac arddangosfeydd o waith pobl ifanc. Mae gweithgareddau a fu, tan yn ddiweddar, yn rhai ymylol, megis unawdau offerynnol, cerddoriaeth siambr a cherddorfaol a dawns greadigol fodern, yn ennill eu plwyf ochr yn ochr â'r rhai traddodiadol, sef ysgrifennu rhyddiaith a barddoniaeth, adrodd, canu, dawnsio gwerin a drama. Mae'r amrywiaeth yn sicrhau rhaglen gytbwys ar gyfer pob sesiwn.

10.2.55 Bydd llawer ysgol yn defnyddio'r llwyfan er mwyn cyflwyno perfformwyr o wahanol fathau, rhai ohonynt heb fod yn aelodau gweithgar o'r Urdd ac na ddylanwadir odid ddim arnynt gan yr awyrgylch unigryw. Eto, mae'r perfformwyr yn y grwpiau hŷn yn amlygu ymroddiad llwyr, i bob golwg, er na chyrhaeddir yr un safonau cyson uchel bob tro, a hynny am fod llawer o'r aelwydydd mwyaf gweithgar yn ardaloedd mwy anghysbell Cymru ac nad oes ganddynt y cysylltiadau ag arbenigwyr sydd ar gael i gystadleuwyr ysgol. Eto, fe amlyga'r aelodau hyn, asgwrn cefn y mudiad, gryn botensial, a gallent yn hawdd elwa'n fawr o gael cyfarwyddyd mewn rhai medrau perfformio. Er hynny, daliai un grŵp, y cyfarfuwyd ag ef ym mis Tachwedd, i ail-fyw profiadau yn gynharach yn y flwyddyn pan ddaethant yn agos at y brig mewn nifer o adrannau. Casglwyd llyfrau lloffion, ffotograffau a disgrifiadau ysgrifenedig ynghyd yn gofnod parhaol o'u llwyddiant, a gallai unigolion siarad yn frwd am y rhan a chwaraewyd ganddynt, gan esbonio'i gwerth iddynt o ran 'gwneud rhywbeth gwahanol', 'cael nod i weithio ato', 'cyfarfod â phobl newydd', 'ysbryd y grŵp' a 'hwyl'.

## 10.3 Ymwneud â'r Gymuned

10.3.1 Mae gwasanaethu'r gymuned yn rhan o draddodiad y gwasanaeth ieuenctid, ond llai o lawer yw ymwneud adeiladol yr unedau ieuenctid a'u haelodau â'r gymuned, ac ynddi. Eto, fe ddatblygwyd ystod o fentrau, ledled Cymru, sy'n cymell pobl ifanc i gymryd rhyw fath o ran weithgar yn eu cymuned, sy'n ceisio dwysáu eu hymwybyddiaeth o'r gymdeithas a'r amgylchedd, neu sydd, ambell waith, yn ymwneud â gallu pobl ifanc i ddarganfod a gweithredu ar faterion sy'n effeithio arnynt hwy ac ar eu cymdogaethau.

10.3.2 Gwasanaethu'r gymuned yw prif bwrpas gwaith Cadetiaid Ambiwlans St. John, a nod eu hyfforddiant cymorth cyntaf yw cyflawni dyletswyddau mewn digwyddiadau lleol a chenedlaethol, mewn patrolau arbed bywydau ar draethau, neu wrth achub dringwyr. Er y gall sesiynau arferol ganolbwyntio ar ddysgu cymorth cyntaf ymarferol, yr her a roddwyd i gynhadledd penwythnos o 43 o gadetiaid 15-20 oed oedd cynllunio'r trefniadau cymorth cyntaf ar gyfer ymweliad y Pab â Chaerdydd. Bu 300 o gadetiaid wrth y gwaith yn ystod 36 awr yr ymweliad. Mae'n amlwg bod llawer ohonynt ar eu hennill yn fawr o fod yn gysylltiedig ag achlysuron o'r fath yn ogystal ag o'u hymwneud â gweithgareddau newydd trwy fynychu, er enghraifft, gyfarfodydd rasio ceffylau, rasys hen geir a pherfformiadau theatrig.

10.3.3 Nid yn unig y mae'r syniad o roi gwasanaeth gyda gallu a dirnadaeth sy'n ganlyniad i hyfforddiant ymlaen llaw yn rhan o'r hyn a ddisgwylir oddi wrth sgowtiaid a geidiau, ond y syniad hwnnw yw hanfod cynlluniau megis Gwobr Dug Caeredin. O ganlyniad, ceir bod llawer o'r rhai sy'n cymryd rhan yn dysgu am waith yr heddlu, y gwasanaethau tân, nyrsus cartref a grwpiau arbed bywydau, a'u bod yn cyflawni cyfnod o waith gwirfoddol ymarferol. Mae i hyn ganlyniadau eraill. Dylanwadwyd ar ddewisiadau o ran gyrfa, a bu i aelodau eraill o'r uned, a rhieni, ymuno i roi help llaw. Bu i gynllun gwahanol o dan nawdd y Cyngor Ieuenctid Rhanbarthol sefydlu rhwydwaith o grwpiau o bobl ifanc ledled y wlad sy'n barod i ymateb i anghenion hysbys am wasanaeth.

10.3.4 Bydd nifer o ymddiriedolaethau swyddogol hefyd yn rhoi grantiau i geisio cymell pobl ifanc i helpu eraill. Gwneir hyn, yn arbennig, gan Ymddiriedolaeth Jiwbilî Arian y Frenhines er mwyn hybu cynlluniau a gweithgareddau gan bobl ifanc o dan 25 oed sy'n debyg o helpu'r gymuned, tra bo Ymddiriedolaeth y

Tywysog ambell waith yn helpu unigolion i gyrraedd nodau tebyg ond ar raddfa lai. Rhydd cyrff eraill arian i hybu cynlluniau cadwraeth.

10.3.5 Mae'r nifer helaethaf o lawer o ymdrechion gwasanaeth cymuned fel petaent yn ymwneud â chynlluniau penodol megis helpu gyda gweithgareddau'r gymdogaeth, codi arian at achosion lleol, a chyflawni amryfal fân ddyletswyddau. Er y gellid dadlau o blaid cyd-gysylltu ymdrechion lleol, nid oes dim o'i le mewn gwirionedd ar natur tymor-byr neu dymor-canolig llawer o'r gwaith hwn; yn wir, gall fod yn gyfrwng mwy priodol nag un sy'n golygu perthynas tymor-hir ag un unigolyn. Er hynny, mae'n peri pryder bod pobl ifanc yn cael cyn lleied o gymorth i feddwl ynghylch yr hyn y maent wedi'i wneud ac y gall eu twf, felly, fod yn gyfyngedig i fedrau cyflawni tasgau.

10.3.6 Problem sy'n wynebu mwyafrif yr unedau yw bod grwpiau o oedolion yn y gymuned yn cymryd yn ganiataol y bydd pobl ifanc yn cyfrannu, ac yn rhoi cryn gyfrifoldeb ar yr arweinydd a'r aelodau. Mae'n sicr bod angen i unedau ieuenctid gymryd disgwyliadau'r gymuned leol o ddifrif, ond ni ddylid gadael i'r ffactor hwn fod yn drech na'r brif ystyriaeth, sef hybu datblygiad yr aelodau. Oherwydd iddynt deimlo pwysau mudiadau oedolion yn hyn o beth, ceisiodd un neu ddau grŵp sicrhau cytundeb â'r rhai a ofynnai am gymorth y byddent yn cysylltu â'r aelodau er mwyn darganfod pwy yn union a fyddai am roi cymorth iddynt ar gynllun arbennig. Bu hyn o fudd i'r ddwy ochr: meithrinwyd hunan-hyder a hunan-barch yr aelodau trwy weithio ochr yn ochr ag oedolion, ac mae ymwneud oedolion eraill wedi galluogi rhagor o bobl ifanc i gymryd rhan, ac ystod helaethach o gynlluniau i gael eu cyflawni, nag a ellid gynt. Cafodd oedolion o dan yr amgylchiadau hyn eu synnu'n gyson gan ddirnadaeth pobl ifanc o anghenion pobl eraill a'u parodrwydd i fwrw ati a gweithio'n dda fel tîm. Manteision eraill yw bod aelodau'n gallu llunio cynllun, yn hytrach na'i etifeddu yn unig, a bod tuedd i gwblhau mwy o waith.

10.3.7 Ceir tystiolaeth bod modd gwella llawer ar ddelwedd uned fel hyn, a'i fod yn hybu perthynas ag ystod helaethach o bobl leol nag a oedd yn bosibl gynt, hyd yn oed pan fo gan yr uned gorff ymgynghorol neu gorff rheoli, neu pan fo'r arweinydd yn gwasanaethu ar bwyllgor neuadd y pentref neu'r ganolfan gymuned. Mae'n amlwg bod angen cysylltiadau o'r fath os bwriedir gwella'r ddealltwriaeth gyffredinol o waith ieuenctid, os bwriedir integreiddio pobl ifanc i'w cymuned ac os bwriedir rhyddhau'r potensial lleol i helpu pobl ifanc. Mewn dau glwb yr ymwelwyd â hwy, bu i aelodau a oedd am gael ail noson ieuenctid gysylltu â phwyllgor y ganolfan gymuned a recriwtio oedolion i'w harolygu'n wirfoddol. Mewn llawer uned arall, bu i'r aelodau eu hunain gysylltu â'r trigolion, gan gynnwys rhieni, i'w helpu gyda medrau penodol neu waith angenrheidiol.

10.3.8 Mae'r camau hyn o fudd uniongyrchol o ran sicrhau cysylltiadau â'r gymuned, ond dangosant hefyd gymaint y mae pobl ifanc am weld gweithredu. Yn ystod yr arolwg, cadarnhaodd nifer o bobl ifanc eu hymwybyddiaeth o berthyn i'r fro y trigant ynddi a'u hymboeni ynghylch ansawdd bywyd yno. Eto, mae'n anffodus mai cymharol ychydig o fudiadau sy'n helpu eu haelodau i amgyffred realiti bywyd yn eu cymuned neu sy'n cyfeirio cyfraniadau pobl ifanc tuag allan. Lle ceir trafodaethau sy'n galluogi aelodau i ganfod problemau ac anghenion y gymuned, cafwyd rhai canlyniadau mentrus, a'r mwyafrif ohonynt yn golygu ymroddiad tymor-hir. Weithiau cafwyd ymateb cyflym gan ofyn i bobl ifanc ddefnyddio'u menter a rhedeg sesiynau cyson i bensiynwyr, gofalu am rannau o'u bro, darparu rhaglenni ar gyfer gwasanaethau radio ysbytai, neu helpu adeiladu maes chwarae antur, er enghraifft.

10.3.9 Yr hyn a fu'n fwyaf cyfrifol am ysgogi pobl ifanc i weithredu yn ystod cyfnod yr arolwg oedd eira Ionawr 1982. Daeth llawer o adeiladau ieuenctid yn Ne Cymru yn ganolfannau argyfwng, ac mae hanes un ohonynt yn nodweddiadol o'r ymateb parod. Mewn cwm lle ynyswyd mwyafrif y cymunedau, defnyddiodd gweithiwr ieuenctid yr orsaf radio leol i apelio at aelodau a allai gyrraedd y ganolfan yn ddiogel i ddod yno i roi help llaw. O fewn 30 munud i'r alwad, cyrhaeddodd 28 o bobl ifanc 14-21 oed. Am bron saith nos a dydd bu i'r bobl ifanc hyn, ynghyd ag eraill mewn mannau strategol yn y cwm, ateb bron 2,000 o alwadau am gymorth a gwneud dros 500 o alwadau ffôn i sicrhau perthnasau fod popeth yn iawn. Aethant drwy'r eira trwm gyda chyflenwadau brys o fwyd a llaeth (1,300 o dorthau o fara, 1,800 o beintiau o laeth), glo a chyflenwadau meddygol, gan roi cymorth ymarferol wrth ryddhau llwybrau at dai a chlirio llwybrau at doiledau tu allan i'r henoed a'r claf. Ychydig fisoedd yn ddiweddarach, daliai'r aelodau i gofio'n afieithus am y profiad ac yr oedd rhai ohonynt wedi datblygu dealltwriaeth aeddfed o'r problemau y bydd llawer o bobl yn ymdopi â hwy ac o'r amgylchiadau y maent yn byw ynddynt. Bu i nifer o bobl ifanc, hefyd, ddysgu am y tro cyntaf fod parodrwydd i dderbyn cymorth yn aml yn rhan bwysig o'r weithred o roi.

10.3.10 Ceir enghreifftiau o fynd â'r broses gam ymhellach — nid canfod anghenion y gymuned yn unig ond canfod a deall eu hachos ac archwilio ffyrdd posibl o weithredu. Yr oedd un ganolfan, ar ôl darganfod yr angen i bobl ifanc mewn cartrefi cymuned gael cyfle i gymdeithasu, a threfnu iddynt gael eu tywys i'r clwb, yn poeni ynghylch cyflwr pobl anabl a oedd yn gaeth i'w tai. Defnyddiwyd fideo fel ffordd o dynnu sylw'r gwahanol gyrff ac awdurdodau at y broblem. Eisoes yr oedd rhai o'r bobl ifanc wedi deall mwy ar rai o brosesau cymdeithas a gwerthoedd pobl eraill. Eto, yr oedd yr arweinydd yn dechrau teimlo pwysau o'r tu allan i gyfyngu ar eu brwdfrydedd a'u hawydd i sicrhau newid. Mae'n amlwg bod rhaid gweithio ar fater o'r fath os yw pobl ifanc i ddatblygu ymwybyddiaeth o'r ffordd y gallant wella'u sefyllfa'u hunain a sefyllfaoedd pobl eraill a chael eu helpu i ymwneud yn gadarnhaol â bywyd y gymuned. Mae'r ffaith fod nifer o Ffermwyr Ifanc ar adegau'n codi materion ac yn ymwneud â materion y gymuned yn dangos yr hyn y gellir ei wneud pan na chyfyngir ar bobl ifanc gan fframweithiau sefydliadol. Bu i glwb arall, a geisiai ffyrdd o gynnwys aelodau yn eu cymuned, ddechrau trwy fynd â grwpiau i gyfarfodydd o'r cyngor cymdeithas. I gychwyn, gwrando yn unig a wnaent ond yn y man daethant i gyd-drafod gyda'r cynghorwyr, datblygiad a arweiniodd at gyd-drefnu rhai cynlluniau amgylchedd.

10.3.11 Daeth dimensiynau eang eraill y berthynas rhwng y gwasanaeth ieuenctid a'r gymuned hefyd i'r amlwg yn ystod yr arolwg. Teimla ambell uned nad oes ganddi gyfrifoldeb dros ymddygiad na lles ei haelodau y tu allan i'r adeilad, ond fe gymer eraill y materion hyn o ddifrif calon. Gall hyn gynnwys ceisio peri bod rhai mathau o ymddygiad ar y stryd yn fwy derbyniol yn gymdeithasol, ymweld â chartrefi, neu siarad ar ran aelodau mewn cysylltiad ag achosion llys. Mae'r gwaith hwn, i sawl uned, yn rhan hanfodol o helpu rhai aelodau i ddod i delerau â chymdeithas yn union fel y gellid cynorthwyo aelodau eraill i sicrhau newid. Ni chyll y grwpiau hyn, na grwpiau eraill, unrhyw gyfle i gynnwys rhieni ac aelodau eraill y gymuned yn eu gweithgareddau. Weithiau, nid yn unig y daw gweithgarwch yn ganolbwynt i ddiddordeb y gymuned, ond fe'i gwelir hefyd fel cyfraniad yr uned ieuenctid at fywyd y fro. Mae mathau arall o achlysur fel petaent yn darparu fframwaith pwrpasol ar gyfer datblygiad personol a chymdeithasol yr aelodau yn ogystal â lleddfu cryn dipyn ar ragfarn y gymuned. Mae'r rhain yn cynnwys ciniawau blynyddol, digwyddiadau arbennig ar gyfer

pobl ifanc megis Cawl Cennin, arddangosiadau o waith neu weithgareddau a nosweithiau agored cyffredinol.

## 10.4 Ymestyn Gorwelion

10.4.1 Mae cyfran o'r gwaith y cyfeiriwyd ato eisoes yn wynebu'r dasg bwysig o gymell pobl ifanc i gymryd rhan mewn profiadau newydd, ac felly mae'n cyfrannu at ledu gorwelion a'u helpu i ymberthnasu â'r byd yn gyffredinol. Eto, mae nifer o fesurau — a all fod yn rhai lleol, cenedlaethol neu ryngwladol, a all ymwneud â grwpiau bach neu fawr neu unigolion, ac a all gynnwys gweithgareddau unigol neu gyfansawdd — wedi'u cynllunio'n benodol at y dibenion hyn.

### Mentrau Lleol

10.4.2 Defnyddia llawer uned, yn enwedig y rhai yn y sector gwirfoddol, eu hamgylchedd uniongyrchol ar gyfer rhyw fath o addysg awyr agored (gweler 10.4.9-10.4.17). Ambell waith, fe ddefnyddia'r gweithwyr ieuenctid ddiddordebau'r aelodau, megis pysgota neu ganfod metelau, fel ffordd o gymell grwpiau i archwilio'r gymdogaeth. Ymwelwyd â dwy uned ar ganol helfa drysor ac yr oedd yn amlwg bod nifer o'r 'helwyr' wedi'u cymell i edrych o'r newydd ar rannau o'u hardal y byddant fel arfer yn eu cymryd yn ganiataol. Cafwyd cynnydd tebyg mewn ymwybyddiaeth feirniadol pan fu i glwb mewn ardal wyliau boblogaidd gynnwys cyfle i'r aelodau ymgymryd â theithiau ymwelwyr, a phan aethai rhai unedau ati i ail-ddarganfod llwybrau lleol 'coll'. Haedda'r mentrau hyn eu mabwysiadu'n helaethach, yn enwedig gan y grwpiau mwyaf anghysbell lle mae cost llawer o weithgareddau eraill yn llethol.

10.4.3 Mae'n fwy cyffredin anwybyddu posibiliadau lleol ar draul taith yn ystod y dydd neu gyda'r hwyr — i ddinasoedd mawr, canolfannau chwaraeon, theatrau neu drefi gwyliau. Ychwanegir llawer at werth y teithiau hyn pan fo iddynt ganolbwynt a phan fo'r aelodau'n cymryd rhan yn y cynllunio. Golygai un ohonynt ymchwilio i'r ffasiynau diweddaraf, gofynnai nifer ohonynt i'r aelodau ddysgu'r arferion safonol wrth fwyta allan, tra ceisiai eraill ymgymryd â gweithgarwch newydd o dan amgylchiadau newydd. Lle ceir ailadrodd cyson ar deithiau i ganolfannau hamdden a chanolfannau sglefrio, er enghraifft, mae peth amheuaeth ynghylch eu buddioldeb.

10.4.4 Yn aml, rhydd gweithwyr ieuenctid bwys mawr ar ymweliadau ag unedau eraill wrth gymryd rhan mewn cystadlaethau neu o ran cyfeillgarwch, weithiau lawn cymaint er mwyn buddioldeb trafodaethau a chyfeillgarwch y daith yn y bws ag er mwyn y gweithgarwch y pen arall. Ond mae'n amlwg nad yw nifer o'r achlysuron hyn fawr mwy na chael grwpiau o un neu ddau o glybiau mewn adeilad gyda'i gilydd, a'r awyrgylch weithiau'n derfysglyd. Dim ond pan fo pobl ifanc yn eu hadnabod ei gilydd mewn cyd-destunau eraill (yr ysgol fel rheol) y ceir, i bob golwg, unrhyw gymysgu rhwng yr aelodau. Hwyrach bod rhywbeth i'w ddysgu oddi wrth un uned wirfoddol sydd, trwy baratoi a chynnig lluniaeth a thrwy gyfarch ymwelwyr wrth iddynt gyrraedd, yn ceisio estyn y cyfle i sicrhau cydadwaith. Perthyn potensial hefyd i rai 'cynulliadau' ardal sydd, er yn rhannol gystadleuol, wedi'u cynllunio i hybu integreiddio. Mae nifer o gynlluniau hyfforddi aelodau hŷn a chystadlaethau herio unigol hefyd yn golygu ymweld â grwpiau ieuenctid eraill.

**Cyfnewid a Chysylltiadau Eraill**

10.4.5 Mae cyfnewidiadau'n nodwedd ar raglen flynyddol llawer uned. Mae gan glwb o Glwyd, er enghraifft, drefniant gyda chlwb yn Nottingham a bydd unedau yn ardaloedd gwledig Gogledd Cymru yn cyfnewid â rhai yng Nghaerdydd. Ym mhob achos, bydd aelodau'n aros yng nghartrefi ei gilydd ac yn cael profiad o amgylchedd ei gilydd am gyfnod o ryw wythnos. Dangosodd y sgyrsiau na fu i fwyafrif yr aelodau deithio mor bell o'r blaen ac i hynny ac, efallai, flasu ffordd o fyw, gweithio ac amgylchiadau cartref gwahanol, gael cryn effaith arnynt. Gwelwyd hyn pan ddatgelodd un aelod mai ei thaith hir gyntaf heb ei theulu a'r tu allan i Gymru, onibai am drefniant cyfnewid y flwyddyn flaenorol, fuasai ar gyfer cyfweliad mewn prifysgol.

10.4.6 Mae cynlluniau tebyg ymhlith y llu cysylltiadau rhyngwladol a sefydlwyd gan y gwasanaeth ieuenctid. Clywyd am gyfnewid rhwng unigolion, unedau, ardaloedd neu fudiadau a'u cymrodyr yn yr Almaen, Gogledd Iwerddon, yr Iseldiroedd, Dwyrain Ewrop a Llydaw. Mae rhai o'r rhain yn gysylltiedig â threfniadau gefeillio, ceir eraill yn sgîl ymweliadau arweinwyr â'r Cyfandir o dan nawdd y Cyngor Prydeinig, mae nifer yn gynnyrch y ffederasiynau rhyngwladol o fudiadau ieuenctid gwirfoddol, ac fe ddeillia rhai o gysylltiadau chwaraeon neu gysylltiadau cerddorol. Mae'n ymddangos mewn llawer o'r achosion hyn, fel sy'n digwydd yn aml gyda llawer o wyliau gartref a thramor yr ymgymerir â hwy gan unedau ieuenctid, na chaiff pobl ifanc ddigon o gysylltiad â diwylliant y wlad yr ymwelant â hi ac na chwaraeant ddigon o ran yn y paratoadau nac wrth ddychwelyd y croeso. Fe ddigwydd hyn yn aml gan mai'r arfer yw i aelodau mwy nag un uned gael eu cynnwys ac i'r trefnu fod yn ganolog, ond mae'r duedd gynyddol i ymwelwyr gael eu lletya mewn canolfannau preswyl yn hytrach nag yng nghartrefi aelodau yn gwbl groes i rai amcanion hysbys.

10.4.7 Mae i weithgareddau rhyngwladol, gan gynnwys cyrsiau a raliau, le blaenllaw yn narpariaeth Mudiad y Ffermwyr Ifanc. Hefyd, bydd amrywiol ysgoloriaethau'n galluogi aelodau o Gymru i deithio i Hong Kong, Ffindir, Cenia a Chanada neu i astudio agweddau ar fywyd ac amaethyddiaeth yn yr Unol Daleithiau neu Ewrop. Mae'n werth sylwi bod disgwyl iddynt gyflwyno sgyrsiau tra byddant ymaith ac ar ôl dychwelyd, a chyflwyno adroddiadau ar eu teithiau; mae hyn yn gofyn iddynt ystyried eu profiadau ac ymdopi â phwysau cysylltiadau cyhoeddus.

10.4.8 Darparwyr eraill sydd ar flaen y gad o ran gweithgarwch rhyngwladol yw'r Sgowtiaid a'r Geidiau, sy'n trefnu gwersylloedd mawr lle byddant hwy a'u hymwelwyr yn byw ac yn gweithio ochr yn ochr. Gwneir trefniant tebyg gan Urdd Gobaith Cymru, sydd hefyd yn darlledu neges heddwch flynyddol mewn amryw o ieithoedd. Cyfrannwr mawr at weithgarwch rhyngwladol yw awdurdod addysg De Morgannwg, yn rhannol oherwydd statws Caerdydd fel prifddinas, a bydd rhyw 200 o bobl ifanc o'r sir yn cymryd rhan yn y trefniadau cyfnewid bob blwyddyn. Nifer llawer llai sy'n cyfnewid mewn ardaloedd eraill; serch hynny, heb y gwasanaeth ieuenctid byddai llai byth o bobl ifanc yn cael cyfle o'r fath.

**Addysg Awyr Agored**

10.4.9 Mae gweithgareddau awyr agored yn rhan gyson neu achlysurol o raglen llawer uned. Gall y staff rheolaidd gymryd rhai o'r grwpiau a welwyd neu y cafwyd adroddiadau amdanynt, mae ar eraill angen hyfforddwyr ag arbenigedd

penodol, a bydd ambell un yn gorfod mynychu canolfannau arbenigol neu ddefnyddio cyfleusterau arbenigol. Tra bo rhai o'r gweithgareddau hyn yn cynnwys gwaith paratoi yn yr uned ac yn darparu hyfforddiant dros nifer o wythnosau, cynigir eraill yn llai ffurfiol ac, ar eu gwaethaf, eu hunig ganlyniad yw bod pobl ifanc yn gwneud dim mwy na cherdded yn ddi-sbonc a di-weld y tu ôl i'w harweinydd. Mae'r diffyg cyfatebiaeth rhwng lleoliad daearyddol uned a'i hymroddiad i weithgareddau awyr agored yn arwydd, efallai, nad yw amgylchedd priodol ynddo'i hun yn ddigon o ysgogiad.

10.4.10 Ar y llaw arall, lle mae addysg ar gyfer yr awyr agored yn un o brif amcanion gwaith y mudiad, megis yng ngwaith mudiadau'r sgowtiaid a'r geidiau, ceir llawer o bwyslais ar ymarfer fel unigolion ac fel rhan o dîm cyn gosod pobl ifanc mewn sefyllfaoedd sy'n defnyddio'r hyn a ddysgasant. Yn yr un modd, mae adran deithiau Gwobr Dug Caeredin yn mynnu gwaith theori a gwaith ymarferol gofalus wrth baratoi ar gyfer teithiau ar droed, ar feic, ar gefn ceffyl neu mewn gwahanol fathau o gychod. Yn yr holl achosion hyn, meithrinir crynswth o wybodaeth a medrau er mwyn i bobl ifanc symud o gwmpas yn ddiogel, bod yn hunan-ddibynadwy a chyfrannu at y grŵp.

10.4.11 Canlyniad mwyaf mynych yr hyfforddiant hwn yw gwersylla a theithiau dros nos sy'n gofyn arweiniad a gwaith tîm, ond mae angen ymarfer hefyd ar gyfer nifer o ddigwyddiadau, gan gynnwys 'Sialens' Morgannwg Ganol ac 'Operation Breakout' Cymdeithas Gymreig y Clybiau Ieuenctid. Ym 1982 bu i'r olaf ddenu 28 o bobl ifanc (15 gwryw, 13 benyw) o blith unedau statudol a gwirfoddol mewn ardaloedd trefol a gwledig. Rhoddwyd cyfarwyddyd ac archwiliad iddynt cyn gweithio fesul pedwar i gyflawni eu nod. Ar bob adeg, câi'r staff gyfle i sylwi ar ddisgyblaeth a dyfeisgarwch yr ymgeiswyr wrth iddynt fynd i'r afael â thasgau megis darllen map, cynllunio llwybr, cynnau tân a choginio. Yr oedd hyn, ynghyd â'r sesiwn ar ddiwedd y penwythnos, yn amlygu'r menter, yr hyder unigol, yr arweiniad a'r gwaith tîm a ddatblygwyd. Dangosodd yr ymarfer hefyd y bydd pobl ifanc, o gael trefniant rhagorol, yn ymateb i weithgarwch hynod strwythuredig ac i'r her i'w hymestyn eu hunain.

10.4.12 Mae nifer o awdurdodau addysg a mudiadau gwirfoddol wrthi'n hybu gweithgareddau awyr agored trwy ddarparu rhaglenni parod o gyfarwyddiadau i bobl ifanc. Mae'r rhain yn cynnwys y canwio a drefnir gan Dde Morgannwg (yng Nghaerdydd) a chan Gymdeithas Chwaraeon Ieuenctid Siroedd Cymru (ym Mhowys), yr hwylio a redir gan Dde Morgannwg a'r canwio, abseilio a'r sgïo a gynigir o gwmpas y wlad gan Gymdeithas Gymreig y Clybiau Ieuenctid. Ar noson hwylio, ceir llawer o arwyddion bach bod yr aelodau'n dibynnu llai a llai ar yr hyfforddwr yn y cwch a'u bod yn fwyfwy hyderus mewn gwahanol symudiadau. Ar y llaw arall, mae rhai sesiynau canwio'n amlygu pwysigrwydd grwpio pobl ifanc yn ôl eu gallu a darparu amodau addas ar gyfer rhai o lefelau gwahanol. Mewn un achos, yr oedd yr hyn a ddisgwylid oddi wrth ddechreuwyr mor anodd nes iddynt roi'r gorau iddo ar ôl cinio; mewn un arall, ni ofynnai'r cwrs ddigon oddi wrth lawer o'r grŵp. Eto, ar y cyfan, fe ddysgir y gweithgareddau'n bur dda, gan roi sylw i ddiogelwch heb i hynny amharu ar gyffro'r antur.

10.4.13 O bosibl, fe ddeuir wyneb yn wyneb â'r her hwn yn fwy byw yng nghyd-destun yr addysg awyr agored ryng-ddisgyblaethol sydd ar gael mewn llawer canolfan breswyl yng Nghymru (gweler 6.33–6.37). Mewn un, fe wyliwyd grŵp o 20 gyda'r staff o ganolfan ieuenctid drefol am ryw ddiwrnod a hanner. Treuliwyd y noson gyntaf yn croesawu, cyflwyno a chynnig gwybodaeth, cynefino â'r ganolfan a dosbarthu offer.

10.4.14 Y diwrnod canlynol, rhannwyd y grŵp yn ddwy i fynd am dro antur. Cychwynnodd un ohonynt yn hawdd dros gerrig camu ac i fyny ar hyd llethr, ond yn fuan fe gafwyd sawl her, pob un ychydig yn fwy anodd, yn fwy cyffrous neu'n fwy mentrus na'r llall. Yr oedd yr arweiniad yn ofalus ond pendant gan sylwi'n gyflym ar unrhyw duedd i roi'r gorau iddi, a lleddfu'r awydd i gystadlu ac eto feithrin y teimlad o ddisgwyl pleser, gan gynnwys esboniadau ac awgrymiadau ynghylch techneg pan oedd eu hangen, a rhannu'r pleser mewn cyflawni campau ac mewn eiliadau hwyliog. Cafwyd egwyl briodol hwnt ac yma pryd yr anogwyd yr aelodau i siarad am yr hyn yr oeddent yn ei wneud a'i deimlo, a chyda chymorth, i edrych ar yr hyn a oedd o'u hamgylch a gwrando arno.

10.4.15 Trwy eu hymddygiad a'u geiriau fe amlygodd y grwpiau effaith uniongyrchol a sylfaenol y profiad arnynt. Daethant yn fwy bywiog gan symud o betruster cychwynnol o ran medrau syml i synnu'n fawr at oresgyn yr hyn y bu iddynt gredu gynt ei fod yn anorchfygol, ac ymlaen i bennu disgwyliadau uchel ohonynt eu hunain ac i hyder go iawn. Yn fuan iawn, troes eu gofid personol yn ymwybyddiaeth o anghenion eraill o'u blaen a'r tu ôl iddynt; gwrandawent yn astud ar yr hyn a ddywedwyd wrthynt am hanes ac ecoleg yr ardal a dechreuasant ofyn cwestiynau a dangos pethau i'w gilydd; cynyddodd eu cydadwaith llafar; fe boenent llai am eu dillad, eu gemau, eu gwallt a'u hymbincio; ac fe amlygent ddyfeisgarwch pan ofynnwyd iddynt sut y gallai'r grŵp fynd i'r afael â'r cam nesaf. Sicrhawyd eu diddordeb a'u hymdrechion trwy gydol y daith. Nid oes amheuaeth na fu i'r daith gerdded ymestyn eu galluoedd yn raddol, gan fynnu ymdrech a chyd-weithredu a dod â phob aelod yn ddiogel, ond gydag ymwybyddiaeth o berygl a bywiogrwydd, yn agos at ymylon eu gallu personol.

10.4.16 I ryw raddau, cais y ganolfan gyfnerthu'r rhwymau sy'n deillio o brofiad o'r fath gyda thrafodaeth ategol ac astudiaethau cefndir eraill gyda'r hwyr, ond mae mwy o amheuaeth ynghylch diogelu'r newid mewn ymddygiad ar ôl i'r aelodau ddychwelyd adref. Teimla'r gweithwyr ieuenctid eu bod yn gwybod mwy am yr aelodau ac mae'n amlwg bod yr aelodau'n gwerthfawrogi'r ffaith fod y staff yn dod gyda hwy. Ond, heblaw am rannu'r ffotograffau, ni fu fawr o gyfle i bawb ystyried yr hyn a wnaethant a'r hyn y mae'n ei olygu iddynt. Gellid rhoi mwy o sylw i'r math hwn o waith ategol yn ogystal ag i recriwtio a chyflwyno gwybodaeth.

10.4.17 Mae gwerthfawrogiad y wardeniaid a'r hyfforddwyr o amcanion a dulliau datblygiad cymdeithasol a phersonol yn ganolog i unrhyw lwyddiant mewn addysg awyr agored. Mae'n anffodus na fanylir digon bob tro wrth esbonio'r amcanion hyn wrth weithwyr ieuenctid ac na ddiffinir yn gliriach swyddogaethau'r staff preswyl a'r staff sy'n ymweld. Eto, cais rhai canolfannau redeg sesiynau rhagarweiniol fel rhan o gyrsiau arweinyddiaeth ieuenctid, a meithrin arbenigedd gweithwyr ieuenctid trwy eu hannog i sicrhau cymhwyster arwain ar y mynydd. Mae'r cyrsiau agored a'r hyfforddiant uwch a drefnir mewn mannau yn bwysig wrth sicrhau bod cyfle i rai pobl ifanc, o leiaf, symud ymlaen y tu hwnt i'r cyfnod 'blasu'.

**Profiadau Preswyl**

10.4.18 Fe ymgymerir, neu fe ellid ymgymryd, â llawer o'r addysg awyr agored, a llawer enghraifft o'r gweithgareddau y cyfeiriwyd atynt yn y bennod hon, mewn mannau preswyl — y rheswm dros hyn yw bod y dysgu'n deillio nid yn unig o

un neu ragor o weithgareddau fel y cyfryw ond o'r broses barhaus o gydadweithio mewn sefyllfa sy'n wahanol o ran ei hansawdd. Mae rhyw fath o brofiad preswyl, yng ngolwg llawer darparwr, yn elfen hanfodol mewn gwaith ieuenctid ond, er gwaethaf yr awydd i ddiogelu pob cyfle, bu i nifer y cyrsiau a redir ar gyfer pobl ifanc ostwng yn ddiweddar wrth i'r costau godi'n sylweddol ac i'r grantiau brinhau.

10.4.19 Trefna ambell uned gyfnodau preswyl, ond awdurdodau addysg a phrif gyrff y mudiadau gwirfoddol sydd ran amlaf yn trefnu bod cyfleoedd ar gael i grwpiau ac unigolion. Mae sawl un ohonynt, gan gynnwys y rhai a redir gan yr Urdd a'r Geidiau, yn seiliedig ar weithgareddau, mae rhai, megis yr un a drefnir ar gyfer Cadetiaid St John, yn seiliedig ar dasgau, ac mae eraill, megis cynhadledd flynyddol aelodau Cymdeithas Gymreig y Clybiau Ieuenctid a fforwm penwythnos y Cyngor Ieuenctid Rhanbarthol, yn canolbwyntio ar faterion dadleuol. Trefna gwasanaeth ieuenctid un awdurdod addysg brofiadau preswyl i bobl ifanc ar raglenni'r Comisiwn Gwasanaethau Gweithwyr ac fe wna darparwyr eraill hynny fel rhan o gyrsiau hyfforddi aelodau hŷn.

10.4.20 Er bod mwyafrif y cyrsiau'n dod â phobl ifanc o wahanol ardaloedd ynghyd fe ddigwydd yn aml fod y rhai sy'n cymryd rhan ynddynt yn ymwneud llawer â'r cynllunio. Bryd hynny, mae'r cyfnod preswyl yn rhan gydlynus o raglen gynyddol ond, mewn achosion eraill, mae'n anodd gweld sut y gall y cwrs fod yn ddim mwy nag egwyl ddigyswllt. Eto, llwyddodd mwy nag un mudiad i recriwtio pobl ifanc y mae arnynt, am amryw o resymau, ddwys angen cael egwyl rhag eu hamgylchiadau arferol.

10.4.21 Er gwaethaf y gwahaniaethau o ran pwrpas, cyfansoddiad a threfniadaeth y cyrsiau, mae mwyafrif ohonynt yn defnyddio grwpiau fel eu prif gyfrwng dysgu. Lle nad adnabyddir yr aelodau ymlaen llaw neu lle dewisant weithgarwch arbennig, mater o siawns yw cyfansoddiad y grŵp. Eto, bydd rhai cyrsiau'n mynd ati'n fwriadol i wahanu grwpiau o gyfeillion er mwyn gosod pob unigolyn mewn sefyllfa newydd. Mae hyn fel petai'n cynyddu cyfranogiad ac yn dwysáu deinameg y grŵp. Ni chaiff pob cwrs ei 'staffio' fel y cyfryw, ond lle ceir gweithwyr ieuenctid â gofal, a lle bu iddynt sicrhau ymddiriedaeth o'r ddwy ochr, gallant gyfnerthu'r pwyntiau dysgu a chymell y grwpiau i ystyried eu perthynas â'i gilydd ac unrhyw gynnydd arall. Mae gan y staff sy'n gweithio ar gyrsiau preswyl ar gyfer yr ifanc di-waith fwy i'w wneud er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd dysgu a gynigir gan fod yr aelodau, yn wahanol i aelodau cyrsiau eraill, fwy neu lai o dan bwysau i fod yn bresennol. Golyga hyn y gall fod angen mynd i'r afael â gelyniaeth, difaterwch a materion ymddygiad yn ychwanegol at y broses naturiol o ymgyfarwyddo. Serch hynny, nid yn unig y mae'r dysgu gweladwy i'r bobl ifanc hyn yn cyd-fynd yn agos â'r hyn a roir i grwpiau eraill ond, i bob golwg, mae'n cyflymu wrth i'r wythnos fynd rhagddi.

10.4.22 Gellir gweld bod cyrsiau preswyl yn effeithio ar bobl ifanc yn ôl eu nodweddion personol a'u profiadau blaenorol. Yr oedd un grŵp mewn canolfan addysg awyr agored heb fod oddi cartref o'r blaen ac fe aethant yn ddibynnol iawn ar oedolion pan gollent bethau neu pan oedd eu dillad yn wlyb: sylwyd hefyd mai hwn oedd y tro cyntaf i fwyafrif yr aelodau eistedd i lawr gydag eraill ar gyfer pryd cyflawn. Mae'n amlwg bod grwpiau eraill yn ei chael yn anodd trafod pwysau perthynas ryngbersonol, o leiaf i gychwyn, ond mae'n debyg eu bod yn dysgu mwy amdanynt eu hunain ac am oddefgarwch, sensitifrwydd a chyd-weithredu nag y gwna llawer unigolyn mwy hyderus a siaradus. Er nad yw'n arfer cyffredin, pan fo'r cyfrifoldeb dros lunio bwydlenni, paratoi bwyd a'r

trefniadau cysgu, bwyta ac amser rhydd yn nwylo'r aelodau, mae eu gallu i wneud penderfyniadau a'u medrau byw sylfaenol fel petai'n cael ei hogi. Mae profiad o arwyddocâd ychwanegol yn amrywio mwy gydag unigolion: i rai, bod oddi cartref yn unig ydyw, i eraill y wefr o fod mewn amgylchedd cwbl newydd, darganfod diddordeb newydd neu brofi boddhad o gyflawni rhywbeth pendant.

## 10.5 Cyfranogiad

10.5.1 Un o gredoau'r gwasanaeth ieuenctid yw bod mudiadau ieuenctid, oherwydd eu dulliau cymharol ddi-gyfarwyddyd a'u fframweithiau llai haearnaidd, mewn gwell sefyllfa na llawer sefydliad arall i ddatblygu'r hyder a'r medrusrwydd y mae eu hangen ar bobl ifanc os ydynt i gyfranogi'n llawnach yng ngwaith mudiadau ac mewn cymdeithas. Er nad yw'r cyfle i gyfranogi yn codi mor aml ag y tybir, gwelwyd ambell enghraifft o waith yn y mwyafrif o lu ystyron y cysyniad hwnnw.

10.5.2 Mae cyfranogi gweithgar yn awgrymu, fan lleiaf, ymwneud â gwneud penderfyniadau ac ymarfer cyfrifoldeb gan bobl ifanc. Mewn rhai grwpiau cyfeillgarwch a gweithgarwch, ceir aelodau'n trafod ffyrdd o weithredu, yn datrys problemau ac yn dylanwadu ar eraill. Cynllunir a chyflawnir ambell gynllun gan yr aelodau — er enghraifft, fe welwyd un grŵp a oedd wrthi'n gwneud trefniadau gwyliau, ac un arall a oedd wrthi'n dyfeisio digwyddiad i godi arian, yn edrych ar fapiau, taflenni ac amserlenni, yn gwneud galwadau ffôn ac yn ysgrifennu llythyrau. Mewn llawer sefyllfa, mae pobl ifanc yn cyflawni dyletswyddau megis croesawu, goruchwylio'r offer recordiau/tapiau, rhedeg y bar coffi a thrafod offer. Gall unigolyn gymryd arno fod yn swyddog y wasg, bydd rhai'n trefnu gemau neu bleidleisiau ar ddewis rhaglenni teledu, a bydd ambell un yn beirniadu cystadlaethau wythnosol neu'n llunio rhestr o ymgeiswyr ar gyfer digwyddiadau allanol.

10.5.3 Er mai cyfranogi ar raddfa fach yw hyn, mae o werth wrth helpu pobl ifanc i ymarfer ymddygiad cymdeithasol mewn dognau hylaw ac ar lefel sy'n gweddu i'w hanghenion ac yn rhoi cyfle iddynt ddefnyddio medrau sy'n berthnasol i feysydd eraill bywyd. Tipyn o syndod, felly, yw bod cyfleoedd mewn cynifer o sefyllfaoedd fel petaent yn cael eu colli, gyda'r staff yn ymgymryd â'r tasgau syml hyn gan gwtogi ar y cyfle i'r aelodau fynd yn gyfrifol amdanynt. Yn wir, gwelwyd achosion lle bu i gyfranogiad ychwanegol y bobl ifanc ddeillio'n uniongyrchol o gwtogi ar y staff. Honna rhai gweithwyr ieuenctid, gyda chryn gyfiawnhad, ei bod yn anodd darparu tasgau ystyrlon yn hytrach na rhai ailadroddus, bod cyfarwyddo a helpu pobl ifanc gyda'u hymdrechion yn cymryd amser, bod eu hatebolrwydd yn y pen draw yn peri iddynt fod yn ofalus wrth fentro, ac nad yw'r aelodau'n gofyn am gynyddu eu cyfranogiad. Mae'n sicr y denir llawer o bobl ifanc, ar y cychwyn o leiaf, gan rywbeth a ddarperir ar eu cyfer ac y gall eu rhagdybiaethau ynghylch swyddogaeth y gweithiwr ieuenctid fod yn ffactor llesteiriol. Eto, fe gyfeiria'r dystiolaeth hefyd at yr angen i fynd i'r afael â chyfleoedd ar y lefel hon os bwriedir sicrhau unrhyw gynnydd. Mae arfer sy'n dangos bod cyfranogiad yn bosibl, trwy feddwl ymlaen llaw a phennu fframwaith, ac y gellir sicrhau cydbwysedd rhwng effeithiolrwydd gwaith ieuenctid, yn arfer i'w ganmol.

10.5.4. Fel arfer, ceir mwy o ymwybyddiaeth o'r posibilrwydd y gall aelodau hŷn gynnig arweiniad. Mewn unedau Sgowtiaid a Geidiau, lle mae arweinwyr patrolau'n gyfrifol am waith eu grwpiau, fe ddysgant ddarllen mapiau a

chymorth cyntaf ac arolygant wahanol sesiynau ymarfer. Mewn mannau eraill, bydd aelodau hŷn yn cyfarwyddo ymarferiadau aelodau eraill ar gyfer cystadlaethau (gweler 10.2.45) neu'n mynd yn gyfrifol am weithgareddau. Bydd un ferch 17 oed sy'n hyfforddi cadw'n heini yn gwneud hynny'n hynod hyderus gan fynnu o'r cychwyn cyntaf fod gan bob aelod y wisg briodol. Mewn sawl canolfan, bydd aelodau hŷn hefyd yn rhedeg, neu'n helpu i redeg, clybiau ar gyfer aelodau o dan 13 oed; mae cyfraniad y 'cynorthwywyr ifanc' hyn yn nodwedd arbennig ar y Clybiau Gateway. Mae'r ddau fath o sefyllfa'n manteisio i'r eithaf ar botensial pobl ifanc ac yn ysgogi cryn ymroddiad.

10.5.5. Cynigir paratoad ar gyfer y mathau hyn o swyddogaeth mewn rhai mudiadau gwirfoddol a chan rai awdurdodau addysg (Tablau 37 a 38). Diben mwyafrif y cyrsiau byr a drefnir gan Gymdeithas Gymreig y Clybiau Ieuenctid yw cyflwyno aelodau o glybiau cysylltiedig i amrywiaeth helaeth o weithgareddau yn y gobaith y byddant yn eu cychwyn yn eu mudiadau eu hunain. Hysbysebir eraill ar gyfer timau o weithwyr ieuenctid ac aelodau hŷn er mwyn ysgogi meddwl a thrafod ar glybiau ieuenctid a materion arwain. Ar y llaw arall, fe ymgymerir â Chynllun Arweinwyr Ifanc Cymdeithas y Geidiau dros gyfnod ac mae'n gofyn ymdrech unigol yn ogystal â pharatoi trwyadl ar gyfer gwaith mewn cwmni o geidiau neu 'brownie pack'. Mae'r rhai sy'n cofrestru ar Lwybr Arweinyddiaeth Iau Morgannwg Ganol yn casglu pwyntiau drwy ymweld â mudiadau eraill, mynychu cwrs penwythnos ar arwain, a gweithio'n gyson fel cynorthwywr hŷn sy'n gyfrifol am dasgau penodol. Mae aelodau presennol a hen aelodau'n ymroi'n bwrpasol i'r gwaith mewn nifer o glybiau, er lles i'r ddwy ochr. Nod cwrs arall yw sicrhau gwerthfawrogiad helaethach o'r syniad o arwain ac o'r cyfraniad y gall aelodau hŷn ei wneud. Mae ei rannau rhagarweiniol yn cynnwys trafodaeth ar y nodweddion a geisir mewn gweithiwr ieuenctid, cyfweliadau ffug, chwarae rhannau mewn cyfarfod o bwyllgor yr aelodau, a rhaglennu. Mae'r sesiynau wedi'u trefnu a'u cynnal yn dda, ond gan mai hwn yw eu profiad cyntaf o'r deunydd hwn mae'n anodd i'r aelodau ymbellhau oddi wrth y cynnwys a deall yr holl agweddau sy'n dod i'r golwg, megis materion trefn, cymhlethdodau ymddygiad grwpiau, cyfranogi, cynrychiolaeth ac atebolrwydd, gwrthdrawiad gwerthoedd a rhannu grym.

10.5.6 Gellid dweud bod y math hwn o efelychu yn dynwared peth o realiti'r dulliau cynrychioliadol o gyfranogi a geir yn y gwasanaeth ieuenctid: pwyllgorau'r aelodau, seddau aelodau ar bwyllgor ymgynghorol neu reoli, a ffurfiau ar gyngor ieuenctid. Mae llawer darparwr yn cymeradwyo, yn enwedig, y ddelfryd o gyfranogi trwy bwyllgorau ond dywedant na chafwyd fawr o gynnydd yn hyn o beth. Mewn gwirionedd, er nad oes ond llond dwrn o enghreifftiau o bobl ifanc yn mynychu pwyllgorau canolfannau yn ysbeidiol yn unig, fe amcangyfrifir, er enghraifft, i ryw 150 o glybiau awdurdodau addysg (h.y. 30 y cant) geisio ffurfio pwyllgor aelodau yn ddiweddar a bod rhyw 100 o'r rhain (h.y. 20 y cant) mewn bodolaeth ar unrhyw adeg benodol.

10.5.7 Fe amlyga trafodaethau gydag aelodau a gweithwyr ieuenctid amrywiadau mawr o ran ffurf, cylch gwaith a threfn y pwyllgorau hyn. Er mwyn i bobl ifanc gyfarwyddo â'r drefn, bydd rhai unedau'n cynnal etholiadau ar gyfer nifer penodedig o seddau, gyda ffurflenni cynnig, papurau pleidleisio wedi'u hargraffu, blwch pleidleisiau, cyfrifwyr a swyddog canlyniadau. Mae gan y mwyafrif etholiadau mwy anffurfiol lle cyfrifir enwau ar ddarnau o bapur, neu bob llaw a godir. Bydd ambell bwyllgor yn datblygu mewn ffordd braidd yn annemocrataidd drwy i'r aelodau wirfoddoli, neu i'r gweithiwr ieuenctid eu dewis; grwpiau caeëdig yw rhai ohonynt. Y canlyniad arferol ym mhob achos

yw craidd o ryw ddwsin o bobl ifanc sydd, yn eu tro, yn penodi eu swyddogion. Fe ymddengys nad oes ond ychydig o gylchoedd gwaith ysgrifenedig a bod cyfarwyddyd gwaith y pwyllgorau yn aml yn ddiffygiol o ran eglurder a phwrpas; eto, fe ddywedir bod y dyletswyddau a'r cyfrifoldebau'n cynnwys syniadau ar gyfer rhaglennu, awgrymiadau ynghylch prynu offer, penderfynu ar reolau a chymwysterau aelodau, disgyblu aelodau ac ymdrin â chwynion, tasgau ailadroddus ac, yn llai cyffredinol, drefnu digwyddiadau, rhedeg clwb iau a dosrannu adnoddau. O'r pwyllgorau a welwyd ar waith, yr oedd un yn ffurfiol ac effeithiol ond fe gyfyngid arno, i bob golwg, gan farn y gweithiwr ieuenctid a ymyrrodd dro ar ôl tro gyda 'rhesymau pam na ddylid gwneud hynny'. Nid oedd gan un arall, i bob golwg, fawr o gysylltiad â chorff yr aelodau. Galwyd trydydd gan yr arweinydd er mwyn i'r pwyllgor drafod y cosbau i'w rhoi i grŵp o ddihirod a rhoi iddi eu dyfarniad. Cafwyd dau gyfarfod heb i weithiwr ieuenctid fod yn bresennol, a'r duedd oedd iddynt fod yn anffurfiol ac, yn fynych, iddynt fod heb y wybodaeth yr oedd ei hangen ar gyfer trafodaeth estynedig a gwneud penderfyniadau. Ni chafwyd yr un achos o bwyllgorau aelodau a benderfynai'n derfynol ar feysydd diffiniedig. Teimlad nifer o bobl ifanc yw bod rhai oedolion yn eu mudiadau yn clywed, ond nad ydynt mewn gwirionedd yn gwrando arnynt, a chlywyd am sawl achos o ofyn i'r aelodau am eu barn a honno'n cael ei gwrthod yn ddiweddarach, neu o ddiffyg ymateb, nad esboniwyd mohono, i'w hawgrymiadau ar gyfer newid.

10.5.8 Lle bo pobl ifanc yn ysgwyddo cyfrifoldeb go iawn, megis llunio a gweithredu rheolau neu ddefnyddio arian, yn ymwneud â'r gweithredu yn ogystal â'r trafod, a bod yr aelodau a'r gweithwyr ieuenctid yn eu gwneud yn atebol am ganlyniadau eu penderfyniadau a'u gweithrediadau, mae aelodaeth o'r pwyllgorau hyn yn cynnwys profiadau sydd o wir werth. Ar y llaw arall, lle bo'r potensial i effeithio ar bolisi ac ar y drefniadaeth yn gyfyngedig, y dyletswyddau'n gyfyngedig i agweddau ymylol neu negyddol ar waith yr uned, yr ymgynghori'n fympwyol, a'r bobl ifanc yn brin o'r hyder a'r medrau i drafod y busnes neu i gyflawni eu swyddogaeth gynrychioli, rhaid amau gwerth pwyllgorau aelodau fel ffurf ar gyfranogi.

10.5.9 Hwyrach mai am y rhesymau hyn y mae hi mor anodd cynnal momentwm y tu hwnt i'r wythnosau cyntaf. Cyfeiria gweithwyr ieuenctid yn fynych at golli diddordeb, ond mae'r hyn a welwyd yn awgrymu bod arddull a strategaethau'r rhai sydd â gofal yn hanfodol wrth ysgogi parodrwydd pobl ifanc i gyfranogi ac wrth gynnal eu cymhelliant. Er enghraifft, ceir cipolwg ar gynnydd helaethach pan gynorthwyir aelodau i feistroli prosesau, pan fo'r gweithiwr ieuenctid yn darparu fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau a gweithredu, a phan fo modd iddo gynnig canmoliaeth a chydnabyddiaeth.

10.5.10 Bu i ganlyniadau siomedig braidd gyda phwyllgorau aelodau beri i nifer o unedau ystyried dulliau eraill o wneud penderfyniadau sy'n cynnwys cyfran helaethach o'r aelodaeth. Mewn un ohonynt, bydd dau arweinydd o bryd i'w gilydd yn dewis grŵp o aelodau ar hap i gloriannu'r rhaglen gyfredol a thrafod newidiadau; mewn sawl un, cynhelir ffurfiau ar gyfarfod agored gyda dibenion tebyg. Er eu bod yn ddefnyddiol, byddai'r mathau hyn o ymgynghori, yn ogystal â gwaith mewn pwyllgorau aelodau, ar eu hennill o ddefnyddio technegau, megis is-grwpiau, efelychiadau a chwarae rhannau, y daeth llawer o staff yn gyfarwydd â hwy ar gyrsiau hyfforddi.

10.5.11 Diben cynghorau aelodau neu gynghorau pobl ifanc (gan gynnwys Cyngor Pobl Ifanc Casnewydd, Geidiau Cymru, Llais y Ddraig, a Chyngor Aelodau Cymru

Cymdeithas Gymreig y Clybiau Ieuenctid) yw cynnig cyfle pellach i gyfranogi, a mannau ydynt lle gellir canfod barn a diddordebau pobl ifanc o fewn ardal neu fudiad.[19] P'un a enwebir aelodau gan eu hunedau, a wahoddir hwy i fod yn bresennol neu a ddewisir hwy gan yr oedolion priodol, maent fel petaent yn eu mynychu'n fwy fel unigolion nag fel cynrychiolwyr. Tra bo gan Gyngor Aelodau Cymru Cymdeithas Gymreig y Clybiau Ieuenctid gysylltiadau uniongyrchol â Phwyllgor Gwaith y corff, gall yr angen i'r cynghorau eraill brosesu eu syniadau trwy ymgynghorwyr o oedolion, waeth pa mor fedrus y trafodir y broses honno, arwain at rwystredigaeth. Hefyd, bydd rhai o'r bobl ifanc yn ei chael yn anos nag eraill dderbyn realiti eu cyfrifoldebau a'u grym cyfyngedig. Er hynny, ceir arwyddion bod cryn fudd yn deillio o'r cyfle ym mhob un o'r tri achos, yn enwedig o'r cyfle i drafod, cyfarfod â phobl newydd, cael hyfforddiant mewn rhedeg cyfarfodydd, trefnu digwyddiadau ac archwilio'n fanylach i faterion nag a fyddai'n bosibl yn unman arall. Er enghraifft, edrychodd un cyfarfod mewn ffordd sensitif ar ddelwedd y mudiad, cymhelliant a medrau'r arweinwyr, a'r ystyr y tu ôl i'r addewid i wasanaethu Duw. Bu un arall yn fodd i helpu aelodau i ystyried y problemau a gafwyd wrth drefnu barbeciw, a'r teimladau ar ôl cymryd grŵp o blant mewn gofal ar daith diwrnod. Dengys cynhadledd 1982 aelodau Cymdeithas Gymreig y Clybiau Ieuenctid, a drefnwyd ac a gynhaliwyd gan Gyngor yr Aelodau fel y soniwyd eisoes, y gall pobl ifanc, gyda chymorth, gymryd cryn dipyn o gyfrifoldeb. Ymhellach, mae'r drafodaeth ymlaen llaw gan Gyngor yr Aelodau ar eitemau ar agenda Pwyllgor Gwaith Cymdeithas Gymreig y Clybiau Ieuenctid yn galluogi pobl ifanc i geisio gwybodaeth, ymarfer eu syniadau a goresgyn rhai o'r anawsterau wrth gyfrannu mewn cyfarfod mwy. Gallai arfer tebyg fod o gymorth pan fo pobl ifanc yn mynychu pwyllgorau rheoli neu'n eistedd gydag oedolion ar gyrff megis byrddau cylch yr aelwydydd.

10.5.12 O archwilio rhai o'r arferion gorau, fe welir nad oes rhaid wrth y cyhuddiadau o aelodaeth er mwyn ymddangosiad, o werthoedd oedolion yn cael eu gorfodi arnynt, o ffoi am dir diogel, ac o ddiffyg partneriaeth â phobl ifanc, a anelir yn aml yn erbyn y gwasanaeth ieuenctid. Eto, ceir tystiolaeth o blaid y sylwadau hynny sy'n awgrymu bod rhaid cydnabod problemau dwfn cyn y gellir sicrhau cynnydd go iawn. Mae'n amlwg bod cyfranogi, mewn awdurdodau addysg a rhai mudiadau gwirfoddol, yn anodd ei ymgorffori'n gyfleus. Yn achos yr awdurdodau addysg, fe gyfyd cymhlethdodau gan nad gwaith ieuenctid yw unig bwrpas eu hawdurdod, ac y cânt eu rheoli o dan gyfundrefn ddemocrataidd nad yw ffurfiau eraill ar gyfranogi yn cyd-fynd yn rhwydd â hi. Eto mae'n amlwg bod y sefyllfa'n lliwio agweddau sylfaenol ac yn gomedd rhai dulliau o weithio. Yn erbyn y cefndir hwn, mae gweithwyr ieuenctid fel petaent yn ei chael yn anodd bod yn optimistaidd ynghylch posibiliadau cyfranogi, yn ei chael yn anodd gweld sut y mae eu harferion presennol yn aml yn tanseilio'u bwriadau da, ac yn ei chael yn anodd teimlo'n gyffyrddus ynghylch y gwahanol fath o rannau y mae angen iddynt eu chwarae.

10.5.13 Mae rhai mudiadau gwirfoddol fel petaent yn llai llesteiriedig yn hyn o beth. Mae rhai cwmnïau o 'ranger guides' a grwpiau cymysg o sgowtiaid antur yn gwbl hunan-raglennol ac yn gofyn i bobl ifanc gymryd llawer o gyd-gyfrifoldeb a chyfrifoldeb unigol ac i ddysgu a datblygu medrau trefnu a medrau perthynas. Eto, Mudiad y Ffermwyr Ifanc, yn anad yr un arall, sy'n galluogi pobl ifanc i gael rheolaeth ac yn hybu hunan-lywodraeth ar lefel y clwb, y ffederasiwn, ac yn genedlaethol.

[19] Er enghraifft, amcanion Cyngor Pobl Ifanc Casnewydd yw hyrwyddo lles ieuenctid, hybu lles corfforol, addysgol ac ysbrydol pobl ifanc, ac, wrth wneud hynny, feithrin mwy o ddealltwriaeth a chyd-weithredu rhwng pobl ifanc ardal Casnewydd, y gymuned ac (amryfal gynghorau a phwyllgorau).

10.5.14 Caiff nosweithiau'r clybiau eu strwythuro a'u cynnal yn gyfan gwbl, a chyda hwyl dda, gan yr aelodau. Rhydd y swyddogion etholedig arweiniad yn yr eitemau busnes a'r eitemau trafod, gan gynnal pleidlais i gadarnhau penderfyniadau pan fo angen. Mae llawer o'r rhain yn ymwneud â rhaglenni, digwyddiadau a chystadlaethau, ond bu i un clwb yr ymwelwyd ag ef ystyried yn fanwl y gostyngiad yn ei aelodaeth gan gasglu, hwyrach yn baradocsaidd, y gallai cyfranogi ddieithrio. Caiff pob aelod gyfle i gyfrannu i rannau eraill o'r noson trwy gyflwyno siaradwyr gwadd, cynnig pleidlais o ddiolch neu ddarparu a chyflwyno lluniaeth ysgafn. Yng nghyfarfod cyffredinol blynyddol un ffederasiwn sirol, cyflwynwyd adroddiadau'r amryfal bwyllgorau gan aelodau ac fe ddehonglwyd y fantolen flynyddol yn fedrus gan y trysorydd ifanc. Mae'r medrau hyn, a'r wybodaeth am drefnu pwyllgorau a amlygwyd ledled y mudiad, yn dyst i lwyddiant rhaglenni hyfforddi blynyddol swyddogion y clybiau, ac i gyfarwyddyd tawel y staff gwirfoddol a'r staff cyflogedig.

10.5.15 Nodwedd arall ar Fudiad y Ffermwyr Ifanc yw mai'r aelodau sy'n penderfynu pwy fydd arweinwyr gwirfoddol eu clybiau. Pwyllgorau sirol yr aelodau sy'n penodi'r trefnwyr sirol sy'n eu helpu ar yr ochr ymgynghorol a gweinyddol, a phwyllgor Cymru sy'n rheoli gwaith y staff cenedlaethol. Er ei bod yn werth sylwi bod aelodau o wahanol oedrannau a chefndiroedd yn cyfrannu at y penderfyniadau, at reoli cyllid ac adnoddau ac at y rhaglennu, mae'r un mor amlwg bod trefnu digwyddiadau bach a mawr yn gofyn nid yn unig nifer fawr o bobl ifanc ond hefyd ddibynolrwydd ac ymdrech ddi-ildio. Gan nad yw cynifer o'r tasgau yr ymgymerir â hwy yn gofyn i'r mudiad fod yn gwbl hunan-lywodraethol, mae'n bosibl y gallai eraill ddilyn yr esiampl hon a dysgu oddi wrthi.

10.5.16 Yn y cyfamser, mae'n ymddangos yn bwysig bod Mudiad y Ffermwyr Ifanc ei hun yn edrych tuag allan ac yn annog rhagor o aelodau i ddefnyddio'u hyder a'u medrau yn y gymdeithas yn gyffredinol. Mae'n amlwg bod ganddynt lawer i'w gynnig o ran cyfrannu at fywyd eu cymunedau eu hunain a mynd i'r afael â rhai o'r problemau sy'n effeithio ar bobl ifanc. Eto, ceir ymdrechion eraill yn y gwasanaeth ieuenctid i ddatblygu ymwybyddiaeth wleidyddol pobl ifanc. Mae'r rhain yn cynnwys darparu gwybodaeth am hawliau, dysgu am fframweithiau a phrosesau gwneud penderfyniadau, a sgyrsiau gan gynrychiolwyr mudiadau neu bleidiau gwleidyddol. Ni chaiff y cynorthwyon dysgu sydd ar gael at y dibenion hyn eu defnyddio'n helaeth. Ac er bod amryw o swyddogion yn ystyried bod addysg wleidyddol yn flaenoriaeth y dylid ei datblygu, mae rhai o'r darparwyr yn bur nerfus ynghylch y pwnc ac ynghylch defnyddio'r ymadrodd hwnnw.

10.5.17 Eto, mae gan lawer o bobl ifanc farn gref ar faterion y gellid eu galw'n wleidyddol — diarfogi niwclear, diweithdra, y di-gartref neu berthynas pobl â'r heddlu, er enghraifft — ac ymuniaethant yn gryf ag achosion cysylltiedig. Weithiau, bydd y diddordeb hwn yn ei amlygu ei hun yn yr angen i drafod a sicrhau gwell dealltwriaeth (gweler 10.1.6). Mewn canolfan arbenigol, er enghraifft, gwelwyd grŵp o aelodau a oedd wedi cychwyn sesiynau trafod, a arweinid gan diwtor gwirfoddol, lle trafodid pynciau dadleuol o'r papurau newydd ac o fyd llenyddiaeth. Ambell waith, bydd pobl ifanc yn mynegi awydd i weithredu, yn enwedig ar amodau lleol neu ar bethau sy'n effeithio arnynt yn bersonol, ac yr oedd aelodau un uned yn gweithio allan sut y dylent ymdrin â'r hyn a oedd, yn eu barn hwy, yn feio annheg am ddigwyddiad ar gampws ysgol. O gofio'r achos y cyfeiriwyd ato'n gynharach (10.3.10), mae'n ymddangos bod angen i'r rheolwyr wybod a deall unrhyw gamau y cynigir eu cymryd, rhag i

weithwyr ieuenctid unigol fod yn agored i gyhuddiadau. Hefyd, o ran addysg gymdeithasol, mae'n bwysig mynd i'r afael â'r gweithredu yn rhesymol, ei baratoi'n drylwyr ymlaen llaw, a myfyrio ar ei ganlyniadau. Yn fwy cyffredinol, hwyrach bod lle i staff y gwasanaeth ieuenctid amlygu mwy o sensitifrwydd ynglŷn â'r hyn a fynegir gan bobl ifanc a'u helpu i fynd ar drywydd eu pryderon mewn ffordd briodol.

## 11. ANGHENION ARBENNIG A'R YMATEB

11.0.1 Mae profiad yn awgrymu bod yno lawer o bobl ifanc a fyddai, oherwydd eu hanfanteision cymdeithasol, materol neu gorfforol, neu effaith y sefyllfa economaidd arnynt, yn darganfod bod y profiadau a'r cymorth a roir gan y gwasanaeth ieuenctid yn gwella'u gallu i ddatblygu'n bersonol a chymdeithasol (gweler Tablau 41 a 42). Gan fod rhai cyrff statudol a gwirfoddol yn fwyfwy ymwybodol o hyn, cafwyd ffurfiau newydd o ymateb. Yn eu plith, mae darpariaeth yn ystod y dydd, gwaith sy'n gweddu i bobl ifanc nad ydynt yn naturiol yn manteisio ar wasanaeth a redir o adeilad, cynlluniau tymor-byr, unedau ar wahân i ddiwallu anghenion arbennig, a phwyslais ar agweddau neu grwpiau arbennig o fewn uned.

11.0.2 Tameidiog, serch hynny, fu'r cynnydd. Ychydig o gamau a gafwyd gan rai awdurdodau addysg a mudiadau gwirfoddol, sydd ambell waith yn ochrgamu'r mater gan awgrymu y darperir mewn ffyrdd eraill ar gyfer y bobl ifanc dan sylw, neu mai profiad llawer ohonynt yw nad yw'r hyn sydd gan y gwasanaeth ieuenctid i'w gynnig o unrhyw ddiddordeb iddynt hwy. Yn fwy arferol, fe lesteirir yr awydd i ymateb gan ddiffyg adnoddau ac ni ellir amau nad yw arian ychwanegol, megis grantiau datblygu mudiadau gwirfoddol Cymorth Trefol a chyllid y Comisiwn Gwasanaethau Gweithwyr, wedi galluogi rhai darparwyr i wahaniaethu o blaid y rhai sydd, yn ôl eu hasesiad hwy, â'r angen mwyaf. Er hynny, ceir tystiolaeth na ddefnyddir yr arian bob tro yn y ffordd fwyaf effeithiol (gweler hefyd 13.3.3). Ac yn rhy aml mae'r datblygiadau fel petaent wedi'u hychwanegu at ddarpariaeth leol y gwasanaeth ieuenctid yn hytrach na bod yn rhan ohoni.

11.0.3 O'r llu anghenion arbennig a ganfuwyd gan y gwasanaeth ieuenctid yng Nghymru, fe drafodwyd rhai ohonynt — er enghraifft y ddarpariaeth mewn ardaloedd gwledig a honno ar gyfer grwpiau oedran is — mewn penodau blaenorol. Mae'r paragraffau a ganlyn yn canolbwyntio ar nifer o anghenion a meysydd gweithio arbennig eraill.

### 11.1 Gwaith gyda Phobl o dan Anfantais

11.1.1 Er bod peth cymorth gan y gwasanaeth ieuenctid i bobl ag amrywiol fathau o anabledd i'w gael cyn hynny, bu cynnydd amlwg yn y ddarpariaeth ar gyfer pobl o dan anfantais ers tua 1970. Cyfyngir ymateb mwyafrif yr awdurdodau addysg i alluogi grwpiau gwirfoddol i gyfarfod — yn gyntaf trwy ddarparu adeiladau, ond, fwyfwy, trwy grantiau arwain, cyrsiau hyfforddi a chymorth gyda chludiant. Sefydlodd un awdurdod rwydwaith o 14 canolfan i ddarparu'n rhan-amser ar gyfer pobl dan anfantais. Mae'r math hwn o gymorth, yn ei dro, wedi helpu i gyflymu datblygu'r gwaith a wneir gan fudiadau gwirfoddol.

11.1.2 I lawer o'r rhai o dan anfantais feddyliol, sydd â'u bywydau'n tueddu i droi o amgylch eu cartrefi, hosteli neu sefydliadau eraill megis canolfannau hyfforddi oedolion, y Clybiau Gateway yw'r unig agoriad cymdeithasol. Eu nod yw

darparu amgylchedd diogel a rhaglen sy'n hybu hunan-hyder, yn cynnig cyfleoedd ar gyfer twf cymdeithasol, yn meithrin mynegiant corfforol, creadigol a llafar ac yn hwyluso mwynhau gweithgareddau hamdden. Nid yw'r gwaith at y diben hwn yn wahanol iawn i waith y canolfannau ieuenctid ond mae'n fwy dychmygus ac amrywiol yn aml. Mewn un clwb, er enghraifft, fe gynigid celfyddyd, nyddu, brodio, drama gymdeithasol, llythrennedd sylfaenol, gemau, cadw'n heini ac, yn ddiweddarach, ddisgo a hyfforddiant ar gyfer Gwobr Dug Caeredin; mewn un arall, gellid dewis 'canework', celfyddyd ac 'old tyme dancing' yn ogystal â chyfleusterau hamdden canolfan y clwb. Mewn man arall, fe ddechreuai'r noson gyda phawb yn cael te cyn symud ymlaen at bêl-droed, paratoi bwyd ar gyfer taith gerdded noddedig, gêm meimio a dyfalu, a thipyn o ganu. Mae gwaith rhai o'r clybiau eraill fel arfer yn gysylltiedig â gweithgareddau cadair freichiau megis gwylio teledu neu ffilmiau, jig-sos a sgyrsio. Eto, ym mwyafrif y sefyllfaoedd, yr oedd yr aelodau hefyd yn paratoi ar gyfer perfformio mewn sioeau a chyngherddau neu ar gyfer gweld cyflwyniadau byw gan grwpiau theatr teithiol.

11.1.3 I bob golwg, mae llawn cymaint yn digwydd y tu allan i nosweithiau'r clybiau. Bydd un uned yn trefnu teithiau dirgelwch cyson, i draethau, siopau, sinemâu a thafarndai; mae eraill yn ymestyn rhaglen debyg gan gynnwys ynddi, er enghraifft, bythefnos o wyliau bob blwyddyn, penwythnosau preswyl, teithiau i Lundain neu ymweliadau i gael te. Ar lefel ranbarthol, gall aelodau gyfranogi mewn digwyddiadau rhwng clybiau, gan amrywio o bêl-droed i gynyrchiadau drama a dawns, a bydd nifer o glybiau'n cystadlu mewn digwyddiadau Cymru/Lloegr tebyg i'r un a arweiniodd at gyflwyno eitemau ar lwyfan neuadd gyngerdd yn Llundain.

11.1.4 Ym mhob clwb ceir ymwybyddiaeth o ddiogelwch, cynhesrwydd, pwrpas a rhannu pleserau. Nid yn unig y mae ystod y gweithgareddau a'r profiadau a gynigir yn drawiadol bron ym mhob achos, ond mae'n destun adolygu mynych. Mae llawer o'r gwaith, gan gynnwys medrau bywyd pobl o dan anfantais feddyliol, yn arbrofol. Nod dysgu llythrennedd mewn un clwb yw helpu'r aelodau i gynyddu eu hannibyniaeth trwy ddysgu geiriau ac arwyddion a ddefnyddir yn gyffredin yn eu cymuned. Dewisir y tasgau'n ofalus ar gyfer pob unigolyn gan gymryd i ystyriaeth ei allu, ei allu i ganolbwyntio, cyd-gysylltu, ei glyw, ei allu i weld a lliw-ddallineb. Anogir aelodau i ddysgu ei gilydd a mynd adref ag ymarferion gyda negeseuon i'r rhieni sy'n dangos sut y gallant fod o gymorth. Mewn man arall, defnyddiwyd ffilm fideo o drip yr aelodau i gymell y gwylwyr i adnabod pobl, lleoedd ac enwau, tra bu clwb arall yn ail-fyw penwythnos oddi cartref, gyda'r arweinydd yn darparu'r naratif er mwyn i'r aelodau gyfrannu'r prif eiriau a gweithredoedd.

11.1.5 Er y caiff mwyafrif yr aelodau eu hysgogi i gyfranogi yn gymharol hawdd, mae'n anodd i eraill, oherwydd eu hoedran, lefel eu hanfantais neu eu gor-ddibyniaeth, fod yn weithgar oni chânt ofal cyson, megis mewn un grŵp celfyddyd. Ar y llaw arall, mae'n amlwg ar adegau na ragwelwyd gallu'r aelodau i ymgodymu â gweithgareddau arbennig, neu y collir cyfle i roi peth cyfrifoldeb iddynt. Ond at ei gilydd mae'r ymateb i anghenion unigol yn arbennig o dda. Bydd cynorthwywyr, yn sensitif ddigon, yn gostwng lefel eu perfformiad eu hunain mewn gemau er mwyn i'r aelodau gael digon o lwyddiant i gynnal eu hunan-hyder a lleddfu eu rhwystredigaeth, ac mae amynedd ac anogaeth fynych y cynorthwywyr yn darbwyllo eraill i ddal ati er gwaethaf yr anawsterau cychwynnol. Yn achlysurol yn unig y ceir tuedd i fwrw ymlaen ar frys i gam nesaf y broses ddysgu heb ailadrodd yn gyson yr hyn a wnaed eisoes.

Cyfeiriodd arweinwyr clybiau, rhieni a staff allanol at welliannau mawr mewn rhai medrau ac yn ymddygiad cyffredinol y rhai sy'n mynychu, ond mae'r angen i dderbyn ac ymdopi â'u hemosiynau, eu byrbwylltra neu eu hwyliau mwyaf swnllyd yn dal i fod yn angen sylfaenol.

11.1.6 Gall aelodau â nifer o anfanteision meddyliol a chorfforol hefyd fynychu clybiau o'r enw Clybiau 'PHAB' (Physically Handicapped and Able-Bodied) sydd ag amcanion tebyg i rai Gateway ac sy'n ceisio cynnig cyfle i ymgymryd â phob math o weithgarwch. Canolbwyntia'r rhaglenni ar grefftau, gemau bwrdd a chydadwaith cymdeithasol, ond cynhwysant denis bwrdd a gemau cadair olwyn eraill pan fo lle ar gael. Mae'n sicr bod diffyg lle a phroblemau symud mewn adeiladau na chynlluniwyd mohonynt i gwrdd ag anghenion pobl ag anabledd corfforol yn gyfyngiadau difrifol, ond dangosodd sgyrsiau â'r aelodau — rhai ohonynt yn dra galluog yn ddeallusol — y croesawent ystod helaethach o weithgareddau ac offer mwy amrywiol ac ymestynnol nag sydd ar gael ar hyn o bryd. Mae'r ddwy elfen hon i'w cael yn y daith wyliau flynyddol a redir gan Gymdeithas Gymreig y Clybiau Ieuenctid (y mae PHAB yn gweithredu o dan ei nawdd) pan ddaw wythnos o grefftau, chwaraeon, cerddoriaeth a drama i uchafbwynt gyda chyflwyniad llwyfan. Yma, ac mewn unedau, bydd pobl ifanc anabl yn helpu gyda'r trefnu.

11.1.7 Nodwedd ar y Clybiau Gateway a PHAB yw cyfraniad pobl ifanc sydd heb anfantais. Mae agwedd y cynorthwywyr hyn — mae'r mwyafrif ohonynt yn dal yn yr ysgol ac fe ddônt o amrywiaeth o gefndiroedd — yn ffres a chyfeillgar a'u gwaith gyda phobl o dan anfantais yn amlygu gofal, sylw a chariad anghyffredin. Nid oes gan lawer ohonynt unrhyw gysylltiad arall â'r gwasanaeth ieuenctid, ond cawsant foddhad a bu iddynt hybu eu datblygiad personol a chymdeithasol hwy eu hunain trwy gysylltiadau rheolaidd â phobl o dan anfantais. Maent hefyd, i bob golwg, yn cyfrannu'n fawr at ddileu rhagfarn trwy roi i'w teuluoedd a'u cyfeillion well dealltwriaeth o bobl sydd o dan anfantais.

11.1.8 Mae ymwneud uniongyrchol y gymuned hefyd yn gwneud llawer i helpu yn hyn o beth. Bydd Clybiau Rotari, dilynwyr radio'r werin, a Merched y Wawr yn cludo aelodau Gateway yn aml o fewn dalgylchoedd mawr. Cyffesa sawl un iddynt newid eu hagwedd, a chyfeiriant at welliannau yn eu pentrefi eu hunain lle y byddai stigma anfantais feddyliol tan yn ddiweddar wedi peri i'r rhieni droi'n fewnblyg. Mae rhai o rieni plant o dan anfantais hefyd yn gwerthfawrogi cael ychydig o egwyl, bydd eraill yn chwarae rhan lawn yng ngwaith y clwb, ond maent oll fel petaent yn teimlo'n fwy cadarn oherwydd eu cysylltiad â Gateway neu PHAB.

11.1.9 Ni ellir canmol gormod ar ymdrechion arweinwyr a chynorthwywyr yn holl faes darpariaeth arbennig ar gyfer pobl o dan anfantais, ond hwy yw'r cyntaf i gydnabod bod llawer i'w wneud eto, nid lleiaf o ran eu hyfforddiant hwy eu hunain. Ac oherwydd y ddarpariaeth annigonol a'r anawsterau wrth gyrraedd y rhai a allai fod ar eu hennill o achos Clwb Gateway, nid yw aelodaeth ar gael ar hyn o bryd ond i ryw un person o dan anfantais o bob 10. Caiff Clybiau PHAB anhawster arbennig wrth ddenu pobl ifanc sydd o dan anfantais oherwydd damweiniau neu salwch, ac sy'n amharod i'w cyfrif eu hunain ymhlith y garfan hon. Mewn rhai ardaloedd, mae ymwneud cynyddol y rhieni, a'r rhai sy'n gweithio mewn sefydliadau eraill, gan gynnwys hosteli, canolfannau hyfforddi oedolion ac ysgolion, a gwahanol gyrff, yn dwyn ffrwyth; ond nid yw cyd-weithio'n nodwedd gyffredin.

11.1.10 Mae'n sicr bod cael clybiau ar wahân yn helpu i ddiogelu cyfleoedd ar gyfer pobl o dan anfantais ac yn sicrhau diwallu anghenion unigol. Eto, os bwriedir cyflawni'r nod o wella'r integreiddio â'r gymuned, mae angen cysylltu â'r ddarpariaeth a wneir gan eraill. Mewn un ganolfan, lle rhedir PHAB a chlybiau iau a hŷn yr awdurdodau addysg ochr yn ochr, daw aelodau di-anfantais yn fwy cyfarwydd ag anfantais gorfforol gan helpu gyda'r gwaith os dymunant. Mae Clwb Gateway yn yr un ganolfan yn defnyddio aelodau hŷn y clwb fel cynorthwywyr a bu rhai ohonynt yn ddiweddar yn trefnu gwyliau 10 diwrnod ar y cyd yn Copenhagen. Yn yr un modd, mae rhai unedau awdurdod lleol eraill, Clwb Gateway a Chlwb PHAB sy'n cyfarfod yn yr un adeilad, wedi sefydlu cysylltiadau clòs ond, yn anffodus, ceir achosion eraill lle nad oes odid ddim cysylltiad. Gall yr arfer o gynnwys gwybodaeth am anfanteision mewn cyrsiau hyfforddi gweithwyr ieuenctid wneud llawer i hybu cysylltiadau agosach.

11.1.11 Er bod nifer o bobl ifanc eraill, fel y nodwyd ym Mhennod 10, yn ymwneud ag amryfal ffurfiau ar wasanaeth ieuenctid gyda phobl o dan anfantais, nod rhai mudiadau yw creu mannau cyfarfod. Bydd Clybiau Bechgyn Cymru'n trefnu cwrs preswyl i aelodau hŷn/anabl ac yn rhoi cydnabyddiaeth bob yn eilflwydd i waith aelodau unigol gyda phobl o dan anfantais. Mae'r geidiau mewn un ardal wedi cofrestru disgyblion o ysgol leol i'r rhai â nam ar eu golwg. Mae clwb mewn ysgol addysgol is-normal yn cynnwys disgyblion o ysgolion uwchradd lleol, ond mae'n gofalu cadw cydbwysedd y nifer a'r pwyslais o blaid disgyblion yr ysgol gyntaf ac, mewn ambell glwb ieuenctid, fe anogir pobl ifanc o dan anfantais feddyliol a chorfforol i ymuno yn yr un ffordd â phawb arall. Mewn achosion o'r fath, caiff y rhai o dan anfantais eu hintegreiddio'n llawn i'r clwb a'u derbyn gan yr aelodau yn ogystal â'r staff sydd, er hynny, yn ymglywed â'u cyfrifoldebau tuag atynt.

11.1.12 Siomedig o brin yw enghreifftiau o'r math hwn o integreiddio, ac mae'n bosibl bod cyd-destunau eraill yn darparu gwell man cychwyn. Mae'n sicr bod Gwobr Dug Caeredin yn ganolbwynt effeithiol mewn dwy sefyllfa o leiaf. Mae gan un Clwb Gateway, a benderfynodd lynu wrth y safonau uchaf posibl, grŵp cyfun o aelodau a phobl ifanc ddi-anfantais sy'n gweithio am wobrau o dan gyfarwyddyd cadetiaid yr heddlu. Uchelgeisiol fu cwmpas y gweithgareddau yr ymgymerwyd â hwy, ac fe gafodd y bobl ifanc ddi-anfantais ddewis cymryd cwrs mewn dulliau cyfathrebu sy'n gweddu i'w gwaith gyda phobl o dan anfantais feddyliol. Mewn man arall, cafodd chwech o bobl ifanc sy'n gaeth i gadeiriau olwyn hyfforddiant gyda phum aelod o'r clybiau hyn ar gyfer adran wasanaeth y wobr. Mae'r enghreifftiau hyn yn arwyddocaol gan eu bod yn darparu ar gyfer mynd i'r afael ar y cyd â rhai gweithgareddau a chaniatáu i eraill gael eu trafod yn ôl gallu'r unigolyn. Mae'n amlwg bod lle i lawer iawn mwy o fentrau o'r math hwn.

## 11.2 Ymateb i Anghenion Merched

11.2.1 Mae'n bosibl casglu oddi wrth batrwm eu presenoldeb — niferoedd cyffredinol isel sy'n gostwng wrth i'r oedran godi (gweler 9.9) — fod y gwasanaeth ieuenctid yn ei chael yn anodd darparu ar gyfer anghenion merched. Nid peth newydd mo hyn, ond fe waethygodd y sefyllfa'n sydyn ac mae ambell ddarparwr yn dechrau chwilio am resymau a ffyrdd o oresgyn y broblem.

11.2.2 Yn fras, mae'r unedau cymysg yn y sampl yn ymrannu'n ddau gategori: 25 y cant lle mae'r merched yn draean neu ragor o'r aelodaeth; 75 y cant lle na cheir ond ychydig iawn ohonynt. Yn yr achos cyntaf, ac nid yn unig am eu bod yn amlycach oherwydd eu nifer, mae'r merched fel petaent yn ymwneud yn

weithgar â'r gwaith; yn yr olaf, y duedd yw iddynt wylio'r gweithgareddau. Mewn rhai unedau, gweithgareddau a chystadlaethau corfforol sy'n mynd â llawer o'r amser; i bob golwg, ni ofynnir am awgrymiadau'r merched, neu ni weithredir arnynt am na ellir dod o hyd i staff neu am nad oes nifer digonol ohonynt i gyfiawnhau hyfforddwr. Yma eto, mae tuedd i weithwyr ieuenctid gymryd yn ganiataol y bydd pob merch am gymryd rhan oddefol neu hawdd, ac mae staff gwryw a benyw fel ei gilydd yn rhoi'r rhan fwyaf o'u sylw i'r bechgyn. Weithiau, ni cheryddir agweddau gelyniaethus y bechgyn. Grym arfer, yn hytrach nag anwybyddu bwriadol, sydd wrth wraidd llawer o'r ymddygiad hwn gan weithwyr ieuenctid yn ogystal ag aelodau, ond er bod ei effeithiau'n amlwg, ni chânt, i bob golwg, eu llwyr werthfawrogi.

11.2.3 Mae'r merched y siaradwyd â hwy mewn amryw rannau o fyd gwaith ieuenctid yn amlygu, ond heb lawn ddeall, lawer o'r cyfyngiadau y mae cyflyru cymdeithasol yn eu gosod arnynt. Cyfaddefant, yn arbennig, eu bod yn teimlo'n llai pwysig na'r bechgyn ac yn hynod hunan-ymwybodol a swil. Mewn rhai achosion ni wneir dim i leddfu hyn, ond mewn mannau eraill bydd gweithwyr ieuenctid yn ymuno â gweithgareddau gyda'r merched er mwyn sicrhau eu hymglymiad neu'n ceisio'n arbennig siarad â hwy mewn grwpiau. Yn yr unedau lle mae mwy o ferched yn bresennol, fe sylwyd bod y rhaglenni'n amrywiol ac yn cynnwys gweithgareddau anghystadleuol a chyfle i gymryd cyfrifoldeb neu gyflwyno syniadau. Mae mwyafrif yr adeiladau'n gyffyrddus a phleserus o ran estheteg. Mae gan rai ohonynt gorneli cylchgronau ac mewn llawer fe rannwyd y lle sydd ar gael er mwyn hwyluso sgwrsio a chysgodi chwaraewyr petrus rhag golwg pawb. Ac er mai gor-symleiddio fyddai awgrymu mai staff benywaidd yn unig a all ymdrin â merched yn effeithiol, ni all nifer uwch y gweithwyr cymdeithasol benywaidd yn y sefyllfaoedd hyn, a'u cydymdeimlad amlwg â merched, gael ei anwybyddu.

11.2.4 Fe geir, wrth gwrs, fudiadau megis y Geidiau sydd â thraddodiadau hir o waith gyda merched ac, fel y trafodwyd ym Mhennod 10, mae gan gyrff gwirfoddol eraill raglenni helaeth o weithgareddau ym maes crefft a'r byd domestig sy'n denu merched gan mwyaf. Mae ymddygiad llawer o ferched yn y rhain ac mewn amgylchedd un-rhyw sy'n codi o bryd i'w gilydd fel petai'n wahanol i'r hyn a welir ym mwyafrif y sefyllfaoedd cymysg — mae'r merched, at ei gilydd, yn fwy mentrus, cartrefol a hyderus.

11.2.5 Mae'r gred fod hyn yn wir wrth wraidd llawer datblygiad diweddar yn y ddarpariaeth ar gyfer merched. Yng Nghymru, annibynnol fu llawer o'r arbrofi, ond cafwyd rhai camau o fewn y gwasanaeth ieuenctid. Sefydlwyd nosweithiau neu sesiynau 'i ferched yn unig' mewn ambell ganolfan gymysg. Eu nod yw hyrwyddo ystyried materion a hybu gweithgareddau na pherthynant yn benodol i swyddogaethau traddodiadol merched, a'r nod tymor-hir yw datblygu canfyddiad y merched ohonynt eu hunain a'u hymdeimlad o'u gwerth personol. Er mai araf fu'r ymateb, ac er na welwyd yr un ohonynt ar waith, fe gyfeiriodd aelodau a gweithwyr ieuenctid fel ei gilydd at drafodaethau gwerthfawr a dilyffethair ar iechyd, moesau rhywiol, perthynas ag eraill, a phriodas. Aethpwyd ati'n fwriadol hefyd i gyflwyno pobl ifanc i ferched a lwyddodd yn addysgol neu'n alwedigaethol.

11.2.6 Mae'r ddau ddatblygiad hyn yn rhan o raglen barhaol, ond ni pherthyn y fantais hon i fwyafrif y mentrau. Trefniadau unigol neu achlysurol ydynt i alluogi'r merched i gymryd rhan mewn gweithgareddau na fyddent wedi rhoi prawf arnynt neu gael hyfforddiant ynddynt cyn hynny. Rhydd yr ymateb brwd i'r

cyrsiau a redir gan Gymdeithas Gymreig y Clybiau Ieuenctid, ac i'r diwrnod merched a drefnwyd gan wasanaeth ieuenctid Morgannwg Ganol (a gynigiai: trwsio ceir, trydaneg a ffilmio fideo ochr yn ochr â chwaraeon a gweithgareddau awyr agored), ryw arwydd o'r galw ac o'r lefelau o fwynhad a chyflawni y gellir eu cyrraedd.

11.2.7 Er bod rhai'n dadlau bod angen gwahanu ar adegau er mwyn galluogi'r merched yn y pen draw i gael cyfle cyfartal ac i wireddu eu potensial, mae rhai'n dadlau bod hyn yn artiffisial. Yr hyn na ellir ei wadu, i bob golwg, yw bod llawer rhan o'r gwasanaeth ieuenctid yn dal i fethu â sylwi ar anghenion merched. Nid awgryma hyn y gellir anwybyddu darpariaeth arall; yn wir, gallai cynnydd gyda'r merched fod ag oblygiadau ar gyfer gwaith gyda bechgyn. Ond mae'n debyg mai buddiol fyddai neilltuo amser i weithwyr ieuenctid o'r ddau ryw gael trafodaethau rheolaidd ar y pwnc. Mae angen arbennig i ystyried pa agweddau ar yr arferion presennol sydd heb fod yn hybu lles merched, i geisio gwybodaeth am yr hyn sy'n digwydd mewn mannau eraill, i feithrin y medrau anghenrheidiol ac i gysylltu â merched na wasanaethir mohonynt gan y gwasanaeth ieuenctid ar hyn o bryd.

## 11.3 Mesurau i helpu Pobl Ifanc â Phroblemau Ymddygiad a'r rhai y teimlir eu bod o dan Anfantais Gymdeithasol

11.3.1 Pan holir staff ynghylch canlyniadau gwaith ieuenctid fe gyfeirir, bron yn ddieithriad, at swyddogaeth ataliol y gwasanaeth ieuenctid. Hawdd fyddai methu â rhoi'r pwys priodol ar arwyddocâd y swyddogaeth hon; eto, cafwyd adroddiadau anffurfiol oddi wrth nifer o gyrff sy'n dangos cynnydd mewn mân droseddu ar nosweithiau ac yn ystod cyfnodau pan nad oes unrhyw ddarpariaeth gwasanaeth ieuenctid ar gael. Cyfyd hyn amheuon ynghylch patrymau oriau agor presennol llawer o'r darparwyr (gweler 6.30).

11.3.2 Er i sawl corff statudol a gwirfoddol sefydlu unedau mewn cymdogaethau difreintiedig a bod rhai, yn enwedig y Geidiau a Chlybiau Bechgyn Cymru, yn ceisio datblygu'r gwaith hwn, fe gafwyd bod llawer o bobl ifanc yn anfodlon, neu hwyrach yn teimlo na allant, ymgysylltu â'r ddarpariaeth hon. Canlyniad hyn fu i rai awdurdodau addysg (Tabl 32) benodi staff i estyn allan i gymunedau. Yn nyddiau cynnar y tasgau hyn, yr arfer yw i weithwyr ieuenctid dreulio'u hamser yn cysylltu â phobl ifanc lle bynnag y bônt, gan ddatblygu perthynas â hwy, ceisio trafod ac asesu amcanion, a sefydlu cysylltiadau â chyrff a allai helpu i ddiwallu'r anghenion hynny. Bu i'r math hwn o baratoi alluogi un gweithiwr i ganfod posibiliadau i roi sylw iddynt. Dros gyfnod o 18 mis fe gynhwysai'r rhain ddarparu gwybodaeth, cynghori (yn aml ynghylch bod yn ddigartref, troseddu ac amryw fathau o gamymddygiad), gweithredu fel cyfrwng rhwng pobl ifanc a chyrff eraill, cychwyn gweithgareddau cymuned a phapur newydd, helpu clwb ieuenctid a oedd ar fin mynd i'r gwellt, a chymell pobl ifanc i fynd ar wyliau gyda'i gilydd. Nid yw llawer o'r gwaith hwn yn annhebyg iawn i waith llawer uned ieuenctid. Y gwahaniaeth yw ei gysylltiad â rhai unigolion a grwpiau a fu heb y cysylltiad hwnnw hyd yn hyn, a'i ymdrech i gryfhau'r cymorth i bobl ifanc yn y fan a'r lle.

11.3.3 Pan gyflwynwyd Triniaeth Ganolraddol (IT) ar gyfer troseddwyr ifanc, y bwriad oedd i hyn hefyd fod yn seiliedig ar y gymuned ac y byddai gan y gwasanaeth ieuenctid ran ganolog i'w chwarae. Eto, er bod awdurdodau addysg a mudiadau gwirfoddol yn cydweithredu, canolfannau ieuenctid a chyfleusterau preswyl yn cael eu defnyddio ac ambell weithiwr ieuenctid yn cyd-arwain y

grwpiau, nid ymgynghorir â'r gwasanaeth ieuenctid ac ni ddefnyddir mohono fel adnawdd i'r graddau a ddisgwylid o bell ffordd. Ymhlith yr amrywiol resymau a gynigir dros hyn fe awgrymir nad oedd rhai gweithwyr ieuenctid yn ddigon goddefgar a bod amharodrwydd i gynnwys aelodaeth orfodol. Mae'n bosibl, hefyd, na fu i dalu treuliau unigolion gyd-fynd ag angen mwyafrif yr aelodau i gynilo ar gyfer teithiau a phrofiadau preswyl. Er hynny, gresyn i Driniaeth Ganolraddol, ar y cyfan, fynd yn beth cwbl ar wahân a'i bod ar adegau'n dyblygu cyfleoedd presennol y gwasanaeth ieuenctid.

11.3.4 Er prinned ydynt, fe ddengys enghreifftiau o gyd-weithredu nad oes rhaid iddi fod felly. Mewn dwy ganolfan yr ymwelwyd â hwy, bydd grwpiau'r Driniaeth Ganolraddol yn gorgyffwrdd â'r clwb ieuenctid er mwyn i'r rhai sy'n eu mynychu fod mewn cysylltiad nid yn unig â'r gwaith mwy dwys ond hefyd â chynhaliaeth fwy tymor-hir. Mewn man arall, o dan gynllun a drefnwyd ar y cyd ac a reolir gan y gweithiwr ieuenctid, bydd rhwng 12 a 18 o bobl ifanc a gyfeiriwyd yno yn mynd i ganolfan ieuenctid un diwrnod yr wythnos am raglen o drafod, cynghori grŵp, addysg iechyd, chwarae rhannau, gwneud penderfyniadau, gemau ac ymweliadau.

11.3.5 Amrywiad arall ar gyfer pobl ifanc sydd o dan orchmynion goruchwylio, neu y credir eu bod mewn perygl, yw eu gosod mewn Clybiau Gateway. Y gobaith yw y caiff pobl ifanc, wrth weithio fel cynorthwywyr ymysg y rhai y mae eu problemau mewn llawer ffordd yn fwy amlwg a difrifol na'u heiddo hwy, ddigon o lwyddiant a thrwy hynny wella ansawdd eu perthynas ag oedolion i gymaint graddau nes dechrau eu gweld eu hunain mewn ffordd fwy cadarnhaol. Er gwaethaf ambell fethiant, yr arwyddion yw y bydd pobl ifanc, o dan yr amgylchiadau hyn, yn tyfu'n fwy hyderus, yn wynebu cyfrifoldebau, yn goresgyn peth o'u dicter blaenorol ac yn ymwneud â gweithgareddau y byddent gynt wedi'u dirmygu.

11.3.6 Nodwedd ar un fenter, lle caiff yr arweinydd a'r cynorthwywr gymhorthdal gan yr awdurdod addysg, yw'r cyfrifoldeb a rydd ar bobl ifanc yn y ganolfan ac o ran helpu pobl o dan anfantais. O gychwyn fel cynllun Triniaeth Ganolraddol ar islawr y swyddfeydd profiannaeth lleol, mae i'r cynllun, bellach, amryw o ddibenion, a chlybiau ieuenctid iau a hŷn a chanolfan ddydd Triniaeth Ganolraddol — y telir amdani o dan Gymorth Trefol — yw prif ddefnyddwyr man sy'n fwy o faint. Er y dewisir cleientau ar gyfer triniaeth ganolraddol o blith pobl ifanc sy'n destun gorchmynion goruchwylio, sy'n chwarae triwant o'r ysgol, neu y teimlir eu bod yn debygol o droseddu, mae mwyafrif y rhai sy'n mynychu'r clybiau ieuenctid mewn sefyllfa debyg, a bu i lawer ohonynt, gynt, wrthod pob cynnig arall. Credir, felly, fod cyfnewid staff yn rheolaidd a rhannu'r tîm rheoli yn hanfodol i lwyddiant dwy agwedd y ddarpariaeth. Hwyrach bod elfen arall o bwys — ymwneud nifer fawr o wirfoddolwyr o oedolion â gweithio gyda phobl ifanc — hyd yn oed yn fwy manteisiol i'r ddwy ochr a'i fod yn fodel o waith ieuenctid mewn amgylchedd o dan anfantais neu, yn wir, mewn unrhyw gyd-destun cymuned.

## 11.4 Ymwneud â Lleiafrifoedd Ethnig

11.4.1 Yn ôl pob tebyg, nid yw'r dyb bod i anghenion pobl ifanc o leiafrifoedd ethnig le arbennig yn sylw'r gwasanaeth ieuenctid mor gyffredin yng Nghymru ag mewn rhannau eraill o Brydain. Mae gan bob sir boblogaeth wasgaredig o fewnfudwyr (Tseina, Fietnam, er enghraifft), ond rhannau o dde a dwyrain Cymru yn unig sydd â nifer sylweddol o bobl a ddaeth, neu y daeth eu cyndadau, o India'r

Gorllewin, rhannau o Affrica neu o is-gyfandir India. Canlyniad y cronni hwn, ynghyd â natur sefydledig llawer cymuned, fu cysgodi'r gwasanaeth ieuenctid rhag llawer o symptomau dieithrio a gwahaniaethu, a rhag yr angen i ystyried darpariaeth arall.

11.4.2 Mae pobl ifanc unigol o blith llawer lleiafrif ethnig ymhlith aelodaeth wyn (yn bennaf) sawl uned ieuenctid, ac fe fynychant gyrsiau a chystadlaethau. Ar wahân i liw eu croen, nid oes fawr o wahaniaeth rhyngddynt ac aelodau eraill. Mae rhai'n arweinwyr naturiol, ac eraill (y rhai o Fietnam) yn rhannu medrau yn gyfnewid am gymorth gyda'u Saesneg llafar. Hefyd, deilliodd grwpiau ieuenctid aml-ethnig o waith ymestyn mewn cymunedau cymysg. Er ei bod yn well gan ambell aelod o staff wneud dim a dynnai sylw at wahaniaethau mewn hil, teimla eraill, er gwaethaf y cytgord ymddangosiadol, fod ganddynt gyfle i helpu i wrthweithio hiliaeth ac nid oes arnynt ofn dod â'r mater i olau dydd. Mae rhai gweithwyr ieuenctid eraill, yn enwedig y rhai mewn mudiadau gwirfoddol, yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau yn hyn o beth, ond eu profiad hwy yw ei bod bron yn amhosibl mynd i'r afael â'r pwnc pan nad oes gan yr aelodau unrhyw gysylltiad uniongyrchol â phobl o hiliau eraill.

11.4.3 Mae canolfan ieuenctid gydag aelodaeth 80 y cant o bobl ddu neu o hil gymysg, sydd yng nghanol y gymuned a wasanaethir ganddi, hefyd yn dilyn polisi o integreiddio gan bwysleisio cynyddu hunan-barch pobl ifanc, hybu gofal a phryder dros eraill a meithrin ymwybyddiaeth o ymddygiad cymdeithasol cymeradwy. Y duedd gyda'r hwyr yw i'r aelodau fynd a dod yn hytrach nag aros yn y clwb, ac er bod gweithgareddau ar gael, hanfod y gwaith yw cynghori pobl ifanc ac aelodau o'r gymuned. Er gwaethaf cryn lwyddiant wrth ddarbwyllo'r aelodau i gymryd rhan mewn digwyddiadau sirol, fe'i ceir yn anodd creu profiadau a fydd o gymorth iddynt wrth ymdopi y tu allan i'w hamgylchedd uniongyrchol. Mae ymweliadau â chanolfannau eraill yn llwyddiannus o ran peri bod yr aelodau'n dod yn gyfarwydd ag aelodau canolfan arall, ond rhaid amau a leddfir yr agweddau ystyfnig a geir ymysg pobl ifanc o wahanol gymunedau trefol, waeth beth fo'u hil.

11.4.4 Mae'n bosibl y gellid cryfhau'r cysylltiadau ymysg grwpiau hiliol trwy roi'r gorau'n raddol i ddalgylchoedd canolfannau ieuenctid, a frasluniwyd gan un awdurdod addysg rywbryd yn y gorffennol wrth geisio lleddfu tensiynau. Nid yw aelodaeth un ganolfan ieuenctid ar gampws ysgol, er enghraifft, yn adlewyrchu patrwm y boblogaeth ysgol (tua 30 y cant lleiafrif ethnig) na chyfansoddiad y gymuned.

11.4.5 Mae'n amlwg nad integreiddio yw'r ateb i bob lleiafrif ethnig, yn enwedig lle bu iddynt greu hunaniaeth ar wahân mewn cymdogaeth neu lle bônt yn deyrngar i fudiadau diwylliannol neu grefyddol. Mae'n amlwg i ambell uned ieuenctid mewn man strategol, er enghraifft, fethu â denu unrhyw un o'r bobl ifanc y'i bwriadwyd hi ar eu cyfer, yn enwedig y rhai sy'n dod yn wreiddiol o is-gyfandir India. Yn anffodus, mae'r sefyllfa hon fel petai wedi'i derbyn heb ei hystyried ymhellach nac ystyried dewisiadau eraill.

11.4.6 Eto, yn ymarferol, mae rhai cymunedau lleiafrifoedd ethnig yn datblygu cynlluniau hunan-gynorthwyol. Gall y rhain fod yn artistig, yn ysbrydol neu'n ymwneud â chwaraeon, ond yr arfer yw cynnwys pobl ifanc o gymdogaeth gyfan yn hytrach na gwahaniaethu rhyngddynt ar sail oedran. Calondid, felly, yw gweld arweinwyr ieuenctid a gweithwyr cymuned mewn mwy nag un ardal yn ymaddasu i'r amgylchiadau hyn ac yn rhoi cynnig ar ddull cyfunol.

## 11.5 Cyfraniad at Iaith a Diwylliant Cymru

11.5.1 Er bod arwyddion bod cyrff statudol a gwirfoddol yn fwyfwy ymwybodol o'r angen i ddatblygu dimensiwn Cymraeg i'w gwaith, mae swyddogaeth y gwasanaeth ieuenctid mewn perthynas ag iaith a diwylliant Cymru, ac eithrio yn achos dau ddarparwr, yn dal yn un o'r meysydd yr esgeuluswyd fwyaf arnynt.

11.5.2 Er nad ydyw, o bosibl, yn annisgwyl bod llawer uned ieuenctid mewn ardaloedd Seisnig yn teimlo nad yw iaith a diwylliant Cymru o fawr bwys i'r gymuned, tipyn o syndod yw gweld bod cyn lleied ohonynt mewn ardaloedd ieithyddol gymysg, neu yn wir, mewn ardaloedd Cymraeg, wedi datblygu cymeriad Cymraeg. Mae rhai o'r rhesymau dros hyn, i bob golwg, heb fod yn ymwneud â'r uned, ac eraill fel arall. Mewn un clwb yng Ngorllewin Cymru, er enghraifft, bydd y gweithiwr ieuenctid yn cyfarch yr aelodau yn Gymraeg, ond Saesneg yw mwyafrif yr atebion; mewn un arall, er bod y staff yn annog yr aelodau i siarad Cymraeg, gwrthodant wneud hynny. Mae'r esboniadau a gynigir gan y bobl ifanc eu hunain yn dangos i ba raddau y mae'r cyfryngau'n dylanwadu ar ddefnyddio iaith yn gymdeithasol. O gofio hyn, mae'n destun pryder bod rhai clybiau Cymraeg fel petaent yn cyflwyno pobl ifanc i ddylanwadau Seisnig yn ddigon diofal. Yn Saesneg yn unig y ceir hysbysiadau yn fynych, anaml y bydd posteri'n ymwneud ag unrhyw beth sy'n gysylltiedig â Chymru, ac anarferol yw gweld eitemau Cymraeg ymhlith y recordiau, y tapiau a'r cylchgronau sydd ar gael.

11.5.3 Bydd unedau statudol a gwirfoddol yn aml yn esbonio eu bod yn gweithio drwy gyfrwng y Saesneg er mwyn peidio â chau newydd-ddyfodiaid i Gymru allan o'u gweithgareddau. Ond mewn mannau eraill, mae'r sefyllfa'n wahanol. Ni fydd un clwb Cymraeg yn newid fawr ddim ar y drefn ar gyfer y siaradwr Saesneg uniaith, ond mae'n ymboeni cymaint â hynny'n fwy gyda'r dysgwyr gan gadw llygad gofalus ar eu hintegreiddio ac ar eu cynnydd yn yr iaith; bydd mudiad sydd â gwisg swyddogol yn dysgu yn y ddwy iaith er mwyn bodloni dymuniadau unigolion, ac mae grŵp ieuenctid eglwysig sy'n defnyddio'r Gymraeg yn cynnwys ambell gyfieithiad i aelodau a all ei chael yn anodd deall yr hyn sy'n mynd ymlaen.

11.5.4 O fewn Mudiad y Ffermwyr Ifanc, sydd â 44 y cant o'i aelodau'n ddwyieithog[20] bu tri ffederasiwn Gwynedd yn gweithredu drwy'r Gymraeg o'r cychwyn cyntaf. Mewn un clwb mae'r bobl ifanc yn dangos eu bod yn dra ymwybodol o'u gwreiddiau, ac mae ansawdd y gair llafar, o ran cyfoeth ei eirfa a'i idiom, yn uchel iawn. Lluniodd rhai aelodau sgript ar William Jones, Nebo, y bardd, maent yn gysylltiedig â'r papur bro ac yn ymwneud â dosbarthiadau a chystadlaethau barddoniaeth. Eto, cyn penodi swyddog i ddatblygu dwyieithrwydd, nid oedd y gwasanaethau a gynigid i'r clwb hwn nac i glybiau Cymraeg eraill ar yr un lefel â'r hyn a oedd ar gael yn Saesneg. Bellach, fe gynhyrchir y rhan fwyaf o'r deunydd ysgrifenedig sy'n deillio o bencadlys Cymru yn ddwyieithog, cynhelir rhaglenni hyfforddi yn y ddwy iaith, a defnyddir mwy ar y Gymraeg mewn digwyddiadau. Mae i'r Eisteddfod ddwyieithog adran i'r dysgwyr, ac yn y cystadlaethau drama bydd llawer clwb yn dewis dramâu Cymraeg a ysgrifennwyd yn ddiweddar — rhai ohonynt yn arbennig o addas gan eu bod yn atgynhyrchu rhythmau llafar, tafodiaith ac i ryw raddau, ofidiau'r ardaloedd dan sylw.

---

[20] Ffigyrau 1971

11.5.5 Ysbrydolodd cynllun treftadaeth tair-blynedd Mudiad y Ffermwyr Ifanc 49 o gynlluniau — rhai wedi'u llunio gan unigolion, eraill gan glybiau cyfan — a gynhwysai gofnod clyweledol o grefftau gwledig a bywyd y gymuned, hanes y clwb, casglu a chofnodi enwau caeau neu dafodieithoedd lleol, a gwaith ymarferol megis adfer hen offer gweithio. Arddangoswyd y rhain gyntaf yn Sioe Frenhinol 1981 ac yna yn yr Eisteddfod Genedlaethol ac mewn llyfrgelloedd ledled Cymru. Hefyd, mae'r Mudiad yn cefnogi Cystadleuaeth Ieuenctid Agored y Cyngor Llyfrau Cymraeg ac yn gysylltiedig â phob Eisteddfod Genedlaethol trwy godi arian, cyflwyno gwobrau, a staffio stondin.

11.5.6 Mae amcanion Urdd Gobaith Cymru yn ymwneud yn benodol â hybu lles Cymru, ei hiaith a'i diwylliant (3.6 a 3.9). Cyfeiriwyd at Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd (10.2.54—10.2.55) sy'n ganolbwynt i weithgarwch y mudiad. Nodwedd bwysig ar honno, ac ar yr Eisteddfodau cylch, yw'r anogaeth a roir i'r dysgwyr trwy gystadlaethau arbennig a drefnir i helpu datblygu medrau iaith. Mae'r rhain, ynghyd â'r cyrsiau gweithgarwch iaith yng Nglan-llyn a Llangrannog[21] yn hynod werthfawr wrth helpu i ysgogi gwaith mudiadau ieuenctid ac ysgolion. Mae'r cyrsiau preswyl, o ran profiadau bywyd bob dydd drwy gyfrwng y Gymraeg, hefyd yn gyfraniad o bwys.

11.5.7 Cyfeiria arweinwyr yr aelwydydd at bwysigrwydd galluogi pobl ifanc i siarad a mynegi eu teimladau trwy'r Gymraeg mewn cyd-destun cymdeithasol neu gyd-destun gweithgarwch anffurfiol. Yn hyn o beth, mae cyfraniad at awyrgylch Cymraeg un aelwyd drefol, gydag aelodaeth o 50 o bobl ifanc o ddalgylch helaeth, yn arwyddocaol. Tra edrychid ar gyfarfodydd nos Wener ar un adeg yn unig fel ymlacio ar ddiwedd yr wythnos, canlyniad yr ymgynghori diweddar â'r aelodau fu cynnwys rhagor o amrywiaeth a gweithgarwch diwylliannol (megis grwpiau drama, côr, dawnsio gwerin ac ymweliadau gan grwpiau pop Cymraeg) yn y rhaglen. Mae'r sgyrsio a glywyd gyda'r hwyr yn dangos mwy o ddefnyddio ar eiriau ac idiomau Cymraeg nag a geir fel arfer mewn cymuned bur Seisnig. Ceir siarad rhwydd hefyd mewn grwpiau trafod ac mae'r cymysgedd o dafodieithoedd a chyweiriau'n amlygu amrywiaeth o iaith lafar ymysg yr aelodau wedi'i chyd-blethu ag iaith y dysgwyr rhugl.

11.5.8 Ceir llai o dystiolaeth am gyfraniad yr aelwydydd i ddatblygiad ieithyddol mewn rhai sefyllfaoedd eraill. Mewn un ohonynt, mae cerddoriaeth uchel yn rhwystro sgwrsio cymdeithasol naturiol: mewn man arall, fe ddangosir ffilmiau ond ni fanteisir ar bob cyfle i drafod, ac mae unedau eraill yn ymwneud yn bennaf â chwaraeon lle nad oes gofyn i'r aelodau ddefnyddio odid ddim ar iaith. Siaradwyr di-Gymraeg, nad yw'r mwyafrif ohonynt ag unrhyw ddiddordeb mewn defnyddio na dysgu Cymraeg, yw'r mwyafrif o aelodau un gangen. Mae llawer aelwyd lawn cymaint o glwb ieuenctid lleol ag yn rhan o fudiad ieuenctid Cymraeg, ond mae sawl un ohonynt eto heb ddod i delerau â'u swyddogaeth ddeuol. Sylwyd, hefyd, fod tuedd i ganolbwyntio ar gerddoriaeth, adrodd, canu corawl a gweithgareddau esthetig eraill yn nhymhorau'r gwanwyn a'r haf, pan gynhelir ymarferiadau ar gyfer yr Eisteddfodau. Mae rhaglen yr hydref, ar y llaw arall, yn brin o amrywiaeth a chydbwysedd. Mae'n bwysig, i bob golwg, gynnig rhai gweithgareddau diwylliannol a all sicrhau cyfranogiad pob aelod trwy gydol y flwyddyn.

11.5.9 Mae'r enghreifftiau niferus o grwpiau cymuned a ffurfiwyd o ganlyniad uniongyrchol i ddeffro diddordeb aelodau'r Urdd a Mudiad y Ffermwyr Ifanc mewn drama, cerddoriaeth gorawl, dawnsio gwerin a chanu a difyrrwch

[21] Yn gynnar ym 1983 fe gyhoeddwyd Adroddiad gan Arolygwyr Ei Mawrhydi ar Brofiadau Dysgwyr yng Ngwersylloedd Llangrannog a Glan-llyn.

amatur arall yn cryfhau'r ddadl bod cymhwyso'r Gymraeg i weithgareddau gwirfoddol amser hamdden yn hanfodol er mwyn cynnal yr iaith a'i diwylliant. Mae'n ymddangos ei bod yn hanfodol, felly, nid yn unig i'r mudiadau hyn ond i ddarparwyr statudol a gwirfoddol eraill, adolygu eu strategaethau er mwyn sefydlu cysylltiadau â rhagor o bobl ifanc y byddai defnyddio'r Gymraeg, fel arall, yn gyfyngedig i'w profiad ysgol, a manteisio hyd yr eithaf ar botensial gwaith ieuenctid o ran addysg ieithyddol a diwylliannol.

**11.6 Ymateb i Anghenion y Di-waith a Phobl Ifanc eraill 16+ oed**

11.6.1 Bu'r gostyngiad cynyddol ym mhresenoldeb pobl ifanc dros 16 oed yn peri i'r gwasanaeth ieuenctid ofyn ers peth amser a yw ei ddarpariaeth yn diwallu eu hanghenion. Mae rhai ymatebion wedi hen ennill eu plwyf. Bydd y YMCA, er enghraifft, yn mynd ag addysg gymdeithasol i'r mannau gweithio gyda'i sesiynau wythnosol a'i gyrsiau preswyl i brentisiaid ifanc, a cheir unedau ar wahân, rhai cymysg neu gyfun, ar gyfer aelodau hŷn mudiadau'r Sgowtiaid a'r Geidiau. Ond yn ddiweddar cafwyd ystyried o'r newydd ynghylch achosion y dirywiad a dulliau eraill posibl.

11.6.2 Sefydlodd Clybiau Bechgyn Cymru rwydwaith o glybiau aelodau hŷn sy'n rhoi cyfle i fechgyn greu eu rhaglenni eu hunain a chodi arian i dalu am unrhyw weithgareddau ar raddfa fwy, megis hyfforddiant gweithgarwch awyr agored, y maent am gymryd rhan ynddynt. Mae cynllun helaethach, y telir amdano gan y Swyddfa Gymreig ac a reolir gan bwyllgor gwirfoddol-statudol, yn ceisio ymchwilio i'r holl ddarpariaeth gwaith ieuenctid ar gyfer pobl ifanc dros 16 oed mewn ardal benodol, yn dilyn cyn-aelodau unedau ieuenctid a chynlluniau'r Comisiwn Gwasanaethau Gweithwyr, ac yn cysylltu ag amryw ddarparwyr. Y gobaith yw canfod enghreifftiau o arfer llwyddiannus, amlygu anghenion arbennig a chefnogi ystod eang o fentrau newydd gan gynnwys gwaith gyda phobl ifanc, megis mamau yn eu harddegau, na chyrhaeddir mohonynt fel arfer gan y gwasanaeth ieuenctid. Bwriad y strategaeth hon yw rhoi prawf ar dybiaethau a methodoleg ac, yn y pen draw, ddarparu gwybodaeth a fydd yn ddefnyddiol i eraill.

11.6.3 Mae arwyddion cynnar y gwaith hwn yn ategu sylwadau'r arolwg: y duedd yw i'r unedau sy'n pwysleisio hunan-rhaglennu gyda chymorth, y cyfle i gael cyfrifoldeb o fewn yr uned a'r tu allan yn y gymuned, a gweithgareddau ymestynnol, fod â nifer sylweddol o aelodau hŷn. Hefyd, mewn rhai ohonynt,nid yw'r ystod oedran yn eang, ac mewn eraill gall yr aelodau hŷn gyfarfod fel grŵp am ran o'r oriau arferol, yn ddiweddarach yr un noson neu ar adegau eraill.

11.6.4 Yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, y duedd fu i ystyriaethau cyffredinol ynghylch y grŵp oedran hwn gael eu cymylu gan bwysau anghenion yr ifanc di-waith. Am beth amser cyn llunio mwyafrif y rhaglenni arbennig, yr oedd angen i weithwyr ieuenctid gynghori aelodau di-waith; dechreuodd llawer ohonynt alw mewn canolfannau yn ystod y dydd. Nid yw bodolaeth darpariaeth arall wedi rhyddhau'r gwasanaeth ieuenctid o'r cyfrifoldeb hwn; yn lle hynny, ymddengys iddo ychwanegu at ystod y cymorth y mae ei angen. Mae llawer gweithiwr ieuenctid, bellach, yn darparu gwybodaeth am gynlluniau, yn helpu aelodau i wneud dewisiadau, ac yn cynorthwyo'r rhai sydd wedi diflasu ar yr hyn y maent yn ei wneud neu ar fywyd a diweithdra yn gyffredinol. Gall rhoi help llaw gyda llenwi ffurflenni, ymarfer ar gyfer cyfweliadau neu drefnu cyllid, a gweithredu fel cyfrwng â chyrff eraill, gan gynnwys swyddogion gyrfaoedd, canolfannau

gwaith ac awdurdodau tai, hefyd fod yn rhan o waith ieuenctid bob dydd. Profiad rhai staff yw ei bod yn arbennig o angenrheidiol, pan fo pobl ifanc yn cwblhau eu rhaglenni dros dro, geisio cynnal cymhelliant drwy eu helpu i gynllunio defnyddio'u hamser. Bu Gwobr Dug Caeredin yn symbyliad mewn un neu ddau o achosion. Mewn mannau eraill, rhoddwyd i'r aelodau gyfrifoldeb megis golygu papur newydd y clwb neu redeg yr adran iau. Cynigiwyd cyngor i eraill ar gychwyn eu busnesau eu hunain. Mae arferion o'r fath yn dangos pa mor bwysig yw hi i'r gwasanaeth ieuenctid ddal mewn cysylltiad ag aelodau hŷn.

11.6.5 Yn anffodus, er bod llawer gweithiwr ieuenctid yn ymwybodol o'r angen i weithio fel hyn, mae nifer ohonynt heb fod yn ddigon cyfarwydd â'r dewisiadau addysg a hyfforddi ar gyfer y grŵp oedran 16+ ac ni ddeallant y cyfleoedd a'r anogaeth ategol y gallent eu darparu. Dyma, o bosibl, un o'r rhesymau pam na roir digon o bris, yn aml, ar gyfraniad y gwasanaeth ieuenctid a pham na fanteisiwyd ond ychydig ar arbenigedd y gwasanaeth ieuenctid pan ddechreuwyd defnyddio canolfannau ieuenctid fel canolfannau ar gyfer cyrsiau cymdeithasol a medrau byw a redid gan gyrff eraill. Er hynny, deil llawer gweithiwr ieuenctid i wneud cyfraniad buddiol drwy roi cartref i gyrsiau, gweithdai a swyddfeydd sy'n gysylltiedig ag amryfal raglenni, trwy gludo pobl ifanc i'r ddarpariaeth a drefnir gan eraill, derbyn gosodiadau gweithio a chynlluniau cymuned, a defnyddio timau wrth adnewyddu adeiladau.

11.6.6 Bu i sawl strategaeth gwaith ieuenctid a gychwynnwyd gan awdurdodau addysg neu unedau unigol ddatblygu yn ystod cyfnod yr arolwg. Ymysg y rhain, 'y canolfannau ymweld' ar eu llu ffurfiau yw'r rhai mwyaf niferus. Ym mhob rhan o Gymru, ceir enghreifftiau o ganolfannau ieuenctid awdurdodau addysg ac adeiladau mwyaf y mudiadau gwirfoddol (y YMCAs, er enghraifft) sydd ar agor yn ystod y dydd i'w defnyddio'n anffurfiol. Weithiau mae'r oriau'n rheolaidd, ond yn fwy aml nid yw cyfleusterau ar gael ond pan fo'r gweithiwr ieuenctid sydd â gofal drostynt yn digwydd bod yno. Darganfu canolfannau eraill, a ddechreuodd ar yr un trywydd, fod tuedd i'r rhai a oedd yn taro heibio eisiau gwneud mwy na threulio'r amser ac, felly, fod angen cynnig rhywbeth mwy pwrpasol. Ambell waith, y gweithiwr ieuenctid sy'n penderfynu ar y rhaglen ond, fwyfwy, fe arbrofir â'r gwaith gan ymgynghori â phwy bynnag a ddaw. Bu i weithgareddau a ddatblygwyd fel hyn gynnwys grwpiau hobïau, celfyddydau creadigol, gwasanaeth cymuned, gweithgareddau corfforol, cerddoriaeth (gan gynnwys ffurfio grwpiau pop), ffotograffiaeth fideo, papurau newydd cymuned, addurno'r cartref, gwersi gyrru a phrofiadau preswyl. Bu i'r grŵp mewn un ganolfan ffurfio cymdeithas i'r ifanc di-waith er mwyn sicrhau arian ar gyfer rhaglen o wasanaeth cymuned a theithiau, tra bu rhaid i un arall a oedd am godi campfa baffio ddysgu a defnyddio ystod eang o fedrau. Mewn man arall gwnaed cais llwyddiannus i'r Comisiwn Gwasanaethau Gweithwyr i benodi staff i weithio mewn ardal, gan ymgynghori â phobl ifanc ynghylch anghenion y gymuned a chynnig iddynt y cyfle i ddefnyddio cyfleusterau'r ganolfan. Mae gan ambell ganolfan grwpiau llythrennedd sylfaenol sy'n denu pobl ifanc y bu i'w diffyg hyder eu cadw draw oddi wrth ddarpariaeth arall. Ond yr hyn sy'n arbennig o nodedig yw'r technegau cynghori a ddefnyddir mewn un ganolfan. Wrth wynebu'r broblem o ddiflastod, pryderon ynghylch arian, ceisio am swyddi, bod yn ddi-waith, y berthynas yn y cartref a throseddu, mae'r gweithiwr ieuenctid yn peri i'r bobl ifanc archwilio'r materion hyn yn drylwyr ac edrych arnynt eu hunain yn fanwl er mwyn dechrau meddwl yn gadarnhaol nid yn unig ynghylch atebion uniongyrchol ond ynghylch gwella ansawdd eu bywyd yn gyffredinol.

11.6.7 Bu i set bellach o 'ganolfannau ymweld', a sefydlwyd o ganlyniad i arian cymorth trefol, alluogi un awdurdod i gynnig ystod o gyfleoedd i bobl ifanc ac i oedolion. Er gwaethaf eu canolbwyntio ar adloniant hamdden, mae rhai o'r canolfannau hamdden a chymuned dan sylw yn defnyddio digwyddiadau beunyddiol megis ffonio, siopa, dweud yr amser, rheoli arian yn y bar coffi a choginio byrbrydau, er mwyn dysgu cryn dipyn ar fedrau bywyd.

11.6.8 Pan ddechreuodd canolfan arall, a gâi arian cymorth trefol, agor yn ystod y dydd, ni ddaeth neb yno, ac felly fe aeth y staff allan ar drywydd pobl ifanc. Yn raddol, dechreuodd y rheiny, ac aelodau eraill o'u teuluoedd, alw heibio. I gychwyn, fe gyfeiriwyd y rhan fwyaf o ymdrechion y staff a'r bobl ifanc at addurno a dodrefnu'r adeilad tri-llawr, a oedd wedi'i esgeuluso, fel canolfan gymuned aml-bwrpas. Gofynnai hyn fynd allan i'r gymdogaeth i geisio cyfraniadau a deunyddiau addurno ac adeiladu. Bu'r cysylltiadau hyn, ynghyd â gweld troi sgerbwd di-groeso o adeilad yn adeilad o safon, yn hanfodol i ddatblygiad hunan-barch yr aelodau. Mae gweithgareddau'r ganolfan (y cyfeiriwyd ati hefyd ym Mhennod 10) yn cynnwys celfyddyd, ffotograffiaeth, cerddoriaeth, gemau bwrdd, cynhyrchu taflen newyddion y ganolfan a rhaglen radio i'r ysbyty lleol, ffilmiau, cadw'n heini a disgos. Mae rhaglen gynhwysfawr o chwaraeon awyr agored, ymweliadau a gwyliau ar y gweill. Mae'n amlwg y caiff y berthynas â'r gymuned ei meithrin yn gyson. Er nad hon yw'r unig ganolfan i'r di-waith sy'n ceisio ymwneud â'r gymuned, ni chaiff rhai o'i nodweddion mwyaf nodedig, megis yr hen a'r ifanc yn cyd-weithio ar gynlluniau, dynion hŷn yn dysgu pobl ifanc i chwarae snwcer, a defnyddio pobl ifanc ddi-waith fel aelodau o'r staff, eu copïo'n helaeth.

11.6.9 Mae rhai cyfleusterau ymweld fel petaent yn brin o bwrpas ac ni wnânt fawr mwy na lleddfu diflastod dros dro, ond mae'n amlwg bod eraill yn enghreifftiau o arferion gwaith ieuenctid da. Ar eu gorau, gallant roi fframwaith i'r diwrnod, amgylchedd cynhalgar lle y gall pobl ifanc gwrdd heb y pwysau y teimla llawer ohonynt sydd arnynt, ystod o brofiadau sy'n cynnwys her ac yn mynnu ymdrech gyson, a'r cyfle i ddewis ymarfer cyfrifoldeb a gwneud penderfyniadau. Mae'r hyn a ddywed pobl ifanc yn awgrymu sut y bu i hyn eu helpu i ddarganfod doniau a datblygu medrau (gan gynnwys llythrennedd a niferedd) a bydd rhai ohonynt yn amlygu cryn hyder a phwrpas.

11.6.10 Er y dadleuir yn aml o blaid yr angen am ragor o adnoddau, awgryma rhai anghysonderau y gellid gwneud rhagor pe ceid mwy o hyblygrwydd a pheth ail-wampio. Caiff rhai gweithwyr ieuenctid eu hymestyn i'w heithaf er mwyn bodloni eu hymrwymiadau dydd a nos, tra nad oes ond ychydig o gyfrifoldebau yn ystod y dydd gan eraill gerllaw. Nid yw neilltuo staff i rai canolfannau, y telir amdanynt yn arbennig, fel petai'n rhoi digon o ystyriaeth i weithio gyda phobl ifanc yn unigol neu mewn grwpiau, tra nad oes gan staff mewn canolfannau tebyg, mewn cymhariaeth, ddigon o waith. Hefyd, mae defnyddio canolfannau gan y ddwy garfan mewn rhai achosion yn cwtogi ar y lle sydd ar gael; trefnwyd llawer canolfan amser-llawn ar gyfer agor gyda'r hwyr yn unig; bydd rhai awdurdodau'n gwahardd defnyddio canolfannau ar safleoedd ysgol gan y di-waith, ac ambell waith ceir gwrthdrawiad rhwng gwerthoedd y ddarpariaeth ddydd a'r ddarpariaeth nos.

11.6.11 Ceir anawsterau hefyd wrth sefydlu a chynnal grŵp o gleientau a dynnir, yn aml, o blith y rhai nad ydynt am gymryd rhan mewn cynlluniau mwy strwythuredig. Mae llawer canolfan yn ymwybodol o'r angen i farchnata'u cyfleusterau ond mewn rhai ardaloedd ni chaiff hyd yn oed gyhoeddusrwydd llethol fawr o

effaith. Gellir tybio bod pobl ifanc yn gallu cyfranogi'n haws os ydynt eisoes yn aelodau o ganolfan, a bod mentrau liw dydd yn deillio o arferion y clwb, ond mae'n amlwg bod eraill yn ei chael yn anodd iawn dod i mewn ar eu pen eu hunain. Cyfeirir yn aml at gydnabod a aeth i'r arfer o wneud dim byd ac sydd fel petaent yn methu â'u cyffroi eu hunain i dorri ar gylch eu diffyg gweithgarwch. Ymhellach, mae merched mewn lleiafrif o un i bump ac, yn ôl tystiolaeth gweithwyr a aeth allan ar eu trywydd i'w hannog i fynychu canolfan, mae'n debyg bod y rhieni'n ddigon parod i'w cael hwy gartref a'u bod, yn wir, yn cael peth boddhad yno.

11.6.12 Canlyniad i gofrestru gydag asiantaethau gwasanaethau cymuned o dan nawdd y Comisiwn Gwasanaethau Gweithwyr, fel rheol, yw recriwtio ar gyfer y cyrsiau medrau cymdeithasol a medrau bywyd a redir gan staff y gwasanaeth ieuenctid. Bydd pob canolfan ieuenctid yn datblygu rhaglen o 6-10 sesiwn diwrnod llawn gan ymgynghori â chyd-gysylltwr y cynllun, rhai ohonynt yn canolbwyntio ar fedrau cymdeithasol a medrau bywyd, eraill ar weithgareddau awyr agored a gwaith cymuned. Mae un yn cynnig rhaglen gymysg o waith grŵp, addysg gorfforol, celf a chrefft, pynciau domestig a gweithgareddau awyr agored, gan geisio sicrhau cynnydd mewn amrywiol fedrau ac mewn hunan-hyder. Datblygwyd rhai gemau defnyddiol i hybu trafodaeth ac fe ddefnyddir y camera fideo yn aml mewn ffordd ragorol (gweler 10.1.12).

11.6.13 Mae tystiolaeth y recordiadau fideo yn ei gwneud yn amhosibl amau'r twf personol a chymdeithasol a all ddeillio o'r cyrsiau hyn. Ond y duedd yw i'r profiadau dydd a phreswyl hyn gael eu hychwanegu at y rhaglen gyfan yn hytrach na bod yn rhan gydlynus ohoni. Bydd un cwrs preswyl, er enghraifft, yn cyflawni llawer o ran newid agweddau, hunan-ddarganfyddiad a dysgu byw gydag eraill (gweler 10.4.21), ond mae'n bosibl bod cyfleoedd dysgu'n cael eu colli, yn enwedig yn rhan gyntaf yr wythnos, gan na fu i'r grŵp gyfarfod â'r tiwtoriaid cyn hynny ac nad yw'r bobl ifanc wedi ymwneud â'r paratoadau.

11.6.14 Cafwyd nifer o ymdrechion gan weithwyr ieuenctid i helpu i sefydlu gweithdai cymuned neu fentrau cydweithredol, megis garddio marchnad, ond yn aml bu'r problemau'n drech na hwy. Bu i Ymddiriedolaeth y Tywysog, sy'n barod i helpu cynlluniau y mae angen arnynt symiau bach o arian gynorthwyo rhai cynlluniau hunan-gynorthwyo a rhoi ysgoloriaethau hyfforddi. Hefyd, trefnwyd bod arian ar gael er mwyn i bobl ifanc ddi-waith ymuno â gweithgareddau a chyflawni gwahanol fathau o wasanaeth i'w cymuned. Cafwyd peth nawdd ar raddfa lawer helaethach. Mae gwasanaeth ieuenctid Morgannwg Ganol yn gysylltiedig â'r Asiantaeth Gwasanaethau Cymuned a'r Canolfannau i'r Di-waith sy'n gweithredu o dan nawdd yr awdurdod addysg. Yn Ne Morgannwg, canlyniad ymdrechion staff y gwasanaeth ieuenctid fu sefydlu Cyfleoedd Ieuenctid De Morgannwg Cyfyngedig, a ymgymerodd, i gychwyn, â mwyafrif y rhaglenni dros dro yn y sir, ac yna â chreu canolfannau i'r di-waith. Ceir hefyd sawl cangen o Ddiwydiant Cymuned yng Nghymru. Mae'n gweithredu o dan nawdd Cymdeithas Genedlaethol y Clybiau Ieuenctid, fe'i cychwynnwyd cyn y Rhaglen Cyfleusterau i Ieuenctid, ac fe'i cynlluniwyd i gynnig profiad o amgylchedd gweithio i bobl ifanc o allu academaidd isel neu o gefndir difreintiedig.

11.6.15 Gyda'i brofiad hirfaith o grwpiau a all gynnwys y llai galluog a'r di-fater, gall Diwydiant Cymuned gymryd y ffactorau hyn i ystyriaeth wrth gynllunio'i waith — er enghraifft, mae addysg sylfaenol yn rhan annatod o weithgarwch y timau sy'n gweithio ar gynlluniau adeiladu. Ond rhydd pob cynllun, canolfan a chwrs

ryw ddirnadaeth o anghenion arbennig pobl ifanc ddi-waith a'r problemau a ddaw yn eu sgîl. Profiad y staff yw mai unig ddiddordeb llawer ohonynt yw cael swydd, ond nid oes modd iddynt allu cynnig un na chynnig profiadau datblygol sy'n atgynhyrchu'r profiad o fod mewn gwaith. Mae hyn, ynghyd â hynodrwydd ymddygiad pobl ifanc a'u trafferthion personol, yn ei gwneud yn anodd i'r staff llai profiadol fod yn sicr ynghylch eu hamcanion, pennu disgwyliadau ar lefel briodol, trefnu ac addasu'r dulliau yn unol â hynny, a rhoi anogaeth i bob unigolyn. Ymhellach, mae rhai'n cyflym ddysgu bod angen cadw grwpiau'n fach a bod diddordeb yn pylu os oes bwlch rhy hir rhwng awgrymiadau a chyflwyno gweithgareddau. Ar y llaw arall, dywed arweinwyr ieuenctid profiadol fod ymwneud â phobl ifanc mewn grwpiau llai a chyda mwy o ddwyster nag a geir fel arfer wedi peri iddynt arbrofi gyda dulliau newydd a bod hynny wedi rhoi iddynt ddealltwriaeth ffres o'u gwaith.

11.6.16 Er bod arferion diddorol yn dod i'r golwg mewn mannau unigol, fe arafwyd yr ymateb gan ddiffygion yn y drefniadaeth. Weithiau, fe barodd yr angen am gyflymdra i'r darparwyr fethu ag ystyried y nodau, yr amcanion a'r dulliau yn drwyadl, ac fe anghofiwyd cynnwys cloriannu neu gyfleoedd hyfforddi i'r staff. Lle ceisiwyd cloriannu a lle cynigir hyfforddiant priodol, bu modd croes-ffrwythloni syniadau a ffyrdd o ddatrys problemau, ac fe ddysgwyd gwersi gwerthfawr.

11.6.17 Yr hyn sy'n peri mwy o bryder yw'r diffyg fframwaith cyffredinol. Mae'n sicr i gyfyngiadau ariannol gwtogi ar y gweithredu ond, mewn rhai ardaloedd lle mae diweithdra'n rhemp, mae'n dal yn ddyddiau cynnar ar y trafodaethau ar gyfraniad y gwasanaeth ieuenctid. Mewn mannau eraill, er mai ar raddfa fach y mae llawer o'r hyn sy'n digwydd, nid ydyw, i bob golwg, yn rhan o ddull cynlluniedig a chyd-gysylltiedig o drafod y problemau a achosir gan ddiweithdra.

11.6.18 Mae natur ad hoc llawer o'r ddarpariaeth wedi'i gwneud yn anos i'r gwasanaeth ieuenctid ei sefydlu ei hun ymysg y myrdd cynlluniau, yn enwedig gan nad yw amcanion gwaith ieuenctid, ohonynt eu hunain, yn bodloni meini prawf y Comisiwn Gwasanaethau Gweithwyr ar gyfer cael grant. Er bod y YMCA yn sefydlu perthynas â chyflogwyr er mwyn darparu elfen hyfforddi-o'r-gwaith y cynllun hyfforddi ieuenctid newydd (YTS), at ei gilydd ni chynhwyswyd y gwasanaeth ieuenctid fel partner i'r graddau y gallesid eu disgwyl. Yn wir, wrth ddatblygu eu hymateb i'r cynllun hyfforddi ieuenctid, mae llawer awdurdod addysg fel petaent wedi anghofio'r arbenigedd sydd ar gael o fewn y gwasanaeth ieuenctid o ran dysgu trwy gyfranogi, cyrsiau preswyl, cynghori, hyfforddi staff a'r gronfa o wybodaeth am bobl ifanc. Neu, efallai, maent yn ei chael yn anodd gweld sut mae cyd-blethu'r arbenigedd hwnnw â'r cynllun. O'r herwydd, yn ogystal ag er mwyn eglurder cyffredinol, mae'n ymddangos ei bod yn amserol ailfynegi swyddogaeth y gwasanaeth ieuenctid a diffinio'n fanwl yr hyn y gallai ei swyddogaeth fod.

## 12. Y DDARPARIAETH GYFFREDINOL

12.1 Amlygodd yr adrannau blaenorol amrywiaeth y profiadau sydd ar gael i bobl ifanc a'r mathau o dwf personol a chymdeithasol a all ddigwydd. Ond ni rydd disgrifio ac asesu ei wahanol rannau ddarlun cwbl ddigonol o gyfraniad y gwasanaeth ieuenctid. Mae hynny'n rhannol am fod gwaith ieuenctid yn dibynnu ar gymysgedd o brofiadau ac yn rhannol am y gall cyfoeth rhai

agweddau a thlodi eraill lurgunio neu wyrdroi'r olygfa gyffredinol. Mae'r bennod hon, felly, yn trafod yr arfer ar lefel yr uned, yr ardal a'r corff darparu yn nhermau'r agweddau mwy cyffredinol ar yr hyn a welwyd.

12.2 Ôl cyfleustra sydd ar lawer o'r ddarpariaeth. Er bod rhai unedau'n cydnabod yr angen i ddeall anghenion datblygol tybiedig, a'r rhai a fynegir gan bobl ifanc eu hunain, nid yw'r mwyafrif fel petaent yn llunio'u rhaglenni gydag anghenion arbennig neu ddysgu personol a chymdeithasol mewn golwg. Ymhellach, pan fo gwerthfawrogi potensial addysgol gwaith ieuenctid yn ddiffygiol mewn unrhyw ffordd, mae'n anodd i'r staff fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i hwyluso twf personol. Felly, ceir tuedd i nodau fod yn aneglur, i fathau o brofiad a ddarperir beidio â chyd-fynd â'r datganiadau athronyddol, i werslyfrau gael eu dilyn heb wir ddeall eu dibenion gwaelodol ac i raglenni adlewyrchu'r cyfyngiadau o ran cyfleusterau a staff. Mwy siomedig yw'r dyb achlysurol bod rhaglennu ad hoc yn ddigonol. Gall gwaith ieuenctid fod yn anffurfiol o'i gymharu â pheth darpariaeth arall ond mae arno lawn cymaint, os nad mwy, o angen cynllunio cynnwys ei gyrsiau ag unrhyw sector arall o addysg.

12.3 Mewn nifer cymharol fach o sefyllfaoedd, mae'r rhaglen yn gasgliad a chymysgedd o brofiadau a ystyriwyd yn ofalus. Yma, mae arfer gwaith ieuenctid yn darparu math o addysg gymdeithasol drwy greu ethos ar gyfer ffurfio a datblygu perthynas rhwng pobl, hybu gweithgareddau sy'n darparu ar gyfer cyfranogwyr brwd ac yn helpu aelodau i ddatblygu medrau a dod o hyd i ddiddordebau newydd, trefnu cyfleoedd y tu allan i'r uned, cymell pobl ifanc i ymwneud yn weithgar â'u cymuned, a hwyluso cyfranogi. Yn anffodus, mae'n fwy cyffredin gweld gwaith sydd, er ei fod yn gyffredinol dda, yn brin o'r graen, yr amrywiaeth, yr ystod a'r cydbwysedd angenrheidiol.

12.4 Nid yw rhai mudiadau'n darparu ond man cyfarfod, peth adloniant a'r cyfle i gymysgu gyda chyfoedion. Nodwedd ambell enghraifft yw profiadau sy'n gyfyngedig, ailadroddus a di-fflach. Ar y llaw arall, lle ceir amrywio ar y dulliau, ambell uchafbwynt a pheth newydd-deb, mae'n amlwg y gall dimensiwn cymdeithasol gwaith ieuenctid fod o werth addysgol. Er hynny, ceir clybiau ieuenctid lle mae'r rhaglenni'n bodloni ar hynny — weithiau, fe honnir, am fod y niferoedd mawr yn rhwystro gweithgareddau eraill, neu am fod strategaethau eraill wedi'u hanwybyddu.

12.5 Mae'n arbennig o siomedig bod elfennau hanfodol yn aml naill ai ar goll neu'n cael eu cynnig yn achlysurol yn unig. Nid yn unig y mae unedau sy'n amharod edrych tuag allan yn amddifadu pobl ifanc o'r cyfle i ddod i gysylltiad buddiol â'r gymuned ac i gael profiadau newydd mewn mannau newydd, ond maent hefyd yn eu hamddifadu o'r cyfle i gael llawer profiad cysylltiedig. Gydag eithriadau nodedig, ychydig iawn o gyfranogi gan aelodau a geir yn y prosesau penderfynu a rhedeg yr uned. Er bod rhai o oblygiadau'r math hwn o gyfranogi eto heb eu hystyried yn drylwyr o fewn cyfundrefn y gwasanaeth ieuenctid, fel y dywedwyd eisoes, fe ddeil yr angen i unedau fod yn ymwybodol, ac yn llai ansicr, o'i phosibiliadau.

12.6 Fe ddadleuir yn aml bod llawer gweithgarwch wedi colli eu hapêl yn ddiweddar a'i bod bron yn amhosibl sicrhau dilyniant yn yr hyn a gynigir. Nid amheuir hynny, ac nid amheuir ychwaith fod y mannau, yr offer a'r staffio yn annigonol mewn rhai achosion. Ond siomedig yw'r darlun a geir yng nghyd-destun llawer clwb. Hyd yn oed pan fo mannau arbenigol ar gael, mae rhai clybiau fel petaent yn methu â sicrhau cyfranogiad aelodau mewn gweithgareddau heblaw

difyrrwch cymdeithasol; mae rhai'n gogwyddo gormod tua gweithgareddau corfforol[22]; mae rhai'n darparu'n unig ar gyfer yr aelod ymroddedig gan gau allan y rhai y gall eu diddordeb fod yn fwy achlysurol; rhydd rhai ohonynt ormod o bwyslais ar gystadlu; ac fe wêl rhai ohonynt weithgareddau fel dibenion ynddynt eu hunain yn hytrach nag fel arfau yn y broses ddysgu. Yn fwy cyffredinol, er i lawer uned gynnig yr un rhaglen am flynyddoedd, nid yw'r safonau'n drawiadol, a nifer anghymesur o fach sy'n cael y cyfle i fynd â'u medrau y tu hwnt i'r lefel gychwynnol. Eto, ceir unedau statudol a gwirfoddol lle mae eu myrdd gweithgareddau cyfnewidiol, hyd yn oed ar raddfa fach, yn gwahodd cyfranogi, lle defnyddir diddordebau hamdden yr aelodau fel mannau cychwyn i'w cymell i brofi pethau newydd, a lle sicrheir cysylltiad rhwydd rhwng y dimensiwn cymdeithasol a'r gweithgareddau. Ymhellach, pan fo patrwm y dysgu'n amrywio er mwyn cynnwys sesiynau 'blasu', gwahanol raddau o allu, ymdrechu unigol ac ar y cyd, a grwpiau hunan-darddiadol, mae'n werth sylwi y gall pobl ifanc ymuno â'r gwaith yn haws a datblygu eu medrau hyd at lefel foddhaol. Dengys sawl mudiad hefyd ei bod yn bosibl sicrhau cymysgedd buddiol o weithgarwch er ei fwyn ei hun a'r cyfleoedd eraill ar gyfer dysgu a thwf cymdeithasol y mae'n eu cyflwyno — cyd-gynllunio, neilltuo tasgau, cyd-weithredu a datblygu iaith, er enghraifft.

12.7 O edrych ar waith unedau unigol dros gyfnod, gwelir nifer o ddulliau o drafod rhaglennu. Mewn lleiafrif o sefyllfaoedd ni cheir fawr o dystiolaeth o baratoi ac fe benderfynir ar y rhaglen ar y noson. Bydd eraill yn llunio amserlen ar gyfer wythnos, mis neu gyfnod hwy i roi syniad o symud a disgwyl. Rhestr o weithgareddau (Tabl 44) neu nodyn o'r digwyddiadau neu ganolbwynt noson arbennig (Tabl 45 I) yw'r rhain fel arfer. Yn wir, mae'r enghreifftiau yn Nhabl 45 yn amlygu cymysgedd da o brofiadau, gyda'r prif elfennau — cymdeithasol, gweithgarwch, ymwneud â'r gymuned, estyn gorwelion a chyfranogi — yn bresennol ym mhob un ac yn sicrhau cydbwysedd canmoladwy. Cyflawnir hyn hefyd, i raddau mwy neu raddau llai, gan y mudiadau sy'n gweithio yn ôl llawlyfrau. Dros gyfnod penodedig, er enghraifft, bydd gwaith cwmni o geidiau yn cynnwys wyth maes profiad: cymeriad, ffitrwydd, gallu creadigol, meddwl, perthynas â phobl, gwasanaeth, medrau cartref a medrau awyr agored.

12.8 Mae strwythur noson yn amrywio'n fawr (Tabl 45 II). Mae mudiadau sydd â gweithwyr swyddogol yn gweithio yn ôl trefn benodedig, a phatrwm arferol Clybiau'r Ffermwyr Ieuainc yw dechrau gyda chyfarfod busnes, cael sgwrs neu arddangosiad a therfynu gyda chyfnod cymdeithasol. Mae rhai o'r unedau sydd ar waith ar fwy nag un noson yn ceisio newid cymeriad pob noson drwy amrywio un neu ragor o'r elfennau; bydd sawl un yn rhannu'r noson i roi blas gwahanol i bob rhan. Bydd ambell glwb yn symud ymlaen o weithgareddau strwythuredig i amser 'rhydd' ac yna i weithgarwch cyffredinol, megis cwis, trafodaeth neu gêm, y gall y staff a'r aelodau ei fwynhau gyda'i gilydd.

---

22 Buddiol yw ystyried gwybodaeth am unedau awdurdodau addysg (Tabl 43) i amlygu'r pwynt hwn. Er bod i rai gweithgareddau corfforol, megis 'pool', tenis bwrdd, dartiau a snwcer le rheolaidd, bydd y mwyafrif hefyd yn cynnig chwaraeon eraill fel rhan o'r rhaglen. Ni chynrychiolir gweithgareddau eraill lawn cystal: caiff 46 y cant (83 y cant amser-llawn a 40 y cant rhan-amser) ohonynt gelf a chrefft, ac mae 25 y cant (73 y cant a 18 y cant) yn ymwneud ag amrywiol weithgareddau diwylliannol. Mewn llai nag 20 y cant yn gyffredinol y mae modd i bobl ifanc ymgymryd â'r celfyddydau domestig, gweithgareddau awyr agored, neu Wobr Dug Caeredin. Mae'r pwyslais yn amlycach byth pan restrir union nifer y grwpiau hyfforddi. Ym 1980/81, er enghraifft, bu i un awdurdod dalu hyfforddwyr am gyfanswm o 428 o grwpiau gweithgarwch corfforol, 19 grŵp celfyddydau domestig, 188 o grwpiau celf/crefft a phynciau cysylltiedig, 44 grŵp diwylliannol a phum grŵp gweithgareddau awyr agored. Hyd yn oed mewn canolfannau â rhaglenni cymharol gytbwys (Tabl 44), dengys y dadansoddiad fod cyfanswm y grwpiau gweithgarwch corfforol yn uwch na hwnnw ar gyfer pob gweithgarwch arall.

12.9 Trefnir rhaglen y mudiadau sydd â gwisg swyddogol, yn arbennig, i roi ysgogiadau i unigolion a ffyrdd o nodi eu cynnydd, gan ddefnyddio bathodynnau a gwobrau i nodi cyflawni amryfal weithgareddau a chyfrifoldebau (gweler Tabl 46). Eto, gall cynlluniau eraill sydd ar gael hefyd ategu cwrs uned, a galluogi pobl ifanc i lunio'u pecyn eu hunain o weithgareddau a gweithio tuag at asesiad sy'n cydnabod ymroddiad a chyflawniad.

12.10 Cynlluniwyd Gwobr Dug Caeredin, er enghraifft, i'w defnyddio gan bob corff sy'n ymwneud â phobl ifanc neu unigolion nad ydynt yn perthyn i unrhyw fudiad. Bwriad ei phedair adran (Tabl 46) yw ategu ei gilydd gan gyfuno'n rhaglen gytbwys sy'n adlewyrchu agweddau ar anghenion datblygol pobl ifanc. O fewn y rhain, rhoir dewis eang i'r ymgeiswyr ac fe asesir pob un ohonynt o ran cynnydd, dyfalbarhad a chyflawniad. Er nad yw'r cynllun fel arfer ond yn denu lleiafrif o'r aelodau, yn bennaf ar gyfer y Wobr Efydd, ac nad estynnir digon, i bob golwg, ar bob ymgeisydd, mae ei gyfraniad i waith uned yn aml yn arwyddocaol. Fe sieryd gweithwyr ieuenctid am gynnydd yn hunan-ddibynolrwydd pobl ifanc, eu gallu i gyd-weithio, ymwybyddiaeth o'u potensial eu hunain a dealltwriaeth o'r gymuned. Cyfeiria'r ymgeiswyr at fwynhad, her, profiadau newydd, darganfod diddordebau, llwyddiant cyntaf a gwahanol fathau o berthynas ag oedolion. Mae llawer iawn o gymorth a chyfarwyddyd gan gyd-gysylltwyr grwpiau, hyfforddwyr ac aseswyr yn ganolog i'r cynllun. Dyma un o'i gryfderau gan ei fod yn arwain at sefydlu cysylltiadau rhwng pobl ifanc ac unigolion medrus a allai fod heb unrhyw gysylltiad arall â'r gwasanaeth ieuenctid, rhwng unedau statudol a'r mudiadau ieuenctid gwirfoddol sy'n darparu hyfforddiant ar gyfer yr adran wasanaeth, a rhwng yr uned ieuenctid a'r gymuned. Am yr holl resymau hyn, mae'n drueni na ddefnyddir y cynllun yn helaethach ac nad edrychir ar y maes llafur fel ffynhonnell syniadau ar gyfer rhaglenni. Mae darparu cyd-gysylltwyr gwobr ardal rhan-amser, a sefydlwyd mewn un awdurdod, yn haeddu ei ystyried mewn mannau eraill.

12.11 Mae awdurdodau addysg neu brif gyrff y mudiadau gwirfoddol yn trefnu amrywiaeth o gyfleoedd ategol eraill. Mae'n amlwg bod llawer iawn o ymdrech drefniadaethol a gweinyddol, yn enwedig gan swyddogion ieuenctid, yn mynd i'r cyfeiriad hwnnw. Y rheswm dros hynny yw'r gred bod gweithgarwch rhwng clybiau yn werthfawr, bod angen canolbwynt ar raglenni uned, y dylai fod, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, fwy o ehangder yn y profiadau a gynigir nag a all fod yn bresennol mewn un mudiad, a bod yno rai anghenion na ellir eu diwallu'n rhwydd mewn un man yn unig.

12.12 Er bod gweithgareddau cyfun yn cynnwys digwyddiadau ar y cyd, cyrsiau gweithgarwch, cyrsiau aelodau hŷn, gwyliau ac ymweliadau a chyfnewidiadau rhyngwladol, cystadlaethau yw cyfrwng y rhan helaethaf o'r gwaith (Tablau 47 a 48). Fe nodwyd mewn adrannau blaenorol allu cyffredinol y rheolwyr, yr awyrgylch derbyniol ac agweddau dymunol eraill, megis yr asesiadau sy'n cymryd y paratoi a'r gwaith tîm i ystyriaeth. Mae'n amlwg hefyd fod llawer o bobl ifanc ar eu hennill yn fawr o ran mireinio'u medrau, gorfod bod yn ddibynadwy a chael eraill i ddibynnu arnynt, ac o wynebu tensiynau, pleserau a siomedigaethau sefyllfa gystadleuol. Eto, ac eithrio mewn ambell achos, gellid rhoi mwy o bwys ar ymwneud pobl ifanc â'r drefniadaeth ac wrth ddewis timau, yn enwedig gan fod y nifer mewn rhai cystadlaethau yn gymharol fach. Ymhellach, tra bo rhai unedau'n cydio yn y cyfle i ddenu aelodau newydd a meithrin unigolion, mae'n ymddangos nad yw twf yr aelodau yn fater sy'n flaenllaw ym meddwl mwyafrif dewiswyr y timau. Os yw cystadlaethau, a'r

paratoi ar eu cyfer, fel yr awgrymir, yn ddylanwad mawr ar natur y gwaith gyda phobl ifanc, mae'r gyfran orfodol o chwaraeon yn rhaglenni'r awdurdodau addysg (Tabl 47) yn peri pryder. Ni fydd cynnwys gweithgareddau mewn digwyddiadau bob tro yn cymell unedau i'w mabwysiadu, ond ceir peth tystiolaeth bod cysylltiad rhwng cystadlaethau celf a choginio ac amlder uwch na'r cyffredin o'r grwpiau hynny yng nghlybiau'r awdurdodau addysg. Felly, gellid ystyried ymhellach ddefnyddio cystadlaethau fel ffordd o ysgogi diddordebau eraill gan gynnwys y rhai sy'n apelio, hwyrach, at y rhai sy'n llai medrus yn gorfforol ac at ferched. Gan gadw cydbwysedd ac amrywiaeth mewn cof, mae angen edrych yn gyson ar raglenni cyffredinol ar lefel y cylch, y sir, yn genedlaethol neu lefel y prif gorff. Yn hyn o beth, gresyn na ddatblygwyd digon, i bob golwg, ar swyddogaeth y canolfannau arbenigol. Gallai'r arfer o fynd ag arbenigwyr i ganolfannau eraill i arddangos, siarad, mynegi brwdfrydedd a dysgu, ac o hyfforddi staff i barhau â gweithgareddau yn eu hunedau eu hunain, fod yn fwy buddiol yn y tymor hir na llawer o'r ymdrechion presennol i gyflwyno syniadau newydd.

12.13 Nid y cynnwys yw'r unig amrywiad i'w ystyried. Mae yno nifer o hanfodion eraill i ddysgu effeithiol a thwf trwy gyfrwng gwaith ieuenctid. Mae agweddau cadarnhaol ymysg yr hanfodion mwyaf sylfaenol. Er bod holl staff y gwasanaeth ieuenctid yn ymboeni ynghylch datblygu perthynas dda â'r aelodau a chreu awyrgylch o ofalu a pherthyn, nid yw llawer ohonynt yn disgwyl rhyw lawer oddi wrth bobl ifanc. Mae'n amlwg y gellir ysgogi cymhelliant rhai pobl ifanc yn haws na'i gilydd, ond siom yw gweld cynifer o dybiaethau ynghylch calibr rhai pobl ifanc, tybiaethau sy'n awgrymu eu bod yn cyfyngu ar ddewisiadau'r gwaith ieuenctid cyn rhoi prawf ar allu. Mae ambell fenter, gan gynnwys rhai gyda'r ifanc di-waith, yn dangos yr hyn y gellir ei wneud, yn aml trwy wrando ar yr hyn a awgrymir gan yr hyn a ddywed pobl ifanc, ac ymateb iddo. Er gwaethaf rhinwedd llawer o'r dulliau a ddisgrifiwyd, fe erys yr argraff y collir mwy o gyfleoedd dysgu nag a fanteisir i'r eithaf arnynt. Gwaith yn ymwneud â phrofiadau yn ei hanfod yw gwaith ieuenctid, ond mae ystod y technegau a ddefnyddir ym mwyafrif yr unedau'n dal yn druenus o gul, ac ni chaiff pobl ifanc ddigon o gyfle i archwilio a thrafod yr hyn y buont yn ei wneud. Weithiau, hefyd, ni lawn ddeallir y negeseuon a drosglwyddir a'r gwerthoedd a arddelir gan yr uned na sut mae'r rheiny'n hyrwyddo neu'n amharu ar yr amcanion. Ar y llaw arall, ceir unedau — nid y rhai â gwisgoedd swyddogol neu eraill â phwrpas Cristnogol yn unig — sy'n cadw llygad ar y gwerthoedd sy'n gynhenid i'w rhaglen ac ar arddull y sefydliad, ac yn ceisio sicrhau bod y rheiny, a'r hyn a ddisgwylir oddi wrth yr aelodau gan y gweithwyr, yn rhai cyson.

12.14 Rhaid i ansawdd y gwaith ieuenctid ddibynnu yn y pen draw ar ddefnyddio arbenigedd pedagogaidd a threfniadaethol penodol staff y gwasanaeth ieuenctid. Fe â dirnadaeth, brwdfrydedd ac ymdrech ymhell, a cheir achosion lle digwydd mwy nag a ddisgrifir gan y gweithiwr ieuenctid. Ond, fel y nodwyd ym Mhennod 7, fe geir yr arferion gorau, fel arfer, lle canfuwyd yr amcanion, eu trosi'n brofiadau a'u cymathu i'r rhaglen; lle bu i dîm yr uned ddatblygu amcanion, gwerthoedd a strategaethau cytûn, a diffinio tasgau ac ystyried dulliau cydlynus; lle mae'r staff a ddefnyddir mewn amrywiaeth o swyddogaethau'n llawn sylweddoli'r medrau a fynnir ganddynt a lle ceir digon o baratoi a sylw i fanylion — ar yr amod, hynny yw, fod y gweithwyr ieuenctid yn dyheu am fod gyda phobl ifanc a bod eu gweithrediadau'n amlygu hynny.

12.15 Er nad yw hi bob tro yn amlwg o dan ba egwyddorion y mae amryfal rannau'r gwasanaeth yn gweithredu, mae'n bosibl casglu na lwyr wireddir disgwyliadau'r swyddogion ieuenctid o ran arferion gwaith ieuenctid. Hynny yw, nid yw peth o'r gwaith yn cyd-fynd â dymuniadau hysbys pobl ifanc. Ond hwyrach na lawn werthfawrogir i ba raddau y mae penderfyniadau a gweithrediadau gan y cyrff darparu, yn y gorffennol a'r presennol, yn cyfyngu ar y gwaith a wneir. Ceir achosion, er enghraifft, lle credir bod cynghori gwaith grŵp a chyfranogi yn elfennau allweddol, ond nid yw ffurfiau sefydliadol yr adeiladau na threfn y mudiad yn gwneud fawr i hwyluso'r arfer. Gall diffyg dilyniant a threfniadau cyflogi anhyblyg hefyd amharu ar y sefyllfa hon.

12.16 Mae'r adnoddau a ddarperir mewn llawer achos yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau hysbys, ond nid yw'r gwrthwyneb yn anghyffredin. Ceir achosion lle rhoir pwys ar waith gyda phobl o dan anfantais, y di-waith neu bobl yng nghefn gwlad, ond ni roir fawr o arian at y gwaith hwn. Yn wir, siom yw gweld bod yr ymateb i anghenion grwpiau o'r fath mor anwastad. Nid yw hyn yn awgrymu y dylai pob rhan o'r gwasanaeth ieuenctid fynd i'r afael â phopeth, ond fe bwysleisir, yn hytrach, y bu i rai awdurdodau a mudiadau fod yn or-araf wrth ddatblygu dull cytbwys o drafod anghenion arbennig (gweler hefyd Bennod 11). Os oes gan y gwasanaeth ieuenctid, fel yr honna, gyfraniad unigryw i'w wneud i ddatblygiad personol a chymdeithasol pobl ifanc, dylai fod yn effro nid yn unig i anghenion sy'n cyflym newid ond i'w goblygiadau o ran polisïau a dulliau. Eto, er gwaethaf yr hyblygrwydd a amlygwyd gan rai darparwyr wrth addasu cyd-destun a ffurf eu gwaith ieuenctid i gwrdd ag amgylchiadau, mae Cymru at ei gilydd fel petai'n llai parod na rhannau eraill o Brydain i archwilio i ffyrdd eraill o weithio gyda phobl ifanc ac i arbrofi gyda dulliau cyflwyno.

12.17 Mae natur fympwyol llawer o'r mentrau newydd yn amlygu annigonolrwydd mwy cyffredinol. Er na ellid dweud bod yr un darparwr yn gorffwys ar ei rwyfau, nid yw'n arferol i anghenion, amcanion, blaenoriaethau, cynnwys a methodoleg gael eu hystyried ar raddfa ardal, awdurdod addysg neu brif gorff. Golyga hyn, ymysg pethau eraill, nad archwilir yn llawn i gwestiynau hanfodol ynghylch sut mae canfod anghenion a threfnu ar gyfer eu diwallu, ynghylch anfanteision, cydbwysedd a rhesymoli, ac y caniateir i ddiffygion barhau. Dychwelir at bwnc cyd-berthynas y ddarpariaeth ym Mhennod 13; digon yw dweud hyn — er y cedwir cydbwysedd mewn rhai ardaloedd, gydag unedau'r awdurdodau addysg yn canolbwyntio ar weithgareddau hamdden a chorfforol a pheth arbenigo yn y maes gwirfoddol ar ddatblygiad iaith a gweithgareddau diwylliannol, mae'r dyblygu, neu'r diffyg dewis mewn mannau eraill, yn amlygu'r angen i bwyso a mesur y ddarpariaeth o fewn ardal gyfan. Yr hyn sy'n arbennig o siomedig yn hyn o beth yw cyn lleied o wylio ac asesu a geir (gweler hefyd 4.35) ac, felly, absenoldeb ffordd systematig o gymharu arferion ag amcanion. Oni fydd y gwasanaeth, fel mater o flaenoriaeth, yn datblygu trefniadaeth ar gyfer cloriannu cyson, ni fydd yn y sefyllfa orau i ymgymryd â'r arolygu angenrheidiol nac i adeiladu ar sail yr hyn a gyflawnwyd ganddo eisoes.

# Rhan IV

## 13. CYSYLLTIADAU RHWNG Y CYRFF

13.0 Mae llawer o'r dystiolaeth a gynhwyswyd yn y penodau blaenorol — yn enwedig ynghylch anghenion cyfredol, ystod y cyfleodd a defnyddio adnoddau — yn amlygu dymunoldeb ffordd gydlynus o gynllunio, darparu a chloriannu gwaith gyda phobl ifanc. Bu i gyfnod yr arolwg gyd-fynd â pheth symud tuag at hyn yn y meysydd statudol, gwirfoddol a rhyng-broffesiynol.

### 13.1 Partneriaeth Statudol-Gwirfoddol

13.1.1 Cydnabyddir yn eang gyfraniad mawr y mudiadau ieuenctid gwirfoddol ac fe aeth y syniad bod darpariaeth statudol a gwirfoddol yn ategu ei gilydd, neu y dylent wneud hynny, yn rhan o'r ddelwedd o'r gwasanaeth ieuenctid fel partneriaeth statudol-gwirfoddol. Gellir dweud bod pob awdurdod addysg a mudiad gwirfoddol yng Nghymru yn cyd-fynd â'r gred hon a cheir cyfeiriadau at 'ddull integredig', 'meithrin cyd-weithredu' a 'pherthynas agosach' mewn llawer datganiad polisi. Eto, mae'r gweithredu yn y ddau sector yn amlygu amrywiadau mawr o ran math a maint. (Crynhoir y cyd-destunau yn Nhabl 49.)

13.1.2 Bydd pob awdurdod addysg yn ymarfer ei hawl i roi cymorth ariannol i fudiadau gwirfoddol ond, fel y dangoswyd eisoes, amrywio wna maint eu cyfraniadau. Felly, er enghraifft, mae dau awdurdod yn cyfrannu 100 y cant at gyflogau trefnwyr Mudiad y Ffermwyr Ifanc tra bo eraill yn cyfrannu llawer llai ac yn tueddu i ddal eu taliadau at lefelau 1978/79. Mae grantiau eraill, yn enwedig grantiau ar gyfer staff cyflogedig rhan-amser, yn amrywio lawn cymaint. Siom yw darganfod mewn rhai siroedd fod y cysylltiad â mudiadau gwirfoddol wedi'i gyfyngu i'r rhai sy'n cael cymorth grant a bod llawer swyddog awdurdod addysg yn teimlo bod eu hangen i sicrhau cyswllt yn lleihau wrth i'r cymorth ariannol i'r grwpiau leihau. Eto, er gwaethaf y ffordd hon o edrych ar bartneriaeth, nid oes, i bob golwg, fwriad i beri bod mudiadau gwirfoddol yn atebol i'r awdurdodau addysg am yr adnoddau a roir iddynt.

13.1.3 Math arall o gymorth i'r sector gwirfoddol, yn draddodiadol, yw defnyddio adeiladau awdurdodau addysg yn rhad ac am ddim neu gyda chymhorthdal, ond yma eto ceir gwahaniaethau. Defnyddir mwy ar ganolfannau ieuenctid gan fudiadau gwirfoddol mewn ardaloedd gwledig, ond mewn un awdurdod fe gyfyngir defnyddio adeiladau ysgol i nosweithiau ac wythnosau penodedig oni thelir yn llawn amdanynt, ac mae llawer awdurdod yn codi mwy a mwy am ddefnyddio cyfleusterau arbenigol. Eto, deil mudiadau gwirfoddol i allu benthyca offer ac, mewn ambell achos, i gael cymorth wrth brynu eitemau drwy sianelau sirol.

13.1.4 Mewn pum awdurdod, mae cynrychiolwyr mudiadau gwirfoddol yn eistedd ar bwyllgorau statudol ac fe gynhwysir staff y sector gwirfoddol mewn

cyfarfodydd ardal neu bwyllgorau defnyddwyr canolfannau ledled Cymru. Er y gellir cael cryn lawer o rannu gwybodaeth, trefnu digwyddiadau a chyd-gynorthwyo, fe awgryma'r hyn a welwyd, a'r cofnodion, na cheir fawr o drafod ar gyd-wneud polisi a chyd-gynllunio. Y datblygiad mwyaf addawol yn hyn o beth oedd gweithgor Gorllewin Morgannwg 1980/81 ar nodau ac amcanion y gwasanaeth ieuenctid. Yma, yr oedd aelodau mudiadau gwirfoddol yn y mwyafrif, a bu i'r trafodaethau ddechrau canfod nid yn unig anghenion a dibenion ond setiau o flaenoriaethau a'r cyfraniadau y gallai pob darparwr eu gwneud. Mae gwaith pellach o'r math hwn, i bob golwg, yn hanfodol os bwriedir cael dull cyfun o ddiwallu anghenion pobl ifanc.

13.1.5 Bydd swyddogion a rhai gweithwyr ieuenctid yn gwneud ymweliadau ymgynghorol ag unedau gwirfoddol ac yn mynychu cyfarfodydd o'r pwyllgorau ardal a sir; mae rhai ohonynt hefyd yn aelodau o gynghorau neu bwyllgorau cenedlaethol. Er bod y mudiadau gwirfoddol yn gwerthfawrogi'r cysylltiadau hyn, fe gymerant lawer iawn o amser ac mae angen eu hadolygu yng ngoleuni'r llu gofynion eraill ar amser y swyddogion. Mewn rhai achosion, i bob golwg, mae angen gwella'r strategaethau. Mewn un dref yng Ngogledd Cymru, er enghraifft, mae tair canolfan ieuenctid — un yr awdurdod addysg, a dwy wirfoddol sy'n cael grantiau — ar waith gerllaw ei gilydd, ond yn gwbl ar wahân. Lleiafrif o grŵp oedran lleol y gwasanaeth ieuenctid yw aelodau'r tair ohonynt ac fe'u rhannwyd, i bob golwg, yn ôl dosbarth cymdeithasol, gallu academaidd, iaith gyntaf a safonau ymddygiad. Fe all nad yw hyn yn amheus ynddo'i hun, ond hwyrach ei fod yn amlygu angen i ymyrryd er mwyn cymell trafodaethau a dealltwriaeth rhwng y ddwy ochr.

13.1.6 Cyfrwng arall i fentrau ar y cyd yw digwyddiadau, cystadlaethau a chynlluniau megis y cyfnewidiadau ieuenctid, ond ceir peth tystiolaeth o ddyblygu ymdrechion. Bu Cymdeithas Clybiau Ieuenctid Cymru yn ail-ystyried ei rhaglen yn ddiweddar, a gwnaed llawer i leddfu'r broblem hon, ond mae lle i ragor o gyd-weithredu rhwng grwpiau ar lefel leol. Yn genedlaethol, ar y llaw arall, ceir dechrau addawol i baratoadau statudol-gwirfoddol (y mae pobl ifanc yn cymryd rhan ynddynt) ar gyfer gweithgareddau a ddaw i'w huchafbwynt yn y Flwyddyn Ryngwladol Ieuenctid ym 1985.

13.1.7 Mae gan fwyafrif y Cynghorau Ymgynghorol Rhanbarthol — y Cyd-Bwyllgor Addysg yw'r corff cyfatebol yng Nghymru — banel sy'n hwyluso trafodaeth a gweithredu statudol-gwirfoddol mewn gwaith ieuenctid. Mae'n anffodus na fu i Banel Ymgynghorol Gwaith Ieuenctid a Chymuned y Cyd-Bwyllgor (a ail-drefnwyd ym 1979 i gynnwys cynrychiolwyr etholedig a swyddogion awdurdodau addysg, cynrychiolwyr Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol, ac aelodau o fyd addysg bellach ac uwch, y gwasanaeth gyrfaoedd a'r cyfryngau) a'i Weithgorau Adnoddau a Hyfforddiant gyfarfod ond ychydig o weithiau tua diwedd 1979 a dechrau 1980. Ni all Cymdeithas Swyddogion Addysg Bellach a Gwasanaeth Ieuenctid Cymru (WAFEYSO), cymdeithas broffesiynol, Cyrsiau Byr y Swyddfa Gymreig, na chyfarfodydd grŵp ategol gymryd lle corff cenedlaethol statudol-gwirfoddol yn effeithiol. Eto, fe sylwyd bod y rhain yn fforwm lle y gall swyddogion ieuenctid gyfarfod i drafod. Yr hyn na cheir ganddynt yw cyswllt rhwng y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yng Nghymru a'u cymrodyr mewn rhannau eraill o Brydain. Nid yw'r plwyfoldeb sy'n deillio o hyn yn iach i'r gwasanaeth.

13.1.8 Mae tri awdurdod yn trin staff canolfannau amser-llawn mudiadau gwirfoddol fel aelodau llawn o dîm y staff, gyda chryn fudd o ran cyfathrebu a chyd-gysylltu.

Grym arfer, i bob golwg, yw'r unig reswm dros i awdurdodau eraill, gan gynnwys y rhai sy'n cyfrannu mwyafrif y cyflogau, beidio â gwneud hynny. Mae rhywfaint o adolygu fel petai'n briodol yma.

13.1.9 Bron ym mhobman, fe edrychir ar hyfforddi, gyda'i elfennau cyffredin, fel cyfrwng addas ar gyfer cysylltiadau, ac mae llawer o gyrsiau'r awdurdodau addysg yn agored i bobl o fudiadau gwirfoddol. Mae gan ddau awdurdod bwyllgorau statudol-gwirfoddol ar gyfer hyfforddi, a thema cynhadledd un awdurdod arall yw partneriaeth statudol-gwirfoddol. Mae'r hyn a welwyd yn awgrymu bod cynrychiolaeth o'r ddwy ochr hefyd yn gwneud llawer i hybu cyd-weithredu yn y maes.

13.1.10 Mewn rhai cyd-destunau lleol, mae llawer mudiad gwirfoddol yn bodloni ar gysylltiadau â mudiadau tebyg neu eu prif gyrff, heb gysylltu â'r awdurdod addysg oni wahoddir hwy'n uniongyrchol neu pan fo polisïau'r awdurdod addysg yn amharu arnynt. Er y gellid disgwyl i'r awdurdod fod yn bartner mwy gweithgar o ran cyd-gynllunio neu greu fframwaith i'r cysylltiadau, hwyrach y gallai'r sector gwirfoddol ystyried yr ysgogiad y gallai ei roi i rai agweddau ar y gwasanaeth.

13.1.11 Ar hyn o bryd, mae'r dystiolaeth yn awgrymu y gall elfennau o ymryson rhwng y sectorau, ofn colli annibyniaeth a diffyg gwerthoedd cyffredin fod yn rhwystro symud tuag at wella'r cyd-weithredu, waeth pa mor hanfodol y tybir ei fod er lles pobl ifanc. Ond er bod swyddogion y ddau sector yn cydnabod nad yw'r term 'partneriaeth' yn disgrifio'r cyflwr presennol yn fanwl gywir, nid yw'r sefyllfa'n un gwbl ddi-galon.

## 13.2 Cyd-weithredu ymysg Mudiadau Gwirfoddol

13.2.1 Mae 28 o fudiadau ieuenctid gwirfoddol yn aelodau o Gyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol. Mae nifer o'r rhain, a mwyafrif y mudiadau ieuenctid gwirfoddol eraill yng Nghymru, hefyd yn aelodau o Gyngor Cenedlaethol y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol. Amcanion bras y ddau Gyngor yw hwyluso cyd-gynorthwyo a chyd-weithredu rhwng y mudiadau ieuenctid gwirfoddol, darparu cyswllt rhwng y gwasanaethau ieuenctid statudol a gwirfoddol a chyrff eraill sy'n ymwneud â phobl ifanc, sefydlu llwyfan a chanolbwynt er mwyn i'r mudiadau ieuenctid gwirfoddol siarad ag un llais, a chynrychioli aelodau ar amrywiaeth o gyrff cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.

13.2.2 Sefydlwyd y cyngor yn wreiddiol ym 1947 fel Cynhadledd Gymreig y Mudiadau Ieuenctid Gwirfoddol (SCWVYO). Mabwysiadwyd ei deitl presennol ym 1974 i adlewyrchu'r tueddiadau mewn gwaith ieuenctid a chymuned ac awydd i hybu'r bartneriaeth a'r gwasanaethau statudol. O 1947 hyd 1974 yr oedd y Gynhadledd —ac yna'r Cyngor — yn gysylltiedig â Chyngor Gwasanaeth Cymdeithasol Cymru (ei enw ar y pryd) a ddarparai swyddfeydd, cymorth gweinyddol a gwasanaeth rhan-amser un o'i swyddogion cymuned. Ar y cychwyn cyntaf, fe gynorthwywyd ei gwaith gan yr Adran Addysg a Gwyddoniaeth trwy grant blynyddol (£5,100 ym 1974). Ym 1977, torrwyd y cysylltiadau â Chyngor y Gwasanaethau Cymdeithasol; bellach, mae gan Gyngor Cymru ei swyddfeydd ei hun ar rent ym Mhenarth ac mae ganddo Ysgrifennydd Cyffredinol amser-llawn a chynorthwywr clerigol rhan-amser. Yn ariannol, mae'r Cyngor yn dibynnu bron yn llwyr ar grant blynyddol oddi wrth y Swyddfa Gymreig (£22,248 ar hyn o bryd). Bydd mudiadau sy'n aelodau yn talu tâl cysylltu sy'n gysylltiedig â'u maint, sef £10 y flwyddyn ar gyfartaledd.

Cyflogau, rhent a chostau gweinyddu sy'n mynd â llawer o'r arian hwn, ac felly swm cyfyngedig yn unig sydd ar gael i'r Cyngor i gychwyn gweithgareddau eraill.

13.2.3 Dros y blynyddoedd, bu i'r Cyngor ddosbarthu gwybodaeth am ystod eang o faterion ieuenctid, casglu tystiolaeth a fynnir gan gyrff canolog, gan gynnwys y Swyddfa Gymreig, cyflwyno deunydd penodol i fudiadau ac arweinwyr unigol pan ofynnir amdano ac, yn gyffredinol, gweithredu fel man cyswllt ar gyfer y gwasanaeth ieuenctid gwirfoddol yng Nghymru. Gyda chymorth grant oddi wrth y Swyddfa Gymreig, bu iddo hefyd gynhyrchu a chyhoeddi cyfeiriadur cynhwysfawr o'r gwasanaethau ieuenctid yng Nghymru. Hefyd, mae'r Ysgrifennydd Cyffredinol yn helpu'r ddwy Ymddiriedolaeth Frenhinol ac yn ymwneud â gwaith rhaglen Cyfnewid Ieuenctid y Cyngor Prydeinig. Cynrychiolir y Cyngor ar nifer o gyrff cenedlaethol, gan gynnwys y Pwyllgor Adolygu ar Grantiau Pencadlys i Fudiadau Ieuenctid Gwirfoddol, a Chyngor Chwaraeon Cymru. Mae lle i'r mathau hyn o swyddogaethau gwasanaethu, ond nid ydynt o reidrwydd yn hybu prif amcanion y Cyngor.

13.2.4 O sylweddoli hyn, aeth y Cyngor, drwy ei Bwyllgor Gwaith, ati i sefydlu gweithgorau i ystyried materion penodol a thrafod materion sy'n peri pryder cyffredin, megis alcoholiaeth, trais a fandaliaeth, ac anfantais. Canlyniad datblygiadau diweddar o'r math hwn fu sefydlu dau gynllun, a gaiff grantiau gan y Swyddfa Gymreig ond a weinyddir a'u goruchwylio gan y Cyngor — y naill yn ymwneud â phobl ifanc 16+ oed a'r llall â chynorthwywyr gwirfoddol mewn oed. Mae'n ddyddiau cynnar ar y ddau, ond pleser yw sylwi ar awydd y Cyngor yn yr ail gynllun i beidio â chyfyngu gwaith o'r math hwn i dde-ddwyrain Cymru.

13.2.5 Datblygiad newydd arall fu ffurfio Pwyllgor Datblygu a Hyfforddi i weithredu strategaethau a ddyfeisiwyd gan gyfarfod cyffredinol arbennig o'r Cyngor yn gynnar ym 1981. Bu iddo drefnu, yn arbennig, gynadleddau ac arddangosfeydd i alluogi'r mudiadau sy'n perthyn iddo i roi gwybod i'w gilydd ac i gyrff eraill am eu gweithgareddau. Bwriedir i waith y pwyllgor hefyd gynnwys cynhyrchu cylchgrawn chwarterol, pecynnau gwybodaeth cyfnodol a phapurau gweithio, canfod anghenion hyfforddi, cyd-gysylltu ymatebion i ddiweithdra'r ifanc a hybu cyd-weithredu rhwng y sector gwirfoddol a chyrff eraill.

13.2.6 Ni ellir amau'r angen am y math hwn o weithredu, ond mae'n rhaglen uchelgeisiol i Gyngor y mae mwyafrif ei swyddogion a'i gynrychiolwyr yn gweithio'n wirfoddol ac yn meddu ar ymrwymiadau eraill. Fe ymddengys, ar hyn o bryd, mai cymharol ychydig yw'r rhai sy'n fodlon, ac yn gallu, chwarae rhan ddeinamig. Bydd unrhyw gynnydd o bwys yn dibynnu ar ymwneud gweithgar llawer mwy o unigolion a mudiadau.

13.2.7 Er gwaethaf hir grafangau'r cynlluniau datblygu, problem gynhenid arall yw bod llawer o'r gweithgarwch hwn yn tynnu oddi wrth unedau gwirfoddol yn y maes. Rhaid i'r Cyngor fod yn ofalus rhag i fodolaeth corff hwyluso o'r fath arwain at ystumio tybiaethau ynghylch cyd-weithredu tra bo'r duedd ar lefelau eraill i fudiadau gwirfoddol aredig eu cwys eu hunain yn dal yn ei grym.

13.2.8 Yn y cyfamser, mae grŵp arall, sy'n cynrychioli'r sector gwirfoddol yn bennaf, yn gweithio tuag at sefydlu adeilad ieuenctid yng Nghaerdydd ar gyfer swyddogion y Cyngor, mudiadau ieuenctid eraill a staff cynlluniau yn ogystal â chanolfan gwybodaeth, cyfleusterau atgynhyrchu ac adnoddau hyfforddi.

## 13.3 Cysylltiadau rhwng y Gwasanaethau

13.3.1 Mae'r gwasanaeth ieuenctid hefyd mewn cysylltiad â'r llu cyrff eraill sydd rhyngddynt yn ffurfio rhwydwaith y ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc:

i. rhannau eraill o'r gyfundrefn addysg (yn enwedig ysgolion, addysg oedolion a gyrfaoedd)

ii. gwasanaethau eraill yr awdurdodau lleol (gwasanaethau cymdeithasol, ymwelwyr iechyd, profiannaeth, gwasanaethau diwylliannol, hamdden)

iii. awdurdodau lleol eraill (Cynghorau Dosbarth, Cynghorau Cymdeithas, yr Heddlu)

iv. cyrff cenedlaethol/rhanbarthol (y Comisiwn Gwasanaethau Gweithwyr, Cynghorau Chwaraeon, Cymdeithasau'r Celfyddydau, Bwrdd Datblygu Cymru Wledig etc)

v. mudiadau lleol a chymuned (grwpiau gwasanaeth gwirfoddol, mudiadau chwaraeon, diwydiant etc)

vi. darpariaeth fasnachol.

Gyda chynifer o sianelau cyfathrebu, ni cheir yr un model o berthynas rhyngddynt, ond fe ddaw sawl dimensiwn i'r golwg.

13.3.2 Mae Tabl 50 yn nodi cyd-destunau cysylltiadau'r gwasanaeth ieuenctid â chyrff eraill sef, yn bennaf, ddiwallu anghenion penodol unigolion neu grwpiau, meysydd o bryder cyffredinol, defnyddio cyfleusterau, a mentrau ar y cyd megis adeiladau, cynlluniau, gweithgareddau a hyfforddi. Problemau neu faterion dadleuol yw maes y grŵp cyntaf, tra bo'r ail yn ymwneud mwy â thasgau. Mae rheswm dros gredu bod llawer o'r mentrau yn effeithiol o ran diwallu anghenion — er enghraifft, ymwneud yr heddlu â gwaith llawer canolfan, a'r croeso a roir i ymwelwyr iechyd a staff gyrfaoedd mewn ambell un.

13.3.3 Eto, ni cheir yn unman ddarlun o ffordd gyfun o gynllunio'r ddarpariaeth nac unrhyw ymdrech i resymoli. Yn wir, o ran cynlluniau ar gyfer yr ifanc di-waith, ceir achosion o ddyblygu ymdrech, o gystadlu ar gyfer y bobl ifanc sydd ar gael, ac o fethu â manteisio hyd yr eithaf ar fedrau'r staff ac ar yr adnoddau, yn bennaf oherwydd diffyg cyd-weithredu sylfaenol rhwng pob ochr. Ceir bod problemau tebyg yn codi rhwng awdurdodau addysg ac awdurdodau lefelau is dros rai cynlluniau Cymorth Trefol ynghylch y ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc. Mae angen gofalu buddsoddi adnoddau'n ddoeth.

13.3.4 Ar y llaw arall, ceir achosion lle bu i grantiau arbennig, yn wyneb angen brys, nid yn unig roi cychwyn i gynlluniau lle nad oedd gynt ond awydd neu allu cyfyngedig i weithredu, ond hefyd, mewn mannau, ysgogi'r cyrff presennol i weithredu. Er enghraifft, bu i un ganolfan ddydd y gwasanaeth ieuenctid i'r ifanc di-waith sicrhau cyd-weithredu go arbennig â'r gwasanaethau cymdeithasol ac ymwelwyr iechyd. Yno, mae pawb fel petaent yn gweld y ddarpariaeth fel peth sy'n hybu eu hamcanion a'u blaenoriaethau hwy eu hunain yn ogystal â galluogi eraill i gyrraedd eu nod. Yn yr achos hwn, ac mewn enghreifftiau eraill tebyg o arferion da, y gweithiwr ieuenctid oedd y man cychwyn.

13.3.5 Ond, yn anffodus, mae llawer gweithiwr ieuenctid yn edrych ar ddarpariaeth y gwasanaethau cymdeithasol, yn enwedig Triniaeth Ganolraddol a rhaglenni'r Comisiwn Gwasanaethau Gweithwyr, fel cynlluniau sy'n ymyrryd â'u tiriogaeth hwy gan honni, yn eu tro, nad yw gweithwyr cymdeithasol na staff y Comisiwn yn gallu gweld eu cleientau na'u gweithwyr dan hyfforddiant fel aelodau gwirfoddol o fudiad ieuenctid. Hwyrach bod hyn yn dangos pam na fanteisir ar gynifer o bosibiliadau ar gyfer cyd-weithredu a pham y mae rhai trefniadau cilyddol fel petaent yn ymwneud mwy â diogelu tiriogaethau nag â gweithio.

13.3.6 Yma eto, yr hyn sydd ar goll yw strategaeth gyffredinol. Er enghraifft, mae adeilad a ddarparwyd ar y cyd yng Ngogledd Cymru — lle ceir gwaith ieuenctid, addysg oedolion, hamdden/adloniant a darpariaeth gymuned, gwasanaethau cymdeithasol a llyfrgell i bob golwg yn gadael i bob uned weithio ar ei phen ei hun heb ddim ond cysylltiadau damweiniol â'i gilydd. Mewn achosion eraill, mae gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr ieuenctid lleol yn dod ymlaen yn dda heb i'w swyddogion wneud hynny — neu fel arall. Gydag eithriadau nodedig, mae clybiau cinio, a ddyfynnir yn aml fel enghreifftiau o arfer da, yn fynych fel petaent yn datblygu hunaniaeth sy'n eu pellhau oddi wrth faterion ymarferol a ffyrdd o'u datrys.

13.3.7 Mae statws y gwasanaeth ieuenctid mewn perthynas â chyrff eraill hefyd yn berthnasol. Ac eithrio wrth gynorthwyo grwpiau cymuned, anaml y bydd y gwasanaeth ieuenctid yn safle'r partner cyfartal neu hŷn. Y duedd, felly, yw iddo gyflawni'r swyddogaeth a bennir gan eraill — er enghraifft, mae'n darparu cyfleusterau neu'n ymuno â gwaith pwyllgorau. Eto, pan fo'r gwasanaeth ieuenctid yn gweithio ar y cyd, er enghraifft yn y gwaith Triniaeth Ganolraddol ym Mhowys a De Morgannwg, fe wna, i bob golwg, gyfraniad mwy sylweddol.[23]

13.3.8 Ceir llawer cysylltiad rhwng y gwasanaeth ieuenctid ac addysg oedolion a gwasanaethau cymuned a hamdden. Llai cryf yw'r berthynas â gweddill gwasanaeth addysg yr awdurdodau. Mae'r rhai sydd â gofal gwasanaethau ieuenctid yn protestio bod fframweithiau haearnaidd yr awdurdodau addysg yn llesteirio cyd-weithredu, na fanteisir i'r eithaf ar gyfleoedd sy'n bodoli ar lefel uwch, a bod mwyafrif yr awdurdodau addysg, er enghraifft, pan drafodwyd strategaethau'r cynllun newydd ar gyfer hyfforddi ieuenctid, wedi edrych ar gyfraniad y gwasanaeth ieuenctid fel atodiad yn unig ac nid fel rhan annatod ohono (11.6.18). Mae'r cyhuddiadau hyn yn amlygu cylch cythreulig sy'n rhychwantu diffyg hyder y gwasanaeth ieuenctid a methiant y gwasanaeth addysg i ddeall cysyniadau. Ni all y gwasanaeth ieuenctid ohono'i hun ddianc o'r sefyllfa hon heb gymorth.

13.3.9 Un ffordd bosibl ymlaen yw maes ei berthynas â sector yr ysgolion. O gofio'u haelodaeth gyffredin, eu hamcanion addysgol a bugeiliol cysylltiedig ac, mewn llawer achos, y ffaith eu bod yn rhannu safleoedd, nid yw'n syndod mai rhwng y gwasanaeth ieuenctid a'r ysgolion y mae'r rhan helaethaf o'r cysylltiadau (Tabl 50, colofn 3). Yn ôl y sôn, fe amherir ar y cyfathrebu gan anawsterau sy'n deillio, i bob golwg, o ddiffyg cyd-ddeall, diffyg cyd-weithredu ynghylch pobl ifanc unigol, a chamddefnyddio adeiladau. Nid yw penodiadau deuol, ymwneud gweithwyr ieuenctid â'r ysgolion, a phenodi athrawon fel gweithwyr ieuenctid

[23] Mae un enghraifft yn y categori hwn, sy'n cynrychioli arfer ar y cyd, sydd i'w hastudio fel rhan o raglen ymchwil y telir amdani gan yr Adran Addysg a Gwyddoniaeth a'r Swyddfa Gymreig i ddarganfod sut mae cyd-weithredu a chyfyngiadau'n effeithio ar allu gweithwyr mewn gwahanol alwedigaethau i ddiwallu anghenion pobl ifanc a'r gymuned.

rhan-amser fel petaent yn gwneud fawr ddim i leddfu'r sefyllfa. Teimla'r staff amser-llawn na ddefnyddir eu medrau mewn ffordd briodol, a'r duedd yw iddynt hwy a'r gweithwyr rhan-amser edrych ar eu swyddogaethau fel rhai cwbl ar wahân.

13.3.10 Eto, mae presenoldeb nifer sylweddol o bobl ifanc o oedran ysgol gorfodol mewn clybiau ieuenctid a chanolfannau dydd i'r di-waith yn awgrymu y gallai cryn fudd ddeillio o berthynas weithio agosach. Mae angen yr ysgolion a'r gwasanaeth ieuenctid i gysylltu eu gwaith yn fwy agos â'r gymuned yn cynnig sylfaen bellach ar gyfer cyd-weithredu.

13.3.11 Ceir arfer da hwnt ac yma, ond llawer mwy o enghreifftiau o ddifaterwch. Mae'n fater difrifol nad oes neb, yn y llu awdurdodau addysg lle mae'r rhan fwyaf o'r gwaith ieuenctid yn digwydd ar safleoedd ysgol a lle mae penaethiaid yn gyfrifol am gyfraniad gweithwyr ieuenctid i gwrs addysg yr ysgol, yn gyfrifol am sicrhau trafod y posibiliadau neu, lle bo angen, yn helpu eraill i werthfawrogi dulliau gwaith ieuenctid.

13.3.12 Mae'r ffactorau uchod yn cyfrif i raddau am ddull y gwasanaeth ieuenctid o sicrhau mentrau rhyng-wasanaethau — hynny yw, am y dibynnu ar gysylltiadau personol ac unigol ar faterion penodol yn hytrach nag ar berthynas strwythuredig, am fod cysylltu yn isel ar restr ei flaenoriaethau. Cyfeirir yn aml at y ffaith nad yw'r ffiniau gwasanaethu yn cyd-fynd, nad yw sefyllfa awdurdodau lefelau is mewn perthynas â'r ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc yn glir ac, o bosibl yn bwysicaf oll, fod compartmentaleiddio adnoddau'n amharu ar y posibilrwydd o gyd-ddiwallu anghenion.

13.3.13 Ym 1980, ar ôl cyfres o gynadleddau a gynhwysai bobl o ystod eang o gyrff sy'n gysylltiedig â darparu ar gyfer pobl ifanc, sefydlwyd pwyllgor llywio i lunio cynigion ar gyfer Cyngor Materion Ieuenctid Cymru — peirianwaith ar gyfer fforwm rhyngddisgyblaethol ar lefelau lleol a chenedlaethol. Cymeradwywyd y rhain gan y Swyddfa Ieuenctid Genedlaethol[24] a deimlai y dylai estyn ei gwaith a'i heffaith gyfyngedig yng Nghymru. Ar sail tystiolaeth y mentrau statudol-gwirfoddol a rhyng-broffesiynol a sicrhaodd gryn gynnydd ar lefel genedlaethol (er enghraifft, Fforwm Triniaeth Ganolraddol Cymru), fe gredai ei gefnogwyr y dylai Cyngor fod yn annibynnol ar y cyrff presennol, y gallai roi cyngor i'r llywodraeth, ac y dylai gael adnoddau o'r canol. Y syniadau hyn oedd testun cyfarfod a gohebiaeth rhwng y pwyllgor llywio a'r Swyddfa Gymreig. Yn wyneb y ffaith nad oedd adnoddau yn debygol o fod ar gael i gynorthwyo Cyngor ar gyfer Cymru gyfan, fe wahoddwyd y pwyllgor llywio i ystyried yr hyn a fyddai'n bosibl ar lefel leol.

13.3.14 Cafodd yr angen i gyfnewid gwybodaeth, hwyluso dealltwriaeth, hyfforddi rhwng y cyrff, rhannu adnoddau, canfod blaenoriaethau a hybu cyfranogiad gweithgar gan bobl ifanc, ei gadarnhau gan Gynhadledd o eiddo'r Swyddfa Gymreig yn Nhachwedd 1982. Bryd hynny, pwysleisiodd yr aelodau y byddai arweiniad oddi wrth gorff canolog hefyd yn helpu'r gwasanaeth i wneud ei amcanion addysgol yn glir, i ail-ddeffro'i frwdfrydedd a gwella'i ddelwedd. Yr

---

[24] Nod y Swyddfa Ieuenctid Genedlaethol, corff Cymru/Lloegr, yw gweithredu fel canolfan adnoddau genedlaethol ar gyfer gwybodaeth, cyhoeddi, hyfforddi, ymchwilio a datblygu, ac fel fforwm ar gyfer cyfeillachu, trafod a chyd-weithredu i'r rhai sy'n ymwneud â materion ieuenctid ac addysg gymdeithasol pobl ifanc.

oedd yno bryder, hefyd, y byddai'r diffyg gweithredu positif ar lefel genedlaethol yn pylu'r awydd i gyd-weithredu.

13.3.15 Fe erys y mater hwn yn un cymhleth oherwydd y llu graddau o gyd-weithredu a'r lefelau cyfathrebu, ac oherwydd y rhaniadau o ran fframweithiau, adnoddau ac agweddau. Ymhellach, tan y gwneir ymdrech o ddifrif calon ar unrhyw lefel arbennig, ni all neb fod yn gwbl sicr a yw'r amser a'r ynni a aberthir, a'r cyfaddawdu y mae ei angen i sicrhau cyd-weithio, o werth o ran gwella'r gwasanaethau addysg gymdeithasol i bobl ifanc.

13.3.16 Ni ddylid methu â llawn werthfawrogi'r amrywiaeth helaeth o gysylltiadau rhwng y gwasanaeth ieuenctid a'r cyrff sy'n ymwneud â phobl ifanc, ond mae'r swyddogion ieuenctid fel petaent yn gwerthfawrogi fwyfwy fod peth cyd-weithredu a chyd-gysylltu pellach ar y ddarpariaeth yn hanfodol er lles pobl ifanc yn y gymuned ac y gallai'r gwasanaeth ieuenctid chwarae rhan fwy canolog wrth hybu'r datblygiadau hynny.